HANES Y BYD A'R AMSEROEDD.

Er Hyfforddiad rhai o'r CYMRU.

O Waith S. T.

Argraphwyd yn y MWYTHIG gan STAFFORD PRYS, yn y Flwyddyn, 1780.

At y Darllennydd.

Ddarllennydd Anwyl,

MAWR achos ſydd gennyt i fendithio a Chlodfori Duw (tâd y goleuni) am yr amryw foddion yr ydwyt yn eu ſwynhau tuac at dy hyfforddiad yn y pethau a berthynant i'th happuſrwydd tragwyddol. Yn enwedig, dylit wneuthur fawr gyſrif o'r rhagorſraint arbennig, ſef, ſod o honot yn mwynhau pur Air Duw yn y cyfryw Dafod jaith, ac yr ydwyt yn ei deall.

Rhagorfraint nid bychan yn ddiau ydyw o's yſtyri pa gynniſer o wledydd lluoſſog o drigolion ſy'r awr hon yn y ſagddu o dywyllwch yſprydol, y rhai y mae hyfryd ſain yr eſengyl yn beth dieithr iddynt. Ac os edrychi yſpaid ychydig oeſoedd yn ol, cei weled ſod dy hynaſiaid o honynt hwythau yn y wlad hon gynt yn eigion tywyllwch. Eu crefydd oedd yn ſefyll mewn Amrywiaeth di derfyn o ſeremoniau pabaidd: Ac am yr yſcrythur-lan, yr ydoedd megis wedi ei chlou i fynu rhagddynt yn yr jaith-lading; felly y gelli ddywedyd mewn yſtyriaeth amgen, a mwy godidog na'r hen * fardd rhufeinaidd gynt.

Ego me nunc deniqne natum. OVID.

* *Gratulor.*

44
4. 6
142

Ei gyfri'r wy yn Uchelfraint i mi,
Yn yr Oes hon i'm gael fyngeni.

O herwydd yn awr (trwy fawr ddaioni y goruchaf yr hwn a ymwelodd yn drugarog a'n gwlad) y mae gennyt gyfleufdra helaeth tuac at ddyfod i wybod pa fodd y dylit rodio a bodloni Duw. Canys rhai gwyr da yn ddiweddar, y rhai y parha eu clod yn hir trwy holl Eglwyfi Cymru a fuant offerynnol i wneuthur y Bibl Sanctaidd yn dra chyffredin yn ein gwlad. Eraill a gymmeraffant fawr boen i gyfieithu amryw lyfrau da yn cynwys athrawiaeth jachus o'r Saefanaeg i'r Cymraeg, er addyfc ac adeiladaeth y cyffredin bobl. Nifer, nid bychan hefyd, fydd yn llafurio beunydd yngwaith y wenidogaeth; fel y gelli trwy yr amryw gynhorthwyadau hyn oni byddi ddeffygiol it dy hun, gyrhaeddyd y cyfryw fefur o wybodaeth mewn pethau yfprydol ac fydd angenrheidiol tuac at fedru o honot dreſnu dy ymarweddiad tra by'ch yma ar y ddaiar, yn y cyfryw fodd ac y byddo it yn y diwedd gael mynediad i'r Orphwysfa dragwyddol, yr hon a ddarparodd ac a addawodd Duw i'r rhai a'i carant ef.

Am y traethawd bychan hwn a offodir yma o'th flaen, ei ddiben yw yr un ac y ddylai fod diben pob rhyw lyfr neu draethawd ac fydd yn dyfod allan, fef adeiladaeth y darllennydd. Ac er nad ydym yn llyfafu dywedyd na thybied chwaith y bydd iddo gyrhaeddyd y diben hwn yn y cyfryw fefur ac un o'r diftadlaf o'r amryw lyfrau yr ydwyt eifus yn eu mwynhau; etto ni phetrufwn yn hŷ ddywedyd, fod o hono yn cynwys amryw bethau ac na bydd gwbl anfuddiol it eu gwybod.

Nid ydym yn cyfri yn angenrheidiol ddywedyd dim yma mewn ffordd neilltuol oblegid y pethau ydd gynnwyſedig ynddo gan wybod y medr darllenydd ſynhwyrol (heb y cyfryw rag-hyfforddiad) wneuthur ddeſnydd o honynt ar ei adeiladaeth.

Y dull o ymadrodd (neu'r ſteil fel y geilw y dyſcedig) ſydd eglur, blaen a hawdd ei deall. Canys yn gymmaint a bod ein traethawd wedi ei ddarparu er mwyn y Cymro un-jaith, cymmeraſom ofal i gymmhwyſo ein hymadrodd at ddealltwriaeth y cyfryw, oblegid yn ofer y cais yr athro adeiladaeth ei yſgolheigion oni ddeallant ſain ei eiriau.

Ac yn gymmaint a bod o honom yn annſiccr o gael odſa oddieithr yr unwaith hon yn unig i gyfrannu o'r meſſur o wybodaeth a dderbyniaſom er hyfforddiad ein Cydwladwyr, ein dymuniad oedd cynnwys cynnifer o bethau ac oedd boſſibl yn Ychydig Lê.

Ac felly, ddarllenydd hawddgar, a'r allael o honot wneuthur jawn ddeſnydd o'r amryw ſanteiſion yr ydwyt yn ei mwynhau, ac o beth bynnac a gynhwyſir yn y llyfran bychan hwn, er dy adeiladaeth fel y gallech ymddangos yn gyſurus o flaen yr hwn a'th eilw ar fyrder i gyfri am y Talentau a dderbyniaiſt, ydyw gwir ddymmuniad.

Dy gyd wladwr a'th waſanaethwr,

S. T.

HANES
Y
BYD
A'R
AMSEROEDD.

YR anfeidrol Dduw, yr hwn ſydd a'i hanfod o hono ei hun, ac o'r hwn, a thrwy yr hwn, ac i'r hwn y mae pob peth, a ddarparodd y cwbl oll a'r a wnaeth i'w ogoniant ei hun; ac yn enwedig i ddynol ryw; canys dyn yw 'r pennaf ymmyſc holl weithredoedd ei ddwylo ef tan y Nêf. Fe a ddyſcodd iddo ef fwy nag i anifeiliaid y nefoedd, *Job* 35, 11. Ef a'i coronodd a gogoniant ac a harddwch, gwnaeth iddo Arglwyddiaethu ar weithredoedd ei ddwylo gan oſſod pob peth dan ei draed, *Pſa.* 8, 5, 6. Gan addo ymhellach ei gymmeryd i'r gogoniant nefol i fod yn gyfrannog o'r digonolrwydd llawenydd a'r digrifwch tragywydd ſydd ger ei fron ef, o's yntef a roddeu 'r gogoniant dyledus i'w greawdwr dros amſer ei brofiad a'i ymdaith yma ar y ddaiar.

Ymmyſc yr amryw ſyrdd, trwy ba rai y mae i ddyn ogoneddu Duw, un enwedigol ac arbennig

nig yw dwys yſtyried a dal ſulw ar ei fawrion a'i ryfeddol weithredoedd ef, tu ag at gael o hono trwy hynny achlyſſur i ryfeddu, oſni ac i anrhydeddu y Duw bendigedig, ie ac i ymddiried ynddo megis un ac ſydd gadarn a galluog i'w ymddiffyn ac i'w wneuthur yn happus yn dragywyddd.

Pa gyfryw Werſau a ddylem eu dyſcu er ein hadeiladaeth a'n diddanwch trwy yſtyriaeth o anfeidrol allu, doethineb, a daioni y goruchaf, yn ymddangos yn ei weithredoedd, efe ei hun a ddengys i ni mewn amryw fannau o'i air megis, *Eſa.* 40, 25. I bwy, gan hynny i'm cyffelybwch, ac i'm cyſtedlir medd y ſant? Derchefwch eich llygaid i fynu, ac edrychwch pwy a greawdd y rhai hyn, a ddwg eu llu hwynt allan mewn rhifedi; efe a'u geilw hwynt oll wrth eu henwau; gan amlder ei rym ef, a'i gadarn allu, ni phalla un. Pa ham y dywedi Jacob ac y lleferi Iſrael? Cuddiwyd fy ffordd oddiwrth yr Arglwydd a'm barn aeth heibio i'm Duw? Oni wyddoſt? Oni chlywaiſt na ddeffygia ac na flina Duw tragwyddoldeb, yr Arglwydd creawdwr cyrrau'r ddaiar? Ni ellir chwilio allan ei ſynhwyr ef, yr hwn a rydd nerth i'r diffygiol, ac a amlha gryfder i'r dirym.

Eſa. 51, 12, 13. *Jer.* 10, 10, 16. *Pſa.* 104. *Jer.* 5, 12.

Eithr mawr aruthr a greſynol yw y ſyrthni ſydd yn meddiannu y rhan fwya o ddynion: Canys er bod o honynt yn berchen eneidiau rheſymmol ac anfarwol; etto o ran eu trwm ſyrthni a'u hanyſtyriaeth, anifeilaid ydynt. Tra chymmwys y perthyn iddynt yr Achwyniad hwnnw. Ar waith yr Arglwydd nid edrychant, a gweithred

gweithred ei ddwylo ef nid yſtyriant. Hwyrfrydig ydynt i ddal ſulw ar fawr wrthiau yr hollalluog er eu bod yn dangos yn amlwg ac yn datcan yn uchel fawredd ei allu ac ardderchowgrwydd ei ddeall.

Etto yr ydoedd rhai ymhob oes a roent y gogoniant dyledus ragorol i allu a doethineb y Goruchaf Dduw. Rhai ac yr ydoedd yn hoff ganddynt chwilio a datcan ei fawr a'i amryw ryfeddodau ef yn y gwaith y creadigaeth; felly ac a gallent ddywedyd gyda 'r Pſalmydd. Llawenychaiſt fi O Arglwydd a'th weithred; yngwaith dy ddwylo y gorfoleddaf. *Pſa.* 92, 4.

Ie nid yn unig ymmyſc pobl Briodol Dduw, ond hefyd ymmyſc y cenhedloedd bu amryw ac a gymmerent fawr boen i ſtudio ac i yſtyried gweithredoedd y creawdwr mawr, ac i chwilio dirgeiion natur; ſef yr holl Philoſophyddion cenhedlig er nas darfu i'r rhain wneuthur y cyfryw ddefnydd da ac a ddylaſent o'r wybodaeth hono o Dduw ac a gyrhaeddaſant trwy yſtyriaeth o'i weithredoedd ef, canys (megis y mae'r Apoſtol yn dywedyd o'u plegyd) a hwy yn adnabod Duw, ni'i gogoneddaſant ef megis Duw, ac ni buant ddiolchgar iddo; eithr ofer fuant yn eu rheſymmau, *Rhuf.* 1, 21. Newidiaſant ogoniant yr anllygredig Dduw i gyffelybiaeth, llun dyn llygredig o herwydd paham; (ſef am iddynt y modd hwn attal y gwirionedd mewn anghyfiawnder) a'u rhoddes hwy i fynnu yn nhrachwantau eu calonnau ac i wyniau gwarthus.

Yr oedd yr hen Aphtiaid wedi gwneuthur, elw mawr mewn dyſceidiaeth ddynol i'r celfyddydau

dau ſcolheigaidd mor gynnar ac amſer Moſes megis y gallwn gaſclu oddiwrth yr hyn y mae'r yſgrythur yn ei grybwyll.

Y Caldæaid (rhai a dderbyniaſant eu dyſceidiaeth ſel yr ydys yn tebyg, oddiwrth y Aiphtiaid) hwynt weithau hefyd oeddent yn yr hen amſeroedd yn enwog mewn dyſceidiaeth yn enwedig yn y Dyſcyblaethau Aſtronomaidd.

Ymmyſc y Perſiaid yr oedd Philoſophyddion a elwid yn eu iaith hwy y pryd hwnnw, Magi. A rhai o'r Magi yma oedd y gwyr doethion yr ydym yn darllen ddyfod i annerch ein iachawdwr ar ei Enedigaeth, *Mat.* 2, 1.

Eithr ymmyſc y cenhedloedd y rhai mwya gododog mewn pob math o ddyſceidiaeth ddynol, oedd y Groegiaid (er mai oddiwrth yr Aiphtiaid a'r Caldeaid, y benthycciaſent hwythau eu dyſc ar y cyntaf:) Ac o'r philoſophyddion, Groegiaid yma yr oedd amryw ſectau, rhai o honynt y mae St. Luc yn crybwyll am danynt yn yr Actau, *Act.* 17, 18. Lle y dywedir hefyd pa mor ymofyngar oeddynt am wybodaeth. Ie cymmaint oedd y rhain yn rhagori ar bawb eraill oddiamgylch, a'r cyfryw oedd eu tyb da am danynt eu hunain, felly yr oeddent yn cyfri yr holl fyd heblaw hwynt hwy eu hunain yn rhai Anifeilaidd diwybod, diddyſg Farbariaid.

Ond yn yr oes ddiwedda aeth heibio, darfu i Dad y goleuni oddiwrth yr hwn y mae pob dawn perffaith yn dyfod, ac oddiwrth yr hwn y mae pob gwybodaeth ddymunol, a buddiol yn deilliaw, darfu meddaf, i Dduw tad y goleuni, megis agoryd drws i ddynion ganfod ei ddirgelion, gwaith ei ddwylo

ddwylo ef tu hwynt i'r hyn a gyrrhaeddaſau holl Oeſoedd y Bŷd o'r blaen.

Canys nid oedd yr hen Aiphtiaid (yr yſgolheigion hynâ ymmyſc y cenhedloedd) na'r Caldeaid y rhai oeddynt yn cael eu cyfri yn hynod am eu rhagwybodaeth o bethau i ddyfod, na Philoſophyddion, y Perſiaid na holl ſectau doethion y Groegwyr, na'r ddwy yſgol hynod, y Dominicanod, a'r Franciſcanod, a'r Ffreiers Papaidd, y rhai a wnaethant gymmaint o dwrdd a ſŵn yn y byd, yn yr oeſoedd diweddaf; (nid oedd y rhain oll meddaf) ond megis yn gwag ſiarad, neu yn ymbalfalu yn y tywyllwch mewn cyſſelybrwydd i r goleuni a'r wybodaeth a gyrhaeddwyd yn y dyddiau diweddar hyn. A gallwn ddywedyd yn hy ſod yn yr amſer hyn ‡ wyr ‡ a gyrrhaeddaſant wybodaeth o bob dyſcyblaeth ddynol, yn enwedig o ryfeddol weithredoedd Duw yn y creadigaeth tu hwynt i neb ac a ſu erioed ar ŵyneb y ddaiar, oddieithr f'e alle, Adda neu Solomon.

Sir Iſaac Newton.
Mr. Boyl.
Mr. Flamſted.
Dr. Whiſton.

Y gwyr hyn a r cyfryw ydynt yn mynegu yr hyn a wybuant i eraill o'r byd, ac yn eu gwahawdd i ddal fulw ac i ryfeddu tra-ardderchog weithredoedd yr hollalluog. Nis gallwn, gan hynny, lai na barnu y bydd yn beth cymmeradwy gan bawb glywed y dyſcedig yn adrodd yr hyn a ddeallaſant uwchlaw eraill o wrthiau Duw yn y ddaiar yr ydym yn preſwylio arni, ac yn y ſiurfafen fawr fydd yn ei hamgylchu.

Y neſoedd (ſel dywed y Pſalmydd, *Pſa.* 19, 1.) ſy'n dadcan gogoniant Duw a r ſiurfafen ſy n mynegi

mynegi gwaith ei ddwylaw ef. A diau ydyw fod y cyrph gogoneddus a diſclair ſy'n ymddangos yn ſſurfafen y nefoedd (y rhai ydynt mor rhyfeddol eu maint, mor drefnus a chyſſon eu cwrs a'u ſymmudiad) yn croch ddatcan megis yn dyfal bregethu dirfawr allu ac aneiriſ ddeall y creawdwr bendigedig.

Y mwya rhagorol a hynod ymmyſc y llu nefol gweledig yma ydyw yr haul. Hwn yw megis y cyntaf anedig ymmyſc y creaduriaid defnyddiol weledig, canys yn y dydd cyntaf y dywedodd Duw, bydded goleuni, a goleuni a fu. A'r haul yma a ddarparodd efe i fod megis yn ffynnon ddi ddiſpydd o oleuni dros holl oefoedd y byd.

Fe alle y barna rhai am ei maint hi yn ol yr hyn y mae yn ymddangos i'n golwg ni yma ar y ddaiar; eithr yn ddiau glob neu fŷd dirfawr o dan ydyw, yn gwaſcaru gwres a goleuni i bellder anieſſurol. A ſicr yw ei bod hi yn llawer mwy na'r globyn hwn o Dir a Mor yr ydym ni arno; ie y mwya gwybodus yn y gelfydd Seryddawl ydynt i gyd yn cyttuno ei bod hi lawer mil o weithiau yn fwy na r ddaiar. Ei hymddangoſiad i ni iyna gyfattebol i'w phellder oddiwrthym, a'i phellder yw ynghylch pedwar ugain mil o filoedd o filltiroedd.

Heblaw ei ſymudiad o amgylch y ddaiar mewn pedair ar hugain o oriau, y mae hi hefyd yn troi yn hyn a hyn o amſer megis ar ei ddau begwn, fel ac nid ydyw ar un tu neu ochr iddi bob amſer tu ac attom ni, eithr troi yn waſtadol y mae fel olwyn fawr ar ei dau acſſri.

Ymmyſc goleuadau y ſſurfafen y mwya hynodol

dol mewn perthynas i ni, neſſa at yr haul, yw y Lleuad, yr hon gyda'r haul ydynt megis dwy chwaer yn gweini yn oeſtadol i drigolion y ddaiar, y naill yn abſen y llall. Y Lleuad (1) ſydd lai o ran ei maint, nid yn unig na'r haul ond hefyd na'r ddaiar; a'r achos o hynny yw, ei bod yn ymddangos i ni o'r un faint a'r haul, yw ei hagoſſed attom. 2. O honi ei hun nid oes dim goleuni na diſcleirdeb ynddi (mwy na'r ddaiar) a'r llewyrch y mae'n ei roddi, y mae hi ei hun yn ei dderbyn oddiwrth yr haul. Pelydr yr hwn ſydd yn deſcyn arni. 3 Mae yn ymddangos i ni yn rhoi un cylch o ddeutu'r ddaiar o'r dwyrain i'r gorllewin mewn 24 o oriau; eithr heblaw hyn mae yn rhoddi un tro oddiwrth y gorllewin tu a'r dwyrain o amgylch y ddaiar mewn un mis; a'r tro neu'r ſymudiad hwn ſydd yn gwneuthur Blaen Ceſn lloer Adeg, &c. 4. Y tywyllwch neu'r diffyg, Ecclips ar y Lleuad ſydd, pan ddigwyddo i gorph y ddaiar attal pelydr yr haul rhag deſcyn a diſcleirio arni.

Heblaw yr haul, a'r Lleuad a'r ſer, y mae hefyd amryw oleuadau neu gyrph diſclair yn y flurfafen a elwir Planedau, y Lleuad a gyfrifir yn un o honynt, a'r hen Philoſophyddion a gyfrifent yr haul hefyd ymmyſc y Planedau. Fe a'u gelwir yn Blanedau (hynny yw Cyrph Crwydredig) o herwydd eu bod yn troi neu 'n ſymmud mewn modd amgen na'r haul a'r ſer.---- Oblegyd y Planedau, fe nodir (1) eu bod yn troi o amgylch yr haul yn yr un modd ac y mae Lleuad yn troi o amgylch y ddaiar, ſef o'r gorllewin tua'r dwyrain. (2) Er eu bod yn ymddangos

yn

yn ddiſclair; etto o honynt eu hun Cyrph tywyll ydynt, ac oddiwrth yr haul y maent yn benthygcio eu llewyrch ſel y Lleuad. 3 Rhai o honynt ydynt yn nes at yr haul na'r ddaiar, a rhai ymmhellach oddiwrth. 4 Rhai o honynt ydynt yn llai na'r ddaiar, a rhai yn fwy. 5 Y maent yn troi ar dau begwn ſel yr haul.

Nid oedd yr hen Philoſophyddion yn cyſri ond faith blaned yn unig, canys nid allaſant hwy ganfod rhagor eithr trwy gynhorthwy y gwydrddrychau rhyfeddol a rhagorol a ddychymygwyd yn ddiweddar, yr ydys yn ffeindio fod o honynt ynghylch dau a'r bymtheg; a thebyg yr ydys fod ychwaneg y rhai nid yw y gwydrau yma (er eu craffed) yn gallel cyrraedd mo honynt.

Eithr ſe fydd i'm ddywedyd ychydig oblegyd y bydoedd o blanedau (canys bydoedd ynddynt) yn fwy neilltuol.

O'r holl blanedau yr agoſaf attom yw'r Lleuad, y mae hi yn dyfod yn hawdd dan feſurau y ddyfcyblaeth Aſtronomaidd. Ac yr ydys yn gwybod ei bod ddeuddeg ugain mil o filltiroedd o belter oddiwrth y ddaiar, ac o ran ei chorpholaeth ynghylch deugain o weithiau yn llai na'r ddaiar. Ei chylchedd neu ei chwmpas ſydd o ddeutu chwe mil o filltiroedd.

Y blaned neu'r hŷd neſſa uwch law y Lleuad a elwir Fenus, (ſelly y geilw yr hen Philoſophyddion hi.) Y Cymru a'i galwant ferен y dŷdd. Eithr yn wir nid ferен mo honi, eithr o honi ei hun, corph tywyll ydyw megis y ddaiar a'r Lleuad: ac am ei ddiſcleirdeb, goleuni yr haul ydyw fy'n llewyrchu arni. Yr ydys yn gadel ei

fod

ſod oddeutu tair gwaith yn llai na'r ddaiar. Y mae o bellter oddiwrth y ddaiar ynghylch deugain mil o filoedd o filltiroedd pan ſo agoſa atti, a ſaith ugain mil o filoedd pan ſytho bella oddiwrth. Mewn ſaith mis hi a rydd un tro o amgylch yr haul, y naill hanner o'r amſer hynn y mae i'w gweled yn rhagflaenu yr haul y boreu; yr hanner arall ef ymddengys brydnhawn yn ei chalyn.

Y neſa yw Mercury. Hwn a rydd gylch o amgylch yr haul mewn tri mis. Y mae ef ddeg a deugain mil o filoedd o filltiroedd oddiwrth y ddaiar pan ſo agoſa; a chwech ugain mil o filoedd, pan ſo bella. Mae ef yn ſwy na'r Lleuad, eithr yn llai na'r ddaiar. Y blaned hon yw'r agoſaf oll at yr haul.

Mars. Hwn ſydd ynghylch ſaith waith yn llai na'r ddaiar. Ei bellder oddiwrthym pan ſo agoſaf, yw deugain mil o filoedd o filltiroedd; a phan ſo bellaf, dau can mil o filoedd. Ef a amgylcha yr haul mewn ychydig lai na dwy flynedd.

Yn neſaf goruwch Mars, y mae Jupiter. Y bŷd neu'r blanet hwn a gyflawna ei daith o amgylch yr haul yn Yſpaid, deuddeg mlynedd. O ran ei ſaint, y mae yn rhagori'r ddaiar, ei bellder mwya oddiwrthi yw pum can mil o filoedd o filltiroedd; a thri chan mil o filoedd pan ſytho agoſa. Y mae pedwar o blanedau yn waſtadol yn ei amgylchu ac yn ei galyn yr un wedd ac y mae y Lleuad yn amgylchu'r ddaiar.

Goruwch Jupiter etto y mae Satwrn. Hwn a orphen yrſa o amgylch yr haul yn ychydig ragor;

ragor i naw mlynedd a'r ugain o amſer. Yntef hefyd ſydd fwy na'r ddaiar, ac y mae yn amgylchu hwn bump o blanedau llai nag ef ei hun. Ei bellder oddiwrth y ddaiar pan fytho ogoſa atti, yw ſaith gan mil o filoedd o filltiroedd a naw can mil o filoedd pan fo bella oddiwrthi.

Y bydoedd hyn oll a dderbyniant oddiwrth yr haul (yr hon ſydd yn gymmwys yn eu canol) wres a goleuni, bob un mewn gradd a meſur cyfattebol i'w agoſder atti, neu eu bellder oddiwrthi.

Yr agoſaf ar yr haul (fel y crybwyllwyd) yw Mercury. Ef a rydd gylch o agos i Chwe ugain mil o filoedd o filltiroedd o amyglch yr haul.

Y neſaf Fenus, ei gylch yr haul a gynnwys dri chan mil o filoedd o filltiroedd. Cylch Jupiter a'i ganlynwyr o amgylch yr haul a gynnwys Chwe chant a'r hugain o filoedd o filltiroedd.

Y pellaf oll yw Satwrn a'r bydoedd ſydd yn ei ganlyn yntef. Ei gylch ef ſydd naw cant a deugain o filoedd o filltiroedd. Eu ſymmudiad hwynt oll yn eu cylchoedd, ſydd o'r gorllewin tua'r dwyrain.

Gofynnir, fe alla'i pa wahaniaeth ſy rhwng y Planedau a ſer ſy'n troi y ffurfafen? Att. 1. Y Planedau a ymddangoſant i'n golwg ni yn dra chyffelyb i'r ſer. 2. Eithr y mae goleuni y ſer o honynt eu hunain, eithr llewyrch yr haul yn unig ar y Planedau a bar iddynt ddiſgleirio. 3. Y mae y Planedau yn troi o amgylch yr haul; felly nid yw y ſer. 4. Y Planedau, er fod o honynt

honynt ymhell iawn oddiwrth y ddaiar (ſel y dangoſaſſom) etto y mae'nt hwy oll megis wrth glun, ac yn ein Cymmydogaeth mewn cyffelybrwydd i'r ſer y rhai ydynt oddiwrthym bellder anrhaethadwy. 5. Eithr y nod neu'r marc trwy ba un y gall pawb wybod gwahaniaeth rhwng y ſer a'r Planedau, yw ſod y ſer, pan fyddo i un hyll edrych arnynt, yn ymddangos megis yn gwhwfan; ond y Planedau a ymddangoſant yn llonydd; ac yn ddiyſgog.

Cyn myned o honom ymhellach y mae'n gymmwys i ni yma fynegi i'r anwybodus, nad oes dim o'r fath allu a gweithrediad gan y Planedau ar ddynion, a phethau daiarol ac yr ydys yn gyffredin yn ei debyg. Rhai coeg ddynion a wnant fawr ymffroſt, oblegyd eu gwybodaeth o bethau i ddyſod, trwy galandro, a bwrw golygiadau y ſer a'r Planedau (ſel y galwant). Mae'n achos a doſturi weled y modd y mae y cyffredin ddynion yn cymmeryd eu twyllo a u camarwain gan y cyfryw hudolwyr ar rhain. A'r bobl iefaingc ddylion druain; o pa mor ebrwydd y rhedant attynt i ddarllain eu Teſni (malpai) bobl anwyl! Nid oes dim o'r fath beth. Nid oes mor cyfryw wybodaeth i'w chael oddiwrth y ſer na'r Planedau chwaith.

Yr achos o hyn yw o herwydd yr oedd y byd yn gyffredinol yn cyfri y fath rinwedd i'r Planedau, oedd camgymmeriad a choel-grefydd y rhai oedd yn myned gynt dan enw Philoſophyddion a g yr dyſcedig, ac hefyd gwendid y cyffredin bobl yn cymmeryd eu twyllo a'u harwain ganthynt.

Fe ddywedir, yſgatfydd, y dywed y Teſni-wyr yma lawer o wir, Att. Fe allè fod yn digwydd iddynt gwrdd a'r gwir weithiau. Ac mi a ryfeddwn pan fytho i un ddywedyd llawer o bethau ar antur oni ddywed efe hefyd beth gwir: eithr fe ddywedir ymhellach. Fod rhai o honynt yn gwybod mwy nag eraill yn gyffredin; pe amgen, pa fodd y gallent ragddywedyd amryw bethau ac fydd yn digwydd yn ol yr hyn a ddarfu iddynt hwy ddaroganu? Att. Mae'n ſiccr y bethau ac fy tu hwynt i ddealltwriaeth y rhai fy n trigo mewn cnawd. Ac nid yw ryfedd o's yw y rhai fy mewn Cyngrair ac Efyn gallael gwybod a mynegi rhai pethau ac fy'n ddirgel ac yn ddiarwybod i eraill o'r byd. Eithr lle maent yn cymmeryd arnynt mai trwy eu ſcil yngwybodaeth y ſer a'r Planedau y maent yn gwybod y cyfryw bethau; nid yw hyn ddim ond megis cochl neu orchgudd trwy ba un y maent yn ceiſio celu eu cyfrinach a'r yſpryd uffernol. Ac am y rhai a ymgynghorant a'r cyfryw ddynion gwybyddent eu bod yn cadarnhau teyrnas y gelyn, ac yn ſengi ar gyffiniau llywodraeth tywyſog y tywyllwch.

Eithr yn gymmaint ac y digwydd i rai, fe allè, fod mor gywraint ac ewyllyſio gwybod. Pa gyfryw ydyw gweithrediad y bydoedd o blanedau a'r bethau daiarol? Neu, pa mor belled y maent, o's ydynt yn gweithredu ar bethau yma ar y ddaiar.

Att. Er bodlonrwydd i'r cyfryw, fe attebir mai ymmyſc holl oleuadau y ffurfafen, yr haul a'r Lleuad yw y rhai y mae eu heffaith a'u gweithre-

gweithrediadau yn cyrrhaeddyd y ddaiar a'r pethau ſydd arni. Yr haul oblegid ei mawr faint a'i rinwedd dra rhagorol a rhyfeddol; a'r Lleuad o achos ei hagoſder a'i neſder attom.

Am rinwedd yr haul nid yw ond afraid ſonied. Canys mae'n amlwg i bawb y modd y mae y ddaiar a'r pethau ſydd arni yn newid eu gwedd, megis y mae'r haul yn neſau attom, neu'n pellhau oddiwrthym. Yn y ſpring neu'r tymmor gwanwyn ar ei neſhad attom, pa fath ynhyrfiad y mae'n ei wneuthur ymhob math o blanhigion a dŷf trwy'r ddaiar! pa fath fywiogrwydd a llawenydd a bar ymhob creadur byw? O'r tu arall ar ei hencil oddiwrthym yn yr Hydref, yr ym yn gweled y modd y mae y ddaiar a'r pethau ſydd arni yn newid eu hwynepryd drachefn, ac megis yn galaru eu colled o'u cynheſrwydd.

Am y Lleuad hefyd; ſiccr yw fod ei rinwedd a'i heffaith hithau yn cyrraedd pethau daiarol. Yn enwedig y mae hi yn gweithredu ar yr holl wlyboedd: ſef, ar y dyfroedd, ac ar yr awyr, ac yr ym yr anadlu ynthi, ac ar y Nodd ſydd ymhob math o blanhigion tyfedig, ac hefyd ar yr Hywmors ſydd ynghyrph dynion ac anifeiliaid.

Yr ydys yn dal ſulw fod y moroedd a fo tan gwrs y Lleuad fel y mae yn amgylchu'r ddaiar, yn chwyddo ac yn lliſo tua phob traeth. Y tonnau pan elont i'w Terfynau eithaf, a ymchwelant yn ol drachefn yn eu gwrth-hynt, hyd oni chyfarfyddont yn y canolfor, ac felly yn ol drachefn mewn afloneddwch a chythryfwl gwaſtadol. Hyn yr ydys

yn ei wybod; eithr ymha fodd y mae y lleuad yn gweithredu mor rhyfeddol ar y dyfroedd mawrion hyn. Ef yn unig a wyr hwn a oſododd y tyfod yn derfyn i'r môr trwy ddeddf dragwyddol fel nad elo droſtynt, gan ddwedyd hyd yma y deui, ac nid ymmhellach.

Y mae Philoſophyddion yn deall fod y lleuad hefyd yn ol ei thymmhorau a'i hamſerau yn peri cyfnewidiadau yn yr awyr. Ac os oes dim amcan i'w wneuthur oblegyd cyfnewidiad yr hin neu'r tywydd, trwy ddal ſulw ar dymhorau ac amſerau'r lleuad a chwrs yr haul, y mae eithr y pethau hyn ydynt anſertennol, neu'n anhyſpys, eithr fod ei heffaith a'i gweithrediadau hi yn menny ar y ſudd, a'r nôdd ſy mewn llyſiau a choedydd, ac hefyd ar gyrph pob creaduriaid byw, yr wyf yn tybied ei fod yn beth ac y mae pawb yn gyffredin yn dal ſulw arno, ac yn ei wybod.

Y rhai hyn meddaf, (ſef yr haul a'r lleuad) yw y rhai y mae eu gweithrediad a'u dylanwad yn cyrhaeddyd y ddaiar a'r hyn ſydd arni; a'r cyfryw ac y crybwyllwyd yw eu gweithrediadau. Eithr fod y ſer a'r planedau, neu'r haul a'r lleuad chwaith yn arwyddoccau damwain dŷn, ac yn dangos pa fath ſydd ei fywoliaeth ef tra fo yn y bŷd; pa gyfnewidiadau y throeadau a fydd? Pa ddigwyddiadau a gyferfydd a hwynt? Pa hyd fydd yſtad ei fywyd a'r cyfryw bethau, (fod meddaf y cyfryw wybodaeth i'w chael oddiyma) Camgymmeriad mawr yw; a iawn y barnem yr rheini yn anheilwng i'w goddef i gyſanneddu ymmyſc dy-

nio

nion, ac a haerant y cyfryw beth. Nyni nes gwyddom, ac nis gallwn wybod beth a ddigwydd i ni y foru. Holl ddamweiniau ein bywyd ynt gydnabyddus yn unig iddo ef, yn llaw yr hwn yr ydym fel y clai yn llaw y crochenydd; a chyda'r hwn y mae rhifedi ein miſoedd, a'r hwn a oſododd ein terfynau fel nad elom troſtynt.

Terfynau eithaf o bŷd gweledig yw o lleoedd y mae y ſer ynddynt, ie debygyd wrth edrych arnynt oddi yma, eu bod hwy i gyd o'r un bellder oddiwrth y ddaiar. Eithr barn y dyſcedig yn gyffredin yw, er bod y ſer neſa attom ymhell anhygoel; etto fod rhai tu hwynt iddynt, gymmaint ac yw oddiwrth y rhai agoſa hyd at a ddaiar.

Drachefn, er bod y ſer yn ymddangos yn lluoſog iawn; etto fe ffeindwyd yn ddiweddar nad ydym yn gallael canfod a'n golwg, ond y rhan leiaf o honynt. Canys pan yr edrycher arnynt trwy y gwydr-ddrychau a grybwyllwyd, hwy a ymddangoſant yn llawer mwy pentyrraidd a lluoſog nag o'r blaen; ſef y mae y drychau hyn yn gynnorthwy i'r olwg i ganfod y cyfryw ſer, ac nad ellid o'r blaen weled o herwydd eu pellder. Ac yn gymmaint a'u bod yn ymddangos o amryw faint; y mae Philoſophyddion y dyddiau hyn yn cyfri nad yw y rhai a ymddangoſant leiaf ddim llai a faintioli na'r lleill; eithr fod o honynt yn ymddangos yn llai, o herwydd eu bod o aneirif bellder tu hwynt iddynt yn yr ehangder mawr ſy'n eu cynnwys.

Yr ym yn gweled pan yr edrychom tuag

i fynu (pan fytho yr hin yn eglur) fod rhyw fath o liw gwyrdd-las yn terfynu ein tremi-'ant. Fe alle y tybyge rhai am hwn, mae llen ddurfing galed ddefnyddiawl ydyw, fydd yn cynnwys yr haul y Planedau a'r fer, ac yn yr hon y maent yn troi o amgylch. *Gen.* 1, 14. Duw hefyd a ddywedodd bydded Goleuadau yn y ffurfafen y nefoedd i wahanu rhwng y dydd a'r nos, ffurfafen; y gair Hebraeg yw Racciang. Y gair hwn (Racciang) fydd yn arwyddoccau lle llydan, Ehangder, Gagendor. Hynny yw, fpas, neu le rhydd ac ehang.

Nid oes gan hynny o'r ddaiar hyd derfynau eithaf y fer ddim o'r fath beth a llen galed ddurfing fel yr oedd yr hen Philofophyddion yn breuddwydio. Nid oes, meddaf ddim ond fpas, neu le rhydd o ehangder difefur yn yr hwn y mae y Goleuadau nefol yn troi. Ac am y lliw gwyrdd las a grybwyllwyd, nid yw hwn ddim amgen na'r awyr neu'r aer yr ym yn anadlu ynddi, a thrwy yr hon y mae'r adar yn ehedeg a'r Cymmylau yn trammwy. Yr aer meddaf, ydyw yn gymmyfcedig a rhyw fath o fwg darth y mae gwres yr haul yn derchafu o'r ddaiar. A phe bae'n meddwl i un fefyll ychydig nifer o filltiroedd goruwch y ddaiar, yna cae weled y lliw glafwyrdd hwn rhwngtho a'r ddaiar; eithr y fer a welir etto yn Eigion-bŷd.

Eithr er bod y Gwydr-ddrychau Aftronomaidd a grybwyllwyd yn gyfryw ac y gellir yn dda eu cyfri yn un o Ryfeddodau'r byd; etto nid ydys trwy gynhorthwy y rhain chwaith yn gallael cyrrhaeddyd gwybodaeth mor fanwl ac

ac y dymunaid o'r ſer, a hynny o achos eu dirfawr bellder. Ond yr ydys yn dirnad eu bod yn gyrph mawrion iawn; ſod eu goleuni a'u llewyrch o honynt eu hun, eu bod yn dralluoſog, ac nad ydym ni yn canſod a'n golwg ond rhan fechan (ſef y rhai neſa attom) o'r afrifaid lu ſydd o honynt: Nid heb achos, gan hynny, y gelwir yr hwn a'u creawdd ac ſydd yn eu trefnu, yr hwn a ddwg eu llu hwynt allan mewn rhifedi, ac a'u geilw hwynt oll wrth eu henwau, ſelly ac na phalla un, trachymmwys (meddaf) y gelwir ef yn Arglwydd y Lluoedd; a iawn y gweddie yn (pan edrychom ar waith ei fyſedd yn y ffurfafen y neſoedd) ddywedyd gyda'r Pſalmydd. Pa beth yw dyn i ti i'w gofio, a mab dyn i ti ymweled ag ef? *Pſa.* 8, 4.

Bellach deuwn i yſtyried pethau nes attom; ſef i gymmeryd golwg ychydig fwy neilltuol o'r ddaiar yma yr ym yn preſwylio arni.

Y mae'r yſcrythur lan yn ſathredig, yn doſparthu gweithredoedd Duw i'r ddau ran hyn, ſef neſoedd a ddaiar. Fel ac y tebygid ſod y ddaiar yn rhan fwy godidog o'r creadigaeth nag yn wir y mae. Eithr y mae i ni yſtyried, mae diben yr yſcrythyr ydyw, nid rhoddi i ni fanwl gyfrif o weithredoedd y creadigaeth; ond dyſod a dynion i adnabyddiaeth o Dduw, a'u cymmhwyſo yn eu heneidiau i'w waſanaethu ef yma, ac i'w fwynhau ef yn y byd a ddaw. Ac am hynny y mae yr yſpryd glan yn ſon am rannau y byd gweledig, megis ac y maent mewn perthynas i ni, neu fel y maent yn ymddangos i ni; yn gymmaint ac nad yw gwybodaeth gywraint a neilltuol yn y pethau hyn yn angenrheidiol tu ag at fyw bywyd ſanctaidd a chrefyddol.

Yn

Yn awr am y ddaiar ei bod yn gorph maith; etto nid yw ond rhan fechan o weithredoedd y creawdwr mawr, canys y mae aneirif o gyrph o fewn ein golwg o ran godidowgrwydd, eu maint a'u diſcleirdeb yn eu rhagori ymhell: eithr er bod y ddaiar yn yr yſtryiaethau hyn yn rhoddi lle iddynt hwy; etto y mae hyn megis yn rhagorfraint iddi. Hi uwch law yr holl gyrph nefol, ſef, mae hi a ddarparodd Duw i fod yn breſwylfod i'r rank neu'r rhywogaeth bennaf onid un o'r holl greaduriaid; canys *Pſa.* 115, 16. Y ddaiar a roddes ef i feibion dynion, y rhai nid ydynt ond, *Pſa.* 8, 5. Ychydig is na'r Angelion (y creaduriaed mwya godidog a rhagorol ymmyſc holl weithredoedd ei ddwylo.)

Y ddaiar (neu'r globyn mawr o fôr a thir yn ym ni arno) o ran dull ei corpholaeth, ſydd dalgrwn neu rownd (yn gron bob ffordd). Ei chylchedd neu ei chwmpas, yr ydys yn gadel fod o ddeutu pum mil a'r hugain o filltiroedd. Corph mawr o thrwm ddwys, heb ddim yn ei amgylch ond awyr deneu; onid mawr a rhyfeddol yw y gallu ſy'n ei reoli ac yn ei gynnal.

Dwy waith yn y flwyddyn (ſef y degfed dŷdd o fawrth a'r deuddegfed o fis medi) y mae yr haul megis yn cerdded yn gymmwys uwch ben canol y ddaiar, gadewch i ni feddwl fod yr haul y ddau ddiwrnod hynny megis yn gwneuthur cylch, neu lein a ranno y ddaiar megis yn ddwy ran. Y rhai ſydd yn preſwylio yn agos i'r lein yma, (neu y rhai y mae yr haul yn gymmwys uwch eu pennau y ddau Amſeroedd hynny) y mae y dydd a'r nos, oddeutu yr un hyd iddynt. Hwy yr holl flwyddyn, ſef deuddeg awr y naill

a deuddeg awr y llall. Y rhai ydynt yn preſwylio fil o filltiroedd y tu yma i'r Lein honno, (neu yn nes at y North neu'r gogledd) y mae y dydd hwyaf yn y flwyddyn iddynt hwy yn dair awr arddeg o hyd. I r rhai ſydd ddwy fil, yn bedair a'r ddeg. I'r rhai ſydd dair mil yn bymtheg awr o hyd. I'r rhai ſy'n byw bedair mil o filldiroedd y tu yma i'r Lein (megis yr ydys yn gadel ein bod ni ym Mrydain) y mae'r dydd hwya'n y flwyddyn o ddeutu dwy awr a'r bymtheg o hyd. Pan eler gant a chwech o filltiroedd ymmhellach tua'r gogledd, mae'r dydd hwya yn ugain awr o hyd; a phan eler etto ddeucant ymmhellach ſe gair yn bedair a'r hugain: Ac ſelly pan fytho ei hun ſefyll yn y fan hwn, ni chyll mo'i olwg ar yr haul dros y pedair awr ar hugain i fyned ymmlaen ddau cant o filltiroedd cair yr haul yn golwg dros fis. A phan aer etto ymmhellach bedwar cant o filltiroedd, ſef i'r mann a elwir pegwn gogleddus y byd, ſe gair goleuni gwaſtadol dros chwe mis; canys y mae'r haul yn troi o amgylch heb fachludo un amſer y mae hi yn ymddangos i'r mann ymma gyntaf oddeutu y degfed o fawrth; ac o hynny allan daw nes hyd y degfed dydd o Fehefin, yna hi a ddychwel o feſſur ychydig ac ychydig hyd y degfed o fis Medi, y pryd y cyll y lleoedd hynny eu golwg arni ac ni welir mohoni yno mwyach dros chwe mîs, ſef hyd y degfed dydd o Fawrth; ſel ac nad oes yn y gwledydd hynny yn y cyfamſer ond y tywyllwch a'r oerfel. Yn y lleoedd anghyſſurus yma nid

oes

oes dim trigolion yn preſwylio yn waſtadol oddieithr yn unig ſod rhai o forwyr lloegr a Holland ac eraill yn myned yno yn amſer y goleuni, ſef yn yr haf i ladd morfeirch er mwyn yr olew a gair ynddynt.

Yn yr un modd o'r tu arall i'r leiniau a gy. bwyllwyd; megis ac y mae y gwledydd yn tuedu tua'r dehau, y mae y dyddiau hwya yn y flwyddyn yn ymeſtyn hyd onid air hyd at begwn dehau y ddaiar, lle y mae hanner blwyddyn o oleuni, a'r un faint o dywyllwch.

Megis y mae y creaduriaid a ordeiniodd Duw i breſwylio ar y ddaiar o amryw naturiaethau; felly y darfu iddo ddarparu lleoedd cyfaddas i'w cynnwys hwynt oll: Fel yr ym yn darllain yn Hanes y Creadigaeth, *Gen.* 1. 9. Duw hefyd a ddywedodd, caſcler y dyfroedd oddi tan y nefoedd i'r un lle, ac ymddangoſed y ſych-dir; ac felly y bu. Sef, fel y bydde i'r ſych dir ſod yn gafanneddfa gymmwys i bob perchen anadl; a'r moroedd i'r creaduriaid, y rhai y mae eu natur yn cyttuno ar elfen o ddwfr.

Cyn belled ac y mae y dyſcedig yn amcanu, y mae y naill hanner o arwyneb y ddaiar yn dir ſych; a'r hanner arall a orchguddir gan y dyfn for.

Drachefn, y mae y Sych-dir wedi ei rannu megis yn ddwy ran, neu yn ddau barth. Y naill ran o hono ſydd dan gwrs yr haul o'r chweched awr o'r dydd y boreu, hyd un awr ar ol canol dydd: (ſef o'r cwr pella o Aſia yn y dwyrain hyd y Cyrrau neſſa i'r Gollewin o Spain

Spain ac Affrica.) Y rhan arall ſydd dan gwrs yr haul pan drieddo tuag at y chweched neu'r ſeithfed awr ar ol hanner dydd, ac o hynny ymlaen hyd onid elo allan o olwg i ni yn y gwledydd hyn. Rhwng y ddau ran ſawrion hyn y mae y mor a elwir yr Attlantic yn gwahanu.

Heblaw y tiroedd mawrion hyn, y mae hefyd megis Spottiau bychain o dir ſych yn ſathredig, yma ac accw trwy yr holl foroedd, y rhai a elwir Ynyſoedd: a'r cyfryw ydyw Brydain ein gwlad ni ein hunain; canys ynys (eithr un o'r rhai mwya ac ſydd) ydyw.

Ymmhellach, y rhan gyntaf o'r tir ſych a grybwyllwyd, er ei ſod i gŷd o un parth, etto y mae y dyſcedig yn ei ddoſparthu yn dair rhan. Y rhan neſa at y dwyrain o hono a elwir Aſia: Y rhan neſa at y dehau a ydys yn ei alw Africa, a'r rhan neſa at y gogledd a'r gorllewin, Europa. Y rhain a alwant yn dair rhan o'r byd trigianol.

Aſia ſydd yn cynnwys ynddi amryw deyrnaſoedd cedyrn ac enwog, a llawer o wledydd breiſion a theg, ſef y rhai hyn a ganlyn.

China hon yw'r wlad neſa at y dwyrain o holl Aſia. Y mae hi yn ddwy fil a dau cant o filltiroedd o hyd, a mil a phum cant o filltiroedd o led. Yr ydys yn tebyg i'r Trigolion wladychu yma ychydig ar ol amſer Noah; ac iddynt barhau o hynny allan yn ddigymmyſg. Eithr yn ddiweddar darfu i'r Tartars eu gorchfygu a chyfaneddu yn eu myſc.---- Y mae'r wlad yn ffrwythlon iawn, yn dwyn yn helaeth bob math o bethau ac a berthyn i gyn-

i gynhaliaeth dyn. Y mae ein marſiandwyr ni yn cael yma fwyn aur ac arian, ſidanau, a phob math o ſpeis. Rhy-hir a maith a fydde yn ſynegu yn neilltuol, pa ſaint yw'r cyflawnder o gyfoeth bydol y mae'r wlad hon yn ei gynwys. Am eu crefydd, nid oedd yma ond yr Eulunaddoliaeth o'r dechreuad. Rhai ſydd yn tybiad i'r Efengyl gael ei Phregethu yma yn amſer yr Apoſtolion, eithr os hauwyd yr hâd ſanctaidd hwnnw yno unwaith, darfu i'r hên Eulunaddoliaeth ei oreſcyn a'i ddiffodd mewn ychydig amſer, felly ac nas dygodd fawr o ffrwyth yno erioed. Ond yn ddiweddar anfonodd y pab rai o'i offeiriaid ef yno i Bregethu yr Efengyl, ac yr ydym yn clywed fod rhai o honynt yn cael eu troi i'r grefydd babaidd. Eithr nid yw hyn ddim amgen ond Troeadigaeth o un Eulunaddoliaeth i'r llall.

Y mae yn y moroedd cyfagos i'r wlad yma, lawer o ynyſoedd y rhai ydynt yn cynnwys llawer o drigolion, a chyflawnder o gyfoeth eithr nid oes yn yr rhain helyd ond y tywyllwch o anwybodaeth a ffiaidd Eulunaddoliaeth.

Yn neſa at China tua'r gogledd a'r gorllewin, y mae gwlad fawr a helaeth a elwid gynt Scythia, ond yn awr Tartaria. Y mae y rhai cyfarwydd yn Hanes y gwledydd yn ſcrifennu o'i phlegyd, ei bod yn bedair mil a phum cant o filltiroedd o hyd, ac oddeutu dwy fil o filltiroedd o led. Tra-anial ac oerllyd ydyw, ac o achos hynny y mae'r trigolion yn deneuach nac mewn gwledydd eraill; etto os yſtyriwn

yſtyriwn ei ehangder, gallwn wybod ei bod yn cynnwys rhifedi nid bychan o ddynion. Y mae rhai yn tebyg mae trigolion y wlad hon yw y Gog a Magog a ſonir am danynt yn Ezeciel 38, a'r Datguddiad 20, 8. Eithr ſiccr yw, mae pobl erwin a rhyfelgar iawn ydynt. Yn eu hymdriniaeth a dull eu bywioliaeth, y maent yn fwy eſceulus a badr na chenhedloedd eraill. Mewn perthynas i'w crefydd, Paganiaid di Dduw ac Eulynaddolwyr ydynt. Rhai o honynt a arddelant grefydd Mahomet. Fe debygid wrth rai defodau y mae rhai o honynt yn eu harfer, i'r Efengyl gael ei phregethu yno ryw amſer. Eithr yr Hiſtoriau ydynt dywyll yn y peth, felly ac nad oes gennym ddim ſiccrwydd o'u blegyd.

Y wlad neſa tua'r dehau a elwir India. Y mae y rhan fwya o honi dan awdurdod, pennaeth neu'r Emprwr mawr a elwir Mogul. Y wlad ſydd o ddeutu dwy fil a phedwar cant o filltiroedd o hyd, a mil ac wyth gant o filltiroedd o led. Y mae'r deyrnas neu'r ymmerodraeth yma yn gadarn ac yn gyfoethog iawn, a'r tir yn ffrwythlon ragorol. Ein morwyr ni ydynt yn marchnatta yma i gael ſidanau, a phob math o fuſlings, a'r calico, a lliainau teg, a ſpeis, &c. Y mae'r trigolion gan mwya yn proffeſſu crefydd y Mahomet. Y Mahomet yma, gallwn ddywedyd am dano, mae un o'r offerynnau penna a gafodd y cythrael erioed i ddiſtrywio eneidiau ydoedd, hŷ amryw hereſiau diniſtriol yn amſer yr Apoſtolion ac wedi, eithr ni buant gan mwya ond o fyrr barhad. Ond y gau grefydd a ledi-

odd

odd yr hudolwr hwn a gynhaliwyd yn y bŷd yn awr dros un cant a'r ddeg o flynyddoedd; ac y mae ei grefydd ef wedi ymdanu dros lawer iawn o wledydd (fel yr ymddengys wrth yr hyn a ganlyn). Fe ddechreuodd gymmeryd arno fod yn brophwyd ynghylch y flwyddyn o oed ein harglwydd chwech chant ac un ar ddeg, mewn tref a elwir Mecca y tu dwyrain i wlad Judea. Yr athrawiaeth a ddyfgodd i'w canlynwyr fydd gynnwyfedig mewn llyfr a elwir yr Alcoran, ac y mae y llyfr hwn mewn cymmaint o barch gan y Mahometans ac yw y Bibl Sanctaidd gan y Grifinogion. Y mae yn caniadhau rhyddid mawr i w Ddyfcyblion i fodloni eu chwantau cnawdol; a'r cyfryw blefferau fydd yn gwneuthur i fynu yr happufrwydd y mae yn addo iddynt yn y bŷd i ddyfod, un gorchymmyn arbenig a adawodd ef i'w ganlynwyr oedd. Ar iddynt arferyd y cleddyf, tan a flagodau, a phob math o'r cyfryw foddion i wneuthur lle i'w grefydd ef. Ac yn ddiau buant lwyddiannus iawn; canys bu y Mahometans yma ynghyd a'r Paptiftiaid yn ddwy flangell chwerw i Eglwys Grift dros lawer o Oefoedd. Caniattaodd y goruchaf iddynt godi i fynu, mae'n debyg, mewn flordd o gofpedigaeth ar ddynion, am na dderbyniafant gariad y gwirionedd, fel y byddent gadwedig.

Yn nefa at yr India tua'r gorllewin y mae'r gwledydd fydd dan lywodraeth Emprwr Perfia. Y mae'r ymmerodraeth neu'r deyrnas fawr yma o ddeutu pumtheg cant o filltiroedd o hyd, a deuddeg cant o led. Y grefydd Mahometan fydd yma hefyd; oddieithr bod rhai mewn rhyw

rhyw fannau yn myned tan enw Criſtnogion. Eithr yn wir nid haeddant mor enw; canys nid ynt ddim amgen na dilynwŷr rhai o'r hen Hereticiaid a fu yn y prif oeſoedd.

Yn gyfagos i Perſia tua'r dehau, y mae gwlad a elwir Arabia. Yr ydys yn gadel fod hon yn fil a phedwar cant o filltiroedd o hyd, ac mewn rhai mannau yn fil o led. Y mae hi gan mwya tua'r dwyrain oddiwrth India; ond y mae rhai parthau o honi yn ſefyll tua'r dehau. Mewn rhyw fan o'r wlad hon (fel yr ydys yn tebyg) yr oedd y frenhines honno yn teyrnaſu a ddaeth gynt i brofi doethineb Solomon. Y mae rhai mannau o'r tir yn hynod uwchlaw pob rhyw wledydd ar wyneb y ddaiar; o herwydd yr amlder a'r llawnder ſydd ynddo o bob math o ffrwythau gwerthfawr, aroglau peraidd, ſpeis, a'r dryggs y mae yr Apothecari's yn eu harferyd mewn meddyginiaeth. Mahometans yw'r trigolion o ran eu crefydd; ac yn y wlad hon y cadd y twyllwr Mahomet ei enedigaeth.

Tu ac at y gorllewin a'r gogledd oddiwrth Arabia y mae y wlad a ſonir yn fynych am dani yn yr yſcrythur, ſef Canaan, yr hon a elwir hefyd Paleſtina, a Judea, lle ffrwythlon iawn gynt. Eithr yn awr yn ol yr hanes y mae trafaelwyr yn rhoddi o'i plegyd, y mae wedi myned yn rhyw fath o anialwch; fel ac y tebygid i felldith yr hollalluog ddeſcyn ar y tir megis. ac y mae yn amlwg ei bod yn dilyn yr hen breſwylwyr (ſef, yn Iddewon) hyd y dydd heddyw. Y mae'r wlad dan Reolaeth Emprwr y Twrcs; ac nid oes yno yn awr ond y Mahometaniaeth, oddieithr ambell fonachlog ſy gan y Monachod pabaidd yn agos i'r mann

yr

yr oedd yr hên Gaerſalem yn ſefyll. O ldiwrth Jwdea tua'r gogledd a'r dwyrain y mae'r gwledydd hyn; ſef Syria, Armenia, Aſſyria, Meſſopotamia, Caldea a Babilon. Meſſopotamia, Chaldea, fel y tebygir, oeddent yn gwneuthur i fynu mewn rhan y baradwys ddaiaral hono, neu'r Eden ymmha un y goſodwyd y dyn cyntaf; canys yr ydys yn nabod dwŷ o'r afonydd hynny y mae Moſes yn ſon am danynt, *Gen.* 2, 10. Sef Hidecel ac Euphrates, ac y maent yn rhedeg trwy'r tiroedd yma. Y mae'r ardaloedd hyn oll dan lywodraeth Emprwr mawr y Twrcs, yr hwn ſydd a'i orſeddfa yn Nghonſtantinopl, ac o'r grefydd Fahometanaidd.

Tua'r gorllewin oddiwrth y gwledydd hyn, y mae gwlad fawr arall yn ſefyll a elwir Natolia. Y mae hi yn ſaith gant o filltiroedd o hyd, a phum cant o led: Natolia ſydd yn cynnwys yr ardaloedd neilltuol hyn, ſef Cappadocia, Galatia, Pontus. Bithynia, Aſia fechan, ymha un yr oedd y ſaith Eglwys y mae St. Joan. yn ſcrifennu attynt yn y Dat. A thref y Coloſiaid, y rhai yr ſcrifennodd Paul attynt, Lyciæ Pamphilia a Cilicia, Emprwr y Twrcs ſydd yn rheoli ar yr rhain. Crefydd y Twrciaid hefyd ydyw eu crefydd, ſef Mahometaniaeth. Y mae yno rai yn waſcaredig yn Proffeſſu Criſtnogaeth, ac o gymmundeb Eglwys y Groegiaid, eithr y maent yn gaethweiſion i'r Twrciaid; canys felly y gorchymmynodd Mahomet i'w ddyſcyblion yn ei Ewyllys diweddaf mewn perthynas i'r ſawl ac na dderbynient ei grefydd ef, ſef, ſod yn rhaid iddynt gael eu llâdd, neu ynteu eu gwneuthyd yn gaethweiſion.

Fel

Fel hyn yr aethom dros un parth o'r byd, ſef Aſia Bellach awn trwodd tua'r dehau at yr rhan neſaf, ſef Africa.

Y wlad gyntaf a gyfarfyddwn a hi yma yw yr Aipht, lle bu yr Iſraeliaid gynt yn goddef caethiwed caled cyn eu dyfod i wlad Canaan. Y mae yr Aipht yn wlad hynod mewn amryw yſtyriaethau, tu ſewn i ychydig amſer ar ol y diluw dechreuodd yr Aiphtiaid ſtudio'r celfyddydau dyſcedig. pan oedd yr holl genhedloedd eraill yn farbaraidd, buant yn deyrnas gadarn a hynod dros rai miloedd o flynyddoedd. Y mae'r tir yn ffrwythlon iawn, ac fe alle nad oes y cyfryw ar wyneb y ddaiar am ddwyn pob math o rawn llafur. Yr ydys yn tebyg mae St. Marc, a bregethodd yr Efengyl yma gyntaf; a bu yno ſagad o Eglwyſi Chriſtnogol hynod dros rai cantoedd o flynyddoedd. Eithr yr oeddent yn anhappus yn hyn; ſef, fod Hereticiaid yn codi i fynu yn eu myſc yn aml iawn, hyd oni ddiffoddwyd y wir athrawiaeth efangylaidd o'r diwedd gan Hereſiau. Y mae yno rai yn dwyn enw Criſtinogion hyd y dydd hwn; ond nid ydynt ddim ond dilynwyr yr Hereticiaid neu'r gau athrawon gynt. Y mae'r wlad o ddeutu pum cant o filltiroedd o hyd, a dau cant o led. Y trigolion, o ran eu pryd a'u gwedd, ydynt rai yn ſelynddu, eraill yn gwbl dduon. Y grefydd Fahometanaidd y maent yn ei broffeſſu gan mwyaf a'u pennaeth yw Emprwr y Twrcs.

Rhwng yr Aipht a'r gorllewin, yn neſa, y mae gwlad a elwir Barca. Y mae yn bedwar cant o filltiroedd o hyd, a dau cant o led. Y mae'r

mae'r bobl ſydd yma hefyd dan Lywodraeth y Twrc, ac o ran eu crefydd yn Fahometanod.

Yn neſaf at Barca y mae Tripoli, yr hon ſydd chwech chant o filltiroedd o hyd ac ynghylch, dau cant o led; Emprwr y Twrcs, ſydd ben ar y wlad hon hefyd, a'i grefydd ef, ſef yr eiddo Mahomet, ydys yn ei broffeſſu ynddi.

Yn gyfochr i Tripoli y mae Tunis, gwlad o bedwar cant o filltiroedd o hyd, a dau cant a hanner o led. Y mae'n perthyn i Ymmerodraeth y Twrc fel y lleill o'r blaen, a'r trigolion ydynt Fahometans.

Algier yw'r wlad neſa. yr hon ſydd bedwar cant, a hanner o filltiroedd o hyd, a chant a hanner o led, dan yr un rheolaeth, ac o'r un grefydd a'r rhai a grybwyllwyd uchod.

Oddiyma tua'r dehau y mae'r gwledydd a elwir Ffez a Morocco, y rhai ydynt o ddeutu un cant a'r bymtheg o filltiroedd o gwmpas. Yr hwn ſydd ben ar y gwledydd yma a elwir Emprwr Ffez a Morocco: Teirant neu Orthrymmwr tuac at ei ddeiliaid ydyw, megis yn wir y mae yr holl bennaethiaid ſydd dros yr holl wledydd a grybwyllaſom hyd yn hyn; canys y mae bywyd a meddiannau eu deiliaid yn eu pŵer, ac felly y gallant wneuthur a hwynt a'r hyn oll a feddant yn ol eu hewyllys a'u mympwy eu hun. Yr hyn a ddyle ein gwneuthur ni yma ym Mrydain yn ddiolchgar, yn gymmaint ac y gallwn ni fyw yn ddi bryder yn yr yſtyriaeth hyn: canys nis gall y tywyſog, neu'r brenin, wneuthur a ni na'n meddiannau, ddim tu hwynt i'r hyn a ganniattao y cyfreithiau yr ym yn eu gwneuthur trwy ein Repreſentatives mewn Parliament.

Y wlad

Y wlad nesa at Ffez a Morocco yw Biledulgerid. Hon sydd dair mil filltiroedd o hyd, a thri chant o led. Y tir sydd lwm o herwydd y gwres a'r sychder gwastadol sydd yn yr ardaloedd hyn o'r byd, y bobl ynt felynion a duon y maent rai o honynt, dan lywodraeth y Twrc, a rhai dan lywodraeth Emprwr Ffez a Morocco, ac o'r un grefydd, sef Mahometanod. Oddiwrth Bilodulgerid tua'r dehau y mae Lybia, yr ydys yn bwrw ei bod yn fil ac wyth gant o filltiroedd o hyd, ac yn saithgant lle mae ledtal. Y tiroedd ydynt yma hefyd yn greision ac yn anffrwythion iawn, a'r trigolion yn farbaraidd ac yn anisailaidd diesur; ond y maent gan mwyaf yn proffesu y grefydd Fahometonaidd.

Yn gyfagos i Lybia y mae Negro Land neu wlad y bobl duon (y Black-mwrs,) canys duon yw holl drigolion y wlad hon. Y mae'n ddwy fil o filltiroedd o hyd, a naw cant o led. Y Negro's neu'r dynion duon yma ydynt, rai yn Fahometans, a rhai yn Eulunaddolwyr, paganaidd, a rhai o honynt ydynt yn byw fel yr anifeiliaid heb ddim crefydd. Yr ydys yn scrifennu am rai o'r paganod sydd yn y wlad yma, eu bod yn credu fod Duw ac ysprydion drwg; ond eu barn hwy ydyw na ddylent wneuthur ddim gwasanaeth i Dduw, o herwydd nad yw raid iddo ef wrth eu gwasanaeth; ond y dylent addoli yr ysprydion drwg i ryngu eu bodd, fel na bo iddynt eu niweidio. Ac felly nid ydynt yn cyflawni dim math

o addoliad i Dduw; eithr odid iddynt fyned ynghylch dim matter o bŵys oddieithr iddynt aberthu i'r cythraul amryw o opiniwnau y fydd oblegyd yr achos pa ham y mae y rhain yn dduon, yn hynod ar yr reſt o ddynol-ryw. Rhai ſydd yn dywedyd mae hiliogaeth cam ydynt yn hwn a ddarfu i Dâd Noah ei felldithio; ac mae dymma ran o'r felldith a ſyrthiodd arno fe a'i Eppil. Ar ba beth y maent yn ſeilio y cyfryw opiniwn nîs gwn. Eraill ydynt yn dy chymmyg pethau eraill. Eithr yr ydys yn te byg mae y rheini fy'n amcanu nes at y gwir rhai ſy'n barnu (yn gymmaint a bod y dynio yma yn preſwylio dan gwrs yr haul, fel ac mae yno yn oeſtadol yn frydtach nac y ma gyda ni ym mis Gorphennaf; ac hefyd y bob hynny ydynt yn myned yn waſtad yn ddiddilla ac yn noeth llymynion agos; o herwydd hy meddaf, nid heb achos y tebygir) mae'r tes nerthwch gwres yr haul a drodd eu lliw yn cyfryw fodd, rhwng Negroland a'r dehau y ma y wlad hynod Guinea. Y mae cychwynia mawr gan farſiandwyr lloegr ac eraill o Europ i'r lle hwn er mwyn yr aur, yr Iſori, a'r Spe ſydd yno yn aml iawn. Guinea ſydd fil a phu cant o filltiroedd o hyd a chant a hanner o le Y trigolion ynt o ran eu lliw yn gyffelyb i Cymmydogion o Negroland, ac hefyd o ran e moeſau yn farbaraidd ac yn Eulunaddolgar.

Yn neſaf y mae Ethiopia Iſſaf, yr hon ſy cyrrhaeddyd i'r cwr eithaf i Africa tua'r de hau. Gwlad fawr iawn a helaeth ydyw, ſe ynghylch dwy fil a chwech chant o filltiroed

o hy

hyd, a faith gant o led. Y mae'n cynnwys lawer o deyrnaſoedd a chenhedloedd o ddyion. Y mae peth amrywiaeth yn eu plith o an rheolaeth wledig, ac hefyd mewn perthynas 'w cyneddfau a'u hopiniwnau ym matteriol refyddol; eithr y maent yn cyttuno yn hyn, ef eu bod hwynt oll yn ddieithr i'r gwir Dduw, c yn Enlunaddolwyr, oddieithr ymbell Broelyt y mae'r offeiriaid pabaidd yn gwneuthur n eu myſc. Mor greulon ac anwir yw eu ymmer, mor groes a ffiaidd yw eu harferion 'u cynneddfau, fel ac y mae'n amlwg eu od dan dywyſiad a rheolaeth y Gelyn uffernol; ac achos ſydd gennym i alaru fod neb Ddynol ryw, mewn cynnifer o bethau wedi nyned yn waeth na'r anifeiliaid direſwm, y maent yn arferyd y creaduriaid yn y cyſryw rmodedd hyn onid ydynt yn byrrhau eu heinioes: ac o herwydd eu hanghymmhedroldeb, maent yn edrych yn hên pan y bont etto n iefangc; peth cyffredin yw iddynt werthu y naill y llall; mewn rhai mannau maent yn aberthu dynion i'w heulynod; ie am y carcharwyr a ddaliont mewn rhyfel hwy a wnant gaethweiſion o honynt, ac a ymborthant arnynt; ar amryw achoſion, hwy a ymgynhorant a'r yſprydion drwg. Mewn rhai lleoedd o'r wlad eu hopiniwn ydyw, Fod eneidiau y rhai meirw yn ymborthi ar fuchedd megis dynion byw; ac am hynny y maent yn gofod lawr broſiſiwn o fwyd a diod yn y bedd-le gyda'r cyrph; a pheth arferol yn y gwledydd yma yw, ar gladdedigaeth gwyr mawr a thywyſogion,

ſogion, ladd rhai o'u gweiſion a'u ffaſorits ſel y byddo iddynt eu gwaſanaethu yn y bŷd arall. Y pethau hyn a llawer ychwaneg o'r cyfryw ſydd arferedig yn y teyrnaſoedd yma, y rhai ſe alle y bydd anhawdd gan rai eu coelio, eithr y mae gennym gyflawn ſiccrwydd mae gwir ydynt.

Y tu dwyrain i'r wlad yma, y mae y wlad a elwir Ethiopia uchaf. Hon ſydd ledtach ac ehangach na'r llall; ſef yn ddwy fil ac wyth gant o filltiroedd o hyd, a dwy fil o led. Mae'n cynnwys llawer o deyrnaſoedd a thywyſogaethau neilltuol. Y trigolion gan mwyaf ydynt yn buw yn farbaraidd ac yn wylltion. Y mae yn waſcaredig yn eu plith ſagad o Dwrciaid, dilynwyr Mahomet, a rhai Iuddewon hefyd. Ac mewn un man, (ſef yn agos i'r Aipht) y mae teyrnas a elwir Abyſſinia, yn yr hon y mae rhai yn proffeſſu Criſtnogaeth. Y grefydd Griſtnogol a dderbyniwyd yma yn y prif amſer, eithr oddeutu y flwyddyn, pedwar cant hwy a lygrwyd gan Hereſi Dioſcorus, yr hwn oedd yn dala nad oedd ond un natur yng Nghriſt. Ac felly darfu iddynt er ydys llawer o Oeſoedd ymwrthod a'r wir athrawiaeth Efangylaidd; ac nid oes yn awr yn eu myſc ond y camſyniadau a'r Hereſiau, er bod o honynt etto yn myned dan enw Eglwys yr Abyſiniaid.

Felly darfu 'm megis drafaelio dros yr ail ran o'r bŷd, ſef Africa; oblegyd yr hon nodedig ymhellach, ſod ei holl drigolion o ran eu lliw naill a'i yn felyn-ddu neu ynteu yn gwbl-dduon, drachefen, y mae i ni ddal ſulw

oblegyd

oblegyd Africa; nad oes un rhan arall o'r
bŷd yn cynnwys y fath amrywiaeth o fwyft-
filod ac anrhualod gwylltion, y rhai ydynt gan
mwyaf yn anadnabyddus i ni yn y gwledydd
hyn.

Yn y moroedd o amgylch i Africa y mae
lawer iawn o ynyfoedd. Rhai o honynt yd-
ynt anial: ond y rhan fwyaf a gyfanneddir
gan ryw fath neu gilydd o ddynion; a thri-
golion yr rhain oll ydynt naill a'i yn Ba-
ganod, neu yn Fahometans, neu ynteu yn Bap-
iftiaid.

Y tu gorllewin i Africa yn y môr Atlantic
y mae megis Pentwr o ynyfoedd, tra honod
am winllanoedd a'r amrywiaeth fawr o win
fydd ynddynt. Yn enwedig y mae yno un
peth a haedda ei grybwyll yn fwy neilltuol:
fef, yr yfcil neu'r gelfyddyd ryfeddol oedd gan
yr hên drigolion hynny gynt i gadw cyrph
y meirw, fel na ddarfyddent dros lawer o
Oefoedd. Yr Yfpaniards, fydd yn awr mewn
meddiant o'r ynyfoedd yma gwedi gorchfygu
a honynt yr hên breiwyliwyr a'u dilethu gan
mwyaf. Ac y mae'r Yfpaniards, yn ffeindio
yno gyrph meirwon mewn Ogofau, yn gyfan
gwbl oddieithr eu Hymyfcaroedd, y rhai a
dynnwyd allan cyn eu gofod i lawer; ac y
maent mor fyched ac mor ddilygredd ac y by-
ddeu, y rhai a'u gwelont yn barod i debŷg y
gallant barhau tra parhao'r bŷd. Y cyfryw gel-
fyddyd hefyd oedd gan yr hên Aiphtiaid. Canys
yr ydys yno (fef yn yr Aipht), yn awr, yn
cael mewn flatelloedd dan ddaiar, gyrph yn
gyfain,

gyfain, y rhai yr ydys yn gwybod fod o leiaf 'ddwy fil o flynyddoedd er pan eu gosodwyd i lawer. Fel hyn yr oedd y cenhedloedd tywyll yma druain, (er nas gallent amddiffyn eu hanwyl ddynion rhag marwolaeth,) etto yn chwennych-cael Cymdeithas eu Cyrph cyhyd ac y byddeu bossibl; ac felly yn arferu moddion i'w cadw rhag dychwelyd i'r lŵch, a throi i'w defnyddion cyntaf. Eithr gwelwn faint yw ein rhagorfraint ni, y rhai y mae yr Efengyl gennym yr hon fydd yn dwyn bywyd at anllygredigaeth i oleuni, 2 *Tim.* 1, 10. Fel ac y gallwn ni fod yn esmwyth, ac yn ddibryder mewn perthynas i'r peth hyn; canys ni a wyddom am y rhai a hunant yn yr Iesu, y dwg Duw hwynt hefyd gydag ef, 1 *Thess.* 4, 14. Ac y mae gennym ficcrwydd, y Cyfnewidir ein Cyrph gwael ni fel eu gwneler yr un ffurf a'i gorph gogoneddus ef, *Phil.* 3, 21.

Y drydedd ran o'r bŷd a gyfrifir, yw Europ i'r hon y perthyn ein hynys ni, fef brydain. Y parthau a grybwyllwyd eusoes, fef Asia ac Africa ydynt yn rhagori arni ymhell mewn ehangder a maint; ac fe alle hefyd o ran amrywiaeth ffrwythydd. Eithr o ran gwybodaeth a dysceidiaeth a phob math gelfyddydau, a yn enwedig o herwydd goleuni yr Efengyl a fu yn tywynnu arni yn awr dros lawer oesoedd, y mae Europ yn rhagori ar yr holl wledydd tan y Nêf.

Yn nescrifiad y rhan hon o'r bŷd, dechreuwn yn y cwr isaf iddi, fef y nesaf at gorllewin; a'r wlad gyntaf a gyfarfyddwn hi yma yw Spain. Spain a gyfrifir yn chwe chan

o fil

o filltiroedd o hyd, ac ynghylch pum cant o led yn y mann helaetha o honi, y trigolion yma, ſef yr Yſpaniards ydynt oll o'r grefydd babaidd; ac nid yw Pabyddiaeth yn cael ei phroffeſſu, a'i cynnal mewn un mann gyda'r fath Zêl ac y mae yma, un modd hynod ac effeithiol trwy ba un y maent yn diogelu eu crefydd, yw y Cwrt a elwir yr Inquiſition; canys ym mhob tref y mae pump neu chwech o offeiriaid babaidd, y rhai wrth eu Hoffis a elwir Inquiſitors. Swydd yr rhain ydyw ymofyn am Heretics a'u coſpi. Heretics y galwant hwy bawb ac nad ydynt o gymdeithas Eglwys Rhufain. Ac felly am bwy bynnag a ddalio un opiniwn gwrthwyneb i Babyddiaeth, neu a ddywetto ddim yn erbyn y Papiſtiaid, os aiff dan ddwylo y rhain, odid iddo fyned oddiyno a'i hoedl. Fel hyn y maent yn peri i'r gwerinos druain lynu wrth y cyfryw grefydd ac ſydd yn arwain i ddiſtryw.

Yn neſaf at Spain tua'r dwyrain y mae Fraingc, yr hon ſydd yn ein cymmydogaeth ni, canys nid oes ond llain gul o fôr yn gwahanu rhwng Ffraingc a Brydain. Teyrnas helaeth a chadarn ydyw, oddeutu pum cant o filltiroedd o hyd, ar un faint agos o led. Y mae cenedl y Ffranciaid yn cael eu cyfrif yn ddeallus ac yn gywraint, eſgud i ddychymmygu rhyw beth newydd ymmhob rhyw gelfyddyd; eithr mewn pethau yſprydol y maent, (fel y gellir dywedyd) dan gaethiwed y Babilon Ruteiniaidd. Bû dros ryw faint o amſer Proteſtaniaid yn dra aml yn eu plith; ond darfu i'r brenin a fu yn ddiweddar (ſef

Lewis

Lewis XIV.) trwy erledigaeth drom a chwerw fyned yn agos i arllwyo y tir o honynt; eithr yr ydys yn gobeithio y bydd y rheolwr fydd yno yn awr o dymmer fwy tirion a hywedd.

Oddiwrth Ffrainc tua'r dehau, neu yn hytrach tua'r dwyrain, y mae Italy. Yn Italy y mae amryw wledydd a thywysogaethau neilltuol. Bu gynt yn hynod ac yn freiniol iawn; canys yma y mae y ddinas enwog Rhufain, yr hon a fu unwaith yn Arglwyddes ar ran fawr o'r bŷd, oblegyd mawr bŵer a chadernid y Rhufeiniaid, rhag ddangosfwyd i'r Prophwyd Daniel, *Dan.* 7, 7, 19. Ac etto y mae fon mawr am Rufain; canys yno y mae un (fel y pab) yr hwn fydd yn cymmeryd arno fod, yn Ficcar Iefu Grift ar y ddaiar; nid yn unig yn ben ar yr holl Eglwys weledig, ond goruwch pob rhyw awdurdodau a thywysogaethau; a bod holl wledydd a theyrnafoedd y bŷd ar ei rodd ef, ac y gall ef eu rhoddi i'r mab a fynno. Trigolion y wlad yma megis ac nas gallwu ddifgwyl dim llai ydynt o'r grefydd Babaidd; ac mewn rhai mannau yr ydys yn cynnal cwrt yr Inquifition megis yn Spain.

Germany fydd nefaf. Mae'n fefyll tua'r gogledd oddiwrth Italy, a thua'r dwyrain oddiwrth Ffrainc, gwlad ehang ydyw bedair-ochrog, oddeutu chwech chant o filltiroedd bob flordd. Un Afcenas, gor-ŵyr Noah a wladychodd yma gyntaf, fel yr ydys yn tebyg. Am hynny y mae y Germans, yn eu mawrygu eu hunain yn fawr oblegyd eu hynafiaeth. Yr ydys yn galw yr hwn fydd yn ben ar y wlad yn Emprwr, neu Ymerawdwr yn ol cyffelybrwydd

brwydd Emprwr mawrion Rhufain gynt; eithr nid yw ei bŵer ond byr iawn; canys y mae rhyw fath o Dduwciaid a thywyſogion yn aml yn y wlad, y rhai ydynt yn arferu awdurdod breiniol gan mwya yn eu hardaloedd eu hun. Y grefydd Rufeiniaidd ſydd fwya cyffredin yma hefyd.

Yn neſa tuac at y dwyrain y mae Poland. Teyrnas fawr iawn ydyw hon, faith gant o filltiroedd o led, a mil o filltroedd o hyd. Arfer y Polanders, yw dewis eu brenhinoedd: canys pan fo marw'r brenin, nid oes i'w fab nac i neb o'i dylwyth ddim hawl na theitl i'r goron; eithr dewiſir rhyw ŵr mawr o'r wlad, neu, fe alle, o un o'r gwledydd o amgylch i fod yn Frenin; a phan fo farw hwnnw eilwaith, a'nt i Ddewis un arall fel y gwelont hwy yn dda. Y gwŷr mawr ydynt yn cadw y cyffredin dan eu traed mewn flafri a chaethiwed tôſt, hyd onid ydynt yn lladd bagad o honynt yn fynych ac heb fod yn ddaroſlyngedig i ddim coſpedigaeth, oblegyd y peth chwaith, oddieithr talu, fe alle, ychydig o arian mewn ffordd o Ddirwy. O ran eu crefydd, dilynwyr ydynt i'r Pâb o Rufain.

Oddiwrth Poland tua r dehau y mae y gwledydd hyn. Hungary, Tranſylfania, Moldafia, Walachia, Sclafonia, Perſia, Bulgaria, a Romania. Y maent dan amryw lywodraethwyr; ac os cyfrifir gyda'u gilydd nid ynt fawr lai na Poland. Trwy'r gwledydd yma y mae Danubius yn rhedeg, un o'r afonydd mwya yn y byd. Y mae'n tarddu y tu gorllewin i Germany, ac oddiyno yn cerdded deuddeg cant o filltiroedd tua'r dwyrain cyn cael môr. Y mae yn ei chwrs

yn

yn derbyn triugain o afonydd iddi ſydd abal i ddŵyn Llongau. Mewn perthynas i bethau crefyddol y mae yma yr fath Gymmyſcedd, nad ellir yn hawdd ei adrodd: Papiſtiaid, Mahometanod Iuddewon, crefydd y Groegiaid, dilynwyr rhai o'r hên Hereticiaid, megis Photinianod, Arianod a'r cyfryw. Y mae yma hefyd rai o ddilynwyr Luther a Chalfin; yn enwedig yn Tranſylvania a Hungary.

Yn nefaf etto tua'r dehau y mae Græcia neu wlad y Groegiaid. Gwlad hynod ryw amſer am wŷr doethion a dyſcedig. Yma y mae Athens, lle yr oedd yſcol enwog yn amſer St. Paul, Act. 17. Yma hefyd y mae y trefydd lle yr oedd yr Eglwyſi at y rhai yr antonodd ef rai o'i Epiſtolau, ſef Corinth. Theſalonica o Philipi. Bû'r grefydd Griſtnogol yn ffynnadwy iawn yma dros rai oeſoedd; eithr ym mhen talm o amſer hi a lygrwyd trwy goel grefydd a dychymmygion dynion. Y Twrciaid fy berchnogion o'r wlad yn awr, a chrefydd Mahomet ſydd benna ynddi; eithr y mae yno hefyd lawer o hiliogaeth yr hên Roegiaid yn gwneuthur proffeſs o Griſtnogrwydd, ac a elwir Eglwys y Groegwyr: ac er eu bod wedi dirywio oddiwrth eu purdeb cyntaf; etto nid ydynt mor llygredig gwbl ac Eglwys Rufain.

Y wlad nefaf a gawn ei deſcrifio yw Moſcofy, y tu gogledd i Poland, a grybwyllwyd uchod. Y mae yn bymtheg cant o filltiroedd o hyd, a deuddeg cant o led. Gwlad oer ac anffrwythlon ydyw. Y cyfoeth penna y mae yn ei ddwyn yw amryw fath o ffur, crwyn bwyſtfilod, y

rhai

rhai a werthir i farſiandwyr lloegr ac eraill. Enw cyffredin y pen rheolwr yw Czar. Y mae y trigolion yn cyttuno gan mwya yn eu crefydd a'r Groegiaid; ond mewn rhai mannau y maent megis eu cymmydogion y Crim Tartars naill a'i yn Eulunaddolwyr neu'n Fahometanod.

Fel hyn y darfu i'm fyned dros y rhan fwyaf o'r bŷd trigianol. Ac erbyn hyn fe alle y bydde fy narllenydd yn chwennych gofyn. Pa le bellach y cair Eglwys Dduw ar y ddaiar? Yn gymmaint ac nas gellir barnu fod y cyfryw ddynion ac y buom yn ſôn am danynt hyd yn hyn, yn gymmwys i fod yn ddeiliaid i Iefu Grift.

Att. Y mae'n ddiau fod achos da i debyg am yr holl wledydd yr aethom drofflyn, mae Trigfa Satan ydynt; etto ficcr ydyw, fod gan yr Arglwydd Iefu Grift yr hwn fydd Frenin Brenhinoedd, ac Arglwydd yr Arglwyddi, *Dat.* 19, 16. Yr hwn y mae ei Orfeddfaingc yn oes Oefoedd, *Heb.* 1, 8. a'r hwn a ofodwyd yn Frenin ar Sanctaidd fynydd Sion, *Pſa.* 2, 6. Sicer yw meddaf, fod ganddo ef ei ddeiliaid yn rhyw fannau neu gilydd o'r ddaiar ymmhob oes; ac na bydd efe heb rai i'w ofni a'i wafanaethu tra parhao haul a lleuad tros holl oefoedd y bŷd, *Pſa.* 72, 5.

Fe fydd i'm gan hynny, yn nefaf ymofod i yſtyried ymmha leoedd a mae'n fwyaf tebygol fod y praidd bychan hwnnw yn preſwylio, i'r hwn y darparodd y tâd nefol deyrnas; y rhai rhagorol y ddaiar; y genedl ſanctaidd etholedig, y rhai er bod eu preſwylfa ar y ddaiar, etto fydd a'u Hymmarweddiad yn y nefoedd, ac ydynt ddinafyddion o'r Jeruſalem nefol. Ac o honynt rhai

rhai a gair, fel y mae'n gymmwys i'm obeithio yn y wlad yr ym yn myned i'w deſcrifio neſaf, ſef Sweden. Sweden ſydd yn ſefyll y tu gogledd i Poland a Germani. Teyrnas draehang ydyw; eithr nid yw amlder y trigolion yn gyſtattebol i helaethrwydd y wlad, o herwydd oeredd, ac mor anghyfannedd yw, Fabyddiaeth oedd yma gynt: ond darfu iddynt ddiwygio (hynny yw ymwrthod a'r grefydd babaidd) oddeutu'r flwyddyn un mil pum cant a phedwar a deugain: ac felly y maent yn awr yn Broteſtaniaid. Yr ydys yn eu galw yn Lutherans, hynny yw, dilynwyr athrawiaeth Martin Luther.

Y mae gwlad ſechan y tu dehau i Sweden ac ynghyffiniau Poland a elwir Pruſia. Hon hefyd a dderbyniodd y grefydd Broteſtanaidd ynghylch yr un amſer a'r Swedes.

Rhwng Sweden a'r gorllewin y mae y gwledydd hyn, ſef, Denmarc, Norway, a Lapland. Y maent yn cynnaedd o'r gogledd tua'r dehau, bymtheg cant o filltiroedd: eithr nid yw eu hed yn y mannau helaethaf fawr dros ddau cant. Gwledydd oerfelog ydynt, a theneuon o drigolion. Darfu iddynt hwythau fel eu cymmydogion, y Swedes daflu ymaith y goel grefydd babaidd. Eithr y maent yn dwedyd fod peth Eulunaddoliaeth mewn rhai mannau o Lapland; yr hon wlad hefyd a fu hynod gynt am Hudoleſſau a Dewinod.

Y wlad neſaf a gawn lle proffeſſir y grefydd Broteſtaniaidd yw Holand, hon ſydd yn ein cymmydogaeth ni tua'r dwyrain, canys nid oes ond llain o fôr, ddeg a deugain o filltiroedd o led

yn

yn gwahanu rhwng brydain a Holand. Y trigolion a elwir Dutch a Holanders. Nid yw eu gwlad ond bechan a chyfyng; etto darfu iddynt yn ddiweddar fyned yn genedl enwog ac ardderchawg iawn. Eu cynhaliaeth a'u cyfoeth y maent yn cyrchu o bell; a diammeu yw nad oes, ac na bu erioed y fath farfiandwyr ar fôr ac yw y rhain. Eu llongau ydynt aneirif, yn trammwy holl foroedd y bŷd, nid oedd y Tyrciaid a'r Sidoniaid, y rhai a gyfrifid yn forwyr enwog, gynt ddim i'w cyffelybu iddynt hwy. O ran eu crefydd, fel y grybwyllwyd eifoes, Proteftaniaid ydynt, dilynwyr y diwygiwr rhagorol John Calfin.

Am ein gwlad a'n hynys ni ein hunain, fef Brydain; afraid yw i'm fyned ynghylch dangos pa grefydd a broffefir yma; canys mae'n adnabyddus ddarfod o honom ninnau er ydys llawer o flynyddoedd fwrw ymaith y goelgrefydd a'r Eulunaddoliaeth, Rufeinaidd. Eithr fe alle y bydd i ni cyn y diweddom ddywedyd rhyw beth a'm y ftat grefydd yn y wlad yma yn helaethach, ac yn fwy neilltuol.

Yn y Werddon, megis y mae amryw drigolion, felly y mae amrywiaeth o grefydd. Y grefydd Broteftanaidd a arddelir gan mwya yn y manneu y mae y Saefon yn prefwylio; eithr am yr hên Wyddelod, y rhai ydynt o lawer yn amlaf, y maent hwy yn glynu byth wrth y grefydd babaidd. Ac y maent nid yn unig yn Baptiftiaid ond hefyd yn Farbaraidd ac yn greulon. Darfu iddynt ar brydiau ladd trwy fradwriaeth lawer cantoedd o filoedd o'r Proteftaniaid, eithr yn enwedig yn amfer Charles I. Ond y mae yn ddi-

ddiweddar gyfreithau cymmwys a pherthnaſol, wedi eu gwneuthur tuag at gadw y rhain mewn rheolaeth a threfn, ac os yw boſſibl, i'w diwygio, a dyfod a hwynt i adnabyddiaeth o'r gwirionedd.

Heb law y gwledydd Proteſtanaidd a grybwyllwyd, y mae hefyd rai mannau yn Europ wedi ymneilltuo oddiwrth Eglwys Rufain; ſef y rhai hyn a ganlyn.

Rhwng Ffraingc ac Italy y mae pump o ddyffrynnoedd, yn y rhai y mae pobl yn preſwylio, a elwir Fadois a Waluenſes, darfu iddynt hwy gadw gafael ar y wir grefydd er amſer yr Apoſtolion, er bod pabyddiaeth wedi llygru yr holl wledydd o amgylch, ac er iddynt gael eu haflonyddu yn fynych trwy lawer o weledigaethau trymmion.

Y dref hynod Genefa hefyd, a'i chyffiniau a'i hardaloedd ſydd Broteſtanaidd er amſer Calfin, yr hwn a ddechreuodd y diwygiod yno ynghylch y flwyddyn un mil pum cant a phymtheg a'r hugain.

Ynghymmydogaeth y dref yma, y mae gwlad a elwir Switzerland, yn yr hon y mae amryw drefydd ac ardaloedd yn arddel y wir grefydd; megis Zuric lle bu fyw y diwygiwr enwog Zwinglius; a Bazil, y dref lle bu fyw Ecolampadius. Y gwŷr hyn ynghyd a Luther, Calfin, ac eraill a ddechreuaſant oſod ar deyrnas yr Aughriſt, (ſef y Pâb) oddeutu'r flwyddyn un mil pum cant a deg a'r hugain.

Y mae hefyd yn Germany (gwlad a ddeſcrifiwyd euſoes, rai rhandiroedd a threfydd o'r grefydd Broteſtanaidd, Lutheranod, a Chalfiniſtiaid,

ſtiaid, y rhai ydynt yn glynu wrth y wir athrawiaeth Eſangylaidd trwy ſawr ymdrech a'r Paptiſtiaid, er ydys deu cant o flynyddoedd agos ſef er dechreuad cyntaf y Diwygiad.

Yn awr yr ym wedi amgylchynu y drydedd ran o'r bŷd, ſef Europ; ac er darfod o honom fyned dros lawer o deyrnaſodd o gwledydd mawrion a helaeth; etto ni chawſom ond yr Ychydigin hyn yn mwynhau y moddion iechydwriaeth yn eu purdeb; ac er bod y trigolion yn gyffredin yn y gwledydd Proteſtanaidd a grybwyllwyd yn gwneuthur proffes o waſanaethu Duw yn ol didwyll reol ei air ef, etto nid oes ond rhai yn rhodio yn addas i'r cyfryw broffes mewn Sanctaidd ymarweddiad a Duwioldeb. *Rhuf.* 9, 6. Nid Iſrael yw pawb ac ſydd o Iſrael.

Awn bellach ynghŷlch deſcrifiad yr hon a gyfrifir yn Bedwerydd ran o'r bŷd, ſef America. Y rhan hon a elwir America, a'r Weſt Indies; a rhai a'i galwant y bŷd newydd; yn gymmaint ac nad oes ond ynghylch deu cant o flynyddoedd er pan wybuwyd fod y cyfryw wlad, Y mae y wlad yma yn ſefyll ymhell tua'r gorllewin oddiwrthym ni. Yr haul ſydd uwch ben iddi, pan fydda'i yn hwythau arnom ni yma. Y mae mor yr hwn a elwir y mor Atlantig, o dair mil o filltiroedd o led yn gwahanu rhwngthi ac Europ ac Africa, (y gwledydd y buom yn eu deſcrifio o'r blaen.)

Y wlad fawr hon a ffeindwyd allan gyntaf gan un a elwid Criſtopher Columbus, môr-wr hynod o Italy, ynghylch y flwyddyn un mil pedwar cant a phedwar ugain a deuddeg.

Y

Y gwr hwn a ddeallodd fod gwledyd tua'r gorllewin y rhai y mae yr haul yn tywynnu arnynt wedi ymadel o hono a'r parthau hyn o'r bŷd. Ac Ewyllys mawr oedd gantho i fyned i chwilio am y cyfryw wledydd; eithr yr ydoedd yn ddeffygiol o ran gallu a Phwer i gyflawni y peth; ac am hynny fe wnaeth ei feddwl yn hyſpys in frenin Spain. Yr hwn a ganmolodd ei Amcaniad, ac a ddarparodd iddo wŷr a llongau, a'r cyfryw bethau yn ychwaneg ac oeddent berthynaſol ac angenrheidiol. Ac felly cyn gynted ac y caſodd yr hyn oll ac oedd angenrheidiol i'r Siwrnai, gofodaſant allan i'r genſor; ac wedi morio o honynt ychwaneg i drigain niwmod yn union tua'r gorllewin, daethant o fewn golwg i'r wlad fawr yma a elwir America, yna, ar ol iddynt dreulio rhyw faint o amſer i gael gwybodaeth fwy neilltuol o'r tir, hwy a ddychwelaſant i roddi cyfri o'u trail i brenin Spain. Pan glywodd yr hanes yr oeddynt yn ei roddi am y bŷd newydd yma, a lanwyd o orfoledd, yn gymmaint a'i fod yn gweled fod gantho le yn awr i wreuthur chwanegiad mawr ar ei deyrnas, os efe a alle gymmeryd meddiant o'r wlad yma.

Y peth neſaf, gan hynny a gymmerodd yn llaw oedd, paratoi lluoedd o wŷr, ac adeiladu llongau tuag at fyned i ymweled a'r wlad bell hon. Ac felly fe ddarparodd fyddin luoſog o wŷr dewiſol, ac a'u troſglwyddodd dros y môr Atlantic, a darfu iddynt landio, neu ddyfod i dir, yn America yn y flwyddyn un mil pedwar cant a phedwar ugain, a thri a'r bymtheg.

Wedi

Weli dyfod o honynt vma a chymmeryd golwg o'r wlad, hwy a ffeindiafant fod rhyw fath o ddynion yn cyfanneddu pob cwr o honi. Pa amfer a pha fodd y daeth dynion gyntaf i breſwylio i'r rhan hyn o'r bŷd, nid oes neb yn gwybod. Barbariaid oeddynt, ac o ran eu hymarweddiad, ond ychydig well nac amfeiliaid. Mewn rhai mannau yr oeddynt yn addoli rhyw beth neu gilydd yn lle Duw; mewn mannau eraill nid oedd ganthynt ddim deall nac amgyffred o grefydd yn y bŷd; ond yn fwrth fufgrelli fel y creaduriaid direſwm. Ymmŷſc rhai o honynt, yr oedd rhyw fath o drefn wledig a llywodraeth; eraill oeddent yn byw yn wylltion fel bwyſtfilod yr anialwch; cabanau neu dwlcau wedi eu gwneuthur a pholion ac a dail, oedd ganddynt yn lle tai. Y dillad a wiſcent oedd crwyn anifeiliaid; eithr yn y mannau lle yr oedd y tywydd yn dymmherus, canys mewn rhai parthau o'r wlad, y mae'r hin yn wreſog trwy'r holl flwyddyn; yno meddaf, yr oeddynt yn myned yn gwbl noethion; oddieithr eu bod, fe alle, yn troi rhyw beth o amgylch eu canolau. Eu hymborth oedd pyſcod, anifailiaid, a ffrwythau coedydd. Nid oedd ond rhai yn cymmeryd poen i lafurio'r ddaiar. Y cyfryw a hyn ydoedd yr hên Americans.

Y Spaniards pan ddaethant i mewn i'r tir hyn, ni ddarfu iddynt fyned ynghylch darparu preſwylfod iddynt eu hun mewn ffordd o ammod a chyttundeb a'r trigolion; eithr ymmoſodafant i wneuthur eu lle trwy nerth

arfau; canys yr oedd y Pâb wedi gwneuthur rhodd o'r wlad yma i frenin Spain eifoes, o'e fe a alle ei gorchfygu. Ac felly hwy a ddech chreuafant ofod y Cleddyf ar waith i dorri ymmaith y Barbariaid yma oddiar wyneb y ddaiar. Yr hyn beth yn ddiau a allent e wneuthur yn ddi-orchaift ac yn ddi-bergyl; canys nid alle y rhain fefyll o flaen gwyr arfog mewn harnais mwy na'r defaid o flaen bleidd iaid. A darfu iddynt wneuthur y cyfryw la naftra yn eu myfc ac y bydde anhawdd gan u ei gredu. Yr ŷm yn darllain iddynt ladd dim llai na deg cant mil o honynt bob blwy ddyn dros y deng mlynedd a deugain cyntaf a ol eu dyfod yno. Pa mor greulon a fu'r Spa niards tuag ar yr Indiaid yma gallwn ddeall wrth yr hyn a ganlyn.

Wedi iddynt ladd rhifedi aneirif o honynt megis ac y crybwyllwyd, darfu iddynt fyne ynghylch troi y reft i fod yn Griftnogion, fe i'r grefydd Pabaidd, canys Papiftiaid ydyw Spaniards. Un o honynt, fef o'r Indiaid, wed i'r offeiriaid Pabaidd ei berfwadio ef i fod y Griftion, ac i gymmeryd ei fedyddio, efe ofynodd yn gyntaf, Pa ddaioni a gae ar ol hyn os efe a gymmerai ei fedyddio? Fe attebwy iddo, fod lle o happufrwydd a elwid y Nêf ac y cae fyned yno. Fe a ofynnodd eilwaith Pa le a ddarparwyd i'r fawl a wrthodent gym meryd eu bedyddio? Fe ddywedyd wrtho, m Uffern a'i phoenau. Fe ymholodd ymmhel ach, I ba un o'r ddau le hyn y cae'r Span ards fyned? Fe attebwyd, mai i'r Nêf. Ebr y tef, Os felly yw, myfi a ddewifaf yn hytrach fyne

fyned i Uffern gyda'r di-fedydd, na byw yn y Nêf gyda'r fath ddynion creulon ac ydyw'r Spaniards. Fal hyn yr ymreſymmai Haythne yr Indiad, canys ei enw ef oedd Haythne. Etto darfu i'r Spaniards o feſur ychydig ac ychydig droi llaweroedd o'r Indiaid yma, ſef yr hên drigolion i wneuthur rhyw fath o broffeſſiad o'r grefydd Babaidd.

Deuwn yn neſaf i roddi deſcriſiad neilltuol o'r byd newydd yma, ſef America.

AMERICA ſydd o hŷd o'r gogledd tua'r dehau, yn chwe mil a phum cant o filltiroedd. Y mae ei lled yn amryw mewn amryw leoedd. Mewn rhai mannau yn ddwy fil neu dair, mewn mannau eraill yn fil o filltiroedd o led; ac mewn un mân, ſef yn agos i'w chanol, nid yw gwbl gan milltir o led.

Yn y gyffiniau eithaf o America tua'r gogledd, y mae y gwledydd hyn, ſef Gwynedd Newydd, neu New North Wales, Deheu Barth Newydd, neu New South Wales, Brydain Newydd, neu New Britain. Nid yw ein Môr-wyr ni yn rhoddi dim accownt i ni oblegyd yr rhain, ond yn unig eu bod yn wledydd oerion iawn, a bod eu trigolion yn farbaraidd ac yn Eulunaddolgar.

Y wlad neſaf tua'r dehau a elwir Canada, Louiſiana, neu Ffraingc Newydd. Yr enw hwn a roddir iddi o herwydd i rai o Ffrainc fyned i wladychu yno ynghylch y flwyddyn un mil chwe chant a phedair. Ac felly y mae y

Ffrainciaid yn awr yn preſwylio yno yn gymmyſc a'r hên drigolion; ac y maent wedi gwneuthur Proſelytiaid o lawer o honynt i fod yn Bapiſtiaid. Y wlad hon ſydd dan lywodraeth brenin Ffrainc.

Yn neſaf at Canada tua'r dehau, y mae Lloegr-Newydd, neu New-England. Y mae hi o ddeutu deu cant o filltiroedd o hŷd, a chan milltir o led. Yr amſer y ſefydlodd y Saeſon yma gyntaf oedd, ynghylch y flwyddyn un mil chwech chant ac ugain. A'r achos o'u ſymmudiad i'r wlad bell hon oedd fel hyn. Yn amſer brenin James I. yr oedd rhai yn y deyrnas yma, ac na fynnent gonfformio i ddefodau a ſeremonïau eglwys Loegr, megis y Diſſenters yn awr. Ar ol goddau o honynt erledigaeth dros rai blynyddoedd, darfu i ryw nifer o honynt ymſymmud i dref a elwir Leyden yn Holland, yno y cawſant rydd-did a llonyddwch i waſanaethu Duw yn y ffordd yr oeddynt hwy yn ei farnu bod yn fwyaf cyttunol a'r Yſcrythur. Wedi ymdeithio o honynt yno yſpaid deng mlynedd, darfu iddynt fwriadu ſymmud etto oddiyno, a myned i breſwyliaw i ryw fan wrthynt eu hun, tuac at ddechreu Colony neu Blantaſion. Ac felly yn y flwyddyn un mil chwe chant ac ugain ym mis Gorph enhaf, gofodaſant allan o Holland i'r môr Atlantic, a thiriaſant yn America ym mis Tachwedd neſa ar ol hynny. Bu gyſyng a thrallodedig iawn arnynt dros rai blynyddoedd wedi eu dyfod yno. Eithr darfu iddynt mewn amſer, lwyddo a chynnyddu yn rhyfeddol; felly y gellir dywedyd, mae hwy yn awr

awr ydyw y Plantation bennaf a berthyn i Loegr. Canys y maent dan lywodraeth Lloegr; ac arfer brenin Lloegr yw, anfon rhyw un a welo ef yn dda i fod yn rhaglaw neu yn Ddeputi-Lieftenant i reoli tano fe yno. Y maent yn byw yn heddychlon a'r hên drigolion, cyn belled ac y mae bosfibl fyw yn heddychlon a'r fath ddynion. Yn cymmeryd mawr boen i droi y cyfryw o'r rheini ac a fo yn fodlon i gymmeryd eu dyfcu, oddiwrth eu gau addoliaeth; ac i'w hyfforddi yng ngwyddorion y flydd Griftnogawl. A thuag at danu gwybodaeth yn fwy effeithiol yn eu plith y maent yn cymmeryd pobl iefaingc o'r Indiaid i'w dwyn i fynu mewn dyfceidiaeth, fel y byddo iddynt bregethu yn eu myfc hwynt yn eu hiaith eu hun. Ac y mae yno yn awr amryw gynnulleidfaoedd o'r rhain yn gwneuthur profles obeithiol o'r grefydd Griftnogol. Y mae y Bibl ganthynt yn eu hiaith eu hun, o gyfieithiad gweinidog hynod a elwyd Mr. Eliot; yr hwn o herwydd y fawr boen yr oedd yn ei gymmeryd tuag at droedigaeth yr Indiaid yma, oeddid yn ei alw yn Efangylwr. Yr un gyfraith wledig gan mwya fydd yn New England ac fydd yma gyda ni. Eithr mewn perthynas i ddifcyblaeth Eglwyfig, y maent yn cyttuno ymhob peth agos a'r fect o Ddiffenters. yr ydys yn alw Independants ym Mhrydain.

Y tu dehau i New England, y mae New York, New Jerfey, a Maryland. Darfu i rai Saefon fettlo yn y gwledydd hyn yn ddiweddar ymmŷfc yr hên drigolion; ac o ran rheolaeth

rheolaeth wledig ac Eglwyſig y maent yn cyttu-
'no a hên-Loegr.

Ynghyffiniau y gwledydd hyn y mae Penſyl-
fania. Ynghylch y flwyddyn un mil chwech
chant a phedwar ugain, ac wedi y darfu i ſagad
o Gymru ac o Loegr ſymmud i'r cwr hyn o
America gyda William Penn. Y mae'r wlad yn
gymhedrol ffrwythlon; eithr y mae y gwres dros
ryw bart o'r hâf môr nerthol ac nad ellir yn
hawdd ei oddef; a'r oerfelwch yn y gaiaf môr
derrig o'r tu arall. Y mae yno rydd-did i
bob ſect; eithr nid oes ond ychydig o bwer a
gryw duwioldeb yn ymddangos yn eu plith;
ac un achos yw, am fod prinder o rai cym-
mwys i fod yn Flaenoriaid mewn matteriou
gwledig ac eglwyſig; yn gymmaint ac mae y
gwerinos ddynion gan mwya, oedd y rhai a
ddaethant i wladychu yma.

Y mae etto ddau blantaſiwn ychwaneg yn
America a berthyn i Loegr, ſef Carolina a
Fyrginia. Y mae y ſaeſon ſydd yma o ran e
creſydd a chyfreithiau y wladwriaeth yn cyt
tuno a Lloegr. Yr Indiaid, ſef yr hên drigo
lion, ſy'n eu myſc, ſydd ganddynt ryw fath
reolaeth neilltuol a phriodol iddynt eu hun
Hwynt hwy ydynt yn glynu byth wrth eu hê
Eulunaddoliaeth.

Y gwledydd y buom yn ſôn am danynt hy
yn hyn, ſef Canada, Lloegr Newydd, Penſyl
fania, &c. ydynt yn y cwr neſa attom ni
America, ar lan y môr Atlantig. Rhwng
rhain a'r gorllewin y mae gwlad fawr helaet
yr hon nid ym yn gallel cael dim hanes neil
tuo

uol o honi, ond yr ydys, yn tebygu ei bod o eiaf yn fil o filltiroedd o led, ac ynghylch dwy il o filltiroedd o hyd. Yn y wlad hon y mae'r ên drigolion yn ddigymmyſc, yn byw yn tarbaraidd ac yn wylltion.

Yn neſaf yr ym yn dyfod at y gwledydd ydd ym mherchnogaeth y Spaniards, y rhai a reſcynnaſant o rhan fwyaf a chyfoethoccaf o holl America. Y wlad neſa at y gogledd a berthyn i'r Spaniards yw Fflorida.

A Fflorida ſydd bedwar cant o filltiroedd o hyd, a tri chant o led, gwlad feuthlon teilliog ydyw, yn ol arwyddoccad yr enwa roddwyd iddi.

Yn gyfagos i Fflorida tua'r dehau y mae Mexico, yr hon ſydd ddau cant o filltiroedd o led, a thri chant ar bymtheg o hyd. Cynnifer o'r Indiaid ac ſydd yn byw yma yn gymmyſc a'r Spaniards a dderbyniaſant y gretydd babaidd. Hon ſydd wlad gyfoethog iawn o aur, fidanau a ſpeis.

Cyfochr i Mexico y mae gwlad a elwir Terra Firma (y tîr durfing.) Y mae hi yn bymtheg cant o filltiroedd o hyd, a chwech chant o led.

Mae'n affwrdio gwmmau ac aroglau peraidd. Y mae ynthi hefyd fwyn gloddiau aur ac arain a meini gwerthfawr.

Yn neſaf tua'r dehau y mae Peru (Peryw). Y mae yn fil a naw cant o filltiroedd o hyd, a chwech chant o led. Hon ydyw'r wlad gyfoethoccaf yn yr holl fyd. Canys y mae yma gyflawnder anrhaethadwy o'r pethau y mae dynol

dynol ryw yn eu caru mor anwyl (ſef o Aur ac Arian). Ac ni orphwyſodd y Spaniards dros y ddeucant flynyddoedd diwaetha aeth heibio, ond eu llwytho dros y cefnfor oddi yma i Spain. Nid oes na rhif na diben o'r cyfoeth a gloddir o'r mynyddoedd a'r glennydd yn y wlad hon. Yr hên drigolion ſydd ganddynt ſawr achos, fel y tebygem i gwyno am orthrymder a chamwedd; canys y Spaniards wedi cymmeryd meddiant o'u gwlad, ydynt yn peri iddynt gloddio yn y creigydd am dryſſorau i'w cyſoethogi hwynt hwy. Y fawl o'r Indiaid yma ſy'n cydgyfanneddu a'r Spaniards, ydynt yn cyd-ymſſurfio a hwynt hwy yn eu crefydd a'u hymarweddiad; eithr y rhai ſydd yn y parthau mwya anial o'r wlad, ydynt yn byw yn ddi-reolaeth ac yn Eulun-addolgar.

Y wlad neſaf etto tua'r dehau a elwir Ceili. Y mae hi yn fil a thri chant o filltiroedd o hŷd, a deucant a hanner o led. Y mae yma heſyd gyfoeth mawr o Aur; a'r puraf oll ydyw. Mewn rhai mannau y mae'r tir yn ffrwythiawn iawn; y tywyſenni gwenith ydynt ddeunaw modledd o hyd, ar gwelltenni yn agos i dair llath. Yr hên drigolion ydynt mewn rhai lleoedd o'r wlad yn addoli y Cythraul dan ei enw; eithr mewn mannau eraill y maent o'r un grefydd a'u meiſtred y Spaniards, ſef yn Bapiſtiaid.

Y tu deheuol i Ceili y mae Magelanica. Hon yw'r wlad eithaf tua'r dehau, yn yr ochr hyn o America. Y mae hi ynghylch mil o filltiroedd o hyd, a naw cant a hanner o led.

led. Yr hên drigolion ſydd yn preſwylio yma gan mwyaf yn ddigymmyſc, yr ydys yn eu galw Patagons; o ran eu maintioli a'u corpholaeth, math o gowri ydynt; eithr o ran eu cynneddfau y maent yn waeth na'r aniſeiliaid gwylltion mwya rheibus ac y mae'r ddaiar yn ei ddwyn.

Cyn myned o honom ymmhellach, mae'n gymmwys i'm ddal ſylw yma, ſod y tu dehau ar tu gorllewin i America tu hwynt i'r môr deheuol, diroedd mawrion ac ehang, y rhai ydys yn alw, Y tiroedd dehau nid adweinir. Y mae llong-wyr Europ yn morio heibio i'r tiroedd hyn weithiau. Eithr nid ydynt yn gallel rhoddi dim hyſpyſrwydd neilltuol o honynt, ond yn unig eu bod yn helaeth iawn ac yn llawn o drigolion. Ni feiddiant fyned yn heppell i mewn i'r wlad, o achos creulondeb y dynion ſydd yno, y rhai a wnaethant ddihenydd doſt o rai o honynt a ſyrthiaſent ar ddamwain yn eu dwylo; felly y gallant ddywedyd trwy brofiad, mae pobl greulon iawn ſy'n preſwylio yn y gwledydd hynny. Ac ymmhellach, y maent yn dywedyd o'u plegit, eu bod yn gorphol ac yn ddiwyd. Ac er nad oes ganthynt na brenin na thywyſog; etto eu bod yn ordeinio rhyw fath o ſwyddogion i goſpi y rhai diog, a'r ſawl ac na chydymffurfiont a defodau'r wlad. Ac nid ydynt chwaith heb eu Duwiau, y rhai y maent yn aberthu iddynt. Temlau hefyd ſy ganddynt i gyflawni dyledſwyddau crefyddol ynddynt. Ar amſerau y maent yn golchi eu cyrph, yn ymprydio,

yn

yn cynnal uchel wyliau, &c. A hyn yw'r çwbl ydys yn allel wybod etto am y gwledydd hyn a'u trigolion; ac felly, fe a'u gelwir a hynny yn ddigon cymmwys, y tiroedd nid adweinir. Eithr awn etto ymlaen yn neſcriſiad America.

Yn neſaf at Magelanica. Y wlad ddiwethaf a grybwyllwyd o America, y mae gwlad ſawr a elwir Paragay. Y mae hi yn ddwy fil o filltiroedd o hyd, a phymtheg cant o led, llawnder mawr ſydd ynthi o Laſur ac o ffrwythau coeddydd; ac helyd o'r * corſenni o ba rai yr ydys yn cael y ſiwgwr. Y mae yma helyd ſwyn gloddiau aur ac arian a choppor. Cynniſer o'r Indiaid, yn y wlad hon ac ſydd dan reolaeth brenin Spain, ydynt o'r greſydd Ruſeiniaidd. Y reſt ydynt Ealunaddolwyr fel eu henafiaid.

Oddiwrth Paragay tua'r dwyrain y mae Braſil. Ei hyd a'i led ydynt agos yr un faint, ynghylch tri chant ar ddeg o filltiroedd. Yr ardaloedd neſa at y môr a breſwylir gan y Portugueſe, cymmydogion y Spaniards. Eithr y rhan ſwya o'r wlad ſydd etto ymmherchnogaeth yr hên drigolion y rhai ydynt yn hytrach ar ſûn dynion nac yn ddynion.

Y wlad neſaf o America, a'r ddiwaethaf, a elwir Amazonia. Y mae hi y tu gorllewin i Braſil, ac yn fil a faith gant o filltiroedd o hyd, a mil o led. Y trigolion ydynt yma helyd, fel yn Braſil, yn farbaraidd iawn, na llywodraeth,

* *Pob math o ſiwgwr a dynnir o'r corſenni hyn trwy eu briwio a'u malu a'u berwi.*

na

na chrefydd nid oes ganthynt; eithr byw yn wylltion yn y coedydd y maent yn gyffelyd i'r anrhualed gwylltion ymmŷſc y rhai y maent yn trigo; oddieithr, ſe alle, eu bod ychydig yn fwy gwaraidd yn y parthau o'r wlad ſydd gymmydogawl i'r Spaniards.

Ac ſel hyn y darfu imi roddi eglurhad bur o'r bedwaredd rhan o'r byd, ſef America. Yn y moroedd o amgylch i America y mae hefyd rifedi mawr o ynyſoedd, yn enwedig y tu dwyrain, ſef yn y môr Atlantig: A thrigolion y rhain i gyd ydynt naill a'i yn Eulunaddolwyr neu ynteu o'r grefydd babaidd; oddieithr yr ychydig o honynt ac ſy'n perthyn i Loegr.

YN awr, ddarllenydd anwyl, goſodaſom ger dy fron fyr hanes o'r amryw Gedhedloedd o ddynion a wnaeth Duw o un gwaed i breſwylio ar holl wyneb y ddaiar, *Act.* 17, 26. A therſynau eu preſwyllfod: A thi a weli fod yr holl fyd etto gan mwyaf yn gorwedd mewn drygioni, 1 *Joan.* 5, 19. Fod tywyllwch yn gorchguddio y ddaiar, *Eſay.* 60, 2. Fod teyrnas y gelyn yn gref a'i lywodraeth yn ehang; fod amryw genhedloedd lluoſog yn y caethiwed toſtaf, heb na gallu nac ewyllys i ddyfod allan o hono; a bod nifer anymgyffredawl o eneidiau yn cychwyn ar hyd y flordd lydan ſydd yn arwain i ddeſtryw, *Math.* 7, 13. Ac o'r tu arall, gelli weled pa mor fawr yw dy Ragorfraint uwch law llaweroedd; yn gymmaint a bod o honot yn mwynhau y moddion

on Iechydwriaeth, fod yr yſcrythyrau ſanctaidd yn dy law, y rhai ydynt yn dwyn bywyd ac anllygredigaeth i oleuni, ac ŷnt ſuddiol i gyſeirio eith draed i ffordd tangneddyf, ac i'th wneuthur yn ddoeth i Iechydwriaeth, 2 *Tim.* 3, 15. Y rhagoriaeth oedd gan yr Iuddewon gynt uwch law eraill ydoedd yn ſefyll yn hyn. O herwydd darfod ymddiried iddyut hwy am ymadroddion Duw, *Rhuf.* 3, 1, 2. Hyfryd oleuni gair Duw oedd yn tywynnu arnynt hwy tra'r ydoedd yr holl genhedloedd o amgylch yn gorwedd mewn tywyllwch. Y moddion o Râs, talent arbennig ydynt; gwyn eu bŷd y rhai ſydd a'r cyfryw dalent yn eu dwylo, a chalon i'w defnyddio. Fe alle dy fod yn tebyg unwaith, fod gan y rhan fwyaf o'r bŷd yr un cynnhorthwyadau i ddyfod i adnabyddiaeth o Dduw a thuag at gyrrhaeddyd happufrwydd yn y bŷd i ddyfod, ac yr ydwyt ti yn ei fwynhau. Eithr gwel yn awr, mai nid felly yw. Nid oes gennit ddim achos i genfigennu yr Indiaid, y rhai y mae eu mynyddoedd yn llawn o Aur; na'r Arabiaid am eu gwlad araul ffrwythlon; canys os yw gennit y dcethineb ſydd oddi uchod, yr hon a ddyſc it brofi y pethau ſy a gwahaniaeth rhyngddynt, *Phil.* 1, 10. Er noethed a llymmed yw'th le, ni newidit gyflwr ac un o'r rhain. Bydd fodlon, ie bydd ddiolchgar: Y mae i Dduwioldeb addewid o'r bywyd y ſydd yr awron, ac o'r hwn a ſydd 1 *Tim.* 4, 8. Cais hawl ynddo ef,. eiddo yr hwn yw y ddaiar a'i chyflawnder; gobeithia ynddo ef, a gwna yr hyn a fyddo da a chymmeradwy yn ei olwg; felly

cei drigo yn y tir, a thi a borthir yn ddiau, *Pſa.* 37. 3. O! cais galon i iawn briſio a deſnyddio y gwerth ſydd yn dy law, ſef yr Efengyl ſanctaidd, yn yr hon yr ymddangoſodd anfeidrol Râs Duw tuag at ddynion, a'r hon ſydd yn ein dyſcu ni i wadu annuwioldeb a chwantau bydol, a byw yn ſobr, ac yn gyſiawn, ac yn Dduwiol. Duwioldeb gyda bodlonrwydd, elw mawr yw. Fod o honot yn mwynhau ordinhadau'r Efengyl a'r moddion grâs, ſydd ffafor anrhaethadwy, ac yn wir achos o orfoledd; etto dylit orfoleddu mewn dychryn meddaf, rhag fforffettio o honot y rhagorfreintiau yma trwy dy anffrwythlondeb, a pheri i Dduw eu dŵyn oddi arnat a'u rhoddi i eraill a ddycco eu ffrwyth. Bu yr Efengyl gynt yn amryw o'r gwledydd a fuom yn eu deſcrifio ac ſydd yn awr mewn tywyllwch; eithr o herwydd eu haniolchgarwch a'u hanffrwythlondeb, câdd ei ſymmud oddiwrthynt. Yn awr gan hynny, gwel ddaioni Duw tuag attat ti. Ymro i aros yn ei ddaioni ef. Na ſydd uchel-fryd, etto ofna, *Rhuf.* 11, 20, 22.

Fe fuwyd yn awr dros rai cantoedd o flynyddoedd yn dyfal gyrchu a chludo golud a thryſorau'r Indiaid i'r parthau hyn o'r bŷd, ſef i Europ. Y mae gennym achos i ofni y bydd i ni ryw amſer dalu am danynt yn rhy ddrud; ſef, y bydd i'r Efengyl gael ei chymmeryd oddiwrthym ni a'i rhoddi iddynt hwy. Ac y mae rhai yn tebygu fod yr Efengyl yn awr megis a'r ei naid, yn barob i gymmeryd ei chennad oddiwrthym ni, i fyned i wledydd y gorllewin, ſef i America. Barn * ûn gŵr hynod mewn per-

* *Herbert.*

perthynas i'r peth hyn yn enwedigol ſydd yn ſy meddwl, ac mi a'i goſodaf i lawr yn ei eiriau ei hun.

My God, thou doſt prepare for me a way,
By carrying firſt their gold from them away;
For gold and grace did never yet agree,
Religion always ſides with poverty;
We think we rob them, but we think amiſs,
We are more poor, and they more rich by this;
Thou wilt revenge their quarrel, making grace
To pay our debts, and leave our ancient place
To go to them

Yr Indiaid drwy ymâd a'u haur coeth,
Bartoir i dderbyn y gwir gyfoeth;
Canys aur a grâs y'nt mor anghyttun,
A fedd y naill, y llall nis derbyn
Eu haur heb werth dros fôr terfyſgus,
Troſglwyddo'r ym i'n bro'n ddiorphwys.
Duw dâl ein d'led (drud yw'r cyfnewid)
Trwy roi'n lle eu haur Efengyl hyfryd.

Y gŵr da hwn ſydd yn y geiriau hyn (fel yr ŵyf yn tebygu) yn mynegu ei ofn a'i bryder, yn hytrach nac yn cymmeryd arno brophwydo. Pa fodd bynnag, Gymru anwyl, gochelwch roddi o honoch achos trwy eich anffrwythlondeb i'r Goruchaf ſymmud o'ch myſc y cannwyllbren ſydd yn dal Goleuni'r bywyd. Yr Iuddewon am eu hanffrwythlondeb a'u drygioni a fwrwyd allar o'r Winllan. Trigolion Aſia ac eraill y rhai y bu yr Efengyl yn goleuo yn eu myſc gynt, ydynt yn awr mewn tywyllwch. Eglwyſi Europ ydynt etto megis mewn ſtat o broſiad, daioni Duw ſydd hyd yn hyn yn par-

hau

hau attynt; eu dyledſwŷdd yw aros yn ei ddaioni ef; os amgen, hwynt hwythau hefyd a dorrir ymaith, *Rhuf.* 11, 22. Oh! ymrowch na bytho eich rhan chwi yn ol. Gwachelwch fod y cenhedlaethau a ddelyn cael achos i ddywedyd, mai pechodau eu hynafiaid a barodd na chawſant hwy gynnig o iechydwriaeth. Dygwch chwithau ffrwythau addas; a bydded eich taer ymbiliau ar Dduw a'r i'r Efengyl yn y wlad fyned troſodd o genhedlaeth i genhedlaeth hyd eithaf derfynau oeſoedd y bŷd.

GAN ddarfod o honom yn y rhan aeth heibio o'n traethawd roddi deſcrifiad neilltuol-holl o wledydd y bŷd a'u trigolion; ni gawn'n neſaf edrych'n ol i gymmeryd golwg o'r pethau baſiodd'n yr oeſoedd gynt, Dull y bŷd hwn ſydd yn myned heibio, 1 *Cor.* 7, 13. Y mae'n newid ei wedd mewn rhyw feſur bob dydd, mwy o lawer ymhob oes cyfnewidiadau mawrion ac amlwg ſydd yn digwydd mewn yſpaid ychydig o amſer mewn teuluoedd, dinaſoedd a gwledydd. Nid fel y bu y mae; nid fel y mae y bydd. Am y pethau a ſydd, y maent yn ddirgel. Canys ni's gwyr dŷn beth a fydd, *Preg.* 8, 7. Eithr am bethau a baſiodd y mae'n ſuddiol yn ac yn ddyladwy arnom, cyn belled ac y gallom fod yn gydnabyddus a hwynt. Cofiwch y dyddiau gynt yſtyriwch flynyddoedd y cenhedlaethau gynt, *Deut.* 32, 7. Gwael ac aniſeiliaidd yw'r dyn, yr hwn nid yw ei wybodaeth yn cyrraedd tu hwynt i'w wlad ei hun, a'i oes ei hun. Fe ſydd hefyd imi gan hynny grybwyll rhai o'r pethau mwya hynodawl a ddigwyddaſant

yn

yn yr oeſoedd aethant heibio er y creadigaeth, ſel y byddo i'r ſynhwyrol gael achlyſur i gaſclu addvſc i'w hun er ei adeiladaeth.

Oed y bŷd, ſel y mae y dvſcedig gan mwya yn cyttuno. yw pum mil ſaith gant ac ŵyth ar hugain o flynyddoedd. Duw ei hun ſydd o dragwyddoldeb, heb ddechreuad. Ef ſydd Dduw o dragwyddoldeb hyd dragwyddoldeb, *Pſa.* 90, 2. Eithr er pan roddodd ef fod i'r amryw rywiogaethau o greaduriaid, nid oes megis y dywedaſom, ond yn ynghylch pum mil ſaith gant ac wyth ar hugain o flynyddoedd.

Y dyn cyntaf, Adda a oſodwyd yn Eden: Yr Eden yma, nid ydoedd o ran ei maint a'i ehangder yn gyffelyb i ardd; eithr yr ydoedd yn cynnwys amryw o wledydd. Ac y mae y rhai cywraint mewn Hiſtory yn gadel, mae y gwledydd hyn oedd yr hên Eden neu'r baradwys ddaiarol, ſef Meſopotamia, Caldea, Aſſyria, Perſia ac Arabia; y rhai ydynt oll y tu dwyrain i wlad Canaan.

Ynghanol y tir helaeth hwn yr oedd pren y bywyd, a'r pren gwybodaeth da a drwg: Yn gyfagos i'r rhain yr oedd Trigfa Adda, cyhyd ac y parhaodd yn ei ſtat o ddiniweidrwydd; eithr ar ol ei gwymp gorfu arno ſymmud i gwrr arall o'r ddaiar i ynnill ei fara trwy chwys ei ddau-rûdd; ef a'i hiliogaeth, y rhai a gynnyddaſant yn ddirfawr: Ac fel y darfu iddynt liofogi mewn rhifedi, felly y darfu i'r llwgr a etifeddaſant oddiwrth eu rhieni cyntaf dorri allan yn eu gweithredoedd, yn y fath fôdd, hyd oni chyffroeſant y goruchaf Dduw i ddarparu Llif-ddwfr i olchi ymaith y cyfryw genedl ffiaidd

ffiaidd oddi ar wyneb y ddaiar. Etto darfu iddo, yn yr arwydd hon o'i lid, gofio trugaredd; yn gymmaint ac iddo gadw hâd yn Noah a'i dylwyth.

Oed y cynfyd i hynny yw, yr yſpaid o amſer n greadigaeth Adda hyd y diluw, oedd un mil chwechant ac un ar bymtheg a deugain o flynyddoedd.

Tri meibion Noah oeddent, Sem, Cam, a Japheth, Sem a enwir yn gyntaf, o herwydd y rhagorfraint oedd iddo uwchlaw ei frodyr; eithr yr ydys yn tebyg mai Japheth oedd yr hynaf o'r tri. Canys yr hynaf o honynt a genhedlwyd pan oedd Noah yn bum can mlwydd oed, *Gen.* 5, 32. Ymmhen can mlynedd ar ol hynny y daeth y dwfr diluw; ac erbyn hyn yr oedd y plentyn hynaf hwnnw yn gan mlwydd oed, *Gen.* 7, 6. Eithr nid oedd Sem gan mlwydd hyd ymmhen dwy flynedd ar ol y diluw, *Gen.* 11, 10. Am hynny y mae'n debygol mae Japheth oedd yr hynaf; canys mae'r ieuangaf oll oedd Cam ſydd amlwg o *Gen.* 9, 24.

Yr arch, a orphwyſodd ar ben mynydd uchel mewn gwlad a elwid yn amſer Moſes Araras, ond yn awr Armenia, y tu golgedd i Eden. Noah a'i hiliogaeth (yn gymmaint a bod yr hin yn Armenia yn oer, a'r tir yn anffrwythlon) a ymmudaſant o feſur ychydig ac ychydig tua'r dwyrain a'r dehau, i ymofyn gwledydd mwy cyfleus i drigo ynddynt. Ac wedi dyfod o honynt i'r wlad a elwir yn awr Caldea, ynghylch cant a deg ar hugain o flynyddoedd ar ol y diluw, ac erbyn hyn yn lliaws mawr o ddynion, gyfodaſant ynghylch adeiladu'r ddinas a'r

tŵr a grybwyllir yn *Gen.* 11. Eu pwrpas, a'u diben yn y peth oedd, 1. Fel y bydde i hyn fod yn fodd i'w cadw ynghyd fel nas gwaſcerid, yngwrthwyneb i arfaeth Duw, yr hwn a wnaethai yr holl ddaiar i fod yn breſwylfa i ddynion. 2. Tybied yr oeddent, os dwfr-liſ a ddigwyddai etto i guddio'r ddaiar, y byddeu eu tŵr fod yn lle cymmwys i ffoi iddo. Y cyfryw oedd eu ffolineb a'u hanghrediniaeth, canys Duw a addawſe i'w tâd Noah, yr hwn oedd etto yn fyw, na chae'r fath beth fod mwyach. Rhai fydd yn tebyg mai Cam a'i eppil yn unig oedd yn y cyngrair hwn; eithr gallwn farnu yn hytrach, er nad oedd Sem a Japheth, yn gymmaint a'u bod yn wŷr Duwiol, yn fodlon i'r peth; etto fod y rhan fwya o'u hiliogaeth hwynt yn gynnorthwy-wŷr i blant Cam yn y gwaith.

Hyd yn hyn yr oedd yr un dafod iaith, ſef yr Hebreaeg, ganddynt oll; eithr yn awr darfu i Dduw ddoſparthu amryw ieithoedd rhyngddynt. Cynnifer o honynt ac oeddent o'r un iaith a ymgyfflylltafant ynghyd; ac a ymneilltuafant oddiwrth y reſt; canys ni's gall fod cymdeithas rhwng ddynion y rhai ni ddeallant y naill iaith y llall. Ac fel hyn y darfu i Dduw rannu dynol-ryw yn amryw ben cenhedloedd i breſwylio ar wyneb yr holl ddaiar. Ac megis y rhagordeiniodd efe o'r dechreuad pa wlad a gae pob cenedl yn breſwylfod, *Act.* 17, 26. Felly y darfu i'w ragluniaeth ef oruwchreoli y pryd hwn pan oedd pennau teuluoedd neu Lwythi plant Noah, yn ymneilltuo bob un i ddewis ei drigfan. Sem megis y perchnogaf

etifedd

etifeld ei dreftadaeth, felly ynteu, yr hwn o herwydd yr enedigaeth fraint oedd etifeld, a drigodd, ef a'r holl hiliogaeth, o fewn trefynnau Aſia (gwlad ei dad Noah, a'r holl batriarchaid cyn y diluw).

Hiliogaeth Cam a ymneilltuaſant tua'r dehau, i Africa; a rhai o honynt arhoſaſant yn neheu dir Aſia, ſef yn Canaan, Babilon, ac Arabia.

Plant Japheth a giliaſant tua'r gorllewin, daethant yn gyntaf i'r parthau iſaf i Aſia, ſef Natolia; ac oddiyno i Europ. Ac felly, o Japheth y mae'r Europiaid yn deilliaw. O Gomer, yr hynaf o blant Japheth, y daeth cenedl fawr luoſog, y rhai a elwid gynt Cimbri. Ac y mae y rhai ſydd yn chwilio achau'r cenhedloedd yn barnu, mai colfen o'r rhain oedd yr hên Gymru.

Rhagorfraint Sem oedd yn ſefyll yn benna yn hyn; a ſef, o herwydd mai o hono ef y daeth y tadau neu'r Patriarchiaid fy hynod gynt yn Eglwys Dduw, a'r Meſiah hefyd yn ol y cnawd; ac o fewn un gangen o'i hiliogaeth ef yn unig, y bu y gwir addoliad o Dduw yn cael ei gynnal dros un mil pum cant ac un ar bymtheg ar hugain o flynyddoedd, ſef o amſer Moſes hyd ddyfodiad Criſt.

Y trydydd o Sem oedd Eber. Yr Eber yma, mae'n debygol oedd yn wrol yn gwrthwynebu yn argyhoeddi adeilad-wyr Babel; am hynny cafodd yr anrhydedd o gadw'r hên iaith oedd o'r dechreuad, a'i thraddodi i'w hiliogaeth; ac oddiwrtho ef cadd yr enw Eberaeg, a'r Iſraeliaid y rhai a ddaethant o hono ef a elwid Hebreaid, (Ebreaid) y chweched o Eber

oedd Abraham. Yn amſer Abraham yr hyn oedd vnghylch pedwar cant o flynyddoedd ar ol y diluw, yr oedd holl hiliogaeth plant Noah wedi myned yn llygredig iawn; ie Terah tâd Abraham a Nachor ei dad cû oeddynt yn dechreu cymmyſcu addoliad y gwir Dduw a delw addoliaeth. Eithr cafodd Abraham ffafor yngolwg y Goruchaf; cafas ei alw allan o fyſc y delw addolwyr; ac fe a wnaed yn ſiampler er hynod o'r wir ffordd o gyfiawnhad, ſef o'r cyfiawnder ſydd trwy ffŷdd o'r hâd ef yn unig y dewiſodd Duw ei bobl dros lawer o oeſoedd, oddieithr ymbell broſelyt o fyſc y cenhedloedd. Ac yntho ef, ſef yn Ghriſt, yr hwn a ddaeth o'i hâd ef y bendithiwyd holl genhedloedd y ddaiar.

Yn awr wedi i Abraham gael ei alw allan o Ur y Caldeaid, dechreuodd Duw oſod i fynu ei eglwys yn ei dylwyth a'i hiliogaeth ef; etto wedi hyn hyd amſer Moſes yr oedd yn waſcaredig nid yn unig o hâd Sem ond hefyd o hiliogaeth Gam a Japheth, rai a lynaſant wrth addoliad y gwir Dduw, megis Melchiſedec, Job, ac amryw eraill, fel y gallwn ddeall o lyfr Job.

Am y Melchiſedec yma, rhai cywraint a ymholent yn fawr pwy ydoedd? Eithr yn ddiau nid yw gymmwys i ni ſod yn ymofyngar am y peth hyn. Nid alle yr Iuddewon yn amſer yr Apoſtol a ſcriſennodd at yr Hebreaid, nac y chwaith yn amſer y Prophwyd Dafydd chwilio allan ei achau ef; a pha fodd y gallwn ni ar bai y daeth terfynau yr oeſoedd? Dracheſn, ewyllys Duw oedd celu achau'r gŵr yma fel y bydde iddo fod yn deip mwy cymmwys i fâb ef Ieſu Griſt yr hwn ſydd offeiriaid yn dragy-

wydd,

wydd, yn ol cyffelybiaeth neu urdd Melchiſedec, *Heb.* 7, 3.

Duw a addawodd i Abraham wlad y Cananeaid, (y Cananeaid plant Cam oeddent,) eithr dywedodd wrtho y bydde ei hâd er bedwar cant o flynyddoedd yn ymdeithiaid mewn gwlad ddieithr. Y pedwar cân mlynedd hyn ydynt i'w cyfri o enedigaeth Iſaac; canys ni bu yr Iſraeliaid yn yr Aipht ond deu cant a deng mlynedd. A phan y mae Moſes yn *Exod.* 12, 41. Yn dywedyd i'r Iſraeliaid gael eu gwaredigaeth yn y flwyddyn, pedwar cant a deg ar hugain, y mae efe yno yn cyfri holl amſer ymdeithiad tŷ Abraham hyd y pryd hynny, gan ddechreu yn yr amſer y daeth ef allan o Ur y Caldeaid, *Gal.* 3, 7. A phan gaſodd ef yr adewid. Canys o'i ddyſodiad allan o fyſc y Caldeaid hyd fynediad yr Iſraeliaid allan o'r Aipht, yr oedd ynghylch pedwar cant a deg ar hugain o flynyddoedd; ac ychydig ddyddiau ar ol hynny y rhoddwyd y gyfraith, *Gen.* 12, 1. 2, 3.

Yn amſer Job a Moſes ac o hynny allan gwelodd Duw yn dda drefnu i'w air a'i ewyllys, gael eu goſod i lawr yn yſcrifen er budd a lleſiant i ei Eglwys: Canys hyd yn hyn yr oedd y Patriarchiaid a'r pennau tylwythau yn ei draddodi o'r naill i'r llall. Ac yr oedd yr hir einioes ac oedd i ddynion, yn yr amſeroedd hynny, yn gynhorthwy mawr i'r peth. Yr hyn a ddatcuddiaſid o ewyllys Duw i Adda ac eraill cyn y diluw, a ellid yn hawdd ei hebrwng trwodd

odd hyd amſer Abraham heb golli dim: Canys Noah a'i ſâb Sem a fuant fyw ennyd fawr gyda Methuſelah, ac amryw eraill yn y cynfyd, y rhai a gymdeithiaſant ac Adda ei hun a Seth, &c. Noah fu fyw dri chant mlynedd ar ol y diluw; a Sem a fu fyw hyd amſer Jacob.

Yn amſer Moſes yn gymmaint ac i Dduw erbyn hyn, gwttogi einioes dynol ryw (o herwydd gwaith byr a wnae ar y ddaiar), gorchymmynodd ſcrifennu y datcuddiadeu a roe o'i ewyllys mewn llyfrau, i'w cadw yn yr Eglwys a'u traddodi o'r naill genhedlaeth i'r llall.

Yn y flwyddyn dwy fil pum cant ac wyth o oed y bŷd y daeth yr Iſraeliaid allan o'r Aipht. O fynediad yr Iſraeliaid o'r Aipht hyd adeiladiad y deml, ydoedd pedwar cant a phedwar ugain o flynyddoedd.

O adeiladiad y deml hyd ddechreu y caethiwed yn Babilon ydoedd pedwar cant a thair o flynyddoedd. Yn y cyfamſer hwn y darfu i'r deg llwyth neilltuoli a gofod brenin arnynt eu hun, ſef yn nechreu teyrnaſiad Rehoboam mâb Solomon. Teyrnas y deg llwyth a barhaodd ddau cant a deugain mlynedd; ſef hyd y chweched flwyddyn o deyrnaſiad Hezekiah brenin Juda.

Caethiwed Juda yn Babilon a ddechreuodd yn nheyrnaſiad Jeconiah mâb Jehoiacim, 2 *Bren.* 24, 8. Y caethiwed hwn a barhaodd deng-mlynedd a thriugain, *Jer.* 25, 11, 12.

O ddychweliad yr Iuddewon, *(Ezra* 1.) hyd y gorchymmyn a roddodd *Artaxerxes* 1, adeiladu Jeruſalem, *Nehem.* 2. Yr oedd phedwar ugain

ugain a thair ar ddeg o flynyddoedd. Y gorchymmyn hwn ſydd i'w ddeall yn *Dan.* 9, 25. Ac nid y gorchymmyn a roddodd Cyrus i adeiladu'r deml, nac ychwaith orchymmyn Darius, *Ezra* 6, 8. Yr hwn oedd ddwy flynedd ar bymtheg ar ol gorchymmyn Cyrus; nac etto y gorchymmyn a roddodd *Artaxerxes* driugain mlynedd ar ol hynny, *Ezra* 7, 12. Ond y gorchymmyn a roddodd yr *Artaxerxes* yma i *Nehemiah* i adeiladu caerau Jeruſalem, *Nehem.* 2. Yn yr ugainfed flwyddyn o'i deyrnaſiad ef. Yma y mae i ni dechreu cyfri wythnoſau Daniel, *Dan.* 9, 25, 26. Ac felly, o orchymmyn *Artaxerxes* hyd ddioddefiad ein Harglwydd Ieſu Griſt yr oedd pedwar cant a phedwar ugain a deg o flynyddoedd; megis y mae'n amlwg wrth yr wythnoſau hynny; canys fe gyfrifir pob diwrnod yn flwyddyn yn ol dull ac arfer y porphwydi.

Erbyn hyn gallwn gaſclu pa faint o amſer a gerddaſe o ddechreuad y bŷd hyd ddyfodiad y Meſiah; canys nid rhaid ond goſod yr amryw rifedi uchod yn un ſwmm, ac yno cawn oedran y bŷd pan ddioddefodd yr Arglwydd Ieſu Griſt yn Jeruſalem; megis y canlyn.

O'R creadigaeth hyd y diluw, un mil chwech chant ac un ar bymtheg a deugain o flynyddoedd. } 1656

O'r diluw hyd fynediad Abraham allan o Ur, pedwar cant a dwy ar hugain. } 422

O ſynediad Abraham o Ur hyd ddyfodiad yr Iſraeliaid allan o'r Aipht, pedwar cant a deg a'r hugain.	430
O dyfodiad yr Iſraeliaid o'r Aipht hyd adeiladiad y deml, pedwar cant a phedwar ugain.	480
O adeilad y deml hyd ddechreu y caethiwed yn Babilon, pedwar cant a thair blynedd.	403
O ddechreu y caethiwed hyd ei ddiwedd deg a thriugain.	70
O ddiwed y caethiwed hyd orchymmyn Artaxerxes i adeiladu Jeruſalem, pedwar ugain a thair a'r ddeg.	93
O orchymmyn Artaxerxes (neu dechreu wythnoſau Daniel) hyd ddiodddefiad Criſt; pedwar cant a phedwar ugain a deg.	490
Bwrier y cyfrifon hyn oll at eu gilydd, a gwnant bedair mil a phedair a deugain, a hynny oedd oed y byd pan ddioddefodd ein harglwydd Ieſu Griſt.	4044

Eithr yn gymmaint a'i fod ef pan ddioddefodd, yn dair ar ddeg ar hugain oed, tynner tair ar ddeg ar hugain allan o'r pedwar mil a phedwar a deugain, a chawn oed y byd pan y ganwyd ym Methlehem, ſef pedair mil ac un ar ddeg, 4011.

A goſoder etto gymmaint o amſer ac a baſiodd er ei enedigaeth ef hyd yn awr, ſef un mil a ſaith gant a dau ar bymtheg, at bedair mil ac un ar ddeg, ac yno cawn oddran y byd

bŷd y flwyddyn hon, ſef pum mil ſaith gant ac wyth ar hugain 5728. Dros bedair mil o'r amſer yma a aeth dros y bŷd ſef hyd ddyfodiad Criſt, y mae Hiſtory Yſcrythyrau yr hên Deſtament yn cyrraedd: Ac oni bae yr hanes y mae y rhai hyn yn ei roddi, gorſydde arnom ymbalfalu yn y tywyllwch oblegid dechreuad y bŷd a'r oeſoedd a aethant droſto, yr un agwedd a'r hên Philoſophyddion cenhedlig, y rhai y mae eu llyfrau mewn perthynas i'r peth hyn yn enwedig, yn llawn o oferedd eu meddwl, *Eph.* 4, 17. A chyn myned o honom ymmhellach, fe fydd i ni er hyfforddiad y darllenydd ddywedyd ychydig oblegid y dreſn a'r amſeroedd ymmha rai y rhoddwyd yr yſcrifennadau ſanctaidd hyn ſef yr yſcrythyrau, y rhai a ddarparodd Duw i oleuo deall tywyll dyn, ac i'w gyfarwyddo yn y fford ſydd yn arwain i'r Orphwyſfa ddidrangcedig.

Yn gyntaf gan hynny, ac ymmlaenaf oll, ni a gawn Bum-llyfr Moſes, *Gen.* a gynnwys yr Hiſtory wiraf a hynaf yn yr holl fŷd. Y mae yn dechreu yn y creadigaeth, ac yn cyrraedd hyd y flwyddyn o oed y bŷd dŵy fil a phum cant. Y Pum-llyfr Moſes a eilw yr Iuddewon, y gyfraith: Darfu iddynt eu doſparthu yn ddeuddeg a deugain o rannau, cynnifer ac ydd o Sabbothau yn y flwyddyn, a'u harfer yw hyd y dydd hwn, ddarllen un o'r rhannau hyn bob Sabboth; ac y mae y rhan ddiwaethaf yn cynnwys y pennodau olaf o *Ddeut.* A'r pennodau cyntaf o *Gen.* Ac felly ar y Sabboth ddiwaethaf

thaf o'r flwyddyn y maent yn diwedd ac yn dechreu o newydd; i ddangos nad ydynt ddim yn blino ddarllen y gyfraith.

Job ydoedd yn byw ryw faint o amſer o flaen Moſes, eithr ar ol Abraham. Pwy a ſcrifennodd lyfr Job ſydd ddadl ymmŷſc rhai; eithr y mae yn dra-amlwg o'r ddauddegfed bennod a'r hugain o'r llyfr, mai Elihu un o'r pedwar ymddiddanwyr a'i 'ſgrifennodd. Y wlad yr oedd Job yn byw ynddi, ſel y tebygir oedd yn gyfagos i wlad Canaan o'r tu dwyrain iddi.

Llyfr Joſua a'r rhain a ganlyn hyd ddiwedd y chroniclau ydynt yn rhoddi hanes o ſtat wledig, ac eglwyſig yr Iuddewon, dros naw cant o flynyddoedd, ſef o'u mynediad i mewn i wlad Canaan hyd eu dychweliad o'r caethiwed. Yn y cyfamſer hwn yr oedd y Lefiaid a'r Prophwydi, yn cymmeryd gofal i oſod i lawr mewn cof-lyfrau y pethau mwya hynod ac oedd yn digwydd bob blwyddyn, ac yn eu goſod i'w cadw mewn lleoedd ſicr, naill a'i yn y deml neu lys y brenhinoedd. Ac o'r cof-lyfrau neu'r records yma, y darfu i ryw wyr Duwiol trwy gynhyrfiad a chyfrwyddiad yr yſpryd glân, dynnu allan gymmaint o hanes yr amſeroedd hynny, ac oeddent yn ei farnu yn anghenheidiol ac yn ſuddiol i Eglwys Dduw yn yr oeſoedd i ddyfod, a gwneuthur y llyfrau neilltuol ſy'n myned dan enw Joſua, Barnwyr, ac ſelly ymmlaen: Y rhai a'u ſcrifennodd (ſel yr ydys yn tebyg) oedd Joſua, Samuel, Nathan, Gad; ac yn enwedig Ezra, yr hwn a ſcrifennodd ddau

llyfr

llyfr y Chroniclau ar ol gwaredigaeth yr Iuddewon o caethiwed Babilon.

Ezra hefyd a ſcrifennodd y llyfr ſydd yn myned dan enw llyfr Ezra; megis yr yſcrifennodd Nehemiah y llyfr ſydd yn myned dan ei enw yntef. Yr oeddent yn byw eill dau ynghylch yr un amſer, amryw o flynyddoedd ar ol dychweliad yr Iuddewon o'r caethiwed, fel y mae'n amlwg oddiwrth yr hŷn a ddywedyd uchod.

Llyfr Eſther a 'ſcrifenwyd gan Mordecai (fel y mae y dyſcedig yn gyffredin yn barnu). Nid ydys yn gwybod yn ſicr pa un o frenhinoedd Perſia oedd yr Ahaſuerus hwnnw. Eithr yr ydys yn gadel mai Xerxes tâd Artaxerxes ydoedd: Canys nid Ahaſuerus ond Xerxes y galwe y Perſiaid ef. Ac felly y pethau a adroddir yn llyfr Eſther, a ddigwyddaſant ynghylch deng mlynedd a deugain ar ol y dychweliad o Babilon.

Llyfr a Pſalmau a elwir yn gyffredinol, Pſalmau Dafydd, o herwydd mae efe yw awdwr y rhan fwyaf o honynt. Eithr rhai o honynt a gyfanſoddwydd gan eraill, megis Aſaph, Moſes, Heman, Ethan, &c. Fel y mae y teitlau yn dangos. Yr ydys yn tebyg mai Ezra a'u caſclodd ynghyd, ac a'u gwnaeth yn un llyfr, megis y maent yn awr yn ſefyll yn y Bibl.

Llyfr y Diharebion, y Pregethwr a'r Caniadau a ſcrifennwyd gan Solomon, oddieithr y ddwy bennod olaf o'r Diharebion.

Gweinidogaeth yr holl Brophwydi a gynhwyſir o fewn yſpaid, tri chant a deg a deugain

deugain o flynyddoedd, ſef o amſer Uzzia brenin Juda a Jeroboham II. brenin Iſrael, pan y dechreuodd Jonah, Hoſea, Amos, ac Eſay brophwydo hyd amſer Malachi, y diwethaf oll o'r Prophwydi, yr hwn a brophwydodd yn nyddiau Ezra a Nehemiah, ynghylch pedwar ugain a deg o flynyddoedd ar ol y caethiwed.

Y mae rhyw nifer o hên lyfrau a elwir yr Apocrypha. Y Papiſtiaid a roddant yr un barch i'r rhain ac i'r ſcrythyr lan: Canys darfu i'r Pâb orchymmyn ac ordeinio ar iddynt gael eu cyfrif ymmŷſc yr yſcrythyrau ſanctaidd. Eithr yr hyn y mae y dyſcawdwyr Proteſtanaidd yn ei farnu o'u plegit yw hyn; ſef ſod llyfr *Eccle.* a llyfr cyntaf y Maccabæaid yn cynnwys rhai pethau ynddynt ac all ſod er adeiladaeth; am a rheſt nid ydynt ddim ond hên Chwedlau.

Llyfrau yr Teſtament newydd megis y cawſant eu ſcrifennu gan ddynion ſanctaidd Duw, trwy gynhyrfiad a chynhorthwyad anarferol yr yſpryd glân; y mae enw'r ſcrifennydd yn y teitlau, neu o flaen pob llyfr; am hynny yr ym yn cyfri nad yw reidiol ddywedyd ond ychydig ar y teſtyn hwn. Am yr Actau, neu hanes gweithredoedd yr Apoſtolion, er na chrybwyllir enw'r awdwr yn amlwg, etto mae'n ſiccr mae yr Efangylwr *Luc* anwyl gydymmaith *Paul* a'i ſcrifennodd; megis y gwelir yn eglur os comparir yn Adn. gyntaf o lyfr yr Actau a dechreu yr Efengyl yn ol *St. Luc.*

Holl lyfrau y Teſtament newydd a orph-

enwyd

enwyd cyn pen can mlynedd ar ol genedigaeth ein Harglwydd Ieſu Griſt. A'r diwaetha oll yw llyfr y Datcuddiad, yr hwn a ſcrifennodd yr Efangylwr a'r Apoſtol *St. Joan*, ynghylch y flwyddyn o oed Criſt, pedwar ugain a phymtheg. Ac megis ac y darfu i Ezra a Malachi, wedi iddynt gaſclu ynghyd a gorphen yſcrythyrau yr hên Deſtament, *Mal.* 4, 4. 5, 6. Gyhoeddi melldith ar y fawl ni lynent wrth yr athrawiaeth a gynnhwyſir ynddynt; felly y mae St. Joan yn niwedd ei ddatcuddiad, *Dat.* 22, 18, 19. Megis yn cloi i fynu holl yſcrythyrau yr hên Deſtament a'r newydd trwy gyhoeddi melldithion Duw ar y fawl a chwanego attynt neu a dynno oddiwrthynt; ac felly yn arwyddoccau nad oes i ni ddiſcwyl am ddim datcuddiadau anarferol o ewyllys Duw yn ychwaneg, hyd oni ddelo Criſt i'r farn.

Yma y mae'n gymmwys i ni ddal ſulw pa fath gyfnewidiad mawr a hynod a ddigwyddodd i ſtat Eglwys Dduw ynghylch y pryd hyn, ſef ar ymddangoſſiad ein Harglwydd Ieſu Griſt yn y cnawd; canys cyn ei ddyfodiad ef, yr oedd yn orchymynnedig offrymmu Aberthau i arwyddoccau y dae efe i'w offrymmu ei hun yn aberth dros bechod; ac nid oedd dim rhyw aberthau yn gymmeradwy chwaith, ond y rhai a offrymmid ar yr allor yn Jeruſalem. Dracheſn, nid oedd y ffyddloniaid yn gyffredinol yn derbyn cymmaint meſur o râs tuag at rodio yn ſucheddol, ac yn ganlynol, nid oedd ganddynt y fath hyfdra a'r fath obaith cryf tuag

ag at Dduw ac ſydd yn awr i'r ſaint dan yr Efengyl. Ymmhellach, yr oedd naturiaeth y cyfammod o râs, a'r bendithion a'r rhagorfreintiau a gynhwyſir ynddo, yn dywyllach yn yr amſer hwnnw, ſef tra parhaodd y weinidogaeth ddefodawl: Ac yn ddiwaethaf, cyn dyfodiad Criſt yr oedd Eglwys Dduw yn cael ei chynnwys o fewn terfynau un wlad ac un genedl: Canys yr Iuddewon oedd unig bobl Dduw, oddieithr bod ymbell un o'r cenhedloedd weithiau, yn ymwrthod a'u delwaddoliaeth ac yn ymgyfylltu a'r Iuddewon i arddel yr un Duw, a'r un grefydd a hwynt-hwy, y rhai hyn a elwid Proſelytiaid. Eithr pan ddaeth Criſt y Meſſiah i gwflawni gwaith y Prynedigaeth trwy ei offrymmu ei hun yn aberth i Dduw o arogl peraidd, *Eph.* 5, 2. dros bechod, nid oedd raid wrth y cyſcodau o aberthau mwyach, yn gymmaint a bod y Sylwedd ei hun wedi dyfod. Ac yn gymmaint a bod y ffyddloniaid o'i gwflawnder ef yn derbyn grâs am râs, hynny yw helaethrwydd o râs, fel y byddo iddynt rodio yn addas i'r alwedigaeth y galwyd iddi; a chan ddarfod iddo ef fyned i mewn i'r Nêf ei hun, i ymddangos gerbron Duw dros ei bobl, *Heb.* 9, 24. Y mae iddynt annogaeth i neſſau gyda hyfdra mawr at Dduw trwyddo ef, fel plant at dâd anwyl, yr hwn ſydd yn barod i'w gwrando, ac i gyflawni drannu iddynt bob bendithion anghenrheidiol tuag at wneuthur eu cyflwr yn ddiogel ac yn happus. Ac megis ac y darfu i Dduw roddi addewid i Abraham, y cae yr holl genhedloedd

eu

eu bendithio yn ei hâd ef, ac addaw hefyd trwy y Prophwyd *Dafydd Pſa.* 2, 8. y cae ei fâb ef yr enneiniog, ſef y Meſiah, y cenhedloedd yn etifeddiaeth, a therfynnau y ddaiar yn feddiant iddo: Felly y darfu i Griſt, yr hwn oedd o hâd Abraham o ran y enawd, ar ol ei adgyfodiad oddiwrth y meirw, ddanfon ei Apoſtolion i ddyſcu yr holl genhedloedd ac i godi Eglwys iddo ef, o fyſc yr amryw dylwythau o ddynion ac oedd yn waſcaredig dros wyneb yr holl ddaiar.

Yr Apoſtolion, wedi derbyn o honynt eu commiſion, a doniau cymmwys i'r gwaith gan eu meiſtir a'u hathro, a aethant allan i oſod ar deyrnas y gelyn, 1 *Joan*, 5. 19. Canys yr oedd yr holl genhedloedd hyd yn hyn yn gorwedd, in improbitate, yn y drwg, neu dan lywodraeth y Dryg-wr Satan, a chan ymwaſcaru o honynt, trwy yr holl wledydd darfu iddynt gyfrannu y wir wybodaeth o Dduw i'r cenhedloedd y rhai oeddent, etto yn byw yn y tywyllwch o anwybodaeth a ffiaidd Eulunaddoliaeth.

Oblegit eu teithiau a'u poen; eu haſtudrwydd a'u llwyddiant, yn eu gweinidogaeth, ſe ddangoſir mewn rhan, yn llyfr yr Actau neu weithredoedd yr Apoſtolion.

Yn y cyſamſer dechreuodd tywyſog teyrnas y tywyllwch, oſod allan ei holl allu a'i ddichell tuag at eu gwrthwynebu; canys ni's galle oddef fod y cyfryw rwygiadau yn cael eu gwneuthur yn ei deyrnas ef, yr hon a fwynhauaſe mewn heddwch dros gynnifer o oeſoedd.

Dwy

Dwy ffordd enwedigol a gymmerodd y Cy'thraul i rwyſtro gweinidogaeth yr Apoſtolion, y rhai hefyd y mae eſe yn ei arferu i wrthwynebu llwyddiant yr Efengyl ymmhob oes hyd y dydd hwn; ſef trwy gyffroi erledigaethau, a thrwy gwnnu Hereticiaid i waſcaru gau athrawiaeth.

Am erledigaethau'r Apoſtolion a'r brif Eglwys, y mae'r Actau yn crybwyll, a Hiſtoriawyr eglwyſig eraill yn dangos yn helaeth.

Yr Hereticiaid a'r gau-athrawon, y rhai a fuant ymmhob oes yn blino ac yn gormeſu Eglwys Griſt oeddynt aneirif. Yr Hereticiaid cyntaf yn yr Eglwys Griſtnogawl oedd y rhai hyn; Simon Magus, Menander, Ebion, *Dat.* 2, 6, 15. Nicolas, Corinthus. Y rhain a gyfodaſant yn amſer yr Apoſtolion, a'r athrawiaeth a'r opiniwnnau yr oeddynt yn eu ddala, oeddent gyfeiliornus a chableddus iawn. Ac ynghylch y pryd hwn ac yn yr oeſoedd neſſaf, ymddangoſodd y fath liaws o gau-athrawon, a'r fath amrywiaeth o Hereſiau, ac y bydde megis yn daſc, nid bychan, grybwyll yn unig eu henwau.

Eithr er bod yr Efrau hyn yn codi yn aml, a rhai o honynt yn ymledu yn ddirfawr: etto nid oeddent gan mwya ond o fyr barhad; canys ni's gallent wrthſefyll gallu a goleuni yr Efengyl. Eithr y mae un Heretic hynod, yr hwn a fy'n fwy niweidiol i Eglwys Dduw na'r rhai hyn oll. A hwn yma yw y Pâb ſydd yn Rhufain, yr Apoſtolion a rag ddywedaſant y cyfodai y cyfryw un i wrthnebu intereſt a theyrnas Ieſu Griſt, St. Paul

Paul yn 2 *Theſſ.* 2, 3, 12, a'r Apoſtol 1 *Joan* 2, 18. Am yr Heretic neu'r Anghriſt yma, ſef y Pâb, y mae llyfr y datcuddiad yn traethu mewn ffordd o brophwydoliaeth, ſe a'i gelwir yno mewn amryw fannau, yr Anifail, nid o herwydd nad ydyw ſe ond un gŵr yn unig, canys ſe ſu ychwaneg i ddau cant o babau o'r dechreuad; ond o herwydd eu bod hwynt oll, y naill ar ol y llall, yn cyttuno megis un gŵr, i gynnal i fynu ac i faentumio y cyfryw grefydd ac ſydd yn wrthwynebol i Griſt a'i Efengyl, ac yn ddiſtrywiol i eneidiau dynion.

Y modd y daeth eſcob Rhufain neu'r Pâb, i fod yn gyfryw Heretic anghenfil ydoedd ſel hyn.

Ymmhen ychydig o amſer ar ol ymadawiad yr Apoſtolion, ſe ddechreuwyd rhoddi mwy o barch i weinidogion, rhai trefydd, nag i weinidogion eraill. Fe roddid parch enwedigol i weinidog Jeruſalem, o herwydd mae oddiyno y daethai yr Efengyl allan i lewyrchu ar y cenhedloedd; I weinidog Alexandria, tref yn yr Aipht, o herwydd mai yno y buaſau yr Efangylwr St. Marc, dros dro yn gweni. I weinidog Epheſus, o herwydd fod yr Apoſtol Joan, ryw amſer yn olygwr ar yr Eglwys honno. Drachefn, rhoddid parch arbennig i weinidog yr Eglwys oedd yn Rhufain, o achos mae Rhufain oedd y dref bennaf yn yr amſer hwnnw yn yr holl fyd; yr ydys yn dywedyd hefyd, mae yno y cadd yr Apoſtol Peter ei ddiweddiad trwy ferthyrdod. A gweinidogion Conſtantinople a gaent flaenoriaeth, o herwydd mae'r

dre honno oedd Trigſa'r Emprwyr ar ol amſer Conſtantine. Gweinidogion y trefydd hyn a grybwyllwyd, a elwid, nid yn unig yn Eſcobion, ond hefyd yn Arch-Eſgobion, ac yn Batriarchiaid.

Yn awr y parch a roddid i'r rhain o ewyllys da, ac o ddefod ac arfer, darfu iddynt hwy o'r diwedd ddiſgwyl am dano, a'i honni megis pa buaſe yn ddyledus iddynt. Ac nid yn unig hynny, ond cymmeraſant arnynt hefyd reoli a llywodraethau gweinidogion ac eglwyſi yn y gwledydd oddiamgylch: Ac etto ymmhellach, darfu i'r rhai hyn, ſef eſcobion Rhufain, Epheſus, a Conſtantinople, &c. Darfu i'r rhain meddaf, fyned i ymryſon am y flaenoriaeth, yn eu myſc eu hunain; ie, aeth yn ymdaeru rhwng ddynt o'r diwedd, pa un o honynt a gae fod yn ben ar yr holl Eglwys weledig dros wyneb yr holl ddaiar. Yr ymdaeriad yma a barhaodd yn hir. Eithr trwy eu gyfrwyſdra a'u ddichell, darfu i eſcob Rhufain garrio y maes. Ac felly darfu iddo ſe, ſef eſcob Rhufain, ei oſod ei hun i fynu i fod yn ben-eſcob ar yr holl Eglwys weledig, i fod yn Ficcar neu'n ddepywti i Ieſu Griſt, i reoli yr Eglwys, ie a theyrnaſoedd y byd hefyd, megis dano ef.

Ond y mae i ni ddal ſulw, na ddarfu i eſcobion Rhufain gyrrhaeddyd i'r grâdd hwn o ryfyg a balchder ar unwaith, neu mewn ychydig o amſer. Fe fydd yn gan hynny, megis olthain yr Anghriſt hwn o'i ddechreuad.

Yr amſer cyntaf ac yr y'm yn darllen eſcobion Rhufain ymdderchafu ac ymddangos yn

yn uchel yn yr Eglwys oedd ynghylch y flwyddyn o oed Criſt, cant a phedwar ugain a phymtheg, (yr oedd hyn oddeutu can mlynedd ar ol marwolaeth yr Apoſtol Joan, yr hwn oedd weinidog neu'r eſcob yn Rhufain y pryd hynny a elwir Fictor. Darfu i'r Fictor yma gymmeryd arno yſgymmuno holl eglwyſi Aſia megis Heretieiaid. A'r holl achos oedd hyn; ſef am nad oeddent yn cadw gwyliau'r paſc wrth ei fodd ef. Mae'n wir na wnaed yno fawr o gyfri o'i yſgymmuniadau ef; etto hyn fydd yn dangos ffolineb a rhyfyg y dyn. O hyn allan ni gawn eſcobion Rhufain yn dirywio yn ddirfawr, ac yn gwyro bellach oddiwrth ddidwyll reol yr Efengyl.

Ac felly ymmhen ychydig amſer ar ol hyn yr y'm yn gweled y modd yr oeddent yn cymmeryd arnynt reoli a llywodraethu eglwyſi eraill, ymmhell ac yn agos, fel y gwelent hwy yn dda. Y rhai llygredig a fwrid allan o'r eglwyſi mewn rhai mannau, os bydde i'r rhain appelio at eſcob Rhufain, fy fydde iddo fe eu rhyddhau i'u hadferu i gymdeithas yr Eglwys Drachefn, erwy ei oruwch awdurdod. Felly y gwnaeth Cornelius, yr hwn oedd eſcob neu'n bâb yn Rhufain oddeutu'r flwyddyn o oedran yn Arglwydd, dau cant a deg a deugain; a Stephan, yr hwn a fu eſcob yno ynghylch y flwyddyn dau cant a thri ugain.

Yn y flwyddyn o oed Criſt dau cant a thriugain a chwech, darfu i ddau ŵr ſefyll i fynu am fod yn bâb; enw'r naill oedd Damaſcus a'r llall Urſinus. Ni fynne un roddi

lle i'r llall; ac felly ymrodd pob un o'r ddau wneuthur ei intereſt yn gryf ymmŷſc y bobl. A'r ddiwrnod y dyrfa a ymgynhullodd i lann ſydd yno a elwid St. Syſnyn, i ddewis un o'r ddau wr yma i ſod yn weinidog neu'n bâb. Eithr ar ol hir-ymddadleu ynghylch y peth, ac heb allael cyttuno, aeth o'r diwedd, yn ddarſod, ac yn ymladd, hyd onid oedd llawr y llan yn lliſo gan waed dynion; ac mewn un dydd y lladdwyd dim lai na chwech ugain a dau ar bymtheg o wyr yn yr ymraſael yma. Y cyfryw yſpryd a hwn oedd yma y pryd hyn. Pa mor wradwyddus oedd y fath beth i'r grefyd yr oedd y rhain yn ei proffeſſu nid rhaid dywedyd.

Ammianus Marcellinus.

Yn neſaf at Damaſcus, canys Damaſcus a ennillodd yr eſcobaeth, o herwydd i'w ochr a barti ef ſod yn drechaf, yn neſaf atto ef meddaf, un Siricius a wnaed yn bâb; ac yn neſaf at hwn Anaſtaſius, ac ar ol hynny Innocentius, Sozimus, Bonifacius, &c. Y rhai hyn oll a'r rhai a ganlynaſant hyd y flwyddyn chwech chant, a ledaſant eu pŵer a'u hawdurdod yn ddirfawr, dros yr eglwyſi yn y gwledydd oddiamgylch; a rhyfygu a wnaethai ordeinio ac appwyntio llawer o bethau yn yr eglwyſi nad ydyw'r yſcrythnr yn ſôn am dani ynt, ie yu wrthwyneb i'r yſcrythyr megis gwraſyn i weinidogion briodi, gweddio ar y feintiau, gweddio dros y meirw, a'r cyfryw beth yn aneirif.

Yn y flywyddyn o oed ein Harglwydd chwe

cha

chant a thair, darfu i Boniface III. y trydydd o'r enw, ei gyhoeddi ei hun yn eſcob cyffredinol, neu'n ben eſcob a'r yr holl Eglwys. Y pabau a fu o'i flaen ef yn Rhufain, oeddent yn arferu meiſtrolaeth ac awdurdod mawr dros holl eglwyſi Europe gan mwya, ond nid oeddent etto yn gallel eu proclaimio eu hunain yn ben eſcobion, o herwydd bod eſcobion Conſtantinople, ac Epheſus yn eu gwrthwynebu, y rhai hefyd oeddent yn ſefyll am y teitl a'r anrhydedd yma o fod yn ben ar yr Eglwys, megis y crybwyllwyd uchod. Eithr yn awr darfu i eſcobion Rhufain yn hollawl garrio'r goron, ac o hyn allan fe roddir iddynt enwau cableddus iawn, megis Ficcar Criſt, arch offeiriad, Arglwydd, Bâb, Duw ar y ddaiar, &c.

O amſer y Boniface yma, hyd y flwyddyn o oed Criſt un mil, bu ynghylch pymtheg a thriugain o babau neu eſcobion Rhufain. Yn y cyfamſer hwn cafodd y gwledydd Criſtnogol eu llygru etto fwy trwy gauathrawiaeth, ceremoniau a thraddodiadau dynol; megis ordeinio amryw wyliau er coffadwriaeth y ſeintiau, cadw eſcyrn yr hên fonachod (y rhai a gyfrifid yn ſeinctiau enwog) i'w haddoli; gofod i fynu ddelwau yn y llannoedd, a'u haddoli; cyflawni dyledſwyddau crefyddol mewn iaith nad alle'r bobl eu ddeall, a llawer ragor o'r cyfryw bethau. Yn yr amſeroedd hyn nid oedd ond peth cyffredin fod y babau eu hunain, nid yn unig yn feddwon ac yn loddeſiwyr, ond hefyd yn odinebwyr ac yn furdd-wyr, ie

yn

yn ddewinod ac yn gonſurwyr; a thrwy eu cwnſuriaeth y darſu i rai o honynt ddyfod i gael éu gwneuthur yn Babau.

Ynghylch y pryd hyn (ſef oddeutu'r flwyddyn un mil, ac un mil a chant) yr ydys yn gadel i bŵer ac awdurdod y Pâb gyrrhaeddyd i'r grâdd uchaf: A yn ſiccr yr oedd ei bŵer ef yn awr yn fawr iawn ac yn ofnadwy: Ac o ran ei gyfoeth a gogoniant ei lys, cyffelyb ydoedd i'r rhai mawrion y ddaiar; ei goron o aneirif werth, ei wiſcoedd o'r gwerthfawroccaf; ac am y rhenti a geſclid iddo trwy yr holl wledydd, nid oedd na rhif na diben o honynt. Iddo fe y perthyne wneuthur eſcobion, a'r arch eſcobion; y rhai hyn, ie, a phob Perſon-plwyf trwy holl Europ oedd raid iddynt dalu iddo ef (ſef i'r Pâb) ryw faint o rent mewn ffordd o gydnabyddiaeth, megis pen yr Eglwys: Ac heblaw hynny, nis gellir cyfri pa nifer o ffyrdd a dichellion yr oedd efe yn ei arferyd tuag at lenwi ei dryſſorau, hyd onid oedd y byd yn rhyfeddu pa fodd yr ydoedd yn gallel gwario yr holl olud a ddygid atto. Coronau a theyrnaſoedd Emprwyr, brenhinoedd a thywyſogion, ar ei rodd ef yr oeddent; a mwy o lawer yr ofnai y rhain y Pâb nac yr ofnent y naill y llall; canys os bydde i neb rhyw frenin neu Emprwr ei anfodloni ef, fe fydde iddo yn ebrwydd ei yſcymmuno; a'r brenin a eſcymmunir gan y Pâb, fydd yn y man yn florfletio neu'n colli ei hawl i'w goron; ac y mae yn gyfreithlon (yn ol y grefydd babaidd) i'r neb a

a fynno ei lladd, a chymmeryd meddiant o'i deyrnas a'i goron. Ac arfer y Pâb ydyw, gwardd deiliaid y brenin a'i eſcymmuno efe na roddont ddim ufudd-dod iddo ymmhellach, ie, bwgwth eu heſcymmuno hwynt hwythau oni bydd iddynt ei ſwrw ymmaith; ac heſyd, annog brenhinoedd eraill i ryſela ac ef, a chymmeryd ei deyrnas yn yſclyfaeth rhyngddynt. Fel hyn y gwnai'r Pâb i'r pennaethiaid mwya blygu; a hwy a lenwid a dychryn cyn gynted ac y byddai iddo efe daranau ei iygythion.

O'r flwyddyn un mil, hyd y flwyddyn o oed Chriſt, un mil a phum cant, bu oddeutu pedwar ugain o babau a eiſteddaſant yn y gadair offeiriadol yn Rhufain. Tu ſewn i'r yſpaid hwn o amſer, cyfododd math o ſectau neu rywogaethau newyddion o offeiriaid pabaidd; ſef y Dominicanod a'r Ffranſiſcanod. Y rhai hyn a elwir Ffreiers, hynny yw Brodyr; ac yn ddiammau y maent megis Brodyr yn cyttuno i gynnal y gretydd Rufeiniaidd. A gellir dywedyd, mai y rhai hyn ynghyd a'r Jeſuitiaid ydyw yr atteg benna ac ſydd yn dal i ſynu deyrnas y Pâb. O ran eu rhiſedi yr oeddent, ac y maent etto yn aneiriſ, yn ymdannu dros yr holl wledydd. Y dyſcedig o'r gretydd broteſtanaidd ydynt yn barnu mae y genedl hon o ddynion ſydd i ni ddeall wrth yr locuſtiaid yn llyfr datcuddiad Joan, *Dat.* 9, 3. Fe ddywed hiſtoriowyr ſod y pryfaid hynny, ſef y locuſtiaid, mewn

Math arall o Offeiriaid Pabaidd.

mewn rhai gwledydd yn ehedeg yn gyfryw fyddinoedd mawrion, hyd onid ydynt yn tywyllu goleuni'r haul, a ficcr yw fod yr offeiriaid pabaidd yn cadw'r bobl mewn tywyllwch yſpryd-ol, trwy gloi i fynu yr yſcrythyr mewn iaith ddieithr, thrwy eu coeg ſeremoniau a'u haneirif draddodiadau dynol.

Toſt ac echryſlon ydoedd ſtat a chyflwr yr holl wledydd Griſtnogol yn yr amſeroedd hyn. Yn lle'r Bibl Sanctaidd, cyfreithiau'r Pâb a oſodid o flaen dynion, a rhai oeddent mewn llawer o bethau yn gwrthnebu gorchmynion Duw. Yn lle ſymlrwydd yr Efengyl, llanwyd y bŷd a deſodau cnawdol ac ordinhadau dynol. Goſodid i fynu fwy o weddiau at y forwyn fair nac at Dduw, Arglwydd Nêf a daiar. Byddid yn fwy manwl i gadw gwyliau o appwyntiad dynion nac i Sancteiddio'r Sabboth. Lle mae yr Efengyl yn dyſcu i ni neſau at y tâd trwy yr unig gyfryng-wr fydd rhwng Duw a dyn, ſef yr Arglwydd Ieſu Griſt; y mae gan y Papiſtiaid ſiloedd o gyfryng-wyr; canys gweddio a wnant ar y ſeinctiau, ar iddynt hwy eiriol troſtynt. Y ſeinctiau yma, hên fonachod oeddent gan mwya, y rhai mae eu Legendau hwy (hynny yw, yr Hiſtoriau Pabaidd) yn dywedyd eu bod yn wyr hynod o ran eu duwioldeb a'u ſanctеiddrwydd gynt. Yr oedd megis ac y mae etto ganddynt yn yr holl wledydd pabaidd, ddelwau neu luniau y monachod, wedi gwneuthur o goed neu faen, yn eu tai ac yn y llan-noedd, y rhai helyd a addoant.

Fel

Fel hyn y darfu i'r bobl yn gyffredinol gymmeryd eu hudo a'u tywys gan athrawiaethau diniſtrol y Pâb a'i offeiriaid: Canys am na dderbyniaſant gariad y gwirionedd fel y byddent gadwedig, danfonodd Duw iddynt amryfuſedd cadarn fel y credent gelwydd, 2 *Theſſ.* 2, 10, 11.

Fe ofynnir, ſe alle, pa le yr oedd pobl Dduw neu wir ganlynwyr Ieſu Griſt y pryd hwn? Canys ni's gall lai na'u bod yn rhyw le ar y ddaiar ymmhob oes.

Att. Yr amſeroedd hynny pan yr oedd pabyddiaeth wedi goreſcyn, yr holl wledydd oeddent gyffelyb i'r amſer yr oedd Ahab yn frenin ar Iſrael gynt. Yr Iſraeliaid y pryd hynny oeddent wedi troi yn Eulunaddolgar mor gyffredinol, 1 *Bren.* 19, 14, 18. Hyd oni theby-godd Elias nad oedd ond ef ei hun yn unig yn glynu wrth addoliad y gwir Dduw, *Rhuf.* 11, 4. Eto yr oedd ſaith mil y rhai ni phlygaſant eu gliniau i Baal. Felly yn yr amſeroedd yma pan oedd rheolaeth y Pâb helaetha, yr oedd rhai dynion yn ymgadw yn ddihalog oddiwrth Eulunaddoliaeth a ffieiddra y gre'ydd babaidd. Eithr yr oedd y rhain gan mwya yn ddirgeledig, canys nid oedd ond ymbeſl un o honynt yn ymddangos yn gyhoeddus i geryddu, ac i ddwyn tyſtiolaeth yn erbyn yr aflendid a'r ffieidd-dra yr oeddent yn eu weled.

Ac fel hyn y bu Eglwys Dduw megis ar gil, a than gwmmwl dros lawer o oeſoedd, yn ol yr hyn a rag ddangoſwydd i'r Apoſtol Joan, *Dat.* 12, 1, 7.

Eithr yr amſer a ddaeth o'r diwedd pan welodd Duw

Duw yn dda ddechreu gwaredu y gwledydd Chriſtnogol o'r caethiwed yſprydol yr oedd y Pâb yn eu cadw yntho. Yr oeddent yn awr wedi godde yr jau yma dros lawer o flynyddoedd: Ond bellach darfu i rai wedi eu cynhyrfu gan Dduw, ymoſod yn wrol i'w thaflu ymmaith, trwy wneuthur Reſſormaſion neu ddywigiad yn ol rheol gair Duw, gan ymwrthod a chyſreithiau yr Anghriſt, defodau ac athrawiaethau cableddus Eglwys Rhufain.

Fe fydd i ni, gan hynny, yn y lle neſaf, roddi cyſri byrr neu hanes o'r Reſſormaſior neu'r diwygiad yma; oblegid y modd y dechreuwyd ac y dygwyd ymmlaen hyd yr amſer preſennol.

Yn y flwyddyn un mil pum cant a dwy ar bymtheg, Martin Luther a ddechreuodd ddangos i'r bŷd yn gyhoeddus, mae'r Pâb oedd yr Anghriſt mawr a rag-ddywedaſid am dano gan yr Apoſtolion gynt: ac am Eglwys Rhufain, mae Synagog Satan ydoedd; gan letain a llêf uchell os addola neb y bwyſtfil a'i ddelw ef, caiff yſed o win digolaint Duw, *Dat.* 14, 9, 10.

Y Luther yma, gwr o dref Wittemberg yn Germany ydoedd; ac o ran ei alwad, yr oedd ef ei hun yn offeiriad pabaidd ar y cyntaf. Eithr yr oedd ef yn gyfryw un ac oedd ef yn rhoddi mwy o barch i'r yſgrythyr, ac yn gwneuthur llai o gyſri o draddodiadau dynol, nac eraill o'r Papiſtiaid yn gyffredin.

Y modd yr ymddarfododd Luther a'r Pâb, a'r achlyſur a gymmerodd i ymadel a chymdeithas Eglwys Rhufain, ydoedd fel y canlyn.

Yn y flwyddyn a grybwyllwyd, ſef un mil pum cant a dau ar bymtheg, yr oedd *Leo* X. (y degfed

degfed o'r enw) yn bab yn Rhufain. Y *Leo* yma ydoedd yn gyfryw loddeſtwr nad oedd yr holl renti ac oeddid yn eu gaſclu iddo yn ddigonol i gynnal ei rwyſg a'i rodres. Am hynny eſe a gymmerodd yn llaw y ffordd fwya effeithiol i gludo yr arian ynghyd; ſef trwy waſcaru ei indulgenſes tros yn holl wledydd. Peth hyſpys ydyw, fod y Pâb yn cymmeryd arno faddeu pechodau, nid yn unig i'r rhai byw, ond hefyd i'r meirw, trwy roddi gollyngdod iddynt o ryw ſlat o boenau y mae y Papiſtiaid yn ei alw y Purdan. Yr indulgenſes yma oeddent ſcrifennadau bychain ac Enw, Stamp, neu ſêl y Pâb wrthynt, yn cynwys gollyngdod a maddeuant o'u holl bechodau i bawb a'u prynent. Ac felly y *Leo* hwn a huriodd ei weiſion (y ffreiers) i fyned i waſcarau a gwerthu yr indulgenſes yma trwy yr holl deyrnaſoedd.

Martin Luther, pan glywodd y fath ganmoliaeth yr oedd y ffreiers yn eu pregethau, yn ei roddi i'r war, neu'r farſiandiaeth yma, (ſef yr indulgenſes) a phan welodd hefyd y modd yr oedd bagad o honynt yn afradu mewn cyfeddach ac aflendid, yr arian yr oeddent yn dderbyn am danynt: Ac arian yn ddifeſur yr oeddynt yn ei dderbyn; canys pob graddau o ddynion a ddawent i brynu; ie y gwerinos tlodion a ymadawent a pheth o'r ychydig oedd ganddynt i bwrcaſu indulgenſes, yn gymmaint a bod yr offeiriaid yn peri iddynt gredu eu bod yn cael eu rhyddhau trwyddynt oddiwrth eu holl bechodau. Luther, pan welodd y pethau hyn, gan doſturio fod

eneidiau

eneidiau gwerthfawr trwy'r cyfryw fradwriaeth a thwyll yn cael eu tywys i ddiniſtr, ni's galle ymattal; am hynny ſe ddechreuodd ddwyn tyſtiolaeth yn eu herbyn; a chymmerodd fawr boen trwy bregethu a ſcrifennu i rybuddio'r bobl, ar iddynt ochelyd rhag athrawiaeth ddiniſtriol y ffreiers a'u Handulgenſes.

Erbyn hyn, megis nas galle ddiſgwyl lai, yr oedd iddo elynion a gwrthwynebwyr yn aneirif. Canys yr holl offeiriaid pabaidd a ymoſodaſant i wrthnebu ei athrawiaeth ef, ie ac i'w ddifetha ef ei hun helyd. Eithr Doctor Luther, yn gymmaint a'i fod a'r gwirionedd ar ei ochr, ac yn fawr ei ddyſc, ac yn llawn o Zel, ond yn bennaf o herwydd bod Duw yn ei gynnhyrfu ac yn ei gynhorthwyo, a ymrodd i ſefyll i fynu dros y gwirionedd yn ei herbyn hwynt oll. Ac felly o hynny y allan yr aeth yn ddihardeb, un Luther yr erbyn yr holl fyd.

Ynghylch y pryd hyn y darfu i Luther gyntaf, lwyr ymoſod i chwilio ac i ſtudio pyngciau y grefydd babaidd; thrwy eu manwl chwilio wrth reol yr yſcrythyr, a'u compario wrth ddyſcyblaeth yr Eglwys yn yr oeſoedd cyntaf (ſef yr oeſoedd neſa at yr Apoſtolion;) fe ddeallodd i Eglwys Rhufain ddirywio yn ddirfawr, a myned o honi yn Buttain erchyll; ac nad oedd yn briod Iefu Criſt mo honi, megis y mae hi yn proffeſſu ei bod; ac am y Pâb ei hun yr hwn ſydd yn cymmeryd arno fod yn ben-bugail yr Eglwys, neu'n Ficcar Criſt ar y ddaiar, mae'r gwrthwynebwyr penna i deyrnas Criſt ydoedd.

Amryw

Amryw foddion a arferwyd i'w ddiſtewi ef; ceiſiwyd ei berſwadio trwy addfwynder a geiriau teg: Gynnig iddo olud a lleoedd neu ſwyddau uchel yn yr Eglwys y rhai a ddygent iddo elw. Anrhydedd a pharch; eithr yr un gyfrif a wnae Luther o'r pethau hyn ac y wnae Moſes gynt o dryſorau'r Aipht. Ac am hynny yn y lle neſaf darfu i'r Pâb ddeilio ac ef mewn dull arall; ſef trwy ei fwgwth, a'i ymlid, ie a'i Eſcymmuno, gan ei ddeclario a'i gyhoeddi yn Heretic; a gorchymmyn i bawb dan boen Eſcymmundod, na bydde iddynt gadw cymdeithas ac ef, ond ar iddynt ei erlid a'i ddal tuag at ei goſpi trwy ei fwrw i'r tân. Canys felly y mae gwyddor ac arfer y Papiſtiaid, ſef lloſci yr Hereticiaid yn tân. Eithr er mor lluoſog oedd ei elynion, ac er maint eu llid a'u cynddaredd tuag atto, Duw a fu yn ymgeleddwr ac yn geidwad iddo; ac felly wedi gorphen o hono ei yrfa, bu farw mewn heddwch. O herwydd pa ham yr ydys yn dal ſulw ar dri pheth hynod mewn perthynas i Luther. 1. Iddo ef (ŵr o iſel radd) lyfaſu ſefyll i fynu yn erbyn y Pâb. Yr hyn beth ni feiddiodd un pennaeth Emprwr neu frenin o'i flaen ef ei gynnig. 2 Iddo allael prefaelio yn ei erbyn a'i orthrechu. 3 Ddigwyddo iddo yn y diwedd farw ar ei welu mewn heddwch, er maint o gynllwynion a dichellion a arferwyd i'w ddal a'i ddifetha. Ei oedran pan fu farw oedd dri ugain a thair; dros yſpaid naw mlynedd ar hugain y bu yn ymdrechu a'r Pâb yngwaith y refformaſion.

Yn

Ynghylch yr un amſer ac y dechreuodd Luther ei dyſtiolaeth yn erbyn Eglwys Rhufain (neu ychydig ar ol hynny), cyfododdd Duw eraill mewn amryw wledydd i fod megis yn gynnorthwy-wyr ac yn gyd weithwyr iddo, ſef Philip Melancton, Martin Bucer Petr Martyr, Ulric Zwinglius Ecolampadius, John Calvin, Theodor Beza a'r cyfryw. At hrwy yr offerynnau yma y gwnaed y fath rwyg yn nheyrnas y Pâb ac nas atgyweirir, yr y'm yn gobeithio fyth mo honi; canys yr amſer hwnnw darfu i lawer o wledydd ymwrthod a'r grefydd babaidd, ſef Geneva, amryw ardaloedd yn Ffrainc ac Italy. Switzerland, rhan fawr o Germany, Pruſſia, Sweden, Denmark, a Brydain. Y rhai hyn ydynt megis blaen ffrwyth y diwygiad mawr ſydd ar ddyfod, pan fytho i'r Arglwydd lwyr ddifethu y dyn pechod (ſef y Pâb ac yſpryd ei enau a'i ddileu a diſcleirdeb ei ddyfodiad 2 *Theſſ.* 2, 8. A dyledſwydd pawb ac ydynt ewyllyſwyr da i Seion yw, dyfal oſod i fynu eu herfyniau at Dduw a'r iddo fryſio cwymp Babilon Rufeinaidd, a rhoddi gollyngdod i'r eneidiau y mae hi yn ei dal mewn tywyllwch, i ddyfod o honynt i wybodaeth y gwirionedd fel y byddont gadwedig.

Wedi dangos o honom y modd y dechreuodd Luther y dywygiad yn Germany, a'r teyrnaſoedd oedd amgylch; deuwn yn neſaf yn fwy neilltuol i draethu am y Refformaſion neu'r diwygiad a wnaed yn ein gwlad ni ein hunain, ſef Brydain.

Brydain yw un o'r ynyſoedd pell, hynny ac y darfu *Eſa.* 66, 19. *Pen.* 60, 9. 51, 5. I Broph-

Brophwydi Iſrael gynt rag-ddywedyd y caent ſod yn gyfrannogion o tendithion yr Efengyl a rhagorfreintiau Pobl-Dduw. Ac yn ddiau y mae yr ynys hon dan rwymedigaeth arbennig i uno gydag eraill o'r cenhedloedd i ogoneddu Duw am ei drugaredd, *Rhuf.* 5, 19. Canys wedi caffael o'r Apoſtolion orchymmyn i gyhoeddi newyddion da yr Efengyl i'r holl genhedloedd, yn ebrwydd darfu i'w ſwn hwy gyrraed yr hên frytaniaid.

Nid ydyw amlwg pwy ydoedd y gweinidogion a blannaſant y grefydd Griſtnogaidd yn yr ynys yma gyntaf. Eithr y mae gennym hyſpyſrwydd i'r Efengyl gael ei phregethu yn y wlad hon ynghylch y flwyddyn o oed Criſt tri ugain ac un (ſef wyth mlynedd ar hugain ar ol ei eſcynniad ef) pan oedd Paul, Petr ac Joan, ac ſe alle eraill o'r Apoſtolion, etto yn fyw. *Gildas Cambr.*

Wedi i'r Efengyl ddechreu cael ei phregethu yma yr amſer y grybwyllwyd, bu dros rai oeſoedd yn dra-llwyddiannus i droi ac i ddywygio ein hên hynafiaid, y rhai a fuaſant hyd yn hyn yn Eulunaddolwyr megis y cenhedloedd eraill oddi amgylch, felly y darfu i'r holl drigolion o fewn yr ynys, ddyfod i wneuthur proffeſſiad gyhoeddus o'r grefydd Griſtnogawl.

Eithr ynghylch y flwyddyn o oed ein Harglwydd Pedwar cant, yr y'm yn darllen iddynt oeri yn eu Zel, a myned yn llygredig iawn; hyd onid aeth eu ſtat a'u cyflwr yn gyffelyb i'r hyn yr ydys yn dywedyd oblegit yr Iſraeliaid yn amſer y Prophwyd, *Eſa.* 1, 5, 6. Y Pen

oll

oll ſydd glwyfus, a'r holl galon yn lleſc o wadn y troed hyd y pen, nid oes dim cyfan ynddo. Hynny yw, yr oedd y brenin a'r deiliaid bonheddig a gwreng uchel ac iſel, wedi ymadel a Duw, a myned yn llygredig yn eu holl ffyrdd. Ac megis ac y darfu i Dduw goſpi yr Iſraeliaid am eu hannuwioldeb a'u mawrion anwireddau, trwy roddi eu tir yn anrhaith i ddieithraid, *Eſa.* 1, 7. Ac o'r diwedd trwy eu ſymmud allan o'u gwlad; felly y ceryddodd efe yr hên Frutaniaid, trwy godi y Picts, pobl wylltion o'r gogledd, yn eu herbyn; a'r Scots (pobl o'r Iwreddon) y rhai hefyd oeddent yn farbaraidd yr amſer hwnnw; ac ar ol hynny trwy y Saxons, neu'r Saeſon, y rhai o'r diwedd a'u gwthiaſant o'u gwlad, ac a breſwyliaſant yn eu lle.

Yr Achlyſur a gafodd y Saeſon i ddyfod i Frydain gyntaf, ydoedd fel hyn.

YNghylch y flwyddyn o oed Griſt pedwar cant deugain a phump, pan oedd y Brutaniaid wedi bod yn awr, dros amryw flynyddoedd mewn dirfawr ofid a thrallod, o herwydd yr yſpail a'r glanaſtra yr oedd y Picts a'r Scots, yn gwneuthur yn eu myſc, darfu iddynt ddanfon at y Saeſon i ddeiſyf eu help a'u cynnhorthwy yn erbyn y gelynion yma. Y Saeſon, pobl Baganaidd, Eulunaddolgar oeddent y pryd hynny, yn cyfaneddu y rhan honno o Germany elwir yn awr Saxony.

Ar y gwahoddiad yma y Saeſon a ddaeth-

ant

ant trwodd i Frydain, a buant gynnorthwyol i'r Brutaniaid i orchfygu, ac i yrru allan eu hên elynion (ſef y Picts a'r Scots). Eithr ar ol y ymmwynas hwn, hwynt hwy eu hunain a briſiant yn elynion oedd waeth. Canys wedi dyfod o honynt i'r wlad, a gweled pa mor ffrwythlon a chyfleus ydoedd, darfu iddynt ymroi i gymmeryd meddiant o honi a phreſwylio ynddi, yn lle dychwelyd yn ol Dracheſn i'w gwlad eu hunain. Eu heſcus a'u pretens ydoedd, na dderyniaſent gyflawn wobr a thaledigaeth am y gynnhorthwy a roddaſent. Ac o'r diwedd darfu iddynt, Brefaelio ar y brenin oedd ym Mrydain y pryd hwnnw, enw yr hwn oedd Forigern, i roddi iddynt gwrr o'r tir yn breſwylfa i gyfanneddu ynddo. Y rhan yma a roddwyd iddynt ydyw a ſir a elwir yn awr Kent. Eithr y Saeſon mid oeddent etto ddigonol, canys yn lle byw yn llonydd ac yn heddychlon ar y rhandir a gyfrannwyd iddynt, hwy a anfonaſant yn ol i'w gwlad eu hunain (ſef Saxony), i wahodd eraill o'u cyd-wladwyr i ddyfod i rannu'r Yſpail. Ac yn ebrwydd daeth drwodd i Frydain ychwaneg o'r Saeſon; ac heblaw y rhain daeth dwy genedl eraill o gymmydogion iddynt, y rhai a elwid Angli a Juthi; ac oddiwrth yr Angli hynny y mae y Saeſon yn eu galw eu hun yn awr Angliſh neu Engliſhmen. Hyn a fu oddeutu'r flwyddyn pedwar cant a phymtheg a deugain.

Ac felly y tair cenedl a grybwyllwyd, a ddaethant yma yn dorfeudd mawrion, gan adael eu gwlad eu hunain yr hon a fu yn an-

ial dros rai cannoedd o flynyddoedd wedi, ac y yrrafant y Brutaniaidd o'r rhan oreu o'r ynys, fef Lloegr, i'r parthau mwya anghyfannedd a mynyddig o honi, fef Cymru, lle trigiafant yn neilltuol ac yn ddigymmŷfc o'r amfer hwnnw hyd yr awr hon. Er na chollodd y Cymru mo'u gwlad chwaith heb hir ymdrech a'u gelynion: canys darfu iddynt wrthwynebu y Saefon dros amryw flynyddoedd, ie weithiau eu gorchfygu a'u herlid; fef yn amfer teyrnafiad brenin Gwortimer ac Emrys, a'r enwog Arthur. Y brenin Arthur a deyrnafoedd ynghylch y flwyddyn o oed ein Harglwydd pum cant a deg ar hugain. Yr hen Hiftoriau ofer a luniodd y Mynachod, oblegit y gwr hwn a bareu i un debied, nad yw'r cwbl a ddywedir am dano ddim amgen na hen Chwedl. Eithr yn ddiau yr ydoedd (megis y mae Hiftorians cywraint a geirwir yn mynegi) yn ŵr nerthol a grymmus, ac yn rhyfelwr hynod; a bu o fewn ychydig i yrru y Saefon allan o'r wlad. Ond ar ol ei amfer ef, darfu iddynt ymgadarnhau Drachefn, a phrefaelio yn erbyn yr hen drigolion, a pherchenogi y rhan fwya o'u tir a'r ddofparthu rhwngddynt eu hunain. Canys yr oedd y peth, mae'n debygol, oddiwrth Ddiuw, yr hwn a fynne gofpi pobl aniolchgar, anffrwythlon a gwarthnyfig. Y neb a ddarlleno hanes eu drwg fucheddau o bob galwad a gradd, ni ryfedda i'r cyfryw ddialedd ddigwydd iddynt. Gŵr hynod dyfcedig, yr hwn oedd ei hunain yn Gymro, ac yn byw yn yr amferoedd hyn-

Bede.

Gildas Britannicus.

ny ſydd yn dywedyd ſel hyn, Cybydd-dra a gorthrymder y tywyſogion; Anghyfiawnder a chamwedd y barnwŷr a'r ſwyddogion gwledig, eſceuluſdra a diogi y gwenidogion, anghymmedrolder a drwg fuchedd y cyffredin-bobl (y pethau hyn) a barodd i'r Brutaniaid golli eu gwlad.

Y Saeſon megis y crybwyllwyd, oeddent etto yn eulun addolwyr; eithr y Cymru, o herwydd y gelyniaeth oedd rhyngddynt, nid oeddynt yn ewyllyſio cyfrannu iddynt yr wybodaeth o'r gwir Dduw. Ac felly parhaodd y Saeſon yn eu heulun addoliaeth hyd ynghylch y flwyddyn o oed Criſt chwech chant, pan yr anfonodd y Pâb Gregory, rai o'i offeiriaid i Loegr i bregethu iddynt; a hwy a drowyd yr amſer hwnnw i'r grefydd Babaidd, wrth yr hon grefydd y glynaſant gan mwya hyd deyrnaſiad Harry VIII. ſef, hyd y flwyddyn un mil pum cant a thair ar ddeg ar hugain.

Y Cymru wedi cael o honynt eu gyrru gan y Saeſon i gongl yr ynys lle y maent yn awr, a oſodaſant i fynu lywodraeth wledig yn eu myſc eu hunain, ac a fuant fyw lawer o oeſoedd dan eu tywyſogion a'u llywodraethwyr eu hunain, ſef hyd y flwyddyn un mil dau cant a phedwar ugain, y pryd y darfu i Edward I, Y cyntaf o'r enw, orchfygu a llwyr ddaroſtwng y Cymru: Ac o hynny allan bu Cymru a Lloegr yn un deyrnas, dan un pennaeth.

Y Saeſon megis y dywedaſom uchod, a drowyd i'r grefydd Babaidd trwy weinidogaeth

cennhadon y Pâb; ac am hynny yr oedd Lloegr dan lywodraeth y Pâb, mewn matterion eglwyſig, a than rwymedigaeth i dderbyn pob math o ſeremoniau, ac a appwyntid o amſer i amſer gan Eglwys Rhufain.

Eithr y Cymru, y rhai oeddent wedi derbyn yr Efengyl ychwaneg i bum cant o flynyddoedd o'r blaen, hwynt hwy meddaf, a lynaſant oddieithr mewn rhai pethau wrth y ffurf o athrawiaeth, ac wrth y ddyſcyblaeth eglwyſig a dderbyniaſent ar y cyntaf, yn amſer yr Apoſtolion. Ac felly eu hathrawiaeth a'u gwyddorion oeddent bur ac jachus, er bod yn gyffredin eu harferion a'u hymmarweddiad yn ddrwg. Y Pâb a amcanodd yr amſer hwnnw dynnu y Cymru hefyd dan ei jau, ſef, peri iddynt ddyfod dan ei reolaeth ef, a'i arddel ef yn beneſcob megis yr oedd y rhan fwyaf o'r gwleddydd Criſtnogol yn Europ eiſoes yn gwneuthur. Ond y Cymru a'i llwyr wrthodaſant ac a gadwaſant eu rhyddid. Ac am y grefydd a dderbyniaſe y Saeſon y Rhufain, ni chyfrife y Cymru mo honi fawr well na'r eulin-addoliaeth oedd ganddynt o'r blaen. Wrth hyn y gallwn ddeall pa wahaniaeth, ſydd rhwng y grefydd Griſtnogaidd pan dderbynier trwy weinidogaeth yr offeiriaid pabaidd, a phan ei derbynier yn ei Symlrwydd megis y traddodwyd gan Grift a'i Apoſtolion.

Bede

Peth dymmunol a chanmoladwy iawn fuaſe i'r Cymru barhau ac aros yn waſtadol yn y pethau a ddyſcaſent, a dal yn wrol yr athrawiaeth jachus a dderbyniaſant ar y cantaf.

Eithr

Eithr trwy ddichellion a chyfrwyſdra y Pâb, ac o herwydd y tu eddrwydd ſydd ynghalon dŷn i ymwrthod a phurdeb crefydd, a grym duwioldeb, ac i orphwys yn y ſſurf oddi faes; digwyddodd iddynt hwythau hefyd (ſef y Cymru) ar ol hir amſer uno gyda'u Cymmydogion y Saeſon, i fod yn aelodau o Eglwys Rhufain. Ac erbyn hyn yr oedd yr Eclips o dywyllwch yſprydol wedi myned dros yr holl ynys.

Pa amſer y darfu i'r Cymru ymddaroſtwng i'r Pâb a derbyn y grefydd Babaidd, ni's gallwn ddywedyd yn ſicer: Eithr mae'n debygol, mae ynghylch y flwyddyn o oed Criſt un mil; canys yr y'm yn darllen i eglwyſi Cymru yn y flwyddyn un mil un cant a phymtheg, gyttuno i fod dan olygiad Arch-eſcob Canterbury.

Ac felly o'r diwedd y Cymru o honynt hwythau a ymfodlonaſant i fod yn Bapiſtiaid. Fe fydd, gan hynny, yn y lle nefaf roddi byr hanes o'u ſtat ar ol derbyn o honynt y grefydd newydd hon.

Yn awr yr oedd yn rhaid iddynt arddel y Pâb yn ben-dyſcawdwr ac yn Olygwr, a derbyn pob pwngc o athrawiaeth a addyſcau eſe heb ddim amhenaeth, ie, er bod y peth a ddywede yn ymddangos yn wrthnebol i'r yſcrythyr lân. Canys y mae y Pâb yn chwennych peri i'r byd gredu ei fod ef yn Ddoctor Infallibilis, hynny yw, y cyfryw ddyſcawdwr ag na all gamgymmeryd mewn matteriion yſprydol. Y rhagorfraint hwn a gafodd, medd eſe, o herwydd i Criſt ei wneuthur ef yn

Ficcar

Ficcar neu'n ddepywti tano ef ar y ddaiar, i olygu dros yr holl Eglwys weledig. Eithr pa lath athro neu ddyſcawdwr ydyw, a ymddengys with y pethau hyn a ganlyn.

Y mae efe, gan hynny, ſef y Pâb, yn dyſcu ac yn haeru, nad oes jechydwriaeth i neb a fo allan o gymdeithas Eglwys Rhufain; yn gorchymmyn i'w ddilynwyr, ladd a diletha y ſawl na ymfodlonant ei gymmeryd ef yn ben-bugail, ac yn dywedyd y bydd iddynt trwy hynny, haeddu bywyd tragwyddol.

Dywedyd y mae hefyd, mae mammaeth duwioldeb yw anwybodaeth; ac am hynny y mae efe yn gwrafyn i'r bobl gyffredin, gael yr yſcrythyr yn eu iaith eu hunain. Nid yw gwybodaeth, medd efe, yn angenrheidiol i weithredu ffydd, eithr fod yn ddigonol i iechydwriaeth, os bydd i un gredu fel y mae yr Eglwys yn credu, er na bytho ganddo wybodaeth neilltuol chwaith o'r pethau y mae yr Eglwys yn eu gredu. Hefyd, fod gweithredoedd da yn haeddu bywyd tragwyddol; fod gantho ef gyflawn bŵer i faddeu pechod; fod ei bŵer a'i awdurdod ef, yn cyrrhaeddud yn unig tros yr holl Eglwys weledig; ond hefyd dros yr holl dywyſogion a brenhinoedd y ddaiar, a bod holl wleidydd a theyrnaſoedd y bŷd ar ei rodd e. Ymmhellach, dywedyd y mae fod y bara a'r gwin yn y Sacrament o Swpper yr Arglwydd yn cael eu troi yn wir gorph a gwaed Crift. Perffaith gig a gwaed, medd efe ydynt, ac eu bod i'r olwg, a'r teimlad, a'r archwaeth yn ymddangos yn fara ac yn win. Drachefn we

wedi i'r bara a'r gwin yma gael eu troi yn ol athrawiaeth y Pâb, yn gorph a gwaed Criſt, yr offeiriaid Pabaidd ydynt yn gwneuthur offrwm o honynt; ſef yn y modd hwn, hwy a'u derchafant i fynnu rhwng eu breichiau, megis ac yr oedd yr offeiriaid dan y gyfraith gynt yn gwneuthur a'r offrwm-gwhwfan; ac ar hyn, fyrth yr holl gynlleidfa ar eu gliniau i'w addoli; a'r offrwm hwn, medd y Pâb, fydd yn lleſol, nid yn unig i'r rhai byw, eithr hefyd yn iawn dros bechodau y rhai meirw. Yr offrwm yma a eilw y Papiſtiaid, offrwm y Maſs dros y byw a'r meirw. Yn Eglwys Rufain nid yw gyfreithlon i neb ond i'r offeiriaid yn unig gymmeryd o'r bara a'r gwin yn y Sacrament; eithr am y bobl gyffredin, ni chae'n hwynt hwy ddim ond y bara yn unig; yngwrthwyneb i eſampl a gorchymmyn Criſt a'i Apoſtolion. Y pab ſydd hefyd yn dyſcu i'w canlynwyr wneuthur delwau neu duwiau i arwyddoccau ac i arddangos y tri phersfon yn y drindod; a delwau er coffadwriaeth y ſeinctiau a'r hên fynachod, a'u haddoli. Yr yſcrythyr, medd efe, ſydd amherffaith ac annigonol i hyfforddi ac i gyfarwyddo dyn ym matteron ei enaid; ac am hynny y mae heblaw yr yſcrythyr, ryw hên draddodiadau yn Eglwys Rufain, y rhai medd y Pâb, ſydd raid eu dyſcu a'u cadw gan bawb ar a fynnant fod yn gadwedig.

Ac felly wrth yr ychydig bethau hyn, canys ni chrybwyllais ond rhai o'r aneiriſ bethau, ymmha rai y mae y pab yn gwrthnebu

nebu athrawiaeth Griſt, yr hwn y mae efe yn cymmeryd arno fod yn Ficcar iddo; etto meddaf, wrth yr ychydig hyn, nid yw anhawdd i ni ddeall greſynol gyflwr ein hên hynafiaid pan roddaſant eu hunain dan dywyſiad a golygiad y cyfryw fugail.

Am y greſydd a'r dull o addoliad oedd ganddynt yn yr amſer hwnnw, taſc rhyfawr yw roddi cyflawn hanes o honynt. Gellir mewn rhan ddeall pa fath oeddynt oddiwrth yr hyn a ddywedaſom eiſoes am eu Pen-eſcob a'u Hathro: Etto fe alle na fydde anghymmwys i ni roddi ychydig gyfri yn fwy neilltuol o'u plegit.

Yn gyntaf, gan hynny, darfu i'r Cymru pan dderbyniaſant y greſydd Babaidd ymwrthod a'r yſcrythyr, canys yn awr yr oedd y llyfr Sanctaidd hwn iddynt hwy megis llythyr ſeliedig. Yr athrawiaeth bûr a Sanctaidd, ſydd yn troi yr enaid, yn gwneuthur y gwirion yn ddoeth yn goleuo y llygaid, yn llawenhau y galon, *Pſa.* 19, 7, 8. Ni chaent mwyach mewn iaith a allent ei ddeall. Cloawdd y Pâb yr yſcrythyrau rhag y cyffredin bobl yn y iaith Ruſeiniaidd, ſef y iaith lading. Yr oedd megis yn fraint i'r Hebraeg gynt i'r yſpryd, glan ei dewis hi ymmŷſc holl ieithoedd y bŷd i ddatcuddio ewyllys Duw ynddi trwy'r Prophwydi. Am hynny rhai o'r dyſcedig a'i galwant y iaith Sanctaidd. Yr un braint ac anrhydedd a rydd y Pâb yn awr i'r lading.

Y Bibl a gyfieithwyd i'r iaith lading amryw o weithiau, a chan amryw ddynion: Eithr y mae un cyfieithiad yr hwn y mae y Pâb yn ei berchi uwch law y lleill oll.

Y

Y Papiſtiaid a alwant hwn, Cyfieithiad llading cyffredin; ac ni ymardel y Pâb a'i ganlynwyr un cyfieithiad arall yn air Duw, ond cyn belled ac y bytho yn cyttuno a'r cyfieithiad hwn. Yr achos o hyn yw, o herwydd bod y cyfieithiad hwn yma mewn amryw fannau, yn ſſafro eu coelgreſydd hwy; megis yn y lleoedd hyn a ganlyn, *Eph.* 5, 32. Yn y iaith roeg, yn yr hon yr yſcrifennodd yr Apoſtol trwy gynhyrfiad a chyfarwyddiad yr yſpryd glân, mae fel hyn: Y dirgelwch hwn ſydd fawr. Yn y cyfieithiad llading ſydd gan y Papiſtiaid, mae fel hyn: Y Sacrament hwn ſydd fawr. Ac fel hyn y prifiant, fod priodas yn Sacrament, canys y mae gan y Papiſtiaid ſaith Sacrament, ac un o honynt yw priodas, Dracheln, *Heb.* 13, 16. Ond gwneuthur daioni a chyfrannu nac anghofiwch; canys a chyfryw ebyrth y rhyngir bodd Duw (neu, y cyfryw ebyrth ydynt gymmeradwy gan Dduw), felly y mae yn y groeg. Eithr yn y Bibl llading ſy gan y Papiſtiaid mae'r lle fel hyn; canys y cyfryw ebyrth ydynt haeddianol ger bron Duw, trwy hyn y ceiſiant brifio, fod gweithredoedd da yn haeddu bywyd tragwyddol. Ymmhellach, 2 *Peter*, 1, 15, Yn y iaith wreiddiol, ſef y groeg mae fel hyn, mi a wnaf fy ngoreu hefyd ar allu o honoch bob amſer, ar ol fy ymadawiad i wneuthur coffa am y pethau hyn: Ond y Papiſtiaid yn eu Bibl Llading hwy a ddarllenant y lle fel hyn; gwnaf fy ngoreu ar eich cael yn fy nghof ar ol fy ymadawad: Ac oddi yma maent yn tebyg fod ganddynt

warrant

warrant ac annogaeth i weddio ar Petr ac etaill o'r feinctiau a fuant feirw, *Heb.* 11, 21. Yn y iaith, yn yr hon yr yſcrifennodd yr Apoſtol mae fel hyn. Trwy ffydd, Jacob wrth farw a fendithiodd bob un o feibion Joſeph; ac a addolodd a'i bwys ar ben ei ffon, (neu ac a ymgrymmodd ar ben ei ffon) y Papiſtiaid a'i troant fel hyn. Ac a addolodd ben ei ffon; ac felly gwnant ddefnydd o'r text hwn i brifio, fod yn gyfreithlon addoli llun y groes, a'r cyfryw brennau. Gallem goffau llawer ragor o fannau o'r ſcrythyr, y rhai y mae y Papiſtiaid yn eu trawſwyro yn y cyfryw fodd, a hyn tuag at gyfiawnhau a chynnal eu coel-grefydd a'u delw addoliaeth; eithr yr hyn a gry bwyllwyd a wafnaetha i ddangos y modd y mae y dynion, hyn yn cam-arfer ac yn gwyr droi gair y gwirionedd, er mawr wradwydd i'w proffes, a diſtryw llaweroedd o eneidiau.

Fe debygid y galle yr offeiriaid Pabaidd yn ddibryder ganiattau i'r bobl gyffredin ddarllen yn eu hiaith eu hunain y cyfryw fibl a hwn, yn gymmaint a'i fod mor fanteiſiol i'r grefydd Babaidd. Canys y mae'n amlwg wrth y lleoedd a enwyd uchod, eu bod yn ei wneuthur yn wafneuthgar i gyfiawnhau ac i brifio yr arferion cableddus, Eulunaddolgar a gynhelir yn eu heglwys hwy. Etto mae'n ſicr ac yn drahyſpus ei fod dan orchgudd y iaith ladin yn yr holl wledydd Pabaidd, ac nad ydyw ddim llai na pherygl bywyd i neb rhyw un gael ei ddal a'r Bibl ganddo yn nhafod iaith ei fam, neu iaith gyffredin y wlad. Ac

fel

fel hyn y mae y gwerinos druain ymmŷſc y Papiſtiaid yn cael eu cadw yn y tywyllwch. Gair Chriſt, yr hwn a ddyle breſwylio ynddynt yn helaeth ymmhob doethineb, *Col.* 3, 16. Ni chaniatteir iddynt wybod ond ychydig o hono; ie, cwbl ddieithr ydynt i'r pethau ſydd gynnwyſedig yn yr holl yſcrythyr, oddieithr yr hyn y mae yr offeiriaid yn ei weled bod yn dda ei ſynegi iddynt. Y peth y mae y rhain (ſef yr offeiriaid Pabaidd) yn ei goſſa, ac yn ſefyll arno ſynycha tuag at gadw y bobl mewn ufudd dod, yw awdurdod y Pâb a'r Eglwys, gan ddywedyd, fel hyn ac fel hyn y mae ein Harglwydd y Pâb wedi ordeinio, neu, Y modd hyn a'r modd y mae yr Eglwys yn credu, ac yn dyſcu. Ac am y pethau y mae yn yr Eglwys yn eu dal, a'r pethau a orchymmynnir gan y Pâb, nid oes gwrthddywedyd mo honynt dan boen eſcymmundod.

Y dyſcawdwyr Pabaidd ydynt hefyd weithiau yn cwoto neu'd crybwyll yr yſcrythyr; ond rho'nt iddi y cyfryw dro a cham-ddeongliad, ac a ſo waſanaethgar i dderchafu awdurdod y Pâb, ac i gadarnhau intereſt Eglwys Rhufain. Ac felly y dyfroedd Sanctaidd hyfryd yma, y rhai yn y flynnon ſy bur ac iachuſſol, yn fuddiol ac yn leſſol i gryfhau a chyfuro yr enaid lleſg a ſychedig, ydynt, trwy gael eu confauo trwy'r pibellau hyn, yn cael eu gwneuthur, nid yn unig yn afrinweddol, ond yn niweidiol ac yn farwol.

Ac felly erbyn hyn nid yw anhawdd i ni ddirnad, pa mor druenus a greſynol ydoedd cyflwr

cyflwr ein hen hynafiaid y Cymru o honynt hwythau ar ol darfod, iddynt en gofod eu hunain dan olygiaeth efcob Rhufain.

Eithr fe fydd yn etto fyned rhagom i ddangos yn neilltuol, pa fath ydoedd eu Defofionau gwaftadol a beunyddiol hwynt yn yr amferoedd hynny.

Y peth cyntaf, gan hynny, yn y boreu ar ol cwnnu o honynt o'u gwlau, a wnaent ydoedd, tynnu llun y groes ar draws eu hwynebau; gan gredu y bydde y feremoni hon yn ymddiffynfa iddynt, rhag pob drwg-ddamwain trwy gorph y dydd. Ar ol hyn fe alle y dywedyd Pater Nofter, un neu dau, hynny yw, gweddi yr Arglwydd yn Llading. Eithr rhan arbennig o'u defofiwn yn y boreu oedd dywedyd y gyfarchiad, honno at y forwyn fair yng eiriau yr Angel, *Luc.* 1, 28. Megis fel hyn, henffych well, fendigedig fair, yr hon a gefaift râs, yr Arglwydd fydd gyda thi; bendigaid wyt ymmhlith gwragedd, a bendigaid ffrwyth dy fru: O forwyn bur fendigaid eiriol trofom, a boed i ni, trwy dy eiriolaeth di, gael myned i mewn i'r deyrnas nefol gydag etholedigion Duw yn oes oefoedd. Amen.

Nid yn unig yn y boreu, eithr amryw o weithiau ar oriau pwyntiedig trwy yr holl ddydd, y mae y Papiftiaid, yn dywedyd y gyfarchiad neu'r weddi hon at y forwyn fair. Hyn a ordeiniodd Pâb Joan XXII. Y ddefod fydd fel hyn yn y gwledydd Pabaidd hyd heddyw. Dwy waith neu dair y boreu, a theirgwaith brydnhawn, a hynny ar yr un

oriau

oriau bob dydd, fe genir cloch Eglwys y plwyf gan y ſwyddog Eglwys neu'r clochydd. Cyn gynted ac y clywo'r bobl yr arwydd hyn, yn ebrwydd pob un pa beth bynnag a fo yn ei wneuthur, p'un a'i ar ei daith neu ynteu ynghylch rhyw orchwyl a ſyrth ar ei ddaulin ac a ddywed y cyfarchiad a grybwyllwyd, Afe Mari, hynny yw, henffych well, &c. Ac felly ymmlaen.

Y cyfryw a'r rhain oedd eu defoſiwnau trwy gorph y dydd. Y nôs, cyn myned i'w gorphwyſfa, yr arfer oedd, yn gyntaf, ymgroeſi; hynny yw, gwneuthur llun y groes ar eu hwynebau megis yn y boreu. Yn neſaf, dywedent y Pater Noſter a'r Afe Mari a'r Credo. Wedi hynny gwnaent y cyfryw gyffes a hon; yr wyf yn cyfaddef o flaen yr holl alluog Dduw a'r ſendigedig forwyn fair, ac o flaen St. Mihangel yr Arch Angel, a St. Joan ſedyddiwr, ac felly wedi enwi llawer rhagor o'r ſeinctiau cyfaddefent amryw bechodau neilltuol, ac ar ol y cyfaddefiad, dywedent fel hyn. Am hynny yr wyf yn attolwg ar y ſendigedig forwyn fair, a St. Mihangel, a St. Joan ſedyddiwr a'r Apoſtolion Petr, Paul, a'r holl ſeinctiau, ar iddynt weddio droſwyf, ar yr Arglwydd Dduw tuag at gaffael o honof faddeuant o'm pechodeu, a chyfran gyd a'r holl ſainct o'r llawenydd diddrangcedig. Amen.

Felly dangoſaſom pa fath ydoedd eu defoſionau ar y diwrnodau wrthnoſawl, ar y Sabbothau, dyledſwydd pob un oedd myned i'r llan i wrando'r Maſs. Y Maſs hwn, tuag at ddeall pa beth ydoedd yſtyrier y pethau a ganlyn.

Yn

Yn Eglwys Rhufain, mae'n beth rhwymedig ar bob un o'r bobl gyffredin, cymmeryd y Sacrament o Swpper yr Arglwydd unwaith yn y flwyddyn, ſef ar ddydd paſc, eithr yr offeiriaid hwynt hwy a'i cymmerant bob Sabboth, ac ar bob dydd gwyl hefyd, ſef bob dydd ac y byddo iddynt weini yn gyhoeddus. Er mae nid Sacrament yw y peth y maent hwy yn ei gymmeryd, ond yn hytrach aberth neu offrwm, ac felly y maent hwy eu hunain yn ei alw (aberth y Maſs), y modd y maent yn ei weini ac yn ei drefnu ſydd fel hyn.

Yr offeiriad yn dra hynod ei wiſcoedd, y rhai ydynt o liain main ac yſcarlett, a llun y groes o'r tu ol ar ei gefn; efe meddaf, a'i ddiacon a'i rag ddiacon a a'nt i fynu i'r gangell. Yno yr offeiriad, wedi troi ei wyneb tua'r dwyrain a mynych groeſi ei wyneb a'i freſt a'r lleſtri hefyd a ſo'n cynnwys y bara a'r gwin, a ddywed amryw ſſurfiau o weddiau yn llading i gyſſegru'r bara a'r gwin, y rhai y mae yn myned i wneuthur offrwm o honynt, ac felly gan ymgroeſi ac ymgrymmu, et a ddaw o'r diwedd at eiriau yr ordinhad gan ddywedyd fel hyn. Attolygwn arnat o Arglwydd Dduw holl alluog a'r fendithio o honot yr offrwm hwn, fel y byddo iddo fod i ni yn gorph a gwaed dy anwyl fab ein Harglwydd ni, Ieſu Griſt, yr hwn, y nos cyn iddo ddioddef a gymmerodd fara, a chan roddi diolch a'i bendithiodd ac a'i torrodd ac a'i rhoddodd i'w ddyſcyblion, gan ddywedyd, cymmerwch a bwytewch, canys hwn yw fy nghorph.

Cyn

Cyn gynted ac y byddo i'r offeiriad ddywedyd y geiriau hyn, hwn yw fy ngorph, mae'r Papiſtiaid yn credu fod y barn a'r gwin yn cael eu troi yn wir berffaith gig a gwaed, ac mae corph Chriſt ydynt; ac am hynny, pan ddelo at y geiriau yma, hwn yw fy ngorph, ef a ymgrymma i addoli yr elfennau, ſef y bara a'r gwin, wedi hynny, fe a'u cyfyd uwch ei ben i olwg yr holl gynlleidaf, y rhai a ſafant yn y cyfamſer ynghorph y llan; yna y bobl o honynt hwythau pan a'u gwelont, a ſyrthiant ar eu gliniau i'w haddoli, gan gredu eu bod y pryd hynny yn addoli Chriſt ei hun. Yr offeiriad wedi cyflegru yr offrwm yn y cyfryw fodd a hyn, a weddia ar Dduw, ar iddo ei gymeryd yn aberth cymmeradwy droſto ef ei hun ac eraill, gan ddywedyd fel hyn, Attolygwn arnat, dâd graſlawn, ar dderbyn o honot yn gymmeradwy yr aberth pur hwn, yr hwn yr y'm yn offrymmu dros yr Eglwys Gatholic, ar i ti ei rheoli a'i chynnal trwy yr holl fyd; dros ein Pâb a thros ein heſcob, &c. Ac felly aiff ymmlaen i grybwyll brenin y tir, a'i geraint, a'r holl ffyddloniaid, yn enwedig y gynlleidfa a fo'n breſennol. Ac wedi iddo yn y modd hyn ei offrymmu dros y rhai byw, ef a weddia hyn, neſaf, ar iddo fod yn lleſſol i'r meirw yn y purdan, gan ddywedyd fel y canlyn; cofia, Arglwydd eneidiau dy weiſion a'th law forwynion, y rhai a ymadawſant yn y ffydd; deiſyfwn arnat o Arglwydd, eu derbyn i'th heddwch, a rhoddi o honot iddynt ran o'r orphwyſfa dragwyddol yn y goleuni trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd.

Yr

Yr offeiriad, wedi darfod iddo fel hyn aberthu dros y byw a'r meirw, a ddywed etto amryw weddiau yn ychwaneg, yn enwedig y Pater Noſter, ac erfyniad am eiriolaeth y forwyn fair a'r ſanctaidd Apoſtolion Petr, Paul a'r holl ſeinctiau, wedi hyn ar ol iddo arferyd rhai feremoniau megis cuſſanu 'r allor a'r lleſtri, curo ar ei freſt ac ymgrymmu, &c. Ef a gymmer y bara a'r gwin, ie gwir gorph Criſt medd y Papiſtiaid, a chan wneuthur llun y groes a hwynt ar draws ei enau fe a'u bwytu. Y gynulleidfa a fydd trwy yr holl amſer yn edrych arno ac yn addoli, canys nid yw y bobl yn cymmuno ond unwaith yn y flwyddyn megis y dangoſafom uchod. Ar ol bwyta o hono yr aberth yn y modd hyn, y diacon a rydd iddo ddwfr a gwin yn gymyſcedig i olchi ei ddwylo; ac wedi addoli llun y groes a dywedyd rhai gweddiau a'r Epiſtl a'r Efengyl, fe a ddibenna ar cyfryw ffurf o weddi a hon. Y fendigedig drindod boed gwaſanaeth dy was annheilwng yn gymmeradwy yn dy olwg, ac arogla aroſl peraidd yn yr offrwm a offrymmais i'th ſanctaidd fawrhydi a bydded yn Heſſol ac yn effeithiol i mi, ac i bawb dros y rhai yr arberthwyd i bwrcaſu meddeuant pechodau, canys trugarog ydwyt ti yr hwn wyt yn byw ac yn teyrnaſu yn oes oeſoedd. A'r hyn, yr offeiriad wedi gwneuthur llun y groes ac ymgrymmu, a ddaw heibio, a'r gynulleidfa a ymadawant: dyma aberth y Maſs.

Y cyfryw addoliad a hwn oedd yn ein gwlad ni gynt; a'r gwaſanaeth hwn a gyflawnir

nir etto bob Sabboth yn yr holl wledydd Pabaidd. Yn ol cyfraith y Pâb, pawb y'nt yn rhwymedig i fod yn bresennol ar y Sabbothau ac ar y dyddiau gwyl, pan yr offrymmir y Mass; am y rest o'r dydd, rhaid iddynt ymgadw oddiwrth orchwylion bydol; eithr am fyned i ddifyrru mewn rhyw gampau a chwareuon, y mae iddynt fawr rydd-did.

Rhai, fe alle, a ymholant oblegit yr achos pa ham y mae 'r Papistiaid, yn gwneuthur llun y groes mor fynych yn eu haddoliad.

Y môdd y daeth llun y groes i fod mewn cymmaint o Gyfri a Pharch, ydoedd fel hyn.

Ynghylch dau cant a deg a deugain o flynyddoedd ar ol amser yr Apostolion, pan yr oedd y Christnogion a'r Paganod etto yn gymmysc yn y bŷd, peth arferol ydoedd gan rai Cristnogion, wisco llun y groes: rhyfelwyr a'i gosodent yn eu banneri; brenhinoedd a'i hargraffent ar eu harian, a hyn o wir Zêl, i ddangos nad oedd arnynt gywilydd i arddel Christ Croesholiedig. Eithr ar ol talm o amser y Papistiaid a roddasant hwy o anrhydedd iddi nac y ddylid; ac o'r diwedd dechreuasant wneuthur eulun o honi, trwy addoli iddi, ie a gweddio atti. Canys eu harfer yn y gwledydd pabaidd fydd fel hyn, gwnant groes o ryw ddefnydd o faen neu goed, isori, aur neu arian, &c. Ac weithiau fe geisir llun dŷn megis wedi ei hoelio arni. Y rhain a wnair o amryw faint; rhai yn fychain i'w dwyn yn oestadol yn eu cylch, eraill o faintioli fo mwy, i'w gosod i fynu mewn tai, mewn llannoedd, ar ochr y ffordd, ar bennau heolydd mewn trefydd. Credu y

maent, fod rhyw rinwedd dirgeledig yn y groes i ymddiffyn y fawl a'i cadwant yn eu cylch, ac i gadw y tai y gofodir i fynu ynddynt; ac odid iddynt edrych arni heb ymgrymmu iddi. Y bobl gyffredin, pan ei gwelont yn y lleoedd cyhoeddus lle y bytho, nid a'nt heibio iddi, heb blygu eu glin; gofodir heibio rai dyddiau yn y flwyddyn i'w cadw mewn ffordd o wyliau i'r groes, ar y rhai yr addolir hi yn fwy arbennig. Un o'r gweddiau a arferir ar ddydd gwener y croglith fydd yn dechreu fel hyn; O fanctaidd groes! Ein hunig obaith ydwyt ti, ar yr amfer bendigedig hwn; rho gynnydd gras i'r rhai cyfiawn, a fymmud ymmaith feiau y rhai euog

Felly y gelwyd y diwrnod hwn, oblegid fod yr offeiriaid pabaidd ar y dydd yma yn darllain, llithau a gweddiau perthnafol i'r grog neu'r groes.

Y mae ychydig Weddillion o'r pethau hyn yn y wlad yma etto, er i n ymwrthod a'r grefydd Babaidd er ys agos ddau cant o flynyddoedd. Canys y mae'n beth arferol gan rai dynion hyd heddyw, nid y unig goffa enw'r groes, ond hefyd dynnu llun y groes ar eu hwynebau a'u breftiau, a thros dwfr, yn yr hwn yr ymolchant, ac ar amryw achofion eraill. Nid, fe alle, am eu bod y rhoddi y fath hyder yn y peth ac y mae y P piftiaid; eithr cymmeryd rhyw fodlonrwyd mae'n debygol y maent, trwy gynnal i fynu a fer a dderbyniafant oddiwrth eu hynafiaid, he wybod nac ymholi erioed pa beth a arwydocceu

Hefy

Hefyd, mewn rhai mannau o Gymru, fe ddywedir pan fo farw un, fod y cyfryw un dan ei grwys. Canys felly yr oedd y ddefod gynt, fef, wneuthur Crwys (hynny yw, Croes) o bren neu ryw ddefnydd arall, a'i gofod ar y corph hyd oni ofodid mewn daiar. Y ddull o ymadrodd a arferid ar yr achos, a gynhelir etto, er i'r peth ei hun gael ei droi heibio.

Crwys, Croes, Crog, yr un peth.

Yn y Mafs y buom yn ei ddefcrifo, ni welwn y modd y mae 'r Papiftiaid yn aberthu corph Crift, fel y maent hwy yn ei alw, dros bechod, bob Sabboth; megis pe bae ei un unig aberth ef yn anigonol. Gwneuthur cyfryng-wyr hefyd y maent o'r feinctiau; yn enwedig y forwyn fair, ar yr hon y galwant lawer mynychach nac ar Dduw ei hun. Canys credu y maent, mae'r ffordd fwya effeithiol i gael cymmorth wrth raid, yw gweddio atti hi yn gyntaf ac yn benna. Yr offeiriaid pabaidd a adroddant y cyfryw bethau a hyn oblegid y forwyn fair, pan ddaeth yr amfer (meddant) y mynne Crift gymmeryd ei fam atto ei hun, anfonodd Angel atti i hyfpyfu y peth iddi: Mair a chwenyche, cyn ei hymadawiad, weled y Deuddeg Apoftol, y rhai oeddent yn awr yn wafcaredig ar hyd y gwledydd yn pregethu yr Efengyl: Am hynny darfu i Angelion eu cafclu a'u cario i Jerufalem i dy yr Apoftol Joan, lle yr oedd mair yn cartrefu; yna, ar ol iddi ymddiddan dros ennyd a'r Apoftolion, ac erchi rhai gorchymynion iddynt, ei henaid a gymmerwyd

oddiwrthi heb oedd loes angeu. Chriſt ei hun a'i holl angelion a'r ſeinctiau a ddaethant i'w chyfarfod, ac i'w thywys i'w gorphwysfa dragwyddol. Ei chorph a ddygwyd gan yr Apoſtolion o Jeruſalem i Gethſemane, ac a gladdwyd yno. Ymmhen deugain niwrnod, Criſt a ddaeth Drachefn a'i holl angelion i gyrchu ei chorph ac a ddygwyd i baradwys gyda gorfoledd mawr. Ac felly, mair ſydd yn awr yn ei chwbl berſon gorph ac enaid, yn y Nef, medd y Papiſtiaid, mewn anrhydedd a phwer mawr iawn; canys Criſt a'i goſododd i eiſtedd ar ei ddeheulaw, ac ni wrafynnir dim iddi ac a geiſio. Fe gedwir gwyl yn flynyddol o ran coffadwaiaeth o'r pethau hyn, yr hon a elwir gwyl eſcynniad y fendigedig fair.

Ym myſc o'r aneirif ffurfiau o weddiau addyſcir i'r bobl eu goſod atti, un ſydd yn y geiriau hyn a ganlyn. O fair forwyn bur; Brenhines y bŷd, yſcol y Nef, drws paradwys, mam trugaredd; dan dy adenydd di y rhedwn. O na ddirmyga ein gweddiau yn nŷdd trallod eithr rho waredigaeth i ni, deleua ein pechodau, diwreiddia ein drwg-nwŷdau, a phlanna ynnom bob rhinweddau da: O yr hyfryd fair, bydded i ti yn ol dy awdurdod mammol, orchymmyn yr achubwr, (dy fâb) rhynged bodd i ti ein cadw yn ddibechŵd, trugarha wrthym, trugarha wrth ym; bydded dy doſturi yn fawr tuag attom canys ynotti yr ymddiriedwn, ynnot ti, yr hyfryd fair y gobeithiwn, caniatta fod o honot yn nodd fa dragwyddol i ni.

Y cyfryw a hon ydynt y grefydd ſydd y

Eglw

Eglwys Rhufain; Y rhai a dywyſant y bobl gan beri iddynt gyfeiliorni, *Eſa.* 3, 12. Fe fydd yno, gan hynny, yn y lle neſaf roddi byr account, neu hanes o'r dyſcawd-wyr yma, ſef yr offeiriaid pabaidd, y rhai ydynt yn gorwedd tan faich o euogrwydd o anfeidrol bŵys, yn gymmaint a bod myrddiwnau yn cael eu harwain ganddynt hwy i ddyſtryw.

Yn Eglwys Rhufain y mae dau fath o offeiriaid. 1. Clerici Seculares (Secular Prieſts,) offeiriaid plwyfol neu wladol. 2. Clerici Regulars, Regular Prieſts, (offeiriaid yn byw wrth reol). Y fath gyntaf, ſef y Seculares, ydyw y rhai fydd yn gweini yn y llannoedd neu'r eglwyſi plwyfol, trwy yr holl wledydd pabaidd. Swŷdd a gwaith y rhai hyn ydyw, dywedyd Maſſeu ar y Sabbothau ac ar y dyddiau-gwyllion; a dywedyd Mattins (hynny yw boreuolweddiau,) a Feſpers, neu Oſpers, fel yr y'm ni yn awr yn eu galw, hynny yw, prydnhawnol weddiau.

Heblaw y defoſiwnau hyn, y maent hefyd yn dywedyd Maſſau neilltuol dros y fawl o'r plwyf a fuant feirw, tuag at fryſio eu gwaredigaeth allan o'r Purdan. Am y gwaſanaeth hwn y mae tylwyth a cheraint y rhai meirw yn talu y cyfryw ſwmm o arian am bob Maſs. Eithr y mae y rhai cyfoethog yn gyffredinol yn gadael yn helaeth yn eu hewyllys diweddaf, tuag at hurio yr offeiriaid i ddywedyd Maſſau troſtynt.

I'r offeiriaid plwyfawl hefyd y perthyn wrando cyffes eu plwyfolion. Tuag at ddeall pa beth ydyw y gyffes yma, y mae i ni yſtyried,

yſtyried, ſod yn rhwymedig ar bob un yn
Eglwys Rhufain wneuthur cyffes neu gyfadd-
efiad neilltuol o'u holl bechodau, cyn bellec
ac y gallont eu cofio wrth yr ofleiriaid, o
leiaf, unwaith yn y flwyddyn, ſef yn amſer y
Grawys cyn dyfod o honynt i gymmuno ar
ddydd paſc.

Y Papiſtiaid ydynt yn cyfri dau fath o be-
chodau, ſef 1. Peccata venialia, pechodau madd-
euol 2, Peccata mortalia, bechodau marwol.

Y pechodau marwol ydynt yn unig ſaith; Sef
1. Cybydd-dod. 2. Balchder. 3. Gormod
chwant o leoedd uchel yn y bŷd. 4. Gormod
chwant o glôd ac anrhydedd. 5. Caſhau gwa-
ſanaeth Duw, eithr nid yw ddim bechod mar-
wol chwaith os bydd i ddŷn gaſhau gwaſanaeth
Duw am ei fod yn flinderus i'r cnawd, ond pan
fyddo iddo ei gaſhau am fod Duw yn ei erchi
6. Digofaint; hynny yw, os bydd mor derrig a
chwbl ddiffoddi cariad tuag at Dduw a dŷn
7. Cenſigen. Eithr nid yw dŷn yn pechu trw
cenſigen chwaith meddant, oni bydd iddo gyn
Duw yn anghyfiawn am roddi mwy i un ara
nag iddo ef. Y pechodau hyn a alwant yn be
chodau marwol, o herwydd, os bydd i ddy
farw ynddynt heb edifarhau am danynt, ni
oes fodd lai nac iddo fyned i boenau tragw
ddol. Eithr am yr holl bechodau eraill ac a
dŷn eu gwneuthur, nid ydynt ddim ond pecho
dau maddeuol; hynny yw, y cyfryw bechoda
ac nad ydynt yn haeddu dim ond yn unig
rhyw goſpedigaeth dymhorol ac amſerol. A
y rhai hyn oll, medd y Papiſtiaid, nid yw on
pet

peth cymmwys a chyfiawn i Dduw eu maddeu a phaſio heibio iddynt. Fe gyſſeſir wrth yr offeiriaid y pechodau marwol a maddeuol cyn belled ac y gellir eu coſio. Ac ar ol hyn, rhaid i'r hwn a ſo yn cyffeſu, ddywedyd fod yn ddrwg ganddo ddarfod iddo bechu fel hyn, a'i fod yn editarhau. Ar hyn fe ddywed yr offeiriaid, abſolvo te; hynny yw, yr wyf yn dy ryddhau. Ac wedi hyn fe gyſrifir y dyn mor lân ac mor rhydd oddiwrth bechod, a phe buaſe heb bechu erioed. Eithr os bydd iddo fod yn euog o ryw bechodau mawrion, y mae yn rhaid iddo ddŵyn rhyw benyd a oſodo yr offeiriaid arno cyn cael o hono ei ryddhau, megis rhoddi rhai eluſennau, myned ar bererindod i weled delw rhyw ſanct; neu ddywedyd rhyw riſedi o Bater Noſter neu Afe Maries; neu'r cyfryw gyffelyb beth. Y gyffes yma, un o Sacramentau y Papiſtiaid ydyw; canys y mae ganddynt hwy ſaith Sacrament; ſef y rhai hyn. 1. Bedydd. 2. Swpper yr Arglwydd. 3. Conffirmhad, neu y bedydd-eſcob. 4. Urdd hâd, ſef yr urddau trwy ba rai y mae un yn cael ei wneuthur yn offeiriaid gan yr eſcob. 5. Priodas. 6. Cyffes. 7. Yr enneiniad diweddaf.

Yr enneiniad diweddaf, y cyfryw beth a hyn ydyw.

Pan y bo un o'r plwyf yn glaf ar ei orphen fel y tebygir; yno fe ddaw yr offeiriaid a rhyw gymmyſcedd o iraid neu olew gantho, yr iraid yma rhaid iddo gael ei gyffegru yn gynta gan yr eſcob; ac a'r iraid hwn yr offeiriaid a enneinia lygaid, cluſtiau, a holl aelodau'r

dŷn

dŷn clâf, ac a ddywed fel hyn: Yr wyf yn dy cnneinio a'r ennaint hwn yn enw yr tâd a'r mâb a'r yſpryd glân, fell y byddo i ti gael maddeuant o'r holl bechodau ac y bu yr aelodau hyn yn offerynnol i'w gwneuthur trwy dy holl fywyd. Ar ol derbyn o hono yr enneiniad hwn fe gyfrifir yn gymmwys i farw.

Y cyfryw a hyn ydyw gweinidogaeth yr offeiriaid plwŷfawl.

Heblaw y rhain, y mae hefyd ymmŷſc y Papiſtiaid fel y crybwyllaſſom uchod, fath neu rywogaeth arall o offeiriaid; ſef y Regulares, neu y Canonici (Regular Prieſts) hynny yw, offeiriaid yn byw wrth reolau pwyntiedig.

Neu y rhain a elwir Monachod Ffreiers neu Monach, neu Mynach, gair groeg yw, yn arwyddoccau dyn unîg; hynny yw, un yn neilltuol oddiwrth y bŷd i fyw yn grefyddol.

Ffreier neu Ffrer, gair Ffrangeg ydyw, yn arwyddoccau brawd; o herwydd y cariad a'r gymdeithas brawdol y maent yn ei broffeſu fod rhwngddynt.

O'r monachod a'r Ffreiers yma, y mae ſectau neilltuol, y rhai ydynt yn aneirif; am hynny ni's gallwn aros i roddi deſcrifiad gwraint o bob un o honynt, eithr yn unig crybwyll y rhai mwya hynod a lluoſog.

Yn gyntaf, oblegid y Monachod.

Yr

Yr Achlyſur a roddodd ddechreuad i'r genhedlaeth o ſonachod, ydoedd ſel hyn.

YN yr oeſoedd neſaf at amſer yr Apoſtolion, pan oedd yr Eglwys tan erlidigaeth, darfu i rai Criſtnogion ffoi o'u cartrefi i leoedd anial i ymgadw rhag eu erlidwyr, ac yno treulient eu hamſer mewn cabanau neu ogofau creigiau.

Ar ol talm o amſer, darfu i amryw eraill o'u gwirfodd ddewis y cyfryw ddull o fywioliaeth. Eu pretens ydoedd, ſel y bydde iddynt ochelud twrddan y bŷd; a'r maglau fydd yn cyd ganlyn a thraflerthion ac achoſion bydol: Ac ſel y bydde iddynt eu rhoddi eu hunain yn llŵyr i fyfyrio, darllain a gweddio, a'r cyfryw ddyledſwyddau crefyddol. Eithr ni lwyr ymmwrthodent chwaith ac achoſion bydol, ond hwy a weithient mewn rhyw gelfyddyd neu gilydd cyn belled ac oedd angenrheidiol tuag at eu cynnhaliaeth. A chyhyd ac a parhauſant yn y dull hwn, yr ydys yn tebyg eu bod yn ddiffuant yn eu profleſs. Ac yr ydym yn darllen fod bagad o wŷr duwiol dyſcedig, y rhai oeddent yn byw yn yr amſer hwnnw, yn barnu yn dda am y peth; megis Baſil, Jerom ac Awſtin.

Ynghylch y flwyddyn o oed ein Harglwydd tri chant tri ugain a deg, darfu i Baſil eu cynnill yn fintaioedd neu'n gynlleidfaodd, canys yr oeddent o'r blaen yn waſcaredig, ac a oſododd iddynt y cyfryw reolau o ddyſcyblaeth ac oedd ef yn debyg a fydde

fwya

fwya er adeiladaeth iddynt. Dyma'r ſect hyna o fonachod, y rhai a elwir monachod St. Baſil. Y mae rhai o honynt etto yn Eglwys y Groegiaid; ond y maent wedi dirywio a myned yn llygredig.

Eithr Blaenor neu Athro Penna yr holl fonachod, ydoedd Benedictus neu Benett.

BENETT, gŵr o Italy ydoedd, ynghylch y flwyddyn pedwar cant a thri ugain a deuddeg, darfu i'r Benett yma gynnill ynghyd yr holl fynachod oedd yn byw yn wafcaredig yn Italy, ac a ofododd reol neu ffurf o ddyſcyblaeth iddynt yn forifennedig. Y rheol neu'r ddyſcyblaeth oedd yn cynnwys y fath bethau a hyn. Rhaid oedd iddynt wiſco y cyfryw drwſſiad; dillad o'r cyfryw liw; rhaid oedd iddynt weddio gynnifer o weithiau yn y dŷdd; hyn a hyn o oriau oedd iddynt gyſcu y nos; y cyfryw fwydydd a gaent fwyta; rhaid oedd iddynt ymprydio ar y cyfryw ddyddiau o'r wythnos; a'r cyffelyb orchmynion lawer iawn. Eu gwiſcoedd uchaf oedd gywnau duon; yn lle eſcidiau ac hoffanau am eu traed, gwiſcent fotaſſau, hwtt frethyn du a arferent yn lle gorchguddpen. Cynnifer ac a ddilynent y ddyſcyblaeth hon, a elwid monachod St. Benett.

Y monachod hyn o ddyſcyblaeth St. Benett a gynnyddafant yn ddirfawr, a dechreuwyd yn awr adeiladu monachlogydd neu dai mawrion, megis coledges, i'w cynnwys. Darfu i'r ſect hon hefyd, ar ol rhai oeſoedd wahanu yn amryw golofnau neu ſectau neilltuol, naill a'i trwy wneu-

wneuthur rhyw gyſnewidiadau yn yr hên ddyſcybliaeth, neu trwy chwanegu atti. Oddi yma a darſu monachod a elwir Clywiniaid, y Carthywſiaid, y Siſterſiaid, a Seleſtiniaid, ac amryw eraill; ac nid oes drêt na gwlad cyn belled ac y mae y grefydd babaidd yn cyrraedd heb rai monach-dai yn perthyn i ryw un neu gilydd o'r ſectau hyn.

Y cil-wyr neu'r neilldu-wyr yma, ſef y monachod, gan ymneilltuo ſel hyn oddiwrth gyfeillach dynion, oeddent dra hunan-ymwadol; ac ar y cyntaf yn ſtrict ac yn ddiwyd iawn yn eu deloſionau, ac yr ydys yn barnu ſel y crybwyllaſom o'r blaen ſod amryw o honynt, y pryd hwnnw yn wir grefyddol, eithr ni pharhaſant felly yn hir: Canys darſu iddynt o ſefur ychydig ac ychydig oeri yn eu Zêl, a myned yn ffurfiol yn eu proffes ac o'r diwedd yn llygredig, hyd oni aethant yn ſcandal i'r grefydd Griſtnogol.

Un peth enwedigol a ſu yn achlyſur i lygru y monachod ydoedd yr uchel opiniwn oedd gan ddynion o'u plegid: Canys tebyg yr oeddent, mae yn eu myſc hwy yr oedd y grefydd bura. Ac am hynny llawer o ddynion, wedi ymflino o honynt trwy hir ymdrafferthu a'r bŷd, a chaſclu llawer o olud, a chwenychent ddiweddu eu hamſer ymmŷſc y monachod: Y rhai hyn a wnaent y monachod yn etifeddion o ran fawr, ac ſe alle o'r cwbl o'u meddiannau. Ac fel hyn y darſu i'r mynachod o'r diwedd fyned yn oludog ac yn treiſion iawn. Ac y mae yn beth a ddelir ſulw arno ymmhob oes,

nad

nad yw arferol i gyfoeth a Zel mewn, dreſydd gyd ſefyll yn hir.

Achlyſur arall a gafodd y mynachod i bentyru eyfoeth, oedd yr opiniwn y mae y Papiſtiaid yn ei ddal y Purdan.

Y Purdan, lle tanllyd ofnadwy, medd y Papiſtiaid ydyw, i'r hwn y mae yn rhaid i'r holl eneidiau fyned yn gyntaf i'w puro, tuac at gael o honynt eu cymmhwyſo i fyned i'r Nêf.

Y meſur o boenau a ddioddefant yno, a'r yſpaid o amſer y byddont ynddo, ſy gyfattebol i'w bywioliaeth tra fuant yma yn y bŷd. Y rhai a fuant euog o lawer o bechodau mawrion a gant eu cyſtuddio yn fwy, ar rhai a bechaſant lai, a gant feſur o boenau fo lai yn y Purdan. Eithr dywedyd y maent Dracheſn, os bydd i offeiriaid a gwŷr defoſionol eraill ddyfal oſod i fynu weddiau troſtynt, fe fydd i hyn fod yn fôdd i ysgafnhau eu Cûr, ac i fryſio eu gwaredigaeth allan o hono. Ac felly ar ol i'r bobl ddyfod i gredu y cyfryw athrawiaeth, dechreuſant gymmeryd mawr ofal yn amſer eu bywyd i ddarparu, rhyw rai i weddio troſtynt pan fyddent feirw. Ni chyfrifid gweddiau offeiriaid y plwy yn ddigonol. Eithr yn gymmaint a bod pawb yn credu, nad oedd neb gyffelyb i'r monachod o ran duwioldeb a Zêl mewn crefydd, tebygent mae eu gweddiau hwy a fydde fwya effeithiol i waredu eu heneidiau allan o'r Purdan. Ac am hynny byddent haelionus iawn tuag at y monachod. Rhoent iddynt, nid yn unig eu haur a'u harian, ond hefyd tiroedd; gan eu rhwymo wrth y monachlogydd

nachlogydd yn etifeddiaeth dragywydd, i bwrcaſu maſſau a gweddiau i'w dywedyd droſtynt ar ol eu marwolaeth. O herwydd pa ham, y mae y monachlogydd yn cynnyddu fwy mewn cyfoeth a golud, yn y gwledydd pabaidd hyd y dydd hwn.

Gynt, pan oedd y ynys hon yn babaidd, yr oedd y perchen tiroedd trwy Gymru a Lloegr, yn rhoddi mor helaeth i'r monachdai, hyd honi thebygwyd yr ae holl renti a chyfoeth y deyrnas o'r diwedd at y monachlogydd a'r mynachod. Am hynny fe wnaed cyfraith trwy Barliament yn y flwyddyn un mil dau cant pedwar ugain ac un, trwy yn hon ordeiniwyd. Na bydde i neb o hynny allan roddi dim tiroedd, i'r monachlogydd heb leiſens neu gennad y brenin. *The Statute of Mortmain.*

Y cynheddfau a ofynnid ymmhob un ac a fynne fod yn fonach, ac a chwennyche gael ei dderbyn i fonachlog, oedd y cyfryw a'r rhain. 1. Rhaid oedd iddo wneuthur adduned i fyw yn weddw neu'n fengyl, canys nid yw gyfreithlon i neb rhyw offeiriaid ymmŷſc y Papiſtiaid ymrwymo mewn ſtat-briodas. 2. Rhaid oedd iddo ymddwyn ymmhob peth yn ol ffurf o ddyfcyblaeth a berthyne i'r ſect; hynny yw, rhaid iddo wiſco, bwyta ac yfed, wylied a chyſcu, darllen, myfyrio ymprydio a gweddio wrth reol neilltuol ofodedig. 3. Rhaid bod yn ufudd ymmhob peth i'r pen monach; ſef yr Abbot neu'r Preior.

Ac felly trwy wneuthur y cyfryw diwſt ar

a'r fath ymddangoſiad teg darfu i'r rhith Zelotiaid hyn beri i'r bŷd gredu, eu bod hwynt hwy o ran hunan ymwadiad, ſobrwydd, defoſiwn a Zêl yn rhagori ar bawb. Eithr yn ddiau, y pethau a ddywedodd ein iachawdwr gynt oblegyd y Phariſæaid, ſef, fod o honynt yn debyg i feddau wedi eu gwynnu, *Mat.* 23, 27. Ar hyn y mae St. Paul yn ei ddywedyd am rywrai yn ei ddyddiau ef, Duw y rhain, yw eu bol, *Phil.* 3, 19. (pethau hyn meddaf) a ellir eu dywedydd oblegid y monachod yn Eglwys Rufain. Ac er cymmaint yw eu bretens o ymgadw ac ymneilltuo oddiwrth bleſerau'r bŷd; ſicer yw, fod y cyfryw aflendid a ſfieidd-dra yn eu myſc, nad ydyw gymmwys eu hadrodd. Ac nid heb achos y tebygwn mae'r genhedlaeth hon, (ſef y monachod a'r ffreiers) yw y baich mwya ac y mae'r ddaiar yn ei ddwyn.

Y rhai hyn a gant fawr barch byth yn yr holl deyrnaſoedd a berthyn i Eglwys Rhufain. Ac yn ddiau yn y wlad yma, er ein bod yn awr yn proffeſſu y grefydd Broteſtanaidd, ac er bod yr holl dorf o offeiriaid pabaidd, wedi eu bwrw allan; etto, meddaf, yn y wlad yma ni lwyr ollyngwyd yn anghof mor monachod; canys fe gedwir hyd y dydd hwn rai gweddillion o'r mawr barch a'r anrhydedd a roddid iddynt yn yr oeſoedd gynt.

Y modd yr ydys etto yn cynnal coffadwriaeth o'r monachod yn ghymru, ni gawn ddangos trwy y pethau a ganlyn.

Ni ddangoſaſom eufus i'r Cymru dderbyn yr Eſengyl yn amſer yr Apoſtolion. Ac yn gym-

gymmaint a bod pob cenedl ac ſydd yn arddel crefydd, yn ymgynnull vnghyd i addoli, ac o achos hynny. yn adeiladu lleoedd cymmwys i addoli ynddynt; yn yr un wedd, darfu i'r Cymru o honynt hwythau, ar ol iddynt dderbyn yr Efengyl, ddarparu adeiladau neu dai perthnaſol i gyflawni dyledſwyddau crefyddol ynddynt yn gyhoeddus.

Y mae gennym mewn hên yſcrifennadau, Bortreiadau yn dangos pa fath ydoedd y tai yr ymgynnhulle y Cymru ynddynt i iddoli yn yr oeſoedd cyntaf. Nid oeddent ond iſel a dirmygedig mewn cyffelybrwydd i'r llannoedd ſydd yn awr. Yr adeiladaeth oedd o goed (ſef trawſtau, delltenni ac eſtyll), a'r gorchgydd neu'r To oedd o wellt. Banadl, neu'r cyffelyb ddefnydd. Y cyfryw a'r rhain ydoedd Tai Cyfarfod neu llannoedd y Cymru ar y cyntaf, a hynny dros lawer o oeſoedd; nid yn unig hyd ddyfodiad y Saeſon, ond hefyd dros amryw gannoedd o flynyddoedd wedi.

Fe grybwyllwyd o'r blaen y modd y darfu i'r Pâb o ddeutu'r flwyddyn o oed ein Harglwyd chwech chant, ddanfon i Loegr i droi y Saeſon y rhai oeddent o'r blaen yn baganod. Y Saeſon wedi derbyn o honynt y grefydd babaidd, a adeilaſant eu llannoedd, yn ol portreiad eglwyſi y Papiſtiaid, gan eu gyſſegru trwy'r amryw ſeremoniau a ordeiniaſe y Pâb. Y Cymru o honynt hwythau, wedi iddynt droi yn Bapiſtiaid, ynghylch y flwyddyn un mil, a ddilynaſant eſampl y Saeſon, gan godi llannoedd o'r ddull neu'r

neu'r ſſaſiwn newydd, a ſancteiddio tir y gyſſegr-lan, neu'r fonwent, a chyſſegru y llan i ryw hên, fonach yr hwn a gyfriſid yn ſanct, a chadw gwyl flynyddol er coffadwriaeth o'r peth.

Y modd y dechreued gyntaf ol gyſſegru'r eglwyſi i fonachod, ydoedd fel hyn.

TU fewn i yſpaid tri chant o flynyddoedd ar ol amſer ein iachawdwr, bu'r Criſtnogion dan erledigaethau gwaedlyd iawn, ymmha rai y gofodwyd llawer mil o honynt i farwolaeth oblegid eu crefydd. Yn yr amſeroedd hyn, arfer rhai o'r Criſtnogion oedd, cyrchu at feddau y rhai a ddioddefaſent am eu crefydd. Yno y gweddient, ac y cynghorent eu gilydd i ddioddef yn amyneddgar, ac i lynu yn wrol wrth eu proffeſs. Hyd yn hyn yr oedd y peth hyd ar a wyddom yn ddiniwed, ac fe alle yn ganmoladwy. Eithr megis yr Iſraeliaid gynt, y rhai fuaſent yn ddigon parod, mae'n debygol, i gyrchu at fedd Moſes, pe cawſent adnabyddiaeth o'r mann, i wneuthur ffieidd-dra, felly y rhain o'r diwedd a ddechreuſant gymmyſcu coel-grefydd ac Eulunaddoliaeth, ynghyd a'u defoſiwn wrth feddau y Merthyron. Canys tybient fod rhyw rinwedd a ſanctеiddrwydd yn y lleoedd hynny ychwaneg nac mewn lleoedd eraill. Rhai a ddymunent, pan fyddent farw gael eu claddu yn ymmyl beddau'r Merthyron yn hytrach nac mewn un lle arall; ac oddiyma y darfu y ddefod o adeiladu eglwyſi

wyſi a llannoedd ger llaw neu o amgylch y cyfryw feddau, a rhoddi arnynt enw y merthyr a gladdaſid yno; megis, Sanct Chriſtopher, Sanct Clements, Sanct Albans, &c. Ac wedi cyſſegru y llan i'r cyfryw ferthyr, neu i ryw fonach a gyfriſid yn Sanct, ſe gedwyd gwyl iddo ar ddiwrnod goſodedig bob blwyddyn, yr hon a elwir gyda ni yn awr gwyl mabſanct.

Y pethau hyn a ddechreuaſant mor gynnar ac amſer St. Awſtin, yr hwn oedd yn byw ynghylch y flwyddyn o oed ein Harglwydd pedwar cant; canys y mae efe yn un o'i lyfrau yn dywedyd, fod y cyfryw goel grefydd yn ei ddyddiau ef yn gyſſredin ymmŷſc Criſtnogion trwy Aſia ac Africa, a rhai mannau o Europ: Ond y mae efe yn dywedyd hefyd, mae y rhai mwya ffurſiol a llygredig oedd yn cynnal y cyfryw arferion, a bod y rhai duwiolaf yn eu ffieiddio ac yn dwyn tyſtiolaeth yn eu herbyn.

Eithr wedi i'r grefydd babaidd oreſcyn yr holl wledydd, darfu i'r Papiſtiaid, nid yn unig gyſſegru llannoedd i'r ſeinctiau yr merthyron a'r hên fonachod, ond hefyd eu haddóli ynddynt. Eu harfer ydoedd fel hyn.

Pan aent i adeiladu llan neu Eglwys i addoli ynddi; os gallent yn gyfleus, dewiſent fan lle y claddaſid rhyw hên Sanct, merthyr neu fonach, ac yno yr adeiladent. Eithr os hyn nis gellid, ſe fydde iddynt gyrchu eſcyrn y cyfryw Sanct neu fonach, a'u goſod yn y llan dan yr allor. Ac yn gymmaint a bod amryw o lannoedd yn cael

eu gyſſegru i'r un Sanct, ſe ſynnid, os bydde boſſibl, ryw aelod neu gymmal o hono i oſod i ſynu i'w gadw ym mhob un o honynt. Heblaw hyn, ſe wneud delw o bren ar lun dyn yn ei lawn gorpholaeth i repreſentio neu arwyddoccau y Sanct hwnnw, ac a'i goſodid i ſynu ar lofft y grog; felly y gelwid y llofft honno, o herwydd bod llun y grog neu'r groes yn cael ei goſſod i ſynu yno hefyd.

Ar ol gorphenn y llan, a goſod i ſynu eſcyrn a delw y Sanct (tel y crybwyllwyd), ſe appwyntid diwrnod i gyſſegru y llan. Ar y dydd hwnnw ſe gynhelid gwledd a gloddeſt, a dywedent weddiau lawer iawn; yn enwedig at y ſant neu'r monach hwnnw yr oeddid yn cyſſegru y llan neu'r Eglwys iddo; ac ar hynny ſe oſodid ei enw arni.

O hyn allan yr oeddid yn credu y byddeu i'r Sanct yma, gymmeryd arno olygaeth neilltuol o'r Eglwys a gyſſegraſid iddo: ac y bydde iddo eirioli gyda Duw dros bawb ac a ddoent i addoli iddi; ac o achos hynny, y plwyfolion a weddient atto yn gyſtal ac at Dduw ei hun; a phan ddelent i'r llan, troent eu hwynebau tuac at y ddelw a'r eſcyrn, a dywedent, o tydi'r hwn wyt tan yr allor, eiriol troſom. Ac ar yr Wyl Mabſanct, yr hon a gedwid bob blwyddyn, dygent amryw o bethau yn lle offrwm i'r Sanct. Yr offrymmau yma yr offeiriaid a ſwyddogion y llan a'u derbynnient; a chredu yr oeddent, mae pa fwya o offrymmau a roddent, mwya y gaem o leſhad oddiwrth eiriolaeth y Sainct.

Y Pethau hyn v gynhelir etto yn Eglwys Rufain.

Y Papiſtiaid a gyſſegrant Eglwyſi hefyd i'r Forwyn Fair, (yr hon ſydd, meddant hwy, euſus gorph ac enaid yn y nef;) ac i'r Angelion, megis Michael neu Mihangel, Gabriel a'r cyfryw, ac er nas gellir cael yma ddim eſcyrn i'w dangos, etto cedwir gwylau mab-ſanct iddynt mewn modd arbennig, gyd ac amryw ddeſoſiwnau.

Y CYMRU (megis y dangoſaſom or blaen) ar ol iddynt dderbyn creſydd y Pâb, a dechreuaſant wneuthur llannoedd neu leoedd i addoli ynddynt amgen na'r cyfryw ac oedd ganddynt o'r dechreuad. Darſu iddynt yn ol eſampl y Papiſtiaid mewn gwledydd eraill eu rhoddi dan olygiaeth yr Angelion a'r Forwyn Fair, a'r monachod, gan eu cyſſegru iddynt a goſod eu henwau arnynt, ar llannoedd hynny ydyw y rhai ſydd gennym yn awr.

Eithr fel y byddo i ni roddi hanes fwy cywraint o'r peth hwn, rhaid i ni yma ddal ſulw yn gyntaf, ddarfod i'r Cymru wedi iddynt droi yn Bapiſtiaid ddangos mwy o Zêl, nac or blaen pan oedd ordinhadau yr Eſengyl yn cael eu gweini yn eu myſc yn eu purdeb; megis y mae yn arferol i ddynion wneuthur mwy o gyfrif o ofer draddodiadau dynol, nac o orchymmynion Duw ei hun. Ac ſelly yn awr trwy gynhyrfiad y Pâb, hwy a gyfrannent yn ewyllyſgar ac yn helaeth tuag ac adeiladu temlau, neu lanno-

edd godidog iawn a byddent dra-manwl, a gofalus i arferyd yr amryw ſeremoniau pwyntiedig yn eu cyſſegriad. Canys y Papiſtiaid a arferant ſeremonies yn aneirif wrth gyſſegru eglwyſi newydd.

Y croeg-ſeremoniau a arferent wrth gyſſegru eu llannoedd, oeddent y cyſtryw ar rhain. Wedi iddynt oſod heibio y tir ar yr hwn yr oedd y llan i gael ei hadeiladu, ſe fydde iddynt, yn gyntaf, waſcaru lludw ar hyd ddo; yn neſaf hwy a gymmerent halen, ac a'i hauent dros wyneb y lludw; ar ol hynny tanellent y tir a dwfr a gwin yn neilltuol ac yn gymmyſcedig. Hyn a wneud tuag at ſancteiddio y tir. Yna aent ynghylch yr adeiladaeth. Ar ol gorphen y llan, paentiwyd llun y groes yn aml iawn ar hyd y parwydydd. Eynnynnent ganhwyllau; enneinient luniau y groes a dynaſſid ar y parwydydd. Enneinient hefyd yr allor, ie a holl gorph y llan; gweddient at Dduw, yr Angelion a'r ſeinctiau a roddi o honynt eu preſennoldeb yno yn oeſtadol. Fel hyn y gwnaent lawer iawn o ſeremoniau yn ychwaneg a arferent, heb y rhai ni chyfrifid mo'r llan yn gymmwys ac yn addas i addoli ynddi.

Drachefn, megis y crybwyllaſom or blaen ſod yn arferol yn yr holl wledydd pabaidd, oſod i ſynu eſcyrn y mab ſainct i'w cadw yn yr eglwyſi, felly y Cymru o honynt hwythau, y rhai oeddent erbyn hŷn yn Bapiſtiaid, wedi iddynt ſancteiddio y llan yn y modd y dangoſwyd, hwy a gyrchent eſcyrn yn

yr hên ſanoch neu'r mab-ſanct: Canys monach a mab-ſanct yr un peth ydynt; mab-ſant yn yr iaith gymraeg ſydd yn arwyddoccau yr un peth a monach yn y groeg, hynny yw, dyn gweddw ſengyl a fae hynod mewn duwioldeb a ſancteiddrwydd. Yr eſcyrn ſanctaidd hyn, canys felly eu galwent a oſodid dan yr allor i'w cadw o genhedlaeth i genhedlaeth.

Eithr y mae i ni ddal ſulw ſod amryw o'r llannoedd wedi cael eu cyſſegru i'r Arch-Angel Mihangel, ac i'r Forwyn Fair, a'r henwau ſydd arnynt hyd heddyw.

Ar ol iddynt fel hyn, orphen y llan a'r cwbl o'r perthnaſau, fe fydde iddynt, yn ol yr arfer babaidd, oſod heibio ddiwrnod i'w gadw yn ſanctaidd bob blwyddyn, er coffadwriaeth, o gyſegriad y llan i'r cyfryw fab ſanct. Ar y nos o flaen y diwrnod hwnnw, arfer y plwyfolion oedd, ymgynull i'r Eglwys neu'r llan i wylio, i ymprydio a gweddio, ac i loſci cannhwyllau ger bron yr eſcyrn; ac oddiwrth y gwiliadwriaethau yma, y galwyd y dyddiau hynny yn wylau-mabſant; ie, y Cymru a alwent bob amſer ac a gyfrifid yn ſanctaidd yn wylau, oddieithr y Sabbothau, o herwydd fod yn arfer ganddynt wyliad ar y cyfryw brydiau.

Wedi treulio o honynt nos-wyl y mab-ſanct, fel y crybwyllwyd yn gwylio ac yn ymprydio, fe fydde iddynt ar y diwrnod trannoeth, yr hwn a elwŷd dydd-gwyl y mab-ſanct, ymroddi yn llwyr i lawenydd: Canys hwy dreulient yr holl ddydd mewn gwleddau,

gwleddau, chwaryddiaethu, cerddoriaeth, a phob math o ddifyrrwch.

Y gwyliau hyn a gynhaliwyd ymmhob plwyf yn ſtrict, ac yn ddefofionol iawn trwy yr holl amſer ac yn bu y grefydd babaidd yn y wlad.

Nid ydys yn awr yn gwneuthur cymmaint gyfrif nos-wyl y mab-ſanct ac oeddid yn yr amſeroedd hynny; eithr am y diwrnod, ſe a'i cedwir byth yn dra-chyffelyb i'r modd y cedwid gynt, canys yr ydys, nid yn unig yn ymgynnull i wledda, campio a difyrru, eithr hefyd mewn rhai mannau o Gymru, yn rhoddi rhyw ſath o offrymmau er mwyn Duw a Mair a'r mab-ſanct, gan ei goffa wrth ei enw. Y Papiſtiaid yn ddiau ſy lawen ganddynt glywed, fod rhai o'u ſeremoniau hwy yn cael eu cynnal, etto yn ein myſc.

Gwelwn, gan hynny, pa fath barch ac anrhydedd yr ydys yn ei roddi i'r hên offeiriaid pabaidd, trwy gadw ſel hyn wyl arbennig yn flynyddol er coffadwriaeth iddynt. Eithr yn ſiccr, y neb a yſtyriant pa mor ffiaidd ydyw y ſect hon o ddynion, ſef y monachod, ſe fydd iddynt yn ddiattreg farnu y dylid yn hytrach, adael i'w henwau hwynt bydru, a rhoddi mawr ddiolch i'r goruchaf, ddarfod i'n gwlad gael ei harllwys o'r cyfryw genhedlaeth.

Ac ſelly gan ddarfod o honom roddi cyfri o'r râdd hono o offeiriaid fydd yn Eglwys Rufain, y rhai a elwir monachod; ſe fydd i ni yn y lle nefaf, roddi hyr ddeſcrifiad o rywogaeth arall

arall o offeiriaid pabaidd ac ydynt yn byw wrth reol; ſef y Ffreiers.

Yr amſer y dechreuodd y Ffreiers dorri allan i lenwi y gwledydd, oedd ynghylch y flwyddyn un mil dau cant a deg ar hugain. Y rhai pennaf o honynt yw y Dominicanod a'r Ffranſiſcanod.

Y Dominicanod a elwir felly oddiwrth eu pen hathro, yr hwn oedd Dominic; megis y gelwir y lleill Ffranciſcanod oddiwrth eu pen feiſtyr hwythau yr hwn oedd Ffranciſs.

Dominic, gwr o Spain ydoedd o ran ei enedigaeth. Y gwr hwn yn ei fawr Zêl a oſododd allan i bregethu yn erbyn Hereticiaid, ac a gaſclodd atto ddiſcyblion lawer iawn, ac a wnaeth iddynt ffurf o reolau neu ddyſcyblaeth ac a'u danfonodd allan i bregethu, ac a gafodd gan y Pâb Honorius III gonffirmio neu gadarnhau y frawdoliaeth neu'r ſect yma o Ffreiers, y rhai a elwir (ſel y crybwyllwyd), oddiwrth eu hathro y Dominicanod: rhai a'u galwant hefyd y Ffreiers duon oddiwrth liw eu gwiſcodd; canys dillad duon a wiſcant.

Ffranſis, gwr o Italy, ynteu hefyd a gaſelodd ddiſcyblion ac a roddodd iddynt orchymynion o ddyſcyblaeth, y rhai a elwir Teſtament neu ewyllys St. Ffrancis. Y Teſtament hwn ſydd yn cynnwys y cyfryw orchymynion a'r rhain, rhaid i'r diſcyblion wiſco un wiſc yn unig. Yn lle eſcidiau nid oedd iddynt gymmeryd dim ond yn unig rhyw fath o wadnau ca charraion wrthynt. Darnau o gordenni a gaent yn lle gwregyſau, aur neu arian a'r cyfryw bethau bydol nid

nid oedd iddynt lyfaſu cadw yn eu meddiant, &c. Oddiyma y daeth y Ffranſiſcanod. Hwy a elwid hefyd gynt Mendicants; hynny yw y Cardotwyr; canys un o orchmynion eu hathro oedd, ſod iddynt fyw yn unig ar eluſennau. Eithr ni chadwaſant mor gorchymmyn hwn drahir; canys ni bu neppell hyd oni chawſant fonachlogydd cynnes, ymmha rai y maent gan mwya 'yn byw yn ddigonol iawn, un wedd a'r monachod. Yr ydys yn eu galw hefyd y Ffreiers llwydion, o herwydd y gywnau llwydion y maent yn eu wiſco.

O'r ddwy ben-ſect yma (ſef y Dominicanod a'r Ffranſiſcanod) y darfu amryw ſectau neilltuol eraill o Ffreiers: ſef, y Ffreiers Minims (enw yn arwyddoccau goſlyngeiddrwydd mawr), a'r Ffreiers Recoletts, a'r Capwſhin-ffreiers, ac amryw eraill.

Hynny yw y rhai bychain, neu y rhai lleiaf oll.

Capwſhin, hynny yw hwt: Canys rhyw fath o buttau hynod iawn a wiſcant.

Y mae hefyd rywogaeth o Ffreiers a elwir Carmelites, yn ein iaith ni y mabwnion, o herwydd eu gwiſcoedd gwnnion, y rhai hyn ydynt yn pretendio, dderbyn o honynt eu dechreuad cyntaf o fynydd Carmel, a chymmerant arnynt ddilyn Elias a Joan-fedyddiwr.

Y Ffreiers, megis y monachod, ydynt yn awr yn byw ynghyd yn frawdoriaethau neu'n fintaioedd trwy yr holl wledydd pabaidd.—

Cymru

Cymru a Lloegr hefyd gynt oeddent yn llawn o honynt.

Y tai fydd yn cynnwys y monachod a elwir monachlogydd, monach dai (Abbies). Y tai y mae y Ffreiers ynddynt a alwn Preiordai. Yr hwn fydd ben neu feiſtlir ar fonachlog a elwir Abbat, a'i lŷs neu ei dŷ, Abbatty. Pen y Preiordŷ yw y Preiory.

Eithr y rhai fydd yn pretendio y gradd uchaf o hunan ymwadiad, a ſancteiddrwydd ymmŷſc holl ddynol ryw, ydyw y rhai a elwir Ancorets a Hermits. Y rhai hyn ydynt yn byw yn wahanredol, bob un wrtho ei hun.

Y Hermit, yr hwn a alwe y Cymru gynt Meudwy neu Moudw; efe a gilia i ryw goed neu yſtlys craig. Yno y gwna iddo ei hun fŵth neu dwlc, lle y treulia ei amſer yn myſyrio, ac yn gweddio at Dduw a Mair a'r ſeinctiau. Ei ymborth ni bydd ond gwael; ac am ei wallt ei farf a'i ddillad, ſe a'u llwyr eſceuluſia hyd oni bytho'n edrych fel ſatyr yr anialwch.

Yr Ancoret (yn gymraeg Anor); efe a ddewis ei le ynghilfach llan neu bentref; ac yno mewn congl yr ymgarchara ei hun, nos a dydd; ac odid iddo ef weled neb, oddieithr y fawl a ddwg luniaeth iddo; a thuac at ddaroſtwng y corph, gerwydd ar y llawr, cloddia ei fedd a'i enwinedd, &c. A'r cyfryw galedi a gerwindeb a arfera tuag atto ei hun, ac y bydde anhawdd gennym eu credu.

Eithr yn gymmaint a bod y dynion hyn yn

yn anferyd y cyfryw foddion ac nad appwyntiodd Duw mo honynt i farweiddio pechod, a thuag at fyw buched ſanctaidd; y mae gennym achos i debyg y byd iddynt yn lle y ganmoliaeth hon; da was, da a ffyddlon, gael clywed ddywedyd wrthynt yn y diwedd, pwy a geiſiodd hyn ar eich llaw.

Y mae etto un rhywogaeth yn ychwaneg o'r rhai a gyfrifir yn ddefoſionol yn Eglwys Rhufain, ſef y Jeſuites.

Ynghylch y flwyddyn un mil pum cant ac un ar bymtheg ar hugain; Ignatius Loyola (gwr o Spain), a gaſclodd atto daiſcyblion ac a ordeiniodd y ſect hon. Cymmeraſant eu henw oddiwrth Ieſu, tuac at yr hwn y proffeſant gariad a Zêl tu hwynt i bawb; y Jeſuits yma o honynt hwythau, ſel y mynachod a'r Ffreiers, ydynt yn byw yn ſintaiodd mewn rhyw fath o fonachlogydd, y rhai y maent yn alw Coledges, trwy yr holl wledydd yn aml iawn. Ar bob Coledge neu ſintai, y mae pen neu raglaw. Wrth gael o honynt eu derbyn i mewn i'r Coledge, i fod o'r ſect; rhaid iddynt gymmeryd llw, neu wneuthur addunedi fod yn ufudd i'w pen ymmhob peth. Ac feily pan fyddo i'r pen neu'r meiſtr roddi arch i neb rhyw rai o honynt, i fyned i bregethu y greſydd babaidd ymmyſc yr Indiaid barbaraidd ynghyrrau eithaf y ddaiar, rhaid iddynt fyned. Os gyrchymynnir iddynt ladd yn ddirgel ryw un a fo yn rhwyſtr i'r greſydd babaidd, (bydded ef frenin neu Emprwr) byddant barod i ufuddhau i'r fath orchymmyn gwaed-

lyd

lyd a hwn. A ſicer yw, mae nid yn anfynych y maent yn cael eu gofod ar y cyfryw waith, llawer o'r gwyr mawrion ac ſydd yn-ghymdeithas Eglwys Rhufain, a fyddent barod i ymadel a'r grefydd, oni bai ofn bradwriaeth y dynion hyn. Ac yr ydys yn tebyg mae y ſect hon yn enwedigol yw yr atteg benna, neu'r prif golofn ſydd yn awr yn cynnal i fynu Eglwys y Pâb.

Cyn ymadel o honom a'r pwngc neu'r teſtyn hwn, y mae i ni etto ddal fulw ymmhellach, fod y Menywod hefyd yn Eglwys Rhufain yn chwennych dangos eu hunan ymwadiad a'u Zêl yr un ffunyd a'r monachod a'r Ffreiers. Canys hwynt hwythau a ymgaſclant yn fintaiodd ac yn chwaeroriaethau, ac a wnant adduned i fyw yn ſengl, ac a ddilynant ffurf o ddiſcyblaeth. Y Chwiorydd hyn a elwir yn gyffredin, Nuns. Y Cymru a'u galwent monacheſau, ſancteſſau, gwyryfon; a'r monachlogydd y maent yn byw ynddynt a elwid Nuneries, llan y gwyryfon.

Yr hon a ddyſcodd y cyfryw ddull o fywoliaeth i'r menywod gyntaf, oedd Scolaſtica, chwaer Benet, yr hwn oedd ben feiſtr y monachod. (Megis y crybwyllwyd o'r blaen.)

Eithr y ddwy rywogaeth benna o'r monacheſau neu'r gwyryfon pabaidd yma, yw ſect Sanctа Clara, a ſect Sainct Bridget.

Y Sanctes Clara, neu Sanct Clêr, merch o Italy ydoedd. Yr oedd hi yn byw yr un amſer ac yn yr un dref a St. Ffranſis, pen-athro y Ffranſiſcanod.

Y Cymru hefyd a'i galwent Clara wen a'r gwyryfon a ddil-

Ac

ynent ei diſcyblaeth cleirw, a chlarach.

Ac wedi cael o honi ei haddyſcu a'i chynhyrfu gan y Penſfreier Ffranſis, hi a wnaeth flurſiau o ddyſcyblaeth i forwynion, lawer iawn. Y ſect hon a amlhaodd yn ddirfawr mewn ychydig amſer, felly y darfu i'r Cleirw, hynny yw, y monacheſau a ddilynnent ddiſcyblaeth Sancta Clara, ddyfod i fod yn hynod trwy yr holl wledydd. Nid oes ond y goel-grefydd a'r ffieidd-dra yn eu myſc.

Bridget, yr hon a eilw y Papiſtiaid, Sanct Bridget, ydoedd frenhines yn Sweden, ynghylch y flwyddyn un mil tri chant a thri ugain a deg. Hitheu hefyd a ddyfaiſiodd flurf o reolau i forwynion crefyddol; felly y darfu iddi hithau ddyfod i fod megis yn ben meiſtres o ſect o wyryſon defoſionol, y rhai a elwir monacheſſau neu Wyryſon Sanct Bridget. Y ſect hon ſydd fwy ffiaidd etto na'r llall a grybwyllwyd o'r blaen. Ac felly rhoddaſom fyr ddeſcrifiad o'r amryw ſectau o ddynion a gyfrifir yn fwya crefyddol ymmŷſc y Papiſtiaid; a pha mor lluoſlog ydyw y rhain, gallwn ddeall mewn rhan wrth yr hyn a ganlyn.

Yn Ffrainc ei hun y mae pum cant o Nuneris, a phedwar ugain mil o Nuns neu Fonacheſau. Pum cant o Hermits ac Ancorets, pymtheg cant o Fonachlogydd a Phreior-dai, ac ynghylch chwech ugain mil o Fonachod a Ffreiers. Os ydoedd, gan hynny, y cyfryw liaws o honynt o fewn terfynau un wlad; pwy a all ymgyffred eu rhif trwy holl Eglwys Rhufain, yr hon

hon ſydd yn cynnwys cynnifer o wledydd a theyrnaſoedd mawrion a helaeth.

Erbyn hyn, yr ydym yn barnu ddarfod o honom trwy yr amryw bethau a ſyneẓwyd, ddangos y wedd anhyſtryd a ſu ar grefydd yn ein gwlad yn y dyddiau gynt.

Fe ſydd, yſgatfydd, i'r pethau a adroddaſom, gyffroi ymyſcaroedd o doſturi yn y darllennydd, tuac at gyflwr ein hên hynafiaid, tra fuont yn y cyfryw ſtat o dywyllwch. A byddir, ſe alle, yn chwennych gwybod, pa gyhyd o amſer y bu yr Ecclips neu'r tywyllwch hwn yn myned heibio?

Tuag at wybod dros ba hyd o amſer y bu ein hynafiaid dan y tywyllwch yma, nid rhaid i ni ond edrych yn ol ychydig ar yr hyn a grybwyllwyd euſus.

Ni a ddangoſaſom o'r blaen i'r Saeſon gael, eu troi i'r grefydd babaidd ynghylch y flwyddyn, o oed ein Harglwyd chwech chant; ac iddynt barhau yn y grefydd honno hyn y flwyddyn, un mil pum cant a thair ar ddeg ar hugain. *Gwel tu dalen 76 ac ymmloen.*

Dangoſaſom hefyd i'r Cymru o honynt hwythau ymddaroſtwng i'r Pâb, a derbyn y grefydd babaidd ynghylch y flwyddyn un mil, wrth yr hon grefydd y glynaſant hyd yn flwyddyn honno o oed ein Harglwydd, un mil pum cant tair ar degg ar hugain, y pryd y dechreuwyd y refformaſion yn amſer teyrnaſiad Harry VIII.

Ac felly ŷ Cymru a fuant gyd-weiſion (ie yn hytrach yn gyd-flaſiald), a'r Saeſon i'r Pâb

Pâb dros ychwaneg i bum cant o flynyddoedd. Ac yn ddiau, caethiwed toſt ac erchyll a fuant ynddo yn y cyfamſer hwnnw. Canys heblaw y grefydd ddiniſtriol hon ydoedd y Pâb wedi ei ſefydlu yn eu myſc, yr oedd efe hefyd yn eu gorthrymmu yn chwerw yn eu Meddiannau.

Y Pâb yn yr amſer hwnnw oedd yn arfer galw Brydain puteus inexhauſtus, hynny yw, y ffynnon ddiyſpydd; o herwydd nad oedd diwedd o'r aur a'r arian oedd yn dyfod i'w goffrau ef oddiyno.

Yr oedd bob blwyddyn gymmaint o arian ac aur, yn cael eu hanſon o Gymru a Lloegr i Rufain, hyd onid oedd y Pâb ei hun yn rhyfeddu pa fodd yr oeddent yn gallael eu caſclu. Eithr nid oedd fodd iddynt lai na rhoddi iddo yr hyn oll a fyneu, canys Purdan ac eſcymmundod y Pâb oeddent yn y dyddiau hynny yn ofnadwy ac yn ddychrynedig iawn.

Wedi darfod i'r gorthrymwr yma, ſef y Pâb, yn y modd hwn ddamſang a baeddu ein henafiaid, a'u cadw mewn tywyllwch ac eulunaddoliaeth, dros hir amſer; darfu i'r goruchaf o'r diwedd, yn ei fawr drugaredd, ymweled a'u gwlad, trwy ddyfod a Refformaſion neu ddiwygiad; trwy yr hwn diwygiad y darfu i dywyllwch y grefydd babaidd roddi lle i hyfryd oleuni yr Efengyl.

Ac

Ac felly yn y lle neſaf ſe fydd i ni ymoſod, i ddywedyd ychydig oblegid y Reffformaſion yma yn fwy neilltuol.

EITHR yn gyntaf, y mae un peth ychwaneg i ni ddal ſulw arno; ſef, fod rhai yn amſer y tywyllwch mwya, a phan yr oedd pabyddiaeth wedi ei cadarnhau a'i ſefydlu yn y wlad mor ſiccred ac y galle y Pâb a'i gynghoriaid ei gwneuthur, etto, meddaf, yn yr amſer hynny yr oedd rhai, yn cael eu goleuo i ganfod pa mor ffiaidd a diniſtriol ydoedd y grefydd babaidd, y rhai hyn ni phlygent eu gliniau i'r Baal rufeinaidd. Eithr y cyfryw nid oeddent ond anaml, ac megis yn ddirgeledig; canys os ymddangoſent, yr oedd yr offeiriaid pabaidd yn barod i'w cippio au bwrw i'r tân. Canys fe wnaed cyfraith trwy Barliament yn amſer teyrnaſiad Harry IV, Ynghylch y flwyddyn un mil a phedwar cant, trwy yr hon gyfraith yr ordeiniwyd i bawb ac a ymadawent a'r grefydd babaidd, gael eu lloſci yn tân.

Etto yr oedd rhai yn y dyddiau peryglys hynny, yn dywedyd eu meddwl yn gyhoeddus, ac yn pregethu yn erbyn camſyniadau'r amſer; megis William Swinderby, Walter Brute, William Salter, William Thorp, ac eraill; ond hwy a gawſant, gan mwyaf, y dihenydd creulon yr oedd cyfreithiau gwaedlyd yr amſeroedd hynny yn ei farnu.

Eithr ni a ddylem yma wneuthur coffhad neilltuol o'r enwog Wickliff, yr hwn a ſafodd

ſafodd i ſynnu yn wrol yn erbyn y Pâb a'i holl ganlynwyr.

Doctor John Wickliff, oedd yn byw ynghylch y flwyddyn, un mil tri chant tri ugain a deg. Fe gafodd ei oleuo i weled pa mor gyfeiliornus a diniſtriol oedd y grefydd babaidd, yr hon yr oedd y rhan fwyaf o'r byd y pryd hwnnw yn ei phroffeſſu. Ac nis cadwodd mo'i gannwyll dan Leſtr. Canys trwy ſcrifennu llyfrau a diſpywtio, a phregethu, ymrodd i ddyfod a dynion i adnabyddiaeth o iachuſol wirioneddau yr Efengyl, gan droi heibio athrawiaeth gamſynniol ac ofer draddodiadeu Eglwys Rhufain.

Ni bu neppell hyd oni thynnodd am ei ben dynmeſil erwin o helbulon, canys Arch-Eſcob Canterbury, yr Eſcobion, a'r holl dorf o oſſeiriaid pabaidd trwy'r deyrnas. A'r Pâb ei hun, a gyd gyſodaſant yn ei erbyn i'w oſtegu.

Yr amſer yn ddiau a ballei i ni, pe cymmerwn yn llaw ſynegi yn neilltuol am yr hir erlidigaeth a ddioddefodd; eithr yn unig y mae i ni ddal ſulw, iddo ef er cymmaint oedd cynddaredd ei wrthwynebwyr, fyned rhagddo i bregethu yr Efengyl; ac iddo ſod yn offerynnol i droi llaweroedd i'r union, a Duw a'i ymddiffynnodd, ac a'i cynnorthwyodd i ddwyn tyſtiolaeth i'r gwirionedd dros amryw flynyddoedd, fel ac y darfu iddo yn y diwedd farw ar ei wely mewn heddwch. Megis y digwyddodd i Luther o hono ynteu, gan mlynedd ar ol hynny, fel y crybwyllwyd uchod, pan roddaſom accownt o ddechreuad

feuad y Refformaſion yn Germany. Eithr Wickliff, wedi ei farw, a gorwedd o hono un mlynedd a deugain yn ei fedd, y Papiſtiaid a gyfodaſant i fynu ei eſcyrn ac a'u lloſcaſant yn tân, ac a daflaſant eu lludw i'r afon. Eu llid a ennynaſe o newydd yn ei erbyn, o herwydd bod ei ganlynwyr ef erbyn hyn yn ymddangos yn dra aml yn y wlad. Canlynwyr Wickliff, a elwid gan y Papiſtiaid Lolards, mewn ffordd o enllib a gwawd, megis pe nad oeddent hwy ddim ond ffrau, neu chwynn yn tyfu i fynnu ymmŷſc yr ŷd pur. Eithr y Wickliffiaid, er cael o honynt eu goganu eu gorthrymmu a'u carcharu (ie a lladd llawer o honynt), etto ni allodd y Papiſtiaid eu llwyr ddifa hyd oni ddaeth Duw a gwaredigaeth iddynt.

Oddiwrth y gair lading Lolium, yr hwy ſy yn arwyddoccau ffrau.

Ac felly y rag-ddiwygiad hwn trwy Wickliff ac eraill, oedd megis y blaen-ffrwyth o'r hyn a ganlynodd, neu megis y wawr-ddydd yn rhag flaenu y goleuni mawr a dorrodd allan yn y Refformaſion, yr hwn oedd yn awr yn neſſau, a thrwy yr hwn y tanodd llewyrch yr Efengyl dros yr holl wlad.

Y peth neſaf, gan hynny, yr ymoſodwn yn ei gylch a fydd, rhoddi accownt neilltuol o'r Refformaſion, neu'r diwygiad a grybwyllwyd. Pan y gwelodd Duw yn dda dynu i lawr awdurdod y Pâb, a diwreiddio ei grefydd ddiniſtriol ef allan o'n myſc.

Tuac at oſod yr accownt neu'r hanes yr y'm ar fedr ei roddi, oblegid y Refformaſion

yn amlwg ac yn eglur, fe fydd i ni ddangos yr Achlyſur a gafwyd gyntaf i fwrw i lawr bwer ac awdurdod y Pâb yn Lloegr a Chymru: Ac i'r pwrpas hwn, y mae'n rhaid i ni ddywedyd ychydig mewn perthynas i ſtat wledig y deyrnas, ac oblegid y brenhinoedd oedd yn teyrnaſu yma, yn yr amſer hwnnw.

NI a ddangoſaſom o'r blaen y modd y darfu i'r Saeſon lwyr ddaroſtwng y Cymru, a gwneuthur o Loegr a Chymru un deyrnas, ynghylch y flwyddyn un mil dau cant a phedwar ugain, ſef yn amſer teyrnaſiad Edward I. Etto er hyn, nid oedd dim cydſod rhwng y ddwy genedl. Canys y Cymru oeddent yn barod i ddiſgwyl pob odfa i ddrygu y Saeſon, er bod o honynt yn cael eu gorthrechu fynychaf. Eithr er hyn oll, hwynt hwy (ſef y Cymru) a ſuant aneſmwyth hyd oni chawſant un o'u cenedl eu hun i fod yn frenin ar Loegr. Yr hyn beth o'r diwedd a gawſant; ſef, pan wnaed Harry y VII yn frenin, yr hwn oedd wr bonheddig o Gymro.

Y modd y daeth Harry VII, i fod yn frenin ydoedd fel hyn.

YR oedd yr amſer hwnnw yn teyrnaſu ar Loegr un a elwid Richard III. Y Richard yma a laddaſe ei ddau nai, (plant ei frawd; y rhai oeddent etifeddion i'r goron) tuac at wneuthur y lle yn rhydd idd

ei hun: Eithr yr holl wlad gan mwya a'i caſaſant ef, o herwydd ei fwrddrad ffiaidd, ac am ei fod heblaw hynny yn orthrymmwr creulon.

Ein cyd wladwr Harry, (yr hwn nid oedd etto ddim ond Iarll,) efe meddaf oedd o ran ei fam, yn perthyn i dylwyth brenhinol Lloegr; eithr o ochr ei dâd, Cymro ydoedd. Canys ei dâd cu Owen ap Tudur, oedd o hiliogaeth hên dywyſogoion Cymru.

Ac felly yn gymmaint a bod Richard yn gorthrymmu mor dôſt, fel y crybwyllwyd, darfu i rai annog Harry i ſefyll i fynu am y goron. Ac felly y gwnaeth. Yr oedd ef y pryd hyn wedi ymadel a Lloegr, a ffoi i Ffrainge rhag ofn Richard.

Y Iarll Harry, wedi cael o hono beth cynnhorthwy o longau a gwyr gan frenin Ffrainge, a ymoſododdi ddyfod drwodd i Loegr; ac fe a ddaeth i dir ym Milffort Haſan. Y Cymru a ymgaſclaſant atto yn dorfeydd mawrion, o herwydd bod ganddynt fawr ewyllys i helpu eu cyd-wladwr (os fydde boſſibl) i berchenogi'r goron. Richard o hono yntef oedd erbyn hyn wedi caſclu cymmaint o wyr ac a allodd, yn dyfod i'w gyfarfod. Y mann yr ymgyfarfuant oedd yn agos i dre Boſworth yn Leſterſhir. Ac ar ol ymladd o honynt ynghylch dwy awr, lladdwyd Richard, ac ennillodd Harry'r maes, fel hyn y gorthrechwyd y gorthrymwr Richard; ac yn ebrwydd caſodd yr Iarll Harry ei goroni yn frenin ar Loegr a Chymru dan enw Harry VII. (y ſeithfed). Hyn a fu yn-

ghylch y flwyddyn, un mil pedwar cant pedwar ugain a phump.

I HARRY VII yr oedd dau fâb; ſef, Arthur a Harry. Yr hynaf ſef Arthur, a briododd ferch brenin Spain, enw yr hon oedd Catherin, ac a gafodd ynghylch deng mil a deugain o bunnoedd mewn ffordd o waddol. Ond ar ol pum mis o amſer bu farw Arthur. Ac o achos hyn yr oedd y gwaddol i'w dalu yn ol i frenin Spain, megis yr oedd y cyttundeb ar y briodas. Eithr Harry y VII. oedd yn anfodlon i ymadel a'r gwaddol yma. Canys y cyfryw fwmm a gyfrifid yn fawr yn Lloegr yn yr amſer hynny. Ac o herwydd hyn fe a ddyfeiſiodd roddi y widw Catherin yn wraig i'r ail fâb, Harry. Y cyfryw beth a fernir yn anghyfreithlon, ac yn ffiaidd ymmŷſc rhai yn proffeſſu Chriſtnogrwydd. Am hynny darfu i'r brenin (Harry VII.), ddanfon at y pab tu at gael gantho fe ganiattau'r peth a'i ddeclario yn gyfreithlon, canys y cyfryw bŵer y mae y Papiſtiaid yn ei gredu fod gan y Pâb. Ac felly y Pâb a roddodd diſpenſaſion, canys felly y galwant, hynny yw, writ neu yſcrifen i ganiattau ac i gonffirmio'r briodas, yr hon, ar ol ychydig ddyddiau wedi cael y diſpenſaſion yma, a gyflawnwyd.

Yn y flwyddynt un mil pum cant a naw bu farw Harry VII. ar ol iddo deyrnaſu ynghylch pedair blynedd ar hugain: Ac a ei farwolaeth ef, ſe wnaed ei fâb Harry yn frenin dan enw Harry VIII. (Yr wythfed

I Harry yr wythfed ganwyd merch yr hon a elwid y dywyſſoges Mary. Hon oedd etifeddes i'r deyrnas; canys unig blentyn ei thâd a'i mam ydoedd.

Pan ddaeth y dywyſſoges Mary, yma i fod mewn oedran, ei thâd a chwennwychodd (tuag at ſettlo'r deyrnas), ei rhoddi mewn priodas i frenin Ffraingc. Eithr brenin Ffraingc oedd mewn petruſder ac amheuaeth oblegid ei hawl a'i theitl i'r goron; ac am hynny ef a'i gwrthododd, gan ddywedyd na anaſſid mo honi trwy briodas gyfreithlon.

Pan ddeallodd Harry VIII. fod ei blentyn a'i etifeddes, yn cael ei chyfri megis yn faſtardes, ſe lanwyd o drymder-meddwl; ac mewn cyfyng gyngor mawr yr ydoedd, heb wybod pa beth i wneuthur na pha ffordd a gymmerai. Eithr o'r diwedd ſe a fwriadodd fwrw y wraig ymmaith, a phriodi Drachefn ſel y bydde iddo gael etifeddion cyfreithlon i deyrnaſu ar ei ol, ac ſel na bydde ſtat y deyrnas yn ſigledig ar ol ei farwoloeth ef. Ac telly ſe ddanfonodd at y Pâb etto i gael gantho ddad wneuthur yr hyn a wnaethaſe, ſef i gael llythyr-yſcar. Y Pâb oedd yn fodlon o'i ran ei hun i ganiattau, iddynt wahanu megis y caniattaſei y Pâb, a fu o'i flaen ef iddynt fyned ynghyd. Eithr yr oedd Emprwr Germany yn rhwyſtr iddo. Yr Emprwr, nai ydoedd i'r frenhines Catherin gwraig Harry yr VIII.

Ac yn gymmaint a bod y frenhines yn anfodlon i'r yſcar yma, hi a ddanfonodd

Nid oedd pwer y Pâb erbyn hyn

at

mor ofnaddwy ac y buaſe yn yr oeſoedd o'r blaen.

at yr Emprwr (ei char) gan ddeiſyf arno wneuthur yr hyn oll a alle, tuag at attal y Pâb rhag rhoddi y llythyryſcar. Yr oedd yngallu yr Emprwr y pryd hwnnw wneuthur anghymmwynas mawr i'r Pâb os bydde iddo ei anfodloni. A'r Pâb hefyd oedd yn gwybod na bydde diogel iddo y pryd hwn anfodloni y fath gymmydog pwerus ac ydoedd yr Emprwr. Ac felly y Pâb ydoedd, yn awr mewn trallod a chyfyngder mawr iawn; canys digio'r Emprwr ni bydde dienbyd iddo; ac o'r tu arall, chwennyche ryngu bodd brenin Lloegr. Eithr yn y cyfamſer Harry VIII oedd trwy ei genhadon yn dirio yn daer ar y Pâb am gael y llythyr-yſcar. Ond y Pâb yn lle caniattau ei ddymuniad, a'i porthodd o ddydd i ddydd ac addewidion teg. Ac yn fynych y cymmerodd arno fyned ynghylch y peth, ond etto ni chae ganddo ei gyflawni yn gwbl ac yn hollawl. Yn y modd hwn y darfu iddo oedi amſer a gohirio dros ynghylch dwy flynedd. Pan oedd y brenin (Harry VIII), yn y cyfyngder hwn, darfu i Doctor Thomas Cranmer gwr dyſcedig o Loegr, ddangos iddo y galle fe ddyfod a'i fatter i ben trwy ffordd arall; ſef, trwy iddo ddanfon i ofyn cyngor ac opiniwn y rhai mwya dyſcedig trwy holl Europ oblegid y peth gan offod y Pâb heibio. Brenin, pan glywodd cyngor hwn, a fu lawen ganddo; ac yn ddioc

Awdurdod y Pâb ymmyſc y penaethiaid, ſydd yn gwanhau o'r amſer hwnnw hyd yr awr hon.

ſe a ddanſonodd dros yr holl wledydd at y rhai dyſcedig penna a gyfrifid yn yr amſer hwnnw, i oſyn eu barn a'u opiniwn. Ac felly wedi darfod o honynt gymmeryd amſer i ddwys yſtyried y peth, hwy a roddaſant bob un ei opiniwn: A'u barn hwynt oll oddieithr ychydig niſer, ydoedd, nad oedd yn gyfreithlon iddo briodi yr hon a fuaſe o'r blaen yn wraig i'w frawd, ac y dyle ei bwrw ymmaith; a bod yn gyfreithlon iddo briodi arall.

Ac yn awr, wedi cael o hono farn cynniſer o wŷr dyſcedig ar ei ochr, nid aeth i ddiſgwyl ymmhellach am lythyr-yſcar oddiwrth y Pâb; eithr ſe alwodd ynghyd eſcobion a gwyr-eglwyſig y deyrnas, ac a barodd iddynt gynnal cwrt tu ac at wneuthur yſcariaeth rhyngtho ef a'i wraig Catherin. Ac felly wedi iddynt ymgynull a threfnu matterion, yn ol y ffurf a'r ddefod arferol yn y cyfryw achoſion, darfu i'r Doctor Thomas Cranmer (yr hwn oedd yn awr yn Arch-eſcob Canterbury,) roddi'r farn neu'r ſentens, gan ddeclario yn gyhoeddus, fod y briodas rhwng Harry VIII, a Catherin, yr hon a fuaſe yn wraig i'w frawd Arthur Tudor, yn anghyfreithlon, ac nad oedd lwfiedig iddynt fyw yn y cyfryw berthynas i'w gilydd; a'i fod ef yn declario, eu bod o hynny allan yn rhydd, megis pe na buaſe y cyfryw berthynas erioed rhwngddynt. Ac felly ymmlaen.

Hyn a wnaed yn y flwyddyn un mil pum cant a thair ar ddeg ar hugain.

Y brenin, wedi iddo fal hyn fwrw y wraig

wraig Catherin ymmaith, a briododd Anne Bulain, o'r hon y ganwyd iddo ferch a elwid Elizabeth.

Erbyn hyn, mae'n hawdd i'n ddeall nad oedd dim cymmhwyſder rhwng y Pâb a brenin Lloegr. Am hynny y Pâb a ddanfonodd i wyſio y brenin i atteb o'i flaen ef yn Rhufain, am y pethau a wnaethei heb ei gennad ef, eithr Harry yr VIII yn lle ufuddhau i wys neu ſummons y Pâb, a alwodd ynghyd ei Barliament i wneuthur cyfreithiau, i ſwrw i lawr ac i dorri ymmaith holl bwer y Pâb o'r deyrnas. Canys hyd yn hyn, megis trwy law y Pâb y oedd brenhinoedd Lloegr yn cael eu coron. Y Pâb oedd y pryd hwnnw yn ben ar Eglwys Lloegr, y Pâb oedd yn gwneuthur yr eſcobion. Yr eſcobion a'r holl wyr eglwyſig a gymmerent lw wrth eu hordeinio i faentumio pwer ac intereſt y Pâb yn y deyrnas. Ar rodd y Pâb yr oedd pob eſcobaeth a pherſoniaeth; ac yn fynych, eſe a ddanfonei rai o'i geraint ei hun, o Rufain i Lloegr i ddewis y berſoniaeth a fynnent; ac er na ddeallent iaith y wlad, etto hwynt hwy a gaent fudd a phroffit y lle. Ac yn ddiau, yr oedd y deyrnas hon yn y dyddiau hynny, (megis y crybwyllaſom o'r blaen) yn cael ei gorthrymmu gan bab Rhufain, yn y cyfryw fodd nad oedd boſſibl ei oddef. Canys yr ydoedd eſe yn cael, megis yr ydys yn cyfri yn lle rhent a thrwy amryw ffydd eraill, ynghylch chwech ugain mil o bunnoedd o Loegr bob blwyddyn. Yr hyn ydoedd fwy nac oedd

brenin

brenin y tir yn ei gael, yn yr amſeroedd hynny. Eithr yn awr darfu i Harry yr VIII gymeryd yr achlyſſur hon i'w waredu ei hun, a'r wlad oddiwrth orthrymmwr Rhufain. Ac felly, gwnaed cyfraith i wrafyn appelio mewn dim math o fatterion at gwrt Rhufain; a chyfraith arall i ddiddymmu, ac i fwrw i lawr bwer y Pâb yn y deyrnas. Statut's eraill a wnaed trwy ba rai y gwnaethpwyd y brenin (yn lle'r Pâb) yn ben ar eglwys Loegr; a roddwyd i'r brenin bwer i enwi y fawl a fynnei efe i fod, yn eſcobion a'r pwer hwn fydd gan frenin Lloegr, hyd y dydd heddyw.

Cyn myned o honom ymmhellach, rhaid i ni ddwyn ar gof etto y peth a grybwyllwyd or blaen oblegid John Wickliff; ſef, i laweroedd gael eu troi trwy ei bregethiad ef, oddiwrth y grefydd babaidd ynghylch y flwyddyn, un mil tri chant tri ugain a deg. Ei ganlynwyr ef, er ei bod yn waſtadol tan erledigaeth, etto darfu iddynt barhau yn y tir hyd amſer y brenin hwn, dros ynghylch cant a hanner o flynyddoedd ar ol amſer Wickliff ei hun; ei darfu iddynt yn awr ddangos eu pennau yn fwy hŷ nac o'r blaen, yn gymmaint a bod pwer y Pâb wedi ei fwrw i lawr yn y deyrnas. Ac felly y pryd hwn yr oedd y deyrnas, (fel y gellir dywedyd) wedi ymrannu yn ddwy ran. Canys rhai hynny yw y Wickliffiaid, a fynnent wneuthur diwygiad crefydd yn ol rheol yr yſcrythyr: Eraill a fynnent lynu fyth wrth grefydd eu henafiaid, ſef y grefydd babaidd,

ac

ac a ymoſodent hyd eithaf eu gallu i wrthnebu ac i attal y cyfryw ddiwygiad; ac o'r meddwl hyn yr oedd y rhan fwyaf o'r wlad etto: Canys er nad oeddent ar fedr talu dim rhenti mwyach i'r Pâb; etto tebyg yr oeddent mae y grefydd babaidd oedd y wir grefydd. Ac nid yn unig ymmŷſc y bobl gyffredin, eithr hefyd yn y llŷs brenhinol ac ymmŷſc cynghoriad y brenin, yr oedd yr ymrafael hyn ynghylch matterion crefydd. Yr oedd y rhan fwyaf o'r cynghoriaid o honynt hwythau yn fawr eu Zêl dros babyddiaeth. Ac felly yn wir yr oedd y brenin ei hun, canys er darfod iddo forri a digio wrth y Pâb ei hun; etto ni thebygei yn gymmwys o achos hynny fwrw ymmaith y grefydd babaidd. Eithr digwyddodd fod ymmŷſc ei gynghorwyr ef yr amſer hwnnw ddau wr hynod iawn, ac oeddent yn flaſro y Reformaſion; ſef, Doctor Thomas Cranmer, Arch-eſcob Canterbury, a'r Arglwydd Thomas Cromwel (Iarll Eſſex). Yr oedd gantho barch arbennig i'r ddau wr hyn. Ac er nad oedd yn galle cyttuno a hwynt yn eu hopiniwnau oblegid crefydd, mewn amryw bethau; etto hwynt hwy a gaent eu gwrando gantho o flaen pob rhyw gynghoriaid pwy bynnag. Ac felly y ddau wr yma a ddangoſaſant i'r brenin, gan ddarfod iddo fwrw ymmaith bwer y Pâb, y dyleu hefyd oſod heibio yr aneiriſ ſeremoniau pabaidd, y rhai oeddent yn llygru addoliad Duw; yn gymmaint a'u bod yn gwbl o dychymygiad ac appwyntiad y Pâb, heb y warant leiaſ iddynt yn

yr

yr yſcrythyrau ſanctaidd. Y brenin, er nad oedd yn dra bodlon i wneuthur dim cyfnewidiad mewn crefydd, etto ſe ganiattaodd i'r gwyr hyn wneuthur ychydig ddiwygiad mewn rhai pethau. Ac ſelly bwriwyd i lawr yr amſer hwnnw amryw o'r hên ſeremoniau pabaidd. A'r Bibl hefyd a drowyd i'r ſaeſonaeg a'r gymraeg, canys o'r blaen yr ydoedd yn yr iaith lading yn unig.

Eithr yn gymmaint a bod gallu ac awdurdod y Pâb, wedi cael eu bwrw i lawr yn y deyrnas, yr oedd y brenin yn awr yn y cyfryw amgylchiadau, ſel ac ydoedd dan ryw fath o anghenrheidrwydd i wneuthur mwy o rwyg yn y grefydd babaidd, nac yr oedd efe ei hun yn ei bwrpaſu ar y cyntaf, (canys wedi iddo, ſel y crybwyllwyd), anfodloni a digio 'r Pâb, dechreuodd y Pâb daranau ei fwgythion yn ei erbyn; ac o'r diwedd, darfu iddo ei eſgymmuno, a gorchymmyn ac annog holl dywyſogion cred, i gyfodi rhyfel yn ei erbyn, a dwyn ei deyrnas oddiarno, a chymmeryd ei ddeiliaid yn gaethweiſion. Am hynny y brenin a ymoſododd i'w ymddiffyn ei hun a'i deyrnas yn oreu ac y gallodd: Eithr yr oedd un peth angenrheidiol iawn yn ddiffyg arno yr amſer hwn, ſef arian tuag at godi gwyr a gwneuthur llongau rhyfel, a thuag at baratoi y cyfryw bethau eraill ac oeddent berthynaſol ar y fath achos.

Pan oedd y brenin yn y cyfyngder hwn, Arglwydd Thomas Cromwel a'i cynghorodd i ſezo ar y monachlogydd a'r holl diroedd a berthyn

berthynai iddynt, a'u cymmeryd yn ei law ei hun, a'u gwerthu tuac at gael o hono fodd i'w ddianghenu.

Y brenin oedd lawn fodlon i ddilyn y cyngor. Ac felly fe roddodd i Arglwydd Cromwel, bwer a chommiſſion i fyned i weled yr holl fonachlogydd trwy'r deyrnas, ac i holi a chwilio pa fath fuchedd yr oedd y monachod yn ei fyw. Ac felly, examinaſion ac ymchwiliad fanawl iawn a wnaed yr amſer hwnnw. Ac fe ſleindiwyd, nad oedd yno ddim ond ſeguryd, godineb, meddwdod, ymryſſouau, drygioni, trythyllwch ac aflendid; ie pechod y Sodomiaid hefyd oedd yn rhigyl yn eu plith. Y cyfryw a'r rhain oedd cynnhedfau y monachod a'r Ffreiers. Etto yr oedd rhan nid bychan o diroedd y wlad wedi eu rhwymo wrth y monach dai tuag at gynhaliaeth y dynion hyn. Eithr y brenin a gafodd gan y Parliament uno gydag ef, i wneuthur cyfreithiau trwy ba rai y darfu i'r tiroedd a'r holl gyfoeth a berthyne i'r monachlogydd gael eu roddi i'r brenin, a'u gofod yn gwbl yn ei berch'nogaeth ef. Ac fel hyn gyrrwyd o'r diwedd y monachod ofer o'u llocheſau. A'r monachlogydd (y ſlauod ymmha rai y buaſe y pryfaid hyn dros amryw oeſoedd, yn difa ſirwyth y tir i feithrin eu haflendid), a fyſgwyd hyd y llawr; er bod peth gwedillion o honynt, fef darnau o'r parwydydd i'w gweled mewn rhai mannau hyd y dydd hwn.

Yr oedd yn y deyrnas yn yr amſer hwnnw i gyd, ynghylch ſaith gant o fonachlogydd a phreior-

phreiordai; a ſwmm y rhenti a berthyne iddynt ydoedd o ddeutu pymtheg can mil o bunnoedd yn y flwyddyn, heblaw gwerth pedwar can mil o bunnoedd o ddodrefn a gatwyd yn y mona hlogydd eu hunain.

Yr oedd hefyd, heblaw y rhain, Cappeli, Coledges a Chantries, lleoedd ymmha rai yr oedd yr offeiriaid pabaidd yn canu gyda'r organ, ac yn dywedyd maſſau. Yr oedd o'r rhain ynghylch tair mil. Y rhai hyn hefyd a roddwyd gan mwya i'r brenin trwy gyfraith. Yr holl diroedd a'r golud a gafodd y brenin yn y modd hwn oddiwrth y monach-dai pabaidd, efe a'u gwerthodd i wyr mawrion y wlad oddieithr yr hyn a gyfrannodd rhwng ei ffaſorits a'i weiſion.

Hyn a fu ynghylch y flwyddyn o oed ein Harglwydd, un mil pum cant a phedair a'r hymtheg a'r hugain, ac o deyrnaſiad Harry VIII. Y degfed a'r hugain.

Y Pâb megis y dangoſaſom uchod, amcanodd beri i holl bennaethiaid Europ, droi eu harfau yn ei erbyn y ſpryd hwn; eithr efe a gafodd weddoldeb o lonyddwch gan bawb o'r brenhinoedd oddiamgylch; ond darfu i rai o'i ddeiliaid ei hun, gyfodi mewn gwrthryfel yn ei erbyn, trwy annogaeth yn offeiriaid y rhai oeddent yn ſawr eu gelyniaeth a'u caſineb tuag at y brenin, oblegid yr hyn a wnaethei; eithr hwy a gawſant yn ebrwydd eu gorchfygu a'u goſtegu.

Yr ydys yn gyffredinol yn cyfri amſer y diwygiad o deyrnaſiad Harry VIII. Eithr yn ddiau ni's gwnaeth efe ddim ond megis

parattoi

parattoi y ffordd i'r rhai a ddaethant i deyrnaſu ar ei ol ef. Ac am y brenin hwn, ni's gallwn lai na barnu y gellir yn drachymmwys ei gyffelybu i Jehu, Bren. 10. Brenin Iſrael gynt, yr hwn a ddechreuodd ddangos mawr Zêl, megis pe buaſe yn ei fwriad wneuthur diwygiad hollawl yn ei deyrnas; eithr er darfod iddo ddeſtrywio Baal allan o Iſrael, etto ef dramgwyddodd wrth y lloi aur oedd yn Dan a Bethel, ac ni throdd oddiwrth bechodau Jeroboam, yr hwn a wnaeth i Iſrael bechu. Felly Harry VIII, er iddo fwrw i lawr bwer y Pâb, a gwrthod bod yn ſlaf iddo; etto fe lynodd wrth ei grefydd ef gan mwya hyd y diwedd, rhai ſeremoniau pabaidd a fwriodd ymmaith; eithr am y pethau mwya ſylweddol, yn y grefydd babaidd fe a'u gadawodd i ſefyll. Darfu iddo ganiattau unwaith i'r bobl gyffredin gael yr yſcrythyr yn eu iaith eu hunain, eithr wedi hynny fe a'i gwaharddodd iddynt. Ac o ddechreu ei deyrnaſiad ef hyd y diwedd, yr oedd rhai ar amſerau yn cael eu bwrw i farwolaeth, am fod o honynt yn chwennych dilyn unig reol gair Duw, a llwyr ymwrthod a'r grefydd babaidd. Ei was ffyddlon (y Arglwydd Thomas Cromwel), a ddarfu iddo o'r diwedd ei oſod i farwolaeth hefyd, o rân bod i'r Papiſtiaid gwaedlyd oedd yn ei gyngor ef, ac felly gallwn ddywedyd i'r brenin hwn fyw a marw yn hytrach yn Bapiſt nac yn Proteſtant. Ac er iddo fel y crybwyllwyd, ddiſtrywio y monachlogydd yn y rhai yr oeddid yn dyfal weddio

dros

dros yr eneidiau yn y Purdan; etto efe ei hun wrth farw a adawodd chwech chant o hunnoedd yn y flwyddyn i bwrcafu gweddiau a maſſau tuag at gael o'i enaid ebrwydd waredigaeth allan o'r tân hwnnw.

Ef a fu farw yn y flwyddyn un mil pum cant a ſaith a deugain, wedi iddo deyrnaſu ynghylch deunaw mlynedd ar hugain. Bu iddo i gyd chwech o wragedd, ſef, 1. Catherin, o'r hon yr anwyd y Dywyſſoges Mary. Ni ddangoſaſom eiſoes y modd y bwriodd efe y wraig hon ymmaith trwy yſcar. 2. Anne Bulein, mam y frenhines Elizabeth, hon a fwriodd efe i farwolaeth o achos rhyw eiddigedd a ddugaſei o'i phlegit. Eithr yr ydys yn tebyg, mae'r achos penna oedd, malis ei gynghorwyr pabaidd ef tuag atti, am ei bod yn ffafro y diwygiad, yn hytrach na bod o honi yn euog o'r cyfryw bethau, ac oeddid yn eu goſod yn ei herbyn. 3. Jane Seymor. Hi a anodd fab a elwid Edward, ar enedigaeth yr hwn y bu farw. 4. Anne of Cleves. Fe a'i bwriodd hi ymmaith; a'r unig achos oedd, am nad ydoedd yn leiccio mo honi. 5. Catherin Howard. Hon yn ddiau a halogodd ei wely trwy odineb ffiaidd a chywilyddus, ac am hynny hi a gadd ei goſod i farwolaeth. 6. Y ddiweddaf oedd Catherin Par. Yr hon wedi hynny y fu wraig i Thomas Seymor, brawd Jane Seymor, y drydedd wraig i'r brenin.

Ei blant a grybwyllwyd ſef Mary, Elizabeth ac Edward a deyrnaſant ar ei ol ef, bob un o honynt (y naill ar ol y llall.)

Ar

Ar ol marwolaeth Harry VIII, ei fab Edward a etifeddodd y goron, dan enw Edward VI y chweched. Nid oedd ond ynghylch deng mlwydd oedd pan ddechreuodd deyrnasu. Eithr yr ydoedd yn gall ac yn ſynhwyrol ymmhell uwch law ei oedran. Dechreuodd yn gynnar iawn ddangos mawr ſerch tuag at air Duw, a Zêl ragorol at wir grefydd. Ei dad er ei farwolaeth a oſododd un ar bymtheg o'r gwyr penna yn y deyrnas i fod, megis yn arffedogion ac yn gynghorwyr iddo hyd oni bae yn ddau-naw oed. O'r rhai hyn, y ddau bennaf oedd Doctor Thomas Cranmer, Archeſcob Canterbury, ac Edward Seymor, Duke Summerſet, ewythr y brenin frawd ei fam. Y ddau wr hyn oeddent yn oeſtadol yn ſafro y Refformaſion. Ac er bod bagad o'r un ar bymtheg hynny, yn chwennych ſefyll i fynnu i gynnal ac i ymddiffyn y grefydd babaidd; etto yn gymmaint a bod y ddau wr yma yn flaenoriaid, ac a'r pwer mwya yn eu dwylo, bod y brenin o hono yntef yn wir-ewyllyſgar i gyd uno a hwynt hwy; yr oedd yn awr gyfleuſdra i ddwyn ymmlaen y diwygiad i berffeithrwydd.

Pwer ac awdurdod y pab a oſſodaſid i lawr o'r blaen, yn awr fe ymoſodwyd i lwyr ddiwreiddio ei grefydd ef, ac i arllwys y wlad o'r Eulunaddoliaeth a'r holl ffieidd-dra ſydd yn cyd-ganlyn y grefydd babaidd.

Y peth cyntaf ac a wnaed ydoedd, anfon cennhadon at yr eſcobion a'r holl wyr eglwyſig

wyſig trwy'r devrnas i orchymmyn iddynt yn enw'r brenin a'i gynghoriaid, ar fod o honynt yn aſtud ac yn ddiwyd i ddyſcu'r bobl yn y wir wybodaeth o Dduw; ac ar iddynt o hynny allan adael y cvfryw ſeremoniau ofer, coel grefyddawl ac oeddid or blaen yn eu harfer yng waſanaeth Duw; yn enwedig, na bydde iddynt addoli delwau mwyach; ac am y Sabboth rhoddwyd iddynt gaeth-orchymmyn, ar gymmeryd o honynt fawr ofal i'w chadw yn barchedig ac yn grefyddol megis y gweddei. Hyd yn hyn yr yſcrythyr ar ſſurf weddiau oeddent mewn iaith ddieithr, ſef y llading. Yn awr fe ddarparwydd yr yſcrythyr ac eſponiad o honi yn iaith gyffredin y wlad. Rhai gweddiau hefyd a drowyd i'r ieithoedd Saeſonaeg a'r gymraeg, a gorchmynwyd iddynt gael eu harferyd trwy'r holl deyrnas er adeiladaeth y bobl.

Ac yn gymmaint a bod dynion etto dan dywyllwch erchyll o anwybodaeth; ac am yr offeiriaid a'r gwyr eglwyſig, hwynt hwy oeddent dra chywilyddus o ran eu hanghymmwyſder i'r alwedigaeth yr oeddent ynddi; o ran eu gwybodaeth nid oeddent fawr well na'r bobl gyffredin, ond o ran eu Moeſau yr oeddent amryw o honynt yn llawer gwaeth. Am hynny ſe wnaed llyfr o bregethau yn cynnwys athrawiaeth iachus, ſef y llyfr a elwir yr homoli. Hwn a ddanfonwyd allan ac a waſcarwyd trwy yr holl deyrnas, gan orchymmyn i'r offeiriaid ddarllen rhyw ran o hono i'w plwyfolion bob Sabboth, hyn a wnaed o achos yr anghenrheidrwydd preſennol; ſef rhyd oni bydde iddynt allel darparu rhai a fyddent

ddent o ran dyſc a doniau yn fwy abl a chyfaddas i waith y wenidogaeth.

Yn amſer Harry yr VIII, ac amryw o'r brenhinoedd eraill a fuaſe o'i flaen ef yn Lloegr, ſe wnaed cyfreithiau chwerwon iawn yn erbyn y Wickliffiaid a phawb ac a ymwrthodent a'r grefydd babaidd. Y cyfreithiau hynny yn awr a ddirymmwyd ac a dorwyd trwy Barliament, a rhoddwyd cyflawn rydd-did i bawb ddilyn a glynu wrth reol yr yſcrythyr yn unig. Hyd yn hyn yr oedd yr offeiriaid yn cymmeryd y Sacrament o Swpper yr Arglwydd bob Sabboth, ac yn gwneuthur rhyw fath o aberth o honi, megis y dangoſwyd o'r blaen. Y cyffredin bobl pan gyfrennid yr ordinhad hwn iddynt hwy, yr hyn oedd yn unig unwaith yn y flwyddyn, y cwppan a attelid oddiwrthynt. Y pryd hwn gorchmynwyd ar iddynt gael rhydd-did i yfed o'r cwppan, ac ordeiniwyd na bydde i'r offeiriaid gymmeryd mo'r Sacrament hwn yn neilltuol mwyach, eithr mewn cymmundeb a'u plwyfolion. Yr offeiriaid a'r gwyr eglwyſig, (y rhai nid oedd gyfreithlon iddynt o'r blaen briodi), a gawſant yn awr rhydd-did i ymroddi mewn ſtat briodas, yr hon ſydd anrhydeddus ym mhawb, *Heb.* 13. 4. Rhoddwyd hefyd orchymmyn neu ordor i ſwrw ymmaith lun y groes a'r holl ddelwau o'r llannoedd, y rhai fuaſent dros amryw oeſoedd yn achlyſſur i ddelw addoliaeth a choelgrefydd.

Ac felly erbyn hyn yr oedd y wlad wedi cael ei phuro mewn meſur mawr oddiwrth ffieidd

ffieidd-dra y grefydd babaidd. Eithr yr oedd y bobl etto yn ddeffygiol iawn mewn perthynas i un peth ac ſydd ſylweddol i grefydd; ſef, yr ordinhad o weddi. Y gweddiau a oeddid yn arfer yn gyhoeddus yn y llannoedd, oeddent gynnwyſedig yn llyfr y Maſs, neu'r miſſal; y miſſal yw y Common-Prayer pabaidd. Yr oedd gan y bobl gyffredin hefyd, ffurſiau o weddiau i'w harferyd yn neilltuol, wrth y rhai y gweddient at Dduw ac at y ſeinctiau; eithr at y ſeinctiau ſynychaf: a'r gweddiau yma hefyd oeddent oll yn llading. Ac felly, yn ſynych, pan yr ymoſodent i weddio at Dduw, digwydde iddynt ddywedyd gweddi a berthyne i ryw Sanct; a rhai a ddywedent y Pater Noſter (neu weddi'r Arglwydd), pan yr oeddent yn tebyg eu bod yn gweddio at y Forwyn Fair; eraill, wrth ddywedyd yr Afe Maria, &c. oeddent yn credu eu bod yn gweddio at Griſt ei hun. Fel hyn yr oeddent yn ymbalfalu. Fe farnwyd, gan hynny, yn awr yn beth tra-angenrheidiol ſyned ynghylch puro a diwygio yr hên Common Prayer pabaidd.—Yr hyn beth a wnaethant fel hyn. 1. Rhai gweddiau a gymmeraſant yn gyfain gwbl fel yr oeddent or blaen yn llyfr y Maſs. 2. Eraill a gymmeraſant mewn rhan, gan wneuthur y cyfryw gyfnewidiad ac oeddent yn ei farnu yn berthnaſol. 3. Rhai gweddiau newydd a chwanegwyd. 4. Y cwbl oll a drowyd i'r Saeſonaeg a'r Gymraeg. Hwn yw llyfr y Common-Prayer, neu'r ffurf-weddiau cyffredin a arferir yn awr.

Y Refformaſion hwn a wnaed o'r ſlwyddyn, un mil pum cant a ſaith a deugain, hyd y ſlwyddyn un mil pum cant ac un ar ddeg a deugain; ſef yn y pedair blynedd gyntaf o deyrnaſiad Edward VI.

Eithr er i'r brenin ei gynghoriaid a'r Parliament, gyd uno i wneuthur y Refformaſion neu'r diwygiad yma, etto yr oedd y rhan fwya o'r wlad yn eu calonnau yn caſhau y peth, ac yn chwennych glynu fyth wrth y grefydd a dderbyniaſent oddiwrth eu hynafiaid. Ond yn enwedig yr offeiriaid, hwynt hwy nis gallent oddef i'r cyfnewidiad lleiaf, gael ei wneuthur yn y grefydd babaidd. Eithr yn awr gan ddarfod i babyddiaeth, trwy y cyfnewidiadau a wnaethafid, gael y cyfryw ergyd marwol, nid oedd ryfedd fod o honynt yn aneſmwyth iawn, canys nis gallent lai na deall y bydde iddynt o hynny allan, golli y bûdd a'r elw oedd yn digwydd iddynt trwy weddio dros y meirw, a thrwy wrando cyffes y bobl, a thrwy'r amryw ffyrdd eraill ac a ddygant elw i'r offeiriaid pabaidd. Am hynny parod oeddent, ar yr achlyſur hwn, i waeddi allan fel yr Epheſiaid gynt am eu Duwies Diana, *Act.* 19, 23. Ac ymroi a wnaethant i annog y bobl i wrthnebu y cyfnewidiad oedd yn cael ei wneuthur yn y grefydd, felly y darfu iddynt eu cyffroi i godi i fynu mewn gwrthryfel, yn erbyn y brenin mewn amryw fannau o'r deyrnas. Yn Norffolk ymgaſclodd ynghyd o'r gwerinos ynghylch ugain mil i wneuthur terfyſc. Tair mil yn Yorkſhire; eithr y terfyſc mwya ofnad-

ofnadwy oedd yr hwn a gyfodwyd yn Defonſhire: Yno y cyffredin bobl a ymgaſclaſant yn llu mawr iawn, ac a gawſant nid yn unig yr offeiriaid, ond hefyd rai wyr mawrion y wlad i'w hannog ac i ſyned o'u blaen. Danfonaſant at y brenin yſcrifen yn cynnwys amryw byngciau, i hyſpyſu y pethau oedd raid iddynt hwy gael eu bodloni o'u plegit cyn y goſodent i lawr eu harfau.

Eu goſynniadau oeddent y cyfryw a'r rhain.

1. *HWYNT hwy a ſynnent i lyfr y Maſs gael ei oſod i ſynu Drachefn a'r holl weddiau yn lading ſel gynt.* 2. *Hwy a ſynnent beri i'r offeiriaid ſyw yn ſingyl.* 3. *Mynnent i'r Biblau Saeſonaeg a chymmraeg gael eu galw yn ol, ac i'r yſcrythyr ſod yn yr iaith lading yn unig.* 4. *I'r offeiriaid gael caniattad i weddio dros yr eneidiau yn y Purdan.* 5. *I'r naill hanner o diroedd y monachlogydd gael eu rhoddi yn ol Drachefn, tuac at adeiladu o newydd ryw nifer o ſonachlogydd ymmhob Sir; ie, hwy a ſynnent i'r greſydd babaidd gael ei goſod i ſynu etto yn y wlad, ſel y buaſe o'r blaen.*

MEWN atteb i'r pethau hyn, anſonodd y brenin a'i gynghoriaid gennadwri attynt i'w cynghori i oſod i lawr eu harfau, a myned i'w cartrefu mewn heddwch. Ac am y pethau yr oeddent yn eu goſyn, ſe ddangoſwyd yn helaeth pa mor ffol ac afreſymmol oedd pob un o honynt; Yn enwedig am y Maſs neu'r Common-Prayer

Prayer pabaidd, yr hwn yr oeddent yn chwennych ei gael; ſe ddywedwyd wrthynt ſel hyn. *As for the ſervice in the Engliſh tongue, it hath manifeſt reaſons for it, and yet perchance ſeemeth to you a new ſervice, and indeed is none other but the old; the ſelf ſame words in Engliſh which were in Latin, ſaving a few things taken out, ſo erroneous, that it would have been a ſhame to have heard them in Engliſh, (as all them can judge who liſten to the report of truth). If the ſervice in the church was good in Latin, it remaineth good in Engliſh; for nothing is altered, but to ſpeak with knowledge that which was ſpoken with ignorance, and to let you underſtand what is ſaid for you, to the intent you may further it with your own devotion.* Hynny yw, am y Maſs yr ydych yn ei geiſio, ſe alle eich bod chwi yn tebyg ſod ein Common-Prayer ſaeſonaeg ni, yn rhyw beth arall amgen a gwahanol; eithr yn wir nid yw ddim ond yr un peth; yr un geiriau yn ſaeſonaeg ac oedd o'r blaen yn llading, oddieithr rhai pethau a adawſom allan ac nad ydoedd gymmwys na gweddus i chwi eu clywed yn ſaeſonaeg, y gwahaniaeth ſydd yn ſeſyll ynhyn; ſef, ſod y gweddiau nad oeddech yn eu deall or blaen, wedi ei troi'n awr i'r cyfryw iaith ac y galloch eu deall, ſel y bydde i chwi wybod pa bethau yr ydych yn gweddio am danynt.

Eithr ni's gallodd y brenin, na thrwy reſymmau, na thrwy ymbil, na thrwy ſwgythion chwaith, dyccio gyda'r bobl yma i ymſodloni a bwrw eu harfau i lawr. Am hynny gorfu iddo ddanfon byddin o wyr dewi-

ſol

ſol yn eu herbyn, y rhai a ſyrthiaſant arnynt, ac wedi gwneuthur lladdfeudd mawrion yn eu plith, a'u gyrraſant ar waſcar. Ac felly hwy a lwyr orthrechwyd; ar y pryd hwn cafodd holl wrthnebwyr y diwygiad eu gorchfygu a'u daroſtwng; a phawb a ewyllyſient a gawſant gyflawn rhydd-did ac annogaeth i waſanaethu Duw yn ol ei air.

Yn awr ni a ddaethom i'r man lle y mae yn gorwedd arnom ddangos y modd y dechreuodd yr anghytundeb ſydd yn y deyrnas yma, ymmyſc y Proteſtaniaid oblegid crefydd.

Tuag at ddeall y modd y rhoddwyd yr achlyſur, cyntaf i'r anghydfod hwn dalier ſulw ar yr hyn a ganlyn.

YN gyntaf, gan hynny, y mae i ni yſtyried, ddarfod i'r rhai oedd yn ffafro y diwygiad ac yn ymwrthod a'r grefydd babaidd, anghyttuno ac ymrafaelio yn eu myſc eu hunain, trwy yr holl deyrnas. Yr oeddent yn cyttuno yn hollawl ac yn ewyllyſgar i fwrw ymmaith Eulunaddoliaeth a holl ffieidd dra y grefydd babaidd. Eithr nid allent gyttuno oblegid y modd y ſetlent y diwygiad. Yr ymrafel rhwngthynt oedd, pa un a wnaent a'i bwrw ymmaith holl ddefodau a ſeremoniau y grefydd babaidd yn gyfan gwbl, neu ynteu gadw rhai o honynt yn oeſlaadol? Amryw oeddent yn barnu, y gellid ac y dylid cadw cyniter o'r hên ſeremoniau pabaidd, ac y fyddent waſanaethgar i harddu yr addoliad.

Eraill

Eraill a fynnent gwbl ymwrthod a'r holl feremoniau pabaidd heb gadw un, a glynu wrth wir ac unig reol gair Duw; ac nis mynnent arferyd dim math o ddefodau yn y grefydd Griſtnogawl, oddieithr bedydd a Swpper yr Arglwydd, yn ol orchymmyn a ſiampl Chriſt a'r Apoſtolion.

Yr ymddadl a'r amryſon hwn ynghylch y feremoniau, a ddechreuodd gyntaf rhwng Mr. John Hooper, a Mr. Nicolas Ridley, yn y flwyddyn un mil pum cant o deg a deugain, yn y bedwaredd flwyddyn o deyrnaſiad Edward VI.

Mr. Ridley oedd yn eſcob (y pryd hwnnw) yn Llundain. Mr. Hooper oedd wr dyſcedig iawn ac yn bregethwr rhagorol; ac o herwydd hynny y brenin oedd yn ewyllyſio ei wneuthur ef yn eſcob yng Nghaer-loyw. Mr. Hooper, oedd yn fodlon i gymmeryd yr eſgobaeth, eithr yr ydoedd yn caſhau y feremoniau oeddid yn arfer wrth ordeinio yr eſcobion, a'r trwſſiad yr oeddent yn ei wiſco. Ond Mr. Ridley ac eraill o'r eſcobion ni fynnent ordeinio mo hono heb y feremoniau hynny. Y brenin, pan glywodd y peth a ddanfonodd at yr eſcobion i orchymmyn iddynt ordeinio Mr. Hooper, fel yr oedd efe ei hun yn ewyllyſio. Eithr hyn nis tycciodd, canys hwynt hwy a aethant ymmlaen nid yn unig i'w gymmell a'i gynghori trwy reſymmau, ond hefyd i fwgwth ei goſpi yn chwerw iawn oni chymmerai ei ordeinio trwy'r feremonies, Ac felly yn gyntaf peth fe waharddwyd i bregethu, a bu ddiſtaw dros flwyddyn.

Yr

Yr oeddent yn pwrcaſu (os eſe nid ufuddhae) ei goſpi ef etto yn chwerwach. Eithr, o'r diwedd, darfu i Mr. Hooper ymddaroſtwng yn erbyn ei ewyllys i gymmeryd ei ordeinio yn y modd y mynnent hwy eu hunain. Ac am y trwſiad eſcob, (ſef yr yſcarlet, y lliain main a'r cap pedwar ongl, &c) hwy a ymfodionaſant iddo eu gwiſco yn unig unwaith yn gyhoeddus.

Ei wrthnebwr pennaf ef, yn yr achos yma, ydoedd Ridley: Efe yn benna un a barodd i Mr. Hooper gael ei drin yn y cyfryw fodd. Eithr ynghylch pum mlynedd ar ol hyn, pan ddaeth y frenhines Mary (y Bapiſtiaid) i deyrnaſu, hwy a gawſant eill dau (ſef Ridley a Hooper) eu goſod i farwolaeth, trwy gael eu lloſci yn tân, am eu crefydd. Y pryd hwnnw, ychydig cyn eu marwolaeth pan oeddent etto yn y carchar, (Hooper oedd yng-harchar yn Llundain, a Ridley yn rhyd-ychen), darfu i Ridley ſcrifennu at Mr. Hooper yn garedig ac yn oſtyngedig iawn: Ac yn ei lythyr y mae y cyfryw ymadroddion a'r rhain. *We do thoroughly agree and wholly conſent together in thoſe things which are the grounds and ſubſtantial points of our religion, againſt the which the world ſo furiouſly rageth in theſe our days; howſoever in time paſt, in certain by-matters and circumſtances of religion, your wiſdom and my ſimplicity (I grant) hath a little jarred, each of us following the abundance of his own ſenſe and judgment. Now, I ſay, be you aſſured, that even with my whole heart (God is my witneſs) in the bowels of*

of Chriſt I love you in truth. Hynny yw, yr ydym ni ein dau yn cyttuno, yn gwbl ac yn hollawl yn y pethau mwya, ſef yn yr holl bynciau ac ſydd yn cynnwys ſwmm a ſylwedd ein creſydd ni; er bod unwaith ryw ymraſel rhyngom ynghylch pethau bychain ac amgylchiadol; eithr y pryd hynny, darſu i'ch doethineb chwi am gwendid inneu ymddangos (yr wyf yn cyfaddef). Ond yn awr, bydded hyſpys i chwi fy mod i, fel y mae Duw yn dyſt o'm calon, yn ymyſcaroedd Chriſt, yn eich caru yn y gwirionedd.

Fel hyn y dechreuodd yr anghydfod gyntaf rhwng y Proteſtaniaid yn y deyrnas yma, ac fel hyn y dywedei yr eſcob Ridley yn awr oblegit yr anghyttundeb a fuaſe rhwngtho ef a'i frawd Hooper, or blaen ynghylch y ſeremonies. Hwy a gawſant eiſl dau, ſelly crybwyllwyd; eu bwrw i ſarwolaeth, megis ac y cafodd llawer eraill pan ddaeth y frenhines Mary i deyrnaſu, fel y bydd i ni ddangos yn fwy neilltuol yn yr hyn a ganlyn. Eithr tra parhaodd teyrnaſiad y brenin hwn, Edward VI, y Reſformation a gâdd ei ddwyn ymmlaen. Ond yr ydoedd yn rhwyſtr nid bychan, ſod y Reſformers neu'r diwygwyr eu hunain yn ymryſon fel hyn, ynghylch pethau bychain a diſtadl.

Heblaw Ridley yr oedd amryw eraill, a gyfrifid yn wyr dyſcedig yn yr amſer hynny, yn ſefyll i fynu dros y ſeremoniau. Ac o'r tu arall, yr oedd amryw wyr hynod a dyſcedig o'r un farn a Mr. Hooper, yn erbyn y ſeremo-

ſeremonies, megis Mr. John Rogers, Mr. Philpots, Mr. Tyms, a'r enwog Mr. Bradford, Doctor Rowland Taylor, Peter Martyr, Martin Bucer, a llawer eraill. Mr. Bucer, gŵr o Germany ydoedd, ac o ran ei ſynwyr a'i ddyſc, ſe gyfrifid yn un o'r rhai penna yn Europ. Eſgobion Lloegr a ofynaſant ei farn ef oblegid y Common Prayer a'r ſeremonies. Ei farn ef ydoedd, fod y diwygiad yn amherffaith, ac y dyle y Common-Prayer, a'r ddyſcyblaeth eglwyſig ynghymru a Lloegr gael eu diwygio etto ymmhellach. Mr. Bucer hefyd a ſcrifennodd lyfr i'r un pwrpas, yr hwn a ddarfu iddo gyflwyno mewn ffordd o anrheg i'r brenin, Edward VI. Y brenin pan ddarllenodd y llyfr, oedd yn fodlon i ddilyn yr hyfforddiadau a'r cynghorion oedd ynddo; a darfu iddo ef, (ſef y brenin) oſod i lawr mewn yſcrifen a'i law ei hun y modd yr oedd efe yn arfaethu dwyn ym mlaen y diwygiad i berfleithrwydd. Yr yſcrifennadau hyn fydd i'w gweled etto, ac y maent yn dangos fod y brenin, yn bwriadu pe cawſai amſer, buro'r grefydd Broteſtanaidd, oddiwrth holl lefein Eglwys Rufain. Yn enwedigol, ei fod yn pwrpaſu goſod i fynu ddiſcyblaeth fwy ſtrict a manawl yn y deyrnas, i gadw allan ddynion llygredig anfucheddol rhag dyfod i fwrdd yr Arglwydd, fel yr oeddent or blaen ac y maent hyd y dydd hwn. Eithr efe ni bu fyw i ddwyn i ben y pethau a arfaethaſei, canys ar fyr amſer ar ol hynny fe a fu farw. Ac ar ei farwolaeth ef, y Refformaſion nid aeth ymmhellach;

hellach; canys megis ac y gadawodd efe, felly y darfu i bethau ſefyll a pharhau hyd heddyw, oddieithr rhyw gyfnewidiad a wnaed mewn rhai pethau bychain nid haeddent eu crybwyll. Ac felly yr ymrafel ynghylch matterion crefydd, a ddechreuodd yn ei deyrnaſiad ef, nis gallwyd etto mo'i goſtegu. Yn y cyfamſer, ein dyledſwydd yw, cydnabod mawr drugaredd a ſtafor y goruchaf tuac at ein gwlad, ddarſod iddo gyfodi un i ddwyn ym mlaen ddiwygiad crefydd i'r meſur ac y daeth. A diammau yw, tra parhau y wir grefydd ym mrydain y gweneir coff-had barchedig o Edward VI. Yr hwn a wnaeth fawr waſanaeth i'w genhedlaeth yn ychydig o amſer: Canys ni theyrnaſodd ond chwe blynedd a phum mis. Bu farw yn y flwyddyn un mil pum cant a thair ar ddeug a deugain.

YN neſaf at Edward VI ei chwaer Mary a oſodwyd i eiſtedd ar deyrn-gadair Lloegr. Merch ydoedd i Harry y VIII o'i wraig Catherin, yr hon a fwriaſei ymaith tuwy yſcar (megis y dangoſaſſom o'r blaen). Ni buaſei dywyſog eirioed yn yr ynys yma yn fwy ei Zêl dros y grefydd babaidd na'r frenhines hon. Hi a addawſei wrth gael ei choroni, roddi rhydd-did i'r grefydd Broteſtanaidd; yr hon addewid nis cadwodd yn y meſur lleiaf. Eithr yr oedd y Proteſtaniaid etto heb ddyſcu pa fodd yr oedd iddynt addelio a thywyſogion pabaidd.

Hi

Hi a oſododd i fynu babyddiaeth o newydd, megis y buaſe o'r blaen, ac a adferodd bwer y Pâb yn y wlad, yr hwn a fwriaſe ei thâd ymaith. Hi a gawſei ei dwyn i fynu yn y grefydd babaidd o'i mebyd, ac o ran ei Zêl a'i yſtyfnigrwydd i ddeilio ac i gynnal i fynu goelgrefydd ac Eulunaddoliaeth Eglwys Rufain, nid oedd mo'i chyffelyb. Ac megis yr oeddyd (yn gymmwys ddigon) yn cyffelybu Edward VI, i Joſiah brenin Juda; felly y gellid yn berthnaſol iawn gyffelybu hon i Jezebel gwraig Ahab.

Y peth cyntaf a wnaeth y frenhines Mary yma, ar ol dyfod o honi i'r goron ydoedd.—Rhoddi allan waharddiad cyffredinol i'r pregethwyr Proteſtanaidd trwy'r holl deyrnas, na phregethant mwyach; a rhoddi cennad a rhydd-did i'r offeiriaid pabaidd i bregethu lle mynnent. Yn neſaf, fe wnaed cyfreithiau trwy Barliament i ddiddymmu y cyfreithiau a wnaethaſid yn nheyrnaſiad Edward VI, mewn ffafr i'r grefydd Broteſtanaidd. Cyfreithiau eraill a wnaed yn awr i oſod i fynu yr addoliad pabaidd. Eithr ni ſafwyd ymchwaith, ond aethant ymmhellach i wneuthur cyfreithiau i lwyr ddifetha a diſtrywio yr Hereticiaid (canys felly y galwant hwy y Proteſtaniaid) allan o'r wlad. Yr oedd cyfraith neu ſtatute-wedi cael ei gwneuthur yn amſer Harry IV, yn y flwyddyn un mil pedwar cant a naw, yr hon a elwid y ſtatute ex-officio. Tenor neu fwmm y gyfraith hon oedd fel hyn. Cynnifer ac oeddid yn ddiſgwyl eu bod yn dala dim o opiniwnau yngwrthwyneb i'r gre-

fydd

fydd babaidd, yr oedd gan yr eſcobion bwer i beri i'r cyfryw rai ymddangos o'u blaen hwynt hwy i atteb i'r cyfryw gweſtiwnau ac a ofynnid iddynt. Ac os digwydd i'r dynion hynny, trwy eu hattebion, ddangos eu bod yn gwyro oddiwrth y grefydd babaidd, yno yr oedd gan yr eſgobion bwer ymmhellach, i beri i Sherif y ſhir neu Fayor y dref ddyfod i gynnorthwyo, tuac at baſio barn ar y dynion hyn. Ac felly, wedi darfod eu holi etto yn fanylach, hwy a gaent eu declario yn Hereticciaid; a'r eſcobion a'u rhoddent i fynu i'r Mayor neu'r Sheriff i'w goſod i farwolaeth.

Pan ddaeth y frenhines Mary i deyrnaſu, y gyfraith hon a gyſgaſe dros rai blynyddoedd, ſef er y bedwaredd flwyddyn ar hugain o deyrnaſiad Harry yr VIII. Eithr y pryd hyn, ſef yn yr ail flwyddyn o deyrnaſiad Mary, hi a adnewiddwyd drachefn. Cyfraith lym a gwaedlyd ydoedd; ac yn ebrwydd hi a oſodwyd at waith.

Yn gyntaf peth fe gymmeryd yn llaw y blaenoriaid o'r grefydd Broteſtaniaidd, ſef y pregethwyr a'r gwyr dyſcedig; megis Doctor Cranmer, Doctor Ridley, Mr. Hooper, Mr. Rogers, Mr. Bradfford a'r cyfryw. Y rhai eyntaf a gâd eu bwrw i'r tân oedd Mr. Rogers, a Mr. Hooper yr hwn a ragddywedodd e farwolaeth chwe-blynedd o blaen Mr. Rogers, a loſcwy yn Llundain, a Mr. Hoope ynghaerloyw, lle buaſ dros amryw flynyddoedd, y llafur

Yn nechreu teyrnaſſiad Edward'i VI, Mr. Hooper oedd yn Switzerland. Ac fe ddywedoedd wrth

llafurio yn y wenidogaeth. Ychydig ar ol hyn, cafodd Mr. Ridley, a Mr. Latimer eu gofod i farwolaeth yn rhŷd ychen, Dr. Fferar yng haer fyrddin, a llawer eraill trwy'r deyrnas.

Mr. Bulinger pan yr oedd yn ymadel y cae glywed ryw amſer gaffael o hono ſe ei loſci 'n tân am ei gre-fydd.

Doctor Cranmer a fwrwyd i garchar yn rhyd-ychen. Darfu iddo fe unwaith, trwy hudoliaeth yr offeiriaid pabaidd, ofod ei law wrth yſcrifen yn cynnwys ymwrthodiad a llwyr ymwadiad o'i grefydd. Hyn a fu yn achlyſur o orfoledd mawr i'r Papiſtiaid, ac o driſtwch i'r Proteſtaniaid. Eithr Duw a fu drugarog tuag atto; canys fe adferwyd Drachefn, ac a wnaeth cyffes gyhoeddus o'i edifeirwch, gyda thriſtwch ac wylofain mawr iaith; gan ddywedwyd, iddo ofod ei law wrth yſcrifen i wadu'r gwirionedd yn erbyn ei gydwybod. Tra amlwg ydoedd i bawb pa mor ddirfawr yr oedd wedi ymddigio wrtho ei hun am y peth a wnaethei. Nis galle lai na dangos ei lid tuag at y llaw a fuaſe yn offerynol i wneuthur y mawr ddrwg hwnnw; canys yr oedd yn ymroi pan ele i'r tân y câe hi loſci yn gynta un o'i holl aelodau. A phan ddaeth yr amſer iddo ddiodde, wedi ei rwymo wrth y poſt, ac ennyn y tân o'i amgylch, pan ddaeth y tân o fewn cyrraedd iddo, eſtynodd allan ei fraich ddehau ac a'i daliodd yn y fflam; gan fynych

Fox Martyrol.

Yr hwn ſydd yn tybied ei fod yn ſefyll, edryched na ſyrthio, 1 *Cor.* 10, 12.

ych ddywedyd fel hyn: O law ddrwg anheilwng! Y llaw anheilwng yma! Eithr ni bu neppell hyd oni darfu i'r tanllwyth yſſu i fynu ei holl gorph. Fel hyn y darfu i'r merthyr enwog, Thomas Cranmer, yn y diwedd, megis ſelio a'i waed y grefydd dros yr hon y buaſe yn ddadleuwr, mor hynod yn amſer ei fywyd.

Y Papiſtiaid wedi gwneuthur y dihenydd hyn o'r pregethwyr, a aethant yn neſaf i gymmeryd yn llaw y cyffredin bobl; ar ol difetha'r bugeiliaid, ymoſodant i wneuthur anrhaith ymmŷſc y praidd. Ac felly, dyfal chwilio a wnaethant am y Proteſtaniaid trwy yr holl deyrnas; a chynnifer ac a gaent, hwy a gipiwyd ac a ddygid o flaen yr eſgobion a ſwydd-ogion eraill i'w holi; a'r ſawl a barhaent yn wrol yn eu cyffes o'r gwirionedd, ſe roddid barn arnynt ac a'u bwrid i'r tân.

Tôſt ac echryſlon oedd y difrawd a wnaed ymmŷſe pobl Dduw, yn yr ynys hon yr amſer hwnnw. Hwy a loſcid o feſur pump a chwech, ie weithiau naw neu ddêg yn yr un tân. Y modd yr oeddyd yn eu trin, ydoedd fel hyn.

Cymmerent bôſt neu drawſt bren mawr a goſodent ef i fynu mewn rhyw le amlwg; ac yno y ſawl a fydde i ddiodde a gymmerwyd ac a'u rhwymwyd wrth y poſt hwnnw. Wedi hynny, cludent ynghyd garneddau mawrion o ſych goed o'u hamgylch, ac a'u goſodent ar dân; ac felly mewn ychydig ennyd y cwbl oll a droyd yn lludw.

Fel

Fel hyn y darfu i lawer cant o eneidiau gwerthfawr gan Dduw eſcyn i'r Nêf, mewu fflamm-dan yn y dyddiau hynny; ac ni chafwyd derfyn o'r lloſcfeudd hyn hyd oni ddarfu i'r goruchaf yn ei drugaredd, weled bod yn dda yſtoppio anadl y frenhines waedlyd hon. Chwerwder a chreulondeb ei thernaſiad a barodd iddo ymddangos yn hir er na bu ond byrr; canys Duw a'i tarawodd fel y bu hi farw, wedi teyrnaſu o honi bum mlynedd a phedwar mis. Hi a briodaſe Phylip brenin Spain, lle y mae Cwrt yr Inquiſition i boeni y Proteſtaniaid; ac am hynny yr ydoedd eſe yn ddigon parod i gynnorthwyo, ac i ddwyn ymlaen y cyffelyb waith gwaedlyd yn Lloegr hefyd.

Ei heinioes a'i theyrnaſiad a derfynaſant yn y flwyddyn, un mil pum cant a dau-naw a deugain.

WEDI myned o'r frenhines Mary i'w lle ei hun, ei chwaer Elizabeth a etifeddodd y goron, yr hon oedd y trydydd o blant Harry yr VIII, a'r diwaethaf o hiliogaeth Owen ap Tudur, ac o waedoliaeth y Cymru a deyrnaſodd ar Loegr. Elizabeth merch ydoedd o'r eilfed wraig i'w thâd (ſef Anne Bulain), a hi a gawſe ei haddyſcu yn y grefydd Broteſtanaidd o'i mebyd i fynu; ac nid oedd lai ei gelyniaeth hi yn erbyn y grefydd babaidd, nac ydoedd cariad a Zêl ei chwaer Mary tuag atti: Ac am hynny, fel yr oedd y tro hwn yn y deyrnas, megis yn fywyd o feirw i'r Proteſtaniaid; felly o'r tu

arall, nid allai yr offeiriaid pabaidd lai nac edrych yn athriſt; ac nid heb achos; canys y pryd hynny yn ddilys y rhoddwyd clwyf marwol i bwer ac awdurdod y pab, yn yr ynys hon; fel ac nad allodd efe, na holl ddichellion pyrth, uffern oſod i fynu y grefydd babaidd drachefn, yn y deyrnas yma, o'r amſer hwnnw hyd y dydd heddyw.

Y frenhines Elizabeth a deyrnaſodd bedair blynedd a deugain yn llwyddiannus iawn; fel ac y mae hi yn cael ei chyfri ymmŷſc y tywyſogion, a'r rheolwyr mwya ardderchog a godidog ac y fu erioed yn gwiſco'r goron yn Lloegr. Eithr yn gymmaint ac iddi ymwrthod ac Eglwys Rufain, y Pâb a oſododd a'r waith ei holl gyfrwyſdra, ac a arferodd bob rhyw ſoddion ac a alle ddychymmyg tuac at ei difetha. Darfu iddo ei heſcymmuno megis Heretic yn (ol yr arfer), mynych y cymmhellodd ddynion gwaeddyd i'w lladd trwy fradwriaeth, y rhai a wnaethant lawer cynnig ar gyflawni'r peth; ond yn oeſtadol yn ddidycciant. Am hynny fe amcanodd ei diſtrywio trwy ffordd arall fwy effeithiol ac ofnadwy, canys anfonodd allan wahoddiad cyhoeddus cyffredinol trwy'r holl wledydd pabaidd, i roddi cyd-gynnorthwy tuac at ddiſtrywio brenhines Lloegr, (yr Hereticies) ac i gymmeryd ei theyrnas oddiwrthi.

Yr unig rai a ufuddhaſant i'r arch hon oedd y Spaniards, hwynt hwy a wnaethant baratoad mawr iawn, o wyr a llongau i gymmeryd meddiant o rodd y Pâb, (canys yr oedd y Pâb, yn awr wedi rhoddi Lloegr i bwy bynnag

nag a allent ei gorchfygu). Ac felly y Spaniards, wedi darfod o honynt orffennu y cwbl ac oedd berthnafol ac anghenrheidiol i'r cyfryw beth, a ofodafant allan gyda bendith a gweddi'r Pâb am eu llwyddiant. Eithr hwy a gvfarwyd ar y ffordd gan longau y frenhines Elizabeth: ac yn lle gorchfygu a meddiannu teyrnas Loegr, hwy a gawfant y fath ffwyl ac nad orfuwyd yn hir (ac nad anghofir fyth) mo honi yn Spain. Canys o'u holl longau ni ddychwelodd ond ychydig nifer, ar rheini yn ddrylliedig adref. Yn y cyffelyb fodd y darfu i'r Aflwydd gyd ganlyn holl gynllwynion y Pâb yn erbyn Lloegr trwy holl deyrnafiad y frenhines hon. Ac er bod o Eglwys Rufain, o'r amferoedd hynny hyd y awrhon yn gyfion iawn, yn dyfeifio ac yn llunio dwfn-ddichellion tuag at adferu y grefydd babaidd drachefn yn ein gwlad; etto hyd yn hyn trwy drugaredd y goruchaf, nis gallafant ddwyn i ben eu hamcanion.

Y Dywyfoges hon Elizabeth oedd, fel y dywedafom uchod, wedi cael ei haddyfgu yngwyddorion y grefydd Broteftanaidd o'i ieuenctid. Y Pâb, a'i grefydd Eulunaddolgar ef, hi yn oeftadol a'u ffieiddie, ac felly parod ydoedd i ffatro y Refformation a'r diwygiad, yr hwn a ddechreuwyd yn amfer ei thâd, ac a ddygafid ymmlaen yn nheyrnafied ei brawd Edward y VI. Am hynny hi a ymofododd yn wrol i ddad-wneuthur y pethau a wnaethe ei chwaer Mary; ac i droi

ſtat crefydd yn y deyrnas i'r un wedd a'r ddull ac y buaſe yn amſer ei brawd.

Yn gyntaf, gan hynny, darfu iddi fwrw i lawr bywer ac awdurdod y Pâb. Y neſaf, parodd i'r Common-Prayer neu'r ffurf weddiau gael ei troi i'r Saeſonaeg a'r Gymraeg Drachefn. Rhoddodd rydd-did ac annogaeth i'r pregethwyr Proteſtanaidd i bregethu a dyſcu yn gyhoeddus; a'r offeiriaid pabaidd, a drowydd allan ac a oſtegwyd. Yr yſcrythyr hefyd yn ol ei gorchymmyn hi, a drowyd i'r iaith gyffredin. Ac felly y byddo i ni gynnwys y cwbl oll mewn ychydig eiriau, hi a ddygodd y diwygiad i'r un mann (agos), ac yr ydoedd ar farwolaeth Edward y chweched.

Yn yr erledigaeth yn nheyrnaſiad Mary, amryw o'r Proteſtaniaid a ddiangaſant i wledydd pell. Eithr dychwelaſant Drachefn pan ddaeth Elizabeth i deyrnaſu.

Ac fel hynny darfu i ni ddangos yn gywir ac yn eglur, ymmha fodd, a thrwy ba offcrynnau y dechreuwyd ac y dygwyd ymmlaen y Refformaſion neu ddiwygiad crefydd yn y deyrnas hon.

Eithr mae'n gymmwys ddal ſulw o honom, pa wahaniaeth ydoedd rhwng y ddau hyn, o ran eu hagwedd a'u tymmer mewn perthynas i'r Refformaſion, (ſef Edward y VI, a'r frenines Elizabeth).

Edward y VI wrth farw oedd yn barnu fod y Refformaſion etto yn amherffaith; ond barn y frenhines Elizabeth oedd, ei fod mor berffaith ac oedd ddymmunol. Edward y VI, oedd

oedd yn bwriadu pe cawsai amser i ddwyn y Reformasion ymmlaen i ychwaneg o berfeithrwydd; eithr y frenhines Elizabeth oedd hwyrfrydig i ddyfod a'r Reformasion i'r mân ac y gadawsei ei brawd or blaen. Edward y VI oedd yn hytrach yn myned o flaen y gwyr dyscedig a'r pregethwyr Protestaniaid yn y Reformasion; ond ei chwaer y frenhines Elizabeth, ni chaniattae iddynt ddwyn y diwygiad neu'r Reformasion, ymmlaen mor belled ac yr ewyllysient.

Y Frenhines Elizabeth ydoedd (megis y crybwyllwyd), o'i chalon yn casau y Pâb. Ac felly dartu iddi lwyr ddiddymmu ei bwer a'i awdurdod ef yn y deyrnas, gan ddirmygu a ffieiddio y cyfryw lau. Ac am y grefydd babaidd, yr ydoedd yn cyflawn ewyllysgar i'w bwrw ymmaith. Hynny yw, yr oedd hi yn gwbl fodlon i ofod heibio yr Eulunaddoliaeth, a'r pethau mwya ffieidd y mae'r grefydd babaidd yn ei gynnwys. Eithr nid ydoedd chwaith yn gweled yn gymmwys, nac yn addas gwbl ymadel a'r holl ddefodau a'r seremoniau a arferir yn Eglwys Rufain; canys tebyg yr oedd y bydde yr addoliad yn rhy noeth a fyml oni chedwid rhai o honynt. Am hynny, ei barn a'i hopiniwn hi ydoedd, y dylid cadw cynnifer o'r seremoniau pabaidd, ac oeddent berthnasol megis i harddu crefydd, er bod yr yscrythyr yn gwbl ddistaw o'u plegid, ac er nad arferyd mo honynt yn amser r Apostolion, (pan oedd y grefydd buraf) nac mryw o flynyddoedd ar ol eu hymadawiad.

Felly

Felly gan hynny, yn gymmaint a bod ei ſerch tuac at y ſeremonies mor fawr, a bod y pwer hefyd yn ei llaw ei hun, hi a barodd gadw a ſettlo yr amryw ſeremoniau ſydd yn cael eu harferyd yn awr, yn yr addoliad yn y deyrnas hon; canys megis y darfu iddi hi ſefydlu a ſettlo y ſeremoniau a'r addoliad y pryd hwnnw, felly y maent yn ſefyll hyd y dydd heddyw.

Y rhan fwyaf o'r gwyr dyſcedig a'r pregethwyr Proteſtanaidd oeddynt, yn chwennych ac yn ewyllyſio bwrw ymaith y ſeremonies. Eithr hi (y frenhines Elizabeth), nis ymadawe mwy nac a'i choron ac un o honynt; ie, caſwyd mawr boen cyn cael caniattaad ganthi i fwrw y delwau allan o'r llarnoedd. Canys er nas mynne chwaith roddi yr un barch iddynt a'r Papiſtiaid; etto cyſri yr ydoedd y bydde iddynt fod yn harddwch, ac yn rhyw fath o gynhorthwy hefyd i'r addolwyr.

Ac felly yn gymmaint ac mae yn ei phwer hi yr ydoedd gwneuthur yr eſgobion; hi a ddewiſodd y cyfryw rai i fod yn eſgobion, ac a ſafent i fynu yn wrol dros y ſeremoniau. Ac o herwydd i'w theyrnaſiad hi barhau yn hir (ſef uchod ar ddeugain mlynedd) hi a gafodd gyflawn odfa i oſod y cyfryw rai mewn urddau, ac yn y llannoedd trwy yr holl deyrnas ac oeddent, o'r un farn a hi ei hun mewn perthynas i'r ſeremonies. Ac yn y modd hwn y ſeremoniau a ſiccrhawyd ac a ſettlwyd.

A

Ar hyn, y rhai oeddent yn anfodlon i'r ſeremonies pan welſont fod y frenhines a'i hoffeiriaid hi yn ymroi mor anhydyn i gadw, ac i gynnal i fynu y ſeremoniau a'r defodau pabaidd yma, hwynt hwy a ymddidolaſant i waſaneuthu Duw yn neilltuol, yn ol rhoel yr yſcrythyr yn unig. Eithr ni ddarfu iddynt ymneilltuo yn y modd hwn hyd oni adnabuant, nad oedd obaith yr ymadawe y frenhines ag un o'r ſeremonies. Ond y frenhines Elizabeth oedd gwbl anfodlon iddynt, a darfu iddi hi a'i hoffeiriaid eu caſau, ie a'u herlyd hefyd gan eu difenwi a'u dirwyo a'u carcharu. Fel hyn y gwnaeth hi trwy yr holl amſer y bu'n rheoli; eithr yn fwy tuac ac ddiwedd ei theyrnaſiad.

Y rhai a ymneilltuaſant gan ymwrthod a'r ſeremonies, (fel y crybwyllwyd) a elwid y pryd hynny Puritans, megis y mae eu canlynwyr (ſef yr rhai ſydd yn ymwrthod a'r ſeremonies yn awr), yn myned dan enw Diſſenters, Preſbyterians, Independants.

YR anghydfod ynghylch y ſeremoniau a ddechreuodd fel y dangoſwyd uchod, yn nheyrnaſiad Edward y VI. Eithr Edward y VI, megis y crybwyllaſom oedd yn bwriadu ac yn darparu, (pe buaſe ei amſer yn caniattau) fwrw ymaith y ſeremonies, a gwneuthur diwygiad mwy hollawl yn ol rheol yr yſcrythyr. Ond y frenhines Elizabeth, pan ddaeth hi i reoli a droawdd y dafl i'r tu arall: Canys ni's ymadawe hi mewn un modd a'r ſeremoniau; a darfu iddi oſod y

cyfryw

cyfryw rai mewn pwer, ac awdurdod trwy yr holl deyrnas ac oeddent yn hoffi y ſeremonies, a'r rhai nid oeddent yn eu hoffi a ddaroſlyngwyd ac a ddanſangwyd.

Ac ſel hyn dangoſaſom yr achlyſur a barodd, yr Ymwahaniad a'r Anghyttundeb ſydd rhung y Proteſtaniaid yn yr ynys hon. Yr hun Anghyttundeb ſydd megis yr yaym yn gweled yn parhau ac yn aros hyd heddyw.

Y frenhines Elizabeth, wedi teyrnaſu o honi bedair blynedd a deugain, a ſu farw yn y flwyddyn un mil chwech eant a dwy.

YN neſaf daeth James I i deyrnaſu. Nai, ſâb nith ydoedd i'r frenhines Elizabeth. Fe ſuaſſe o'r blaen yn frenin ar Scotland yn unig; ac yntho ef gyntaf yr unwyd Lloegr a Scotland i fod yn un deyrnas. Y brenin hwn cyn gynted ac y daeth i deyrnaſu, ar Loegr a ddywedodd yn gyhoeddus, yr erlidiei efe y Puritans allan o'r deyrnas oni bydde iddynt ymſodloni i arferyd y ſeremonies. Ac yn hynny fe fu'n gywir i'w air, canys parodd i amryw gannoedd o'r Puritanod ymadel a'r wlad a myned i America. Hiliogaeth yr rhain ſy'n awr yr preſwylio yn New-England neu Loegr-newydd; a'r Plantaſion penna ydynt ac ſydd yn perthyn i Loegr. O ran eu dyſcyblaeth eglwyſig hwn a gyfrifir yn Independants.

Y

Y brenin yma (James I), a fu farw yn y flwyddyn, un mil chwech chant a phump ar hugain, wedi iddo deyrnafu ar Loegr a Scotland, dair blynedd ar hugain. Ei Zêl mewn crefydd nid oedd ond clauar iawn; canys fe ddywedodd, yr ae efe hanner y fiordd yn ewyllyfgar i gyfarfod Eglwys Rufain, a chaniattaodd i'w fâb Charles briodi rhyw fath o Jezebel, fef Papifties greulon, merch brenin Ffrainc.

Pan fu farw James I, ei fâb Charles a goronwyd dan enw Charles I. A'r ydys yn tebyg fod y brenin hwn yn wr o dymmer weddol o'i ran ei hun, eithr yn gymmaint ac iddo briodi merch brenin Ffrainc (Papifties waedlyd), nid yw ryfedd os oedd ei deyrnafiad ef yn anhyweth ac yn greulon. Ac yn ddiau darfu iddo wneuthur llawer o bethau, niweidiol iawn i grefydd ac i'r wladwriaeth. Canys rhoddodd fawr rydd-did i'r Papiftiaid, a'r Armenians i wafcaru eu hathrawiaeth trwy'r holl deyrnas, ac ni feiddiei neb fcrifennu na difpywtio yn eu herbyn. Parodd hefyd na bydde i neb lyfafu pregethu ar un diwrnodgwaith trwy'r holl flwyddyn.—— Ymmhellach, darfu iddo ddanfon ei orchymmyn yn fcrifennedig trwy yr holl deyrnas i ganiattau i'r bobl iefaingc fyned i chwareu a dawnfio ar brydnhawnau'r Sabbothau, wedi gwrando o honynt y bregeth yn y boreu, canys nid oedd gyfreithlon bregethu ar y Sabboth oddieithr yn unig y boreu; a'r offeiriaid oeddent

Canlynwyr yr Heretic Jacob Jan Harmin.

ent yn rhwymedig bob un yn ei Eglwys blwyf, i ddarllen yr eſcriſen honno oddiwrth y brenin.

Heblaw hyn oll, darfu i'r brenin hwn (Charles I) fyned i godi arian fel y gwele fe'n dda, ar y deyrnas mewn fforddo dreth heb gyfraith trwy act o Barliament; a hyn a roddodd achlyſur i'r hir ryfel a dorrodd allan rhyngtho ef a'r parliament.

Wedi dechreu y rhyfel yma, darfu i'r brenin ddanfon llythyr at y gwyddelod pabaidd, i'r Iwerddon i geiſio eu cymmorth yn erbyn y parliament. Y llythyr hwn a ſcrifennodd naill a'i brenin ei hun neu ei wraig, ſef y frenhines yn ei enw ef; mae'n ſicr mae un o honynt a'i gwnaeth; a golodwyd Sêl y brenin wrtho, ac a ddanfonwyd at y Papiſtiaid i'r Iwerddon i geiſio eu cynhorthwy, a gorchmynwyd iddynt yn enwedigol wneuthur y Proteſtaniaid yno yn ſicr, *(make ſure of the Proteſtants.)* Ac felly yn ddiau y darfu iddynt eu gwneuthur yn ſicr ddigon; canys hwy a fyrthiafant arnynt yn ddilymmwth, ac a laddafant o honynt ddau can mil. Y lladdfa hon a wnaed yn y flwyddyn un mil chwech chant ac un a deugain. Y pethau hyn oll ydynt wir ddiammau, megis y mae pawb ac fy gydnabyddus a hanes yr amſeroedd hynny yn gwybod. Eithr y rhyfel rhwng y brenin a'r parliament aeth ymmlaen; ac yn y diwedd y brenin a orchfygwyd,

Yn y werddon y mae llawer o Broteſtaniaid, yn byw yn gymmyſc a'r Papiſtiaid.

wyd, ac a oſodwyd i farwolaeth gan Oliver Cromwel, yn y flwyddyn un mil chwech chant ac wyth a deugain.

AR ol marwolaeth Charles I, bu'r deyrnas dan reolaeth y parliament ac Oliver Cromwel, a'i fâb Richard dros ddeu ddeng mlynedd.

Wedi hynny Charles II, mab Charles I, a ddaeth i deyrnaſu. Y brenin hwn yr un wedd a'i hynafiaid a fuaſant yn teyrnaſu o'i flaen ef a erlidiodd y rhai oeddent yn ymwrthod a'r ſeremonies yn greulon iawn, gan wneuthur cyfreithiau chwerwon yn eu herbyn. Drwg fuched a phob math o aflendid oeddent yn rhygyl iawn trwy'r holl wlad tra parhaodd ei deyrnaſiad ef. Bu farw yn y flwyddyn un mil chwe chant pedwar ugain a phedair, wedi teyrnaſſu o hono bedair blynedd ar hugain.

YNeſaf at Charles II, ei frawd James a wnaed yn frenin, dan enw James II, Papiſt amlwg eyhoeddus ydoedd hwn; ac fe ymoſododdyn ebrwydd i oſod i fynu y grefydd babaidd yn y deyrnas. Eithr y Prince of Orange, ſef y brenin William a ddaeth mewn pryd ag ymddiffynſa i ni rhag y dymmheſtl ddiniſtrol oedd yn bwgwth ein gwlad yr amſer hwnnw. Canys y brenin James a fwrwyd ymaith; a'r brenin William a ddewiſwyd i deyrnaſu yn ei le ef, yn y flwyddyn un mil chwech chant pedwar ugain ac wyth.

Pan

PAN ddaeth y brenin William i deyrnaſu, cafodd y Diſſenters (ſef y Preſbyterians a'r Independants, canlynwyr yr hên Buritanod, y rhai ydynt yn ymwrthod a'r ſeremonies; cawſant hwy meddaf), rydd-did i addoli yn neilltuol heb y ſeremoniau; canys y brenin William a wnaeth gyfraith i'w hamddiffyn rhag y cyfreithiau a wnaethaſid o'r blaen yn eu herbyn; a'r rhydd did yma a gawſant yr amſer hwnnw, ſydd hyd yn hyn yn cael ei chaniattau iddynt.

The Act of Toleration.

BELLACH gan hynny, yn gymmaint a bod y ſeremoniau a grybwyllwyd yn achlyſur o anghydfod ac ymraſel rhwng y Proteſtaniaid, yn y deyrnas yma o ddechreuad y Refformaſion hyd yr awrhon; ac yn gymmaint a bod dynion yn gyffredin yn ddieithrol yn y pethau hyn; fe ſydd i ni yn y lle neſaf roddi cyſri a hanes fwy neilltuol o'r ſeremoniau yma, gan ddangos pa rai ydynt, a pha amſer, a pha fodd y cawſant eu dechreuad.

Y Seremoniau a'r defodau y mae yr anghydfod o'u plegit, a'r rhai y mae y Diſenters yn ymwrthod a hwynt ydyw y rhai hyn a ganlyn.

I. ARwydd y groes yn y bedydd. Y Papiſtiaid a arferant yn y bedydd y cyfryw ſeremonies a'r rhain. 1. Tynnir llûn y groes dros dalcen a thros ddwyfron yr hwn a

a fedyddir. 2. Fe wneir rhyw fath o dynghediad, ſef i dynghedu yr yſpryd drwg a'i holl bwer fyned allan o hono. 3. Fe oſodir halen ar ei enau ef. 4. Fe gyffwrddir ei ffroenau a'i gluſtiau a phoeryn. 5. Yr offeiriaid a efyd ei law arno i'w fendithio. 6. Fe enneinir ei ddwyfron a'i yſgwyddau ag olew. 7. Fe ireidir ei ben ag iraid cyſſegredig. 8. Goſodir cannwyll-gwyr wedi ei hennyn yn ei law ef. 9. Ei ben a rwymir a chwl neu folaid wen.

Pan wnaed y Refformaſion yn Lloegr, llun neu arwydd y groes a gadwyd, a hi a gynhelir etto. Ni ddangoſaſom o'r blaen y modd y darfu i'r Chriſtnogion ddechreu yn gynnar iawn, ſef o ddeutu dau cant o flynyddoedd ar ol amſer Chriſt, arferyd llun y groes ar amryw achoſion. Eithr yr y'm yn darllain, mae ynghylch y flwyddyn o oed ein Harglwydd, pedwar cant y dechreuwyd ei harferyd, megis rhan ſylweddol o'r ordinhad o fedydd; ſef ynghylch amſer Pâb Anaſtaſius I.

II. Y Tadau bedydd a'r mammau bedydd. Y mae Eglwys Loegr yn cyttuno gan mwyaf, a'r ail-fedyddwr mewn perthynas i fedydd; canys y mae hi yn dala fod yn rhaid i un gredu ac edifarhau cyn y bytho ganddo hawl i fedydd, ac am hynny, nas gall plant bychain gael eu bedyddio oni bae fod o honynt yn addaw, yn gyntaf trwy eu tadau-bedydd a'u mammau-bedydd bydd iddynt gredu ac edifarhau. *Catech.*

Yn

Yn yr amſeroedd gynt y ddefod ydoedd fel hyn. Gwr ac a fae ei hun yn gredadyn, os digwydde fod iddo gaeth weiſion a morwynion paganaidd neu digred; y plant a enid o'r rhain, y meiſtir a'u cymmere, ac a ymrwyme o flaen y gweinidog a'r gynnulleidfa y bydde iddo eu dwyn i fynu yn grefyddol. Ar hyn yr oeddyd yn barnu y gellyd eu bedyddio hefyd; rhieni duwiol a chrefyddol, os digwydde idd. ynt farw cyn cael o honynt amſer ac odſa i roddi eu plant i'w bedyddio; yna eraill a ſafent i fynu ac a ymrwyment ar eu dwyn i fynu mewn adnabyddiaeth ac arferyd o ddyledſwyddau crefydd; ac felly hwy a fedyddid. Eithr yn gyffredinol, y rhieni eu hunain a roddent eu plant i'w bedyddio; a hwynt-hwy, eu hunain a ymrwyment, (o flaen y gynulleidfa), i'w dwyn i fynu a'u maethu yn addyſc ac athrawiaeth yr Arglwydd, *Eph.* 6, 4. Hyn ydoedd arferedig hyd y flwyddyn o oed Chriſt pedwar cant; ſef hyd amſer St. Awſtin, megis y mae'n amlwg oddiwrth yr hyn ſydd ſcrifennedig yn ei lyfrau ef. Eithr ar ol talm o amſer, fel y cynnyddodd llygredigaeth yn Eglwys Rufain, y rhieni a lwyr drowyd heibio, a chymerwyd eſtroniaid yn eu lle, felly y gwnaud yn Lloegr yn amſer pabyddiaeth, ac ar y Refformaſion ni fwriwyd mor ddefod hyn heibio.

III. Y Bedydd eſcob. Y bedydd eſcob (neu y Confirmaſion), megis yr arferir yn awr yn Lloegr, a ordeiniwyd gyntaf gan y

Pâ

Pâb Sylveſter, ynghylch y flwyddyn tri chant a deg ar hugain. *Plat. Sabel.*

IV. YR amryw wiſcoedd hynodol y rhai y mae yr offeiriaid, neu'r gwyr-eglwyſig yn rhwymedig i'w gwiſco; ſef y gownau colerau hirion, y cappau pedair-ongl y ſheccedau yſgarlad, y gwiſcau gwnnion a'r cyfryw. Y gwiſciadau hyn a ordeiniodd Pâb Stephen, o oddeutu'r flwyddyn dau cant a thri ugain. *Polyd Iſodor.*

V. Y Diſſenters hefyd, gan mwyaf ydynt' yn anfodlon i'r agwedd o benlinio wrth gymmeryd y Sacrament o Swpper yr Arglwydd. Chriſt a'i Apoſtolion a'i cymmeraſant yn y cyfryw ddull ac oedd arferol mewn gwleddau yn yr amſer hwnnw. Y modd yr ymoſodant i fwyta mewn gwleddau yn y wlad honno yr amſer hwnnw, ydoedd fel hyn.

O amgylch y bwrdd yr ydoedd tri o wlau derchafiaid yngyfuwch ac ymyl y bwrdd. Y gwleddwyr a'u goſodent eu hunain i lawr ar y gwlau hyn, megis yn eu lled orwedl neu ar eu tal elin, fel ac yr ydoedd yſgwyddau y naill yn tueddu tuac at ddwyfron y llall; megis yr ydym yn darllain fod y diſcybl yr oedd yr Ieſu yn ei garu, yn pwyſo ar ei ddwyfron ef ar Swpper, *Joan.* 21, 20. *Pen.* 13. 23.

Eithr y ddull a'r wedl hon a drowyd heibio yn yr oeſoedd a ganlynaſant; canys yn y dyddiau hyn eiſtedd yr ydys i fwytta mewn gwleddoedd ac ar brydiau eraill. Yr ydys, gan

gan hynny yn barnu mae yr agwedd gorphorol o eiſtedd wrth gymmeryd Swpper yr Arglwydd, ſydd yn dyſod agoſaf at eſampl Chriſt a'i Apoſtolion.

Y Papiſtiaid, yn gymmaint a'u bod yn coelio fod y bara a'r gwin yn cael eu troi, yn wir berffaith gorph a gwaed Chriſt, ydynt yn eu haddoli, ac o achos hynny hwynt-hwy a benliniant; ac y maent hwy yn rhyfeddu fod y Proteſtaniaid yn Lloegr, ac rhai nid ydynt yn credu y cyfryw beth, oblegid y bara a'r gwin nac yn eu haddoli chwaith, etto yn penlinio wrth eu cymmeryd.

Du Molin.

Yr arfer o benlinio wrth gymmeryd Swpper yr Arglwydd, a ddechreuwyd (fel yr ydys yn tebyg), ynghylch y flwyddyn, un mil dau cant a chwech ar hugain. Sef yn amſer Pâb Honorius III.

VI. CRYMMU tuac at yr allor a'r gangell, Yn y gwledydd pabaidd y ddefod ſydd fel hyn. Yr offeiriaid a gyſſegrant bara a gwin. Y bara a'r gwin cyſſegredig yma a gyfodir i fynu ac a oſodir i ſefyll goruwch yr allor. Yno y bydd yn waſtadol nos a dydd trwy'r holl flwyddyn. Eithr yr elfennau cyſſegredig hyn a newidir bob pymtheg niwrnod. Hefyd, ar lofft y grog, rhwng corph y llan a'r gangell, y mae llun y groes ac amryw ddelwau wedi eu goſſod i fynu. Ac felly yn gymmaint a bod y Papiſtiaid yn credu fod y bara a'r gwin pan eu cyſſegrer yn cael eu troi, yn wir gorph a gwaed

gwaed Chriſt; ac yn gymmaint a'u bod yn addoli llun y groes a'r delwau y maent hwy yn tebyg eu bod yn rhwymedig, pan ddelont i mewn i'r llan i ymgrymmu ac i addoli tuag at yr rhain. Felly yr ydoedd yn y wlad yma gynt, yn amſer pabyddiaeth. Eithr er i'r eulynod hyn trwy y Refformaſion gael eu bwrw ymaith, etto y mae rhai dynion trwy draddodiad, yn cynnal y ddefod a blygu a chrymmu tuag at yr allor hyd yr awron.

Y bwrdd hefyd y maent yn ei alw yn allor, megis ac y gelwid gynt pan oedd yr offeiriaid pabaidd yn cymmeryd arnynt aberthu corph Chriſt arno, yn offrwm dros y byw a'r meirw.

VII. DARLLEN yr Apocrypha yn gyhoeddus yn y llannoedd, yn lle rhannau o'r yſcrythyr.

VIII. CADW dyddiau gwylion. Heblaw dydd yr Arglwydd neu'r Sabboth, y mae llawer iawn o ddydiau eraill wedi eu goſod heibio i'w cadw yn ſanctaidd yn Eglwys Ruſain, y rhai a alwant gwylau. A phan wnaed y diwygiad yma yn Lloegr ni lwyr fwrwyd mo'r rhain ymaith; canys gwylau hyn a ganlyn a gynhelir etto: ſef yn gyntaf.

1. Dydd Natolic, neu ddydd genedigaeth Chriſt. Yr wyl hon a gynhelir yn awr ar y pummed dydd ar hugain o fis Rhagfyr. Ac felly yn y weddi bwyntiedig ar y diwrnod, yr ydys yn diolch i Dduw am roddi o hono ei

unig anedig ſâb i gael ei eni o forwyn bur megis ar yr amſer, neu'r dydd hwn. Eithr ſiccr yw, mae nid y dydd hwn ydyw yr hwn y ganwyd Chriſt arno. Canys y diwrnod a elwir yn awr yn bumed ar hugain a Ragfyr. Sydd wedi ſymmud yſpaid llawer o ddyddiau o'r lle yr ydoedd, ddau cant ar bymtheg o flynyddoedd o flaen hyn, (pryd yr ymddangoſodd Chriſt yn y cnawd); megis y mae yn dra hyſpys i bawb ac ſydd yn deall cwrs yr amſerau, rhyw fath o Hereticciaid a ddechreuſant gadw yr wyl hon gyntaf, ſef canlynwyr y pen Heretic Baſilides, ynghylch y flwyddyn o oed Chriſt dan cant. Eithr o ddeutu'r flwyddyn pedwar cant, dechreuwyd ei chadw yn fwy cyffredinol; ſef yn amſer Pâb Anaſtaſius.

Y dyddiau yn y blynyddoedd ydynt yn cyfatteb y naill i'r llall, pan y bytho yr haul wedi dyfod i'r un man bob blwyddyn, yn y lein ecliptic, a'r ſymmudiad a grybwyllwyd ſydd yn digwydd o herwydd yr ychwanegiad a wneir o ddiwrnod cyfan bob blwyddyn naid.

2. Ddyd gwyl Stephen Ferthyr. Yr wyl hon a ordeiniwyd o ddeutu amſer Pâb Ffelix, yn y flwyddyn tri chant a deg a deugain.

3. Dydd gwyl Joan yr Efangylwr, Pâb Innocentius IV, a ordeiniodd gadw yr wyl hon yn y flwyddyn un mil dau cant a phedwar ar ddeg a deugain.

4. Dydd gwyl y fil feibion, Pâb Innocentius hefyd a appwyntiodd gadw y dydd hwn.

5. Dydd gwyl yr Enwaediad. Yr un Pâb ſef Innocentius IV, a roddodd ddechreuad i'r wyl hon.

6. Dydd

6. Dydd gwyl Yſtwyll, neu Yſgwyll. Ynghylch yr un amſer y dechreuwyd cadw yr wyl hon a'r Natolic. Hi a gedwir er coffadwriaeth o ddyfodiad y doethion trwy gyfrwyddiad y Seren i annerch Chriſt.

Yſgwyll ab yr particulæ intenſiva &c. gwyll ſeu wyll noctturnum phænomenon.

7. Dydd gwyl troedigaeth St. Paul. Hon hefyd a ordeiniodd Innocentius IV, darfu i'r pab hwn eſcymmuno Ffrederic II, Emprwr Germany; amcanodd hefyd trwy wobr, beri i'w feddygon ei wenwyno ef.

Ymddangoſiadau noſawl.

8. Dydd gwyl puredigaeth y Forwyn Fair. Hi a elwir dydd gwyl Fair y cannhwylleu, o herwydd i Pâb Sergius III, ynghylch y flwyddyn o oed Chriſt naw cant, ordeinio i'r bobl ddwyn lampau a chanwylleu yn eu dwylo, ar y diwrnod yma, i arwyddoccau puredigaeth y Forwyn Fair. Y Pâb hwn ſydd hynod mewn Hiſtory oblegid ei odineb a'i ffiaidd ymarweddiad.

9. Yn neſaf y mae amſer o yſpaid ddeugain niwrnod a gyfrifir yn ſanctaidd. Y Cymru a'i galwant amfer y garawys, neu garwys, oblegid y gwael ymborth a arferyd tra parhae y dyddiau hyn, Canys amſer ympryd yw.

Iſcell gwael, cawl.

Yr achlyſyr a roddodd ddechreuad i'r ympryd hwn ydoedd fel hyn. Chriſt a ddywedaſſei mewn *Y Cymru gynt, pan* atteb i ddiſcyblion Joan *oedd pabyddiaeth yn*

y wlad cyn gynted ac yr ac yr amſer eul hwn heibio, a gynhalient ryw fath o gampau a chwareuon mewn ffordd o orfoledd. Y chwareuon gorfoledd hyn a gynhelir mewn rhai mannau etto.

Fedyddiwr. Y dyddiau a ddaw pan ddyger y priodfâb oddiarnynt, ac yna yr ymprydiant, *Mat.* 9, 15. Ei feddwl oedd, mae amſer trallod yw yr amſer mwya cyfaddas i ymprydio; a bod yr amſer hwn etto i'r ddiſcyblion ef yn ol. Canys ar ol ei dderchafiad ef i'r Nêf, hwy a gyfarfyddent ar cyfryw driniaeth amharchus oddiwrth y bŷd annuwiol ac y rodde iddynt achlyſur i ymprydio. Gweddi ac ympryd ydynt foddion arbennig i orchfygu y profedigaethau chwerwaf.

Eithr y Chriſtnogion yn yr hên oeſoedd, oeddent yn deall meddwl Chriſt, yn y geiriau a grybwyllwyd fel hyn; ſef, mae'r amſer y dygid y priod fâb oedd, yr yſpaid o amſer o'r pryd y bradychodd Judas ef hyd ei adgyfodiad oddiwrth y meirw. Ac hefyd, tebyg yr oeddent fod y geiriau yn cynnwys gorchymmyn, nid yn unig i'w ddiſcyblion ef, ond hefyd i'r Chriſtnogion oll hyd ddiwedd y bŷd, i ymprydio dros y ddau neu'r tri diwrnod hynny. Ac am hynny eu harfer oedd bob blwyddyn, ymprydio y ddau ddiwrnod neſaf at y paſc. Fel hyn y gwnaent ynghylch y flwyddyn o oed Chriſt dau-cant. Eithr yn yr oeſoedd ar ol hynny yr ympryd a eſtynnwyd i wythnos; ac wedi hynny i dair wythnos a mis; ac or diwedd, megis y cynnyddodd coel-grefydd, i chwech wythnos neu ddeugain niwrnod.

Yn

Yr ympryd hon o ddeugain niwrnod (neu y quadrageſima), a gynhelir i fynu gyda mawr Zêl yn enwedig yn Eglwys Rufain hyd heddyw.

10. Dydd gwyl Mathias. Y dydd hwn a gedwid yn ſanctaidd trwy ordinhad Pâb Innocentius IV.

11. Dydd gwyl Fair y Cyhydedd. Ynghylch yr un amſer y dechreuwyd cadw yr wyl hon a'r Natolic; a'r amſer hwnnw yr oedd yr enw yn gryn berthnaſol: Canys y pryd hynny, y cyhydedd oedd o fewn ychydig ddyddiau i'r pummed ar hugain o fawrth. Eithr yn awr.

Y Cyhydedd (Æquinoctium) ſydd yn deſcyn ar y degfed o fawrth. Ond yn wyl a gedwir etto ar y pummed ar hugain. Y dydd hwn a faith o ddiwrnodau eraill yn y flwyddyn, a geidw Papiſtiaid yn ſanctaidd er mwyn y Forwyn Fair. *Cyhyddydd a nos.*

12. Dydd gwyl St. Marc. Y dydd hwn a appwyntiwyd i'w gadw yn ſanctaidd gan y Pâb Innocentius IV.

13. Dydd gwyl St. Phillip a St. Jaco. Y Cymru er yr agos i un cant ar bymtheg o flynyddoedd, ſef er y pryd y cawſant eu llwyr orchfygu gan Emprwr Rhufain, a alwant y dydd hwn Calan Mai hynny yw, y dydd cyntaf o Fai. Ac er i'r Pâb Innocentius IV, ordeinio gwyl Philip a Jaco, i gael ei chadw ar y dydd hwn, canys efe a ordeiniodd yr wyl hon *Yr hên Rufeiniaid a alwant y dydd cyntaf o bob mis Calandæ neu Calandæ a'r Cymru, gan eu dynwared ei galwent* hefyd;

Calan. Y mae rhyw weddillion o'r peth hwn etto; canys fe elwir y dydd cyntaf o Jonawr ac o'r flwyddyn Calan, a'r dydd cyntaf o fai Calan Mai, a'r dydd cyntaf o dachwedd ac o'r gaiaf, calangaiaf, ar dydd cyntaf o hydref nen hydfre, a hyddyfre, calan-hydre, megis y dwedyd gynt calan hyddfre, Cain cynnywyre, hynny yw eglur foreue.

hefyd; etto hwynt hwy hyd yr awrhon a alwant y diwrnod fynychaf wrth yr hên enw.

14. Dydd gwyl St. Barnabas. O appwyntiad Innocentius IV.

15. Dydd gwyl Joan Fedyddiwr. Fe ddywedir, *Luc.* 1. 14. Llawer a lawenychant am ei enedigaeth ef. Ac yn *Joan.* 5, 35. Efe oedd ganwyll yn goleuo, a chwithau oeddych ewyllysgar i orfoleddu tros amſer yn ei oleuni ef. Y Papiſtiaid a gymmeraint achlyſſur oddiwrth y geiriau hyn i gynnal gwyl flynyddol ar y dydd hwn er coffadwriaeth o Joan Fedyddiwr. Y diwrnod a dreuliant mewn wttres a gloddeſt a phob math o ddifyrrwch. Y Cymru hefyd mewn rhai mannau ydynt yn cynnal rhyw beth o'r cyffelyb hyd heddyw; canys eu harfer yw, gwneuthur rhyw fath o dan gorfoledd (bonffires) a bloeddio ar y diwrnod hwn.

16. Dydd gwyl Betr. 17. Dydd gwyl St. Jaco. 18. Dydd gwyl St. Bartholomæus. 19. Dydd gwyl St. Mathew. Y dyddiau hyn hefyd a oſodwyd heibio i'w cadw yn ſanctaidd trwy awdurdod a gorchymmyn Pâb Innocentius IV.

20. Y mae hefyd wyl dra-hynod, yn enwedig ymmŷſc y Cymru, yr hon a elwir gwyl

gwyl y grog, hynny yw, gwyl y groes. Y modd y cafodd yr wyl hon ei dechreuad ydoedd fel hyn. Y Papiſtiaid ydynt yn dywedyd i'r pren y croeſhoeliwyd Chriſt arno, gael ei guddio dan y ddaiar, mewn lle dirgel o wir ſpeit a dirmyg i'w ddiſcyblion a'i ganlynwyr ef. Eithr ymmhen tri chant o flynyddoedd ar ol hynny, mewn rhyw fodd rhyfeddol, y groes a gafwyd ac a gyfodwyd i fynu o'r pridd yn ddien ac yn ddurfing, a oſodwyd i'w chadw yn Jeruſalem megis Relic gwerthfawr; ac yno y bu hyd ynghylch y flwyddyn o oed Chriſt chwech chant.— Eithr y pryd hynny Coſroes brenin Perſia yr hwn oedd ryfelwr mawr a ennillodd Jeruſalem, ac a wnaeth anrhaith o honi ac a ddygodd ymmaith y groes ymmŷſc yr yſclyfaeth. Ond darfu i Heraclius Emprwr Conſtantinopl, ryfela a brenin Perſia a'i orchfygu, a dwyn y groes yn ol drachefn, a'i goſod i fynu lle y buaſe o'r blaen yn Jeruſalem. Er coffadwriaeth o'r fuddugoliaeth a'r waredigaeth hon, y Papiſtiaid ydynt fyth yn cadw yr wyl yma dan enw, feſtum exaltationis S. Crucis.

21. Dydd gwyl Mihangel. Y mae hên draddodiad ymmŷſc y Papiſtiaid i'r Arch-angel Michael neu Mihangel, ymddangos yn fynych iawn mewn amryw fannau yn yr amſeroedd gynt, fel ar ol ymadawiad Chriſt a'r Apoſtolion, a gwneuthur llawer o wrthiau hynod. Ac o herwydd y mawr barch oedd gandynt i'r Angel hwn, heblaw gael o hono ei wneuthur megis ymddiffynnwr o lawer o lannoedd, hwy a oſodaſant heibio ddiwrnod o'r flwy-

flwyddyn i'w gadw yn ſanctaidd er anrhydedd iddo. Y pryd y dechreuwyd cadw yr wyl hon, oedd ynghylch y flwyddyn pum cant; ſef yn amſer Pâb Ffelix III.

22. Gwyl yr holl Sainct. Yr wyl hon a ordeiniwyd tuac at wneuthur coffadwriaeth o'r holl ſainct a fuant feirw, a thuag at ddeiſyf rhan a hawl yn eu heiriolaeth hwynt-hwy. Hi a appwyntiwyd gyntaf gan y Pâb Gregory IV. Ynghylch y flwyddyn wyth cant a deg ar hugain. Darfu i'r pab hwn annog meibion brenin Ffrainc i wrthryſela yn erbyn ei tad.

23. Dydd gwyl yr Eneidiau. Yr wyl hon hefyd ni's llwyr anghofwyd yn Ghymru etto. Pâb Joan XIX a orchymmynnodd gadw y diwrnod hwn tuac at weddio tros yr Eneidian yn y Purdan, o ddeutu'r flwyddyn un mil a phump. Y Pâb hwn oedd dra-hynod mewn dewiniaeth a chwnſuriaeth.

24. Dydd gwyl St. Luc. 25. Dydd gwyl St. Andrews. 26. Dydd gwyl St. Thomas.— Y tair wyl hyn hefyd megis amryw eraill a grybwyllwyd o'r blaen, ydynt o appwyntiad Pâb Innocentius IV, ynghylch y flwyddyn o oed ein Harglwydd un mil dau cant a phedair ar ddeg a deugain.

IX. Yr arferiad o Offer-cerdd yngwaſanaeth Duw. Ymmhob eſgobaeth y mae ond odid un llan ſef y llan bennaf, ag organ ynthi; yn y llan hon y mae y cyfryw drefn a hyn.

1. Y mae ynghylch deuddeg o offeiriaid a elwir Ficceriaid.

2. Y

2. Y mae un ar bymtheg, neu ugain, neu fe alle bedwar ar hugain o offeiriaid eraill a elwir Prebendaries.

3. Y mae hefyd radd arall o offeiriaid a elwir Canons.

4. Goruwch y rhai hyn oll y mae un gwr yn ben ac yn flaenor; hwn a elwir Dên.

Y gwaith ſydd yn gorwedd ar yr rhain yn bennaf yw, ymgynnull ddwy waith yn y dydd, ſef foreu a phrydnhawn, trwy'r holl flwyddyn i gyflawni math o waſanaeth a elwir Qweir.

Y gwaſanaeth hwn, ſef y Qweir, y cyfryw a hyn ydyw.

1. Darllennir rhai pennodau o'r yſcrythyr.

2. Fe ddywedir y gyffes gyffredinol, a'r weddi a elwir yr Abſoluſion. Y rhai hyn a ddywedir heb eu canu eithr. 3. Y Pſalmau darllain, neu'r Pſalmau yn y pros, y gweddi'r Arglwyd, y Credo, a'r Anthems, ac amryw weddiau eraill ac ſy'n y Common-Prayer; y rhai hyn oll, er nad ydynt gynghaneddol neu ar feſur cerdd, etto eu canu yn uchel a wnant gyda'r organ.

Yr hwn a dyfalodd y cyfryw arferiad o'r organ gyntaf oedd Pâb Vitalianus, ynghylch y flwyddyn chwech chant a thri ugain. Y pab hwnnw, meddaf a ddyfaiſiodd ac a ordeiniodd arferyd yr offeryn-cerdd yma yngwaſanaeth Duw gyntaf; ac a ymffroſtiodd gan ddywedyd, ddarfod iddo efe ddyſcu i'r bobl waſaneuthu a moliannu Duw a phibau.

Eithr er i'r Papiſtiaid ddechreu gofod i

fynu

ſynu y cyfryw waſanaeth y pryd hwnnw; etto nid arferyd mo'r Organ ond mewn ymbell ſan dros yſpaid llawer cant o flynyddoedd ar ol hyn. Canys y Papiſt hynod Thomas Aquinas, yr hwn oedd yn byw o ddeutu'r flwyddyn un mil dau cant a deg a thrugain; ete a ddywed yn ei lyfr, nad oedd dim offerynnau cerdd yn cael eu harferyd mewn addoliaid crefyddol yn ei amſer ef. Y mae'n amlwg gan hynny, mae ryw bryd ar ol amſer y gwr hwn y daeth yr Organ, a'r cyfryw offerynnau i fod mor rhygil yn y byd ac y maent yn awr. Canys yn awr, crefydd a defoſiwn y Papiſtiaid ſydd yn ſefyll mewn meſur mawr, yn y cyfryw bethau a'r rhain.

X. HEBLAW y pethau a grybwyllwyd, y mae hefyd anghyttundeb rhwng y Proteſtaniaid yn y deyrnas hon oblegid ffurf weddiau.

Ffurf weddiau yw gweddiau o wneuthuriad un arall. Gweddiau a wneir ac a gyfanſoddir gan ryw un, ac a breintir ac a oſodir allan i'w harferyd gan bawb yn gyhoeddus ac yn neilltuol. Y cyfryw beth ydyw y Common-Prayer, neu'r ffurf weddi cyffredin.

Nid yw y Diſſenters chwaith yn gwbl ac yn hollawl yn erbyn ffurf o weddi; canys y maent yn caniattau ac yn ewyllyſio i rai gweiniaid arferyd gynnorthwyadau; ſef yn unig hyd oni byddo iddynt gyrrhaeddyd y cyfryw feſur o wybodaeth ac o broſiad, a cadnabyddiaeth o honynt eu hunain ac y ſo gyſaddas tuag at allael o honynt

ynt dywallt eu herſyniadau yn berthnaſol ac yn weddaidd o flaen Duw.

Y ffyddloniaid tan y gyfraith, ſef cyn dyfodiad Chriſt, a weddient heb ffurf. Hyn ſydd amlwg oddiwrth y cyngor neu'r gorchymmyn, y mae Solomon yn ei roddi. *Preg.* 5. 2. Na ſydd ry bryſſur a'th enau, ac na fryſied dy galon i draethu dim ger bron Duw, canys Duw ſydd yn y nefoedd, a thitheu ſydd ar y ddaiar ac am hynny bydded dy eiriau yn anaml.

Yn awr, pe buaſe ganddynt ffurf i weddio wrthynt yn yr amſer hwnnw, ſe fuaſe i'r cyfryw gyngor a hwn yn gwbl anfuddiol ac yn amherthynaſſol; canys ni allaſe eu geiriau yn eu gweddi, fod ddim fwy na dim lai na'i hyn a fuaſe yn ſcrifennedig o'u blaen. Ac nad ydoedd yr Eglwys Iddewig yn gweddio wrth ffurf, neu o lyfr y pryd yr ymddangoſodd Chriſt yn y cnawd, nid yw anhawdd i ni gaſclu oddiwrth yr hyn yr y'm yn ei ddarllen yn, *Luc.* 18, 9, 13. Yn y lle hwn y mae ein Jachawdwr yn repreſento neu'n goſod allan y Phariſæad,

O herwydd mor dueddol ydyw'r meddyliau i grwydro a'r galon i leſgau yn y cyfryw ddyledſwydd, bydded dy eiriau yn ychydig ac yn anaml, yn dy weddi bydd fyr. Eithr pan gyrrhaeddom y cyfryw ddawn a gallael o honom orchfygu y llygr hwn, a'n dyledſwydd oll yw ymdrechu am gyrrhaeddyd y cyfryw ddawn, ni a allwn, ac ni a ddylem fod megis yn wreſſog felly heſyd weithiau yn hir, Nehem. 9, 3. *Dan.* 9, 3, 20. *Luc.* 6, 12.

yn

yn gweddio heb ffurf. Canys yn ei weddi y mae efe yn cymmeryd achlyſſur trwy ganfod y Publican, (yr hwn ar ddamwain a ddaethe i addoli ar yr un amſer, canys o'i fodd ni ddaethei efe yn gyfagos i'r cyſtryw ddyn; y Phariſæad, maddaf, pan edrychodd ar y Publican a gymmer achlyſſur), i roddi diolch i Dduw am yr amryw rinweddau da, oedd ynddo ef goruwch y Publican; yr hyn beth, pe buaſe wedi ei rwymo wrth ffurf, nis gallaſe ei wneuthur.

Os heb ffurf y gweddie y Phariſæaid, diammau yw, mae barn yr Iddewon yn gyffredin ydoedd, mae heb ffurf y dylid gweddio. Canys ſiccr ydyw fod y Phariſæad. yn gymmaint a'u bod yn caru ac yn ymgeiſio canmoliaeth, dymion yn bennaf yn gweddio yn y cyſtryw ddull, ac a gyfrifid gan bawb yn fuya creſyddawl o deſoſionawl.

Y Brif-Eglwys y gelwir yr Eglwys Griſtnogawl, tra parhaoda yn bur, ſef tros ynghylch can mlynead ar ol amſer yr Apoſtolion.

YN y Brif-Eglwys hefyd, eu harfer ydoedd gweddio heb ffurf. Hyn ſydd amlwg ac eglur oddiwrth yr hyn ſydd ſcrifennedig yn llyfrau y gwyr dyſcedig oeddent yn byw yn y dyddiau hynny. Iuſtin Martyr, Tertulian ac Origen, y rhai oeddent yn byw tu fewn i yſpaid dau cant o flynyddoedd ar ol genedigaeth Chriſt, (y tri wr enwog hyn meddaf) ydynt yn dywedyd, fod y Griſtnogion yn yr amſeroedd hynny yn gweddio nid

nid o lyfr, eithr trwy oſod allan holl eithaf eu hegni; trwy oſod ar waith eu deall a holl bwerau'r galon.

Tertulian yn un o'i lyfrau a ddywed yn y modd hwn: ein harfer ni y Chriſtnogion wrth weddio ſydd fel hyn; derchafwn ein golygon tua'r Nêf, eſtynnwn ein dwylo ar lêd, a'n pennau yn noethion, ac yna gweddiwn eithr heb lyfr, ond trwy oſod holl bwerau a ſwyngyn-neddfau ein heneidiau ar waith. Fel hyn y cyflawnid y ddyledſwydd o weddi yn y Brif-Eglwys.

Ynghylch y flwyddyn tri chant tri ugain a deg, yr y'm yn darllain fod ffurfiau yn dechreu cael eu harferyd. Eithr nid arferyd mo honynt etto oddieithr mewn rhai mannau; canys y mae'n eglur oddiwrth yr hyn y mae St. Awſtin yn ſcrifennu (yr hwn oedd yn byw ynghylch y flwyddyn pedwar cant), fod y Chriſtnogion yn gyffredin yn ei amſer ef yn gweddio heb un ffurf, pob un yn ol y meſur o ddawn a gyrhaeddaſei.

YNA y mae'n gymmwys i ni etto ddwyn ar gof y modd y dangoſaſom o'r blaen i Eglwys Rufain, ddechreu dirywio yn gynnar iawn; ie, dechreuodd ymadel a ſymlrwydd yr eſengyl ymmhen ychydig o flynyddoedd ar ol ymadawiad yr Apoſtolion. Ac o hynny ymaes hyd yr awrhon darfu iddi hi fyned yn waſtadol ar ei gwaeth. Ac megis ac yr ydoedd hi yn cynnyddu mewn llygredigaeth a choel grefydd, felly yr ydoedd hi hefyd yn lledanu ei meiſtrolaeth dros yr eglwyſi oddi amgylch; fel ac y darfu i

elgob

eſgob Rhufain, ſef y pab o'r diwedd, ynghylch y flwyddyn chwech chant, gael ei ddeclario yn ben eſgob dros holl eglwyſi'r bŷd.

Yn awr y mae i ni ddal ſulw, mae Rhufain oedd megis yr efail neu'r gweith-dy mawr lle y llyfelwyd, ac y ffurfiwyd y ſeremoniau a'r defodau coel-grefyddol ac eulunaddolgar a lygraſant yr eglwyſi trwy yr holl wledydd. Beth bynnag a ordeinie'r Pâb, nid oedd wrthod mo hono dan boen eſcymmundod.

Yn Eglwys Rufain hefyd y dyfaiſiwyd ac y cyſanſoddwyd ffurf weddiau yn aneirif; nid yn unig at y Duw holl-alluog ond hefyd at yr Angelion, Mair a'r ſeinctiau; ie, llawer mynychach y gweddient at yr rhain nac at Dduw ei hun.

Ni a ddangoſaſom uchod fod y wlad hon hefyd gynt dan feiſtrolaeth y pab, ac i'r grefydd babaidd gael ei chynnal i fynu yma ymmhob pwngc o honi hyd deyrnaſiad Harry yr VIII, ac Edward y VI. Y pryd y gwnaed y Refformaſion, cyn gwneuthur y diwygiad neu'r Refformaſion, yma, yr oedd yr yſcrythyr yn yr iaith lading, a'r offeiriaid pabaidd a roent y cyfryw ddeongliad o honi ac y welent hwy yn dda i'r bobl gyffredin: Ac felly gorchmynnion y pab, ar yſcrythyr wedi ei gwyr droi oedd y rheol a oſododid, i ddynion i fyw wrthi yn yr amſeroedd hynny. Eithr pan y wnaed y diwygiad, bwrwyd ymmaith reolaeth y Pâb, ar yſcrythyr a gyfieithiwyd.

Drachefn, mewn perthynas i'r addoliad, ac

ſu

fu y grefydd babaidd yn y wlad, yr oeddyd yn addoli yn waſtadol wrth ffurf; a'u ffurfiau oeddent oll yn llading, ac yn lluoſſog iawn, y ffurf weddiau neu'r Common-Prayer pabaidd yw llyfr y Maſs, y miſſal a'r brefary. Yn awr, pan wnaed y Refformaſion y rhai hyn a gyfieithwyd ac a ddiwygiwyd. megis y crybwyllwyd o'r blaen dan deyrnaſiad Edward y VI.

Ac yn gymmaint a darfod o honom hyd yn hyn, roddi cyfrif neilltuol o'r pethau yn perthyn i'r Refformaſion, ſe fydd i ni yn ychwaneg roddi byrr hanes o'r dull a'r modd y diwygiwyd yr addoliad, ſef y modd y cyfanſoddwyd ac y trefnwyd y ffurf-weddiau, neu'r Common-Prayer a arferir yn awr yn y deyrnas hon.

Y Common-Prayer neu'r ffurf-weddi gyffredin a ddechreuir, trwy adrodd rhai gwerſau a ddewiſwyd ac a gaſclwyd yn ſathredig allan o'r yſcrythyr, pan ddychwelo yr annuwiol oddiwrth eu ddrygioni. Ac felly ymmlaen.

1. Yn gyntaf, gan hynny; am y gwerſau hyn, os ydynt oll yn llyfr y Maſs a'r breſiary, nid ynt i'w gweled yn yr un drefn ac y maent yma.

2. Y rhag ymadrodd i'r gyffes gyffredin, anwyl garedig frodyr. A wnaed gan y Refformers neu'r diwyg-wyr, hwynt hwy hefyd a wnaethant y weddi honno a elwir y gyffes gyffredin; canys yr oedlent yn gweled yn gymmwys gael o'r gwaſanaeth ei dlechreu, trwy wneuthur gyffredinol o bechod.

3. Yn

3 Yn amſer y diwygiad hefyd y gwnaed y weddi neſaf a ganlyn; canys yn gymmanit a bod yr offeiriaid pabaidd o'r blaen, ar ol darfod o ddynion gyfaddeu eu pechodau, yn dywedyd y geiriau hyn. Yr ydwyf yn eich rhyddhau chwi oddiwrth eich holl bechodau; fe farnwyd yn fwy cymmwys yn awr wneuthur y weddi hon, ſef yr abſoluſion (hynny yw oblegid maddeuant pechod), i'w dywedyd ar ol y gyffes gyffredin.

4. Y Pater Noſter, neu weddi yr Arglwydd, a ddywedir yn fynych iawn yn y gwaſanaeth pabaidd; ac odid o weddi a ddywedir fynychach oddieithr yr Afe Maria.

5. Deiſyfiadeu byrrion a ddywedir neſſaf at weddi yr Arglwydd, ydynt i'w gweled yn y miſſal.

6. Y Pſalm hono, deuwch, canwn i'r Arglwydd a'r holl Pſalmau eraill, yn eu trefn a ddarllennir ac a genir eithr yn llading, yng waſanaeth y miſſal a'r breviary.

Vid. Breviarium trident.

7. Y wers fer hono o fawl yr hon a alwant gloria patri, ſef, gogoniant i'r tâd, &c. fel y bu yn y dechreuad, &c. Y wers hon meddaf, a arferir y dra-mynych yng waſanaeth y Maſs; yn enwedig ar ddiwedd pob Pſalm. Hi a ordeiniwyd ac a arferwyd gyntaf gan y Pâb Damaſcus, wrth ddewis yr hwn, darfu i'r bobl wneuthur irad lanaſtra ymmŷſc eu gilydd, megis y crybwyllwyd uchod.

Sigeb. Polyd. Virg.

8. Papiſtiaid o honynt hwythau yn eu gwaſanaeth:

ſanaeth a ddarllenant lithiau (ſef nid pennodau cyfain, eithr rhannau o bennodau fynychaf) o'r Bibl llading. Eu Bibl llading hwy pa fath ydyw, cawſom achlyſur i ddangos o'r blaen.

9. Yr Hymn neu'r gan a elwir Te Deum, tydi Dduw a folwn, &c. a chan y tri llangc hefyd, a arferid yn y ffurfiau cyhoeddus, er y pryd y dechreuwyd arfer ffurfiau gyntaf, agos ac y maent i'w gweled yn awr yn y Common-prayer pabaidd.

10. Y rhan honno o'r yſcrythyr, *Luc.* 1. 68, 79. Bendigedig fyddo Arglwydd Dduw Iſrael y ganfed Pſalm, y Credo, gweddi yr Arglwydd, a'r deiſyfiadau byrrion a ganlyn, y colect am heddwch, (y rhai hyn oll, meddaf ydynt) yn y breſiarys a'r miſſals. Yr Heretic hynod Petr Fulo, a oſododd i fynu gynta yr arfer o ddywedyd y Credo yn y gwaſanaeth cyhoeddus, ynghylch y flwyddyn pum cant.

11. Y Colectau a galyn hyd ddiwed y foreuol weddi, a wnaed gan gyfanſodd-wyr y Common-prayer, oddieithr yr hon ſydd ar enw Chryſoſtom, gan adel heibio y gweddiau ſydd yn y Maſs at y Forwyn Fair a'r ſeinctiau.

12. Y deiſyfiadau cyffredin a elwir y Litani, a gymmerwyd allan air yn air gan mwyaf o'r miſſals a'r breſiarys, megis y mae'n amlwg o'r miſſal hynod a brintiwyd yn Lloegr, ynghylch y flwyddyn un mil pum cant ac wyth; ſef yn amſer teyrnaſſiad Harry VII, y ſeithfed. Y Litanies yma a wnaed ac a ordeiniwyd gan y Pâb Gregory, o ddeutu'r flwyddyn chwech

Plat Volat.

chant. Hwn ydoedd y Pâb cyntaf a gymmeroedd arno faddeu pechod.

13. Y Credo a elwir Credo Athanaſius, a'r rhannau ſathredig o'r Teſtament Newydd a elwir yr Epiſtl a'r Goſpel, ydynt arferedig hefyd yng waſanaeth y Maſs, tra darllenner yr rhain y gwrandawyr a ſafant, megis yr ordeiniodd Pâb Anaſtaſius, ynghylch y flwyddyn o oed ein Harglwydd pedwar cant.

Y Colectau neu'r gweddiau byrrion priodol i bob Sabboth, a wnaed yn amſer y Refformaſion.

14. Brydnhawnol weddi neu'r oſper, yr hon a eilw y Papiſtiaid, Veſpers, ſydd yn cynnwys yr un ffurfiau gan mwyaf a'r foreuol weddi. Oblegid y gwerſau hynny o'r yſcrythyr ſy yn dechreu a'r geiriau hyn, pan ddychwelo yr annuwiol oddiwrth eu ddrygioni. Ni a ſoniaſom o'r blaen, hwy a gaſclwyd ac a oſodwyd yn y drefn hon gan y Refformers.

15. Y rhan honno o'r yſcrythyr, yr hon a elwir gan y fendigedig Forwyn Fair, *Luc.* 1, 46. Y mae fy enaid yn mawrhau yr Arglwydd, a'r Pſalm 98. Cenwch i'r Arglwydd ganiad newydd. Cân Seimon, *Luc.* 2, 29. Yr awrhon Arglwydd, y gollyngi dy wâs mewn tangneddaf, Pſalm y 67. Duw a drugarhao wrthym, ac a'n bendithio. Y rhai hyn oll, a dau o'r Colectau hefyd ydynt yn llyfr y Maſs.

16. Y gweddiau o ymbiliau a diolchgarwch ar amryw achoſion ar ol y Litani, ydynt newydd; oddieithr un a gymmerwyd o'r miſſal.

17. Y cyrieleiſion (hynny yw, ad-ddybliad yr

yr ymbiliau hyn, Arglwydd trugarha wrthym, Chriſt trugarha wrthym) a ordeiniwyd gan y Pâb Gregory (grybwyllwyd uchod). Canys y Pâb hwn a appwyntiodd i'r Archau hyn, gael eu dywedyd yn gyſon naw-gwaith ar yr un amſer.

Y Pâb hwn a ordeiniodd hefyd i'r gair Hallelujah, hynny yw, wolwch yr Arglwydd, gael ei ddywedyd gynniſer o weithiau.

18. Y mae i ni hefyd ddal ſulw ſod y gwaſanaeth, neu'r addoliad yn ol trefn y Common-Prayer, yn cael ei gyflawni mewn ffordd o Antiphonies. Antiphoni y gelwir, pan yr ydys yn darllen neu yn gweddio neu yn canu ar gylch, neu bob yn ail.

Yr achlyſur a gafwyd i gymmeryd i fynu y ffordd neu'r drefn hon o addoliad, ſydd dra hynod a digrif. Y cyfryw a hyn ydoedd.

Rhyw un gynt a welodd mewn breuddwyd, yr angelion yn y Nêf yn clodfori Duw ar gylch, rhai megis yn atteb y lleill, cymmerodd fawr hyfrydwch yn y peth, a barnodd mae da y ſydde wneuthur o hono ei oreu ar i Dduw gael ei addoli yn yr un modd ar y ddaiar hefyd. Ac felly darfu iddo brefaelio gyda rhai eglwyſi i weddio ac i ganu mawl yn antiphoneaidd, hynny yw, yn gylchynol fel y crybwyllwyd.

Eithr yn enwedig yr antiphonies yma, a gymmerwyd i fynu yn ebrwydd yn Eglwys Ruſain, ac a gynhelir hyd yr awrhon; ac ni chyfri y Papiſtiaid fod mo'u haddoliad yn cael ei gyflawni yn drefnus hebddynt.

19. Ar bob dydd-gwyl fe arferir colect neu

weddi fer berthnafol i'r diwrnod: Yn y weddi hon fe wneir coffhâd o'r ſanct er coffadwrieth o'r hwn y cedwir yr wyl. Yn y Common-prayer pabaidd yr ydys yn gweddio at y ſanct ei hun; ac at Dduw hefyd am gael hawl yn eiriolaeth y cyfryw ſanct; eithr yn y Refformaſion fe wnaed peth cyfnewidiad yn y colectau yma; canys fe weddir yn awr yn unig am ras i ddilyn ſiamplau da y cyfryw ſeinctiau, ac y cedwir gwylau iddynt; etto fe gymmerwyd pedwar neu bump o'r colectau hyn air yn air allan o'r Maſs neu'r brefiary pabaidd.

20. Ar y dyddiau gwylion hefyd fe ddarllennir rhannau priodol (ſef y galwant) o'r Epiſtolau, ac allan o'r Efangylwyr. Y Papiſtiaid ydynt dra chywrain a dichlyn yn yr arfer o ddywedyd, rhyw rannau byrrion allan o'r Efangylwyr a'r Epiſtolau ar bob dydd gwyl trwy yr holl flwyddyn. Y ddefod hon a oſodwyd i fynu gyntaf, ynghylch y flwyddyn o oed cin Harglwydd wyth gant; ſef yn amſer Pâb Leo III. Oblegid y Leo yma, y Papiſtiaid a adroddant bethau ardderchawg a godidog iawn. Ac yn ddiau gallwn ddywedyd, mae odid yr un ac a eiſteddodd erioed yn y gadair babaidd, a ddangoſodd y cyfryw arwydd o ryfyg a balchder, a'r Pâb hwn; canys preſwylio a wnaeth ſlofi yr ymerodraeth ruſeinaidd, megis trwy ei awdurdod Apoſtolaidd ar Charles le Maign brenin i Ffraingc.

Vid. Brevarium Tident.

Yr hên hiſtoriau pabaidd hefyd, yn yr hanes a roddant oblegit y Pâb hwn, a ſiaradant am ryw

ryw wrthiau mawrion a nodedig, megis y cyfryw a hyn. Ar amſer, ei elynion a gynllwynaſant yn ei erbyn, ac a'i daliaſant; ac wedi iddynt ei drin yn dra amharchus gan ei laeddu a'i bwyo, ie a thynnu allan ei ddau lygad a thorri ymaith ei daſod, hwy a'i gadawſant yn hanner marw. Ond cafodd gymmorth oddiuchod; canys ei olygon a'i ymadrodd a adferwyd ac a roddwyd iddo drachefn, mewn modd rhyfeddol a goruwch naturiol trwy eiriolaeth y Sanctaidd Apoſtolion.

Eithr nid yw y chwedlau ffuantus celwyddog yma a'r cyffelyb, llawer mil o ba rai a fedrant hwy eu hadrodd ddim amgen na dychmygion dichellgar yr offeiriaid pabaidd, trwy ba rai y chwenychant dderchafu a mawrygu y pab ymmŷſc y cyffredin bobl, y rhai y maent yn eu camarwain ac yn eu twyllo mewn modd greſynnol a thoſturus.

Ac am yr eulyn hwn, ſef y Pâb neu eſgob Rhufain, yr hwn y maent yn ei dderchafu mor fawr, gan ei alw yn ben dyſcawdwr, pen yr eglwys, dilyniawdr St. Petr, rhaglaw neu ddepywti Ieſu Griſt ar y ddaiar, &c.

Yn ddiau gelyn creulon i wir bobl Dduw, a'r gwrthnebwr pennaf i deyrnas Griſt ydyw; ac am hynny, nid heb achos yr ydym yn barnu, mae hwn yn ſicr ydyw yr Angriſt mawr a ragddywedodd yr Apoſtolion gynt ei fod y pryd hwnnw ar ddyfod; a diſgwyl yr ydym bellach beunydd am ei gwymp, canys y mae ei bwer yn gwanhau, a'i deyrnas yn ſiglo yn awr er ys rhai oeſoedd; ei farnedigaeth (yn ddilys) nid

yw

yw ſegur, a'i golledigaeth nid yw yn heppian: a, dyledſwydd pawb ac ydynt ewyllyſwyr da i Sion yw, dyfal weddio a diſgwyl am gyflawniad o'r bygwthion a daranwyd er yſtalm yn ei erbyn. Yn y cyſamſer, ymgadwn yn ddihalog, gan lwyr ymadel a'i cymdeithas ef. Yſtyriwn y rhybudd a'r gorchymmyn a roddir i ni, i gilio allan o'r Babylon Ruſeinaidd, fel na byddom gyd gyfrannogion o'i phechodau hi, ac na dderbyniom o'i phlaau hi a llwyr lynwn wrth ddilyth reol yr yſcrythyr ſanctaidd. Canys cynnifer a rodiant yn ol y rheol hon, tangneddyf arnynt a thrugaredd, ac ar Iſrael Duw.

Dat. 18, 4.

Gal. 6, 16.
Eſay. 8, 20.

TERFYN.

GWEDDIAU,

I'w dywedydd yn amſer trallodd a blinderau.

DUW, Tad trugarog, yr hwn nid wyt yn dirmygu uchenaid calon gyſtuddiedig nac adduned y gorthrymmedig; cynnorthwya yn drugarog fyng weddiau, y rhai yr ydwyf yn eu gwneuthur ger dy fron yn fy nhrallod am blinfyd, pa rai a waſcant arnaf. Caniadha, trwy ragluniaeth dy ddaioni di, iddynt fod yn waſçaredig, modd na'm briwer trwy erlid neb. a gallu o honof byth ddiolch i ti yn dy lân Eglwys, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd, *Amen*

MI attolygaf i ti, o Arglwydd Dad, yn drugarog edrych ar fyngwendid; ac er gogoniant dy enw, ymchwel oddiwrthyf yr holl ddrygau a ddarfu i mi o wir gyfiawnder eu haeddu; a chaniadha fod i mi yn fy holl drallod ddodi fynghyfan ymddiried a'm gobaith yn dy drugaredd, ac byth dy waſanaethu mewn ſancteiddrwydd a phurdeb buchedd, i'th anrhydedd a'th ogoniant trwy ein unig Gyfryng-wr a'n Dadleu-wr Ieſu Griſt ein Harglwydd, *Amen.*

CAniadha, o Arglwydd, mi attolygaf i ti fod i mi yr hwn a haeddaſwn gael fy mhoeni am

am fy nrwg weithredoedd, trwy gonffordd dy rad ti, allu yn drugarog gael hawſhad, trwy ein Harglwydd a'n iachawdwr Ieſu Griſt, *Amen.*

CYnnorthwya fi yn drugarog Arglwydd, yn fyng weddiau hyn, a'm herfyniau, a llywodraetha fy ffordd tuag at gaffaeliad iechyd tragywyddawl, fel ymmŷſc holl gyfnewidiau a damweiniau y bywyd marwol hwn, y gallwyf byth gael fy amddiffyn drwy dy radlawnaf a'th barottaf borth, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd, *Amen.*

HOLL gyfoethog a thragywyddawl Dduw, yr hwn o'th garedigol ſerch ar ddyn, a ddanfonaiſt dy fâb ein Iachawdwr Ieſu Griſt i gymmeryd arno ein cnawd, ac i ddioddef angeu ar y groes, fel y gallei pob rhyw ddyn ddilyn eſampl ei fawr oſtyngeiddrwyd ef; caniadha o'th drugaredd fod i mi ganlyn eſampl ei ddioddefaint, a bod yn gyfrannog o'i gyfodiad, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd, *Awen.*